



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 17 Mawrth 2010
Wednesday, 17 March 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs
- 17 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions for the Minister for Environment, Sustainability and Housing
- 37 Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Seilwaith Rheilffyrdd Cymru ar gyfer y
Dyfodol
The Enterprise and Learning Committee's Report on Future Railway Infrastructure in
Wales
- 79 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer
- 79 Dadl Cyfnod 1—Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad
Cymunedau â'r Trefniadau)
Stage 1 Debate—Proposed Shipment of Waste for Recovery (Community Involvement
in Arrangements) Measure
- 102 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Consortia Newyddion a Gyllidir yn
Annibynnol
The Welsh Liberal Democrats Debate: Independently Funded News Consortia
- 123 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 124 Dadl Fer: Atebolrwydd ac Anifeiliaid: Ysgwyddo Baich Erlyniadau Lles Anifeiliaid
Short Debate Duty and the Beast: Bearing the Burden of Animal Welfare Prosecutions

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog cefn gwlad. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister for countryside.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Animal Welfare

Q1 Sandy Mewies: Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government initiatives to improve animal welfare? OAQ(3)1002(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): In the last six months, draft legislation to ban the use of electronic collars for dogs and cats has been laid. I have also set up a task and finish group on dog breeding and launched a consultation on game bird welfare. Animal welfare codes on sheep and cattle will be published shortly.

Sandy Mewies: As you know, a great deal of work has been undertaken in recent years to protect birds of prey, and particularly to reintroduce red kites to Wales. However, there remain consistent reports of birds of prey being deliberately poisoned in rural communities. A gentleman called Mr Elfyn Pierce-Jones runs a very valuable wildlife centre in my constituency, and he says that he has come across a number of cases that raise concern. Minister, what evidence do you have, if any, that these incidents are taking place, and what further steps can you take to protect birds of prey?

Elin Jones: I understand that birds of prey were involved in 24 incidents in Wales in 2009. Of those, six were identified as pesticide poisonings and all involved red kites. In three of the incidents, deliberate abuse of pesticides was suspected. Reports are received by the wildlife incident investigation scheme in my department, and reports can be made to my department via a Freephone number. I would urge anybody who thinks that birds of prey have been poisoned to contact my department and to

Lles Anifeiliaid

C1 Sandy Mewies: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella lles anifeiliaid? OAQ(3)1002(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Yn ystod y chwe mis diwethaf, cyflwynwyd deddfwriaeth ddrafft i wahardd defnyddio coleri electronig ar gyfer cŵn a chathod. Yr wyf hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar fridio cŵn ac wedi lansio ymgynghoriad ar les adar hela. Bydd codau lles anifeiliaid ar ddefaid a gwartheg yn cael eu cyhoeddi cyn hir.

Sandy Mewies: Fel y gwyddoch, gwnaed llawer iawn o waith dros y blynyddoedd diwethaf i warchod adar ysglyfaethus, ac yn arbennig i ailgyflwyno'r barcut yng Nghymru. Fodd bynnag, mae adroddiadau cyson o hyd am adar ysglyfaethus yn cael eu gwenwyno'n fwriadol mewn cymunedau gwledig. Mae gŵr o'r enw Mr Elfyn Pierce-Jones yn rhedeg canolfan bywyd gwyllt werthfawr iawn yn fy etholaeth, ac mae'n dweud ei fod wedi dod ar draws nifer o achosion sy'n peri pryder. Weinidog, pa dystiolaeth sydd gennych, os o gwbl, fod hyn yn digwydd, a pha gamau pellach y gallwch eu cymryd i warchod adar ysglyfaethus?

Elin Jones: Deallaf bod 24 o ddigwyddiadau'n ymwneud ag adar ysglyfaethus yng Nghymru yn 2009. O'r rheini, nodwyd bod chwech yn achosion o wenwyno gan blaladdwyr, a bob un ohonynt yn ymwneud â barcutiaid. Mewn tri o'r digwyddiadau yr oedd amheuaeth bod plaladdwyr wedi'u camddefnyddio'n fwriadol. Caiff adroddiadau eu cyflwyno i'r cynllun ymchwilio i ddigwyddiadau bywyd gwyllt yn fy adran drwy rif Rhadffon. Byddwn yn annog unrhyw un sy'n credu bod

report those incidents.

Brynle Williams: Minister, you will be aware of the problems involved in large-scale cases of animal cruelty or neglect, and I have spoken to you about a particular case that has been ongoing for several weeks. Are you confident that the public interest is being best served by the absence of a duty to enforce the Animal Welfare Act 2006, and do you recognise that, under the current arrangements, the pressures on local authority budgets may result in more of these large-scale welfare cases being allowed to continue without effective enforcement action being taken early enough to protect the animals involved?

Elin Jones: You have mentioned one case to me in passing, Brynle, but I do not want to refer to that in responding to this question publicly. Enforcing the Animal Welfare Act is a matter for local authorities. However, the original duty is on the keepers of animals to ensure that they give the highest priority to the welfare of the animals that they are responsible for.

Brynle Williams: Given the problems that I have outlined with these large-scale cases, as well as our need to deliver maximum public benefit for every pound of taxpayers' money, are you content that the action taken by the Assembly Government to implement the Animal Welfare Act 2006—by consulting on a code of practice for rabbits, for example—has prioritised resources in the most cost-effective way? Can you also provide an update on the Assembly's plans for further work under the Act in the coming year?

Elin Jones: I take it from that question that you oppose the implementation of a code of practice on the welfare of rabbits; that was the implication. Rabbits are the subject of many of the animal welfare cases reported to the RSPCA and other bodies, and I think it appropriate for the keepers of rabbits to be informed of how best to look after their rabbits. In implementing the Animal Welfare

adar ysglyfaethus wedi'u gwenwyno i gysylltu â'm hadran a rhoi gwybod am y digwyddiadau hynny.

Brynle Williams: Weinidog, gwyddoch am y problemau sy'n gysylltiedig ag achosion o gam-drin neu esgeuluso anifeiliaid ar raddfa fawr, ac yr wyf wedi siarad â chi am un achos penodol sydd wedi bod yn mynd ymlaen ers nifer o wythnosau. A ydych yn hyderus ei bod yn fuddiol o ran lles y cyhoedd i beidio â gorfodi Deddf Lles Anifeiliaid 2006, ac a ydych yn cydnabod, dan y trefniadau presennol, y gallai'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol arwain at ganiataù i fwy o achosion lles ar raddfa fawr barhau heb i gamau gorfodi effeithiol gael eu cymryd yn ddigon cynnar i warchod yr anifeiliaid dan sylw?

Elin Jones: Yr ydych wedi sôn wrthyf yn fras am un achos, Brynle, ond nid wyf yn dymuno cyfeirio at yr achos hwnnw wrth ymateb i'r cwestiwn hwn yn gyhoeddus. Mater i awdurdodau lleol yw gorfodi Ddeddf Lles Anifeiliaid. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd wreiddiol ar y rheini sy'n cadw anifeiliaid i sicrhau eu bod yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i les yr anifeiliaid y maent yn gyfrifol amdanynt.

Brynle Williams: O ystyried y problemau yr wyf wedi'u hamlinellu gyda'r achosion mawr hyn, yn ogystal â'n hangen i sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd am bob punt o arian trethdalwyr, a ydych yn fodlon bod y camau a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i weithredu Deddf Lles Anifeiliaid 2006—drwy ymgynghori ar god ymarfer ar gyfer cwningod, er enghraifft—wedi blaenoriaethu adnoddau yn y ffordd fwyaf cost effeithiol? A allwch hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Cynulliad ar gyfer gwaith pellach dan y Ddeddf hon yn y flwyddyn sydd i ddod?

Elin Jones: Mae'r cwestiwn hwn yn awgrymu imi eich bod yn gwrthwynebu cyflwyno cod ymarfer ar les cwningod; dyna oedd yr ensyniad. Mae nifer achosion o les anifeiliaid sy'n dod i sylw'r RSPCA a chyrrff eraill yn ymwneud â chwningod, a chredaf ei bod yn briodol i bobl sy'n cadw cwningod gael gwybodaeth am y ffordd orau i ofalu amdanynt. Wrth weithredu Deddf Lles

Act in Wales, £1 million has been set aside for local authorities to improve people's understanding of the Animal Welfare Act and, by various schemes in their areas, particularly educational schemes, to improve the welfare standards for animals kept by people.

The Presiding Officer: Question 2, OAQ(3)1005(RAF), has been transferred for written answer.

The Young Entrants Support Scheme

Q3 Alun Davies: Will the Minister make a statement on the young entrants support scheme? OAQ(3)1001(RAF)

Elin Jones: Un o ymrwymadau 'Cymru'n Un' yw cyflwyno cynllun i gefnogi newydd-ddyfodiaid ifanc i ffermio. Bydd y cynllun yn para am bum mlynedd, ac mae'r flwyddyn gyntaf ar agor i geisiadau ar hyn o bryd. Bydd y gyllideb ar gyfer y cynllun ar gael o fis Ebrill 2010.

Alun Davies: Thank you for that response, Minister. That was certainly one of the more eye-catching parts of the 'One Wales' agreement in this area. Everybody in the sector has welcomed the scheme that you have introduced, Minister. It is seen as one of the more pioneering schemes of its sort, and there has been great support for it. Minister, can you give us an update on the scheme's success to date and on whether you would consider making the scheme a permanent part of the policy support infrastructure, if it proves to be as successful as we anticipate, rather than limiting it simply to five years?

Elin Jones: Fel y dywedais, nid yw'r ceisiadau i gyd wedi dod i law eto. Mae'r cyfle i wneud cais am gefnogaeth o dan y cynllun hwn ar agor tan ddiwedd mis Mawrth. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn dweud wrthyf eu bod yn hyderus y bydd mwy na 100 ffermwr ifanc yn cael cefnogaeth o dan y cynllun hwn dros y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, un agwedd yn unig ar y cynllun yw'r gefnogaeth uniongyrchol i ffermwyr ifanc. Yr ydym hefyd yn edrych i benodi swyddog i hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng ffermwyr

Anifeiliaid yng Nghymru, neilltuwyd £1 filiwn er mwyn i awdurdodau lleol wella dealltwriaeth pobl o Ddeddf Lles Anifeiliaid, a thrwy amrywiol gynlluniau yn eu hardaloedd, yn arbennig cynlluniau addysgol, i wella safonau lles ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu cadw gan bobl.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 2, OAQ(3)1005(RAF), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid

C3 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid? OAQ(3)1001(RAF)

Elin Jones: One of the commitments in 'One Wales' is to introduce a scheme to support young entrants into farming. The first year of the five-year scheme is currently open for applications, and the budget will be available from April 2010.

Alun Davies: Diolch ichi am eich ymateb, Weinidog. Dyna yn sicr oedd un o rannau mwyaf trawiadol cytundeb 'Cymru'n Un' yn y maes hwn. Mae pawb yn y sector wedi croesawu'r cynllun a gyflwynwyd gennyh, Weinidog. Mae'n cael ei ystyried yn un o'r cynlluniau mwyaf arloesol o'i fath, a chafwyd llawer o gefnogaeth iddo. Weinidog, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am lwyddiant y cynllun hyd yn hyn, ac a allwch ddweud wrthym a fydddech yn ystyried gwneud y cynllun yn rhan barhaol o'r seilwaith cymorth polisi, os bydd mor llwyddiannus â'r disgwyl, yn hytrach na'i gyfyngu i bum mlynedd yn unig?

Elin Jones: As I said, not all the applications have been submitted yet. The opportunity to make an application for support under this scheme is available until the end of March. At the moment, my officials tell me that they are confident that more than 100 young farmers will receive support under this scheme over the coming year. Of course, direct support for young farmers is only one aspect of the scheme. We are also looking to appoint an officer who can promote the links between retiring farmers and young farmers, including the business links between them,

sy'n ymddeol a ffermwyr ifanc, gan gynnwys y cysylltiadau busnes sydd rhyngddynt, a bydd hynny'n gysylltiedig â chlybiau ffermwyr ifanc.

and that will be in conjunction with young farmers' clubs.

Diolchaf i chi am gydnabod pwysigrwydd cynllun o'r math er mwyn hyrwyddo dilyniant pobl ifanc fel bod dyfodol iddynt yn y diwydiant amaethyddol.

I thank you for recognising the importance of a scheme of this kind to promote progression for young people so that they have a future in the agriculture industry.

Alun Cairns: Croesawaf ateb y Gweinidog i Alun Davies. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn gefnogol o'r cynllun hwn. Er hynny, rhaid sicrhau bob amser fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau a mwyaf effeithiol posibl. Pa fesuriadau y mae'r Gweinidog yn fodlon eu cyflwyno i'r cynllun i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at amcanion y polisi hwn?

Alun Cairns: I welcome the Minister's response to Alun Davies. The Welsh Conservatives are also supportive of this scheme. However, we must always ensure that public money is used in the best and most effective way possible. What measures is the Minister prepared to introduce in the scheme to ensure that the money is spent for the purposes of this policy?

Elin Jones: Mae'r darn o'r grant cyfalaf sydd ar gael i ffermwyr ifanc ei fuddsoddi yn eu busnesau yn rhan o gynllun busnes y bydd yr unigolion hynny'n ei gyflwyno yn rhan o'u cais. Yr wyf wedi sefydlu panel allanol i asesu'r ceisiadau, a phobl sydd ag arbenigedd a diddordeb mewn cynlluniau busnes ffermwyr unigol fydd arno i sicrhau bod y ceisiadau a'r cynlluniau busnes sy'n dod gerbron yn deilwng o gefnogaeth arian cyhoeddus. Wrth gwrs, bydd system i fonitro gwariant y grant cyfalaf hwnnw hefyd, fel sy'n hollbwysig yn achos unrhyw grant o arian cyhoeddus.

Elin Jones: That part of the capital grant which is available to young farmers to invest in their businesses is included in the business plan which they submit as a part of their application. I have set up an external panel to assess the applications, comprising of people who have expertise and an interest in the business plans of individual farmers, to ensure that the applications and business plans submitted are worthy of support from public funds. Of course, there will also be a system of monitoring the expenditure of that capital grant, as is vital with any grant of public moneys.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf yr hyn yr ydych newydd ei ddweud, Weinidog. Yn ystod eich cyfraniad yn y ddadl am Glastir ddoe, cyfeiriasoch at gymhorthdal a fyddai ar gael yn benodol i ffermwyr ifanc o dan y cynllun hwnnw. Cyfeiriasoch hefyd at rywbeth a oedd yn newydd i mi ac i'r rhan fwyaf o bobl yn y Siambwr, sef eich bwriad i sicrhau y bydd 100,000 ha o goedwigaeth yn cael eu plannu dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hwnnw'n gynllun uchelgeisiol iawn.

Rhodri Glyn Thomas: I welcome what you have just said, Minister. During your contribution to the debate on Glastir yesterday, you referred to a subsidy which would be available to young farmers specifically under that programme. You also referred to something which was new to me and to the majority of people in the Chamber, namely your intention to ensure that 100,000 hectares of woodland will be planted over the next 20 years. That is a very ambitious plan.

1.40 p.m.

Ochr yn ochr â hynny, bydd angen datblygu sgiliau i alluogi hynny i ddigwydd yn y gymuned wledig. A yw hyn hefyd yn faes lle y gallwn annog pobl ifanc sydd am fynd i mewn i amaethyddiaeth er nad ydynt yn credu y gallant ennill bywoliaeth lawn yn

Alongside that, we will need to develop people's skills if we are to enable that to happen in rural communities. Could this also be an area in which we could encourage young people who wish to enter farming but who do not believe they could make a good

uniongyrchol ohoni? Gallem edrych ar y posibilrwydd o'u hyfforddi gyda'r sgiliau hyn fel eu bod yn gallu dod ag incwm ychwanegol i mewn i'r fferm.

Elin Jones: Gwnaed sawl cyfeiriad ddoe, yn ystod y ddadl am Glastir, at y cyfleoedd economaidd a gyflwynir drwy gynllun fel Tir Gofal i fusnesau ac unigolion lleol i adeiladu ffensys, contractio, ac yn y blaen. Yr ydych yn iawn i gydnabod bod cyfle yma wrth inni gychwyn ar gynllun sylweddol o blannu coed ar dir fferm. Caiff hwnnw ei annog drwy grant cyfalaf i'r ffermwr a grant i gefnogi'r gwaith o reoli'r goedwigaeth honno hyd at 15 mlynedd wedi hynny. Dyma gyfle i bobl ifanc a chontractwyr. Dyma ddarn pwysig o waith y bydd y Llywodraeth a ffermwyr yn ymgymryd ag ef, a bydd angen rhywun i blannu'r coed ac i edrych ar eu hôl. Felly, dyma gyfle i ffermwyr ifanc ac i golegau yng Nghymru ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni hynny.

Eleanor Burnham: Mae gennych weledigaeth, Weinidog, ac yr ydym yn croesawu'r hyn yr ydych newydd ei ddweud. Gobeithiwn fod digon o arian ar gael i'w wneud.

Yr oeddwn yn gwyllo'r rhaglen *Ffermio* ar S4C yn ddiweddar—a dywedaf hynny fel bod S4C yn gwybod bod rhywun yn edrych ar ei rhaglenni—ac yr oedd yn ddiddorol dros ben. Yr oedd y rhaglen yn sôn am arallgyfeirio, ac yr oedd dynes yn siarad am lety gwely a brecwast yr oedd wedi'i ddatblygu ers tua 20 mlynedd o ddim byd. Mae hi bellach yn arallgyfeirio eto i gael sba, triniaeth tylino a phob mathau o bethau ffantastig felly. A fydd y cynllun busnes yn cynnwys rhywbeth gyda gweledigaeth i fynd y tu hwnt i ffermio traddodiadol yn unig, sef yr union fath o bethau y mae'r ddynes hon wedi gallu eu cyflawni?

Elin Jones: Yr wyf hefyd yn wylwr cyson o *Ffermio*. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'A fi.'] Mae'n amlwg bod nifer o bobl o gwmpas y Siambr yn wylwr cyson o *Ffermio*. Bydd yn rhaid i chi fy esgusodi, Eleanor, oherwydd ni wn union fanylion y grant i roi cefnogaeth i ffermwyr ifanc, felly ni wn a fyddai datblygu

living out of it directly? We could consider the possibility of training them up in these skills to be able to bring another income into their farms.

Elin Jones: During the debate on Glastir yesterday, several references were made to the economic opportunities presented to local businesses and individuals by a scheme such as Tir Gofal, to build fences, contracting, and so on. You are right to recognise that there is an opportunity here as we embark on a significant programme of tree planting on farmland. That will be encouraged via the capital grant to farmers and the grant to support the work of managing those woodlands for up to 15 years after that. This is an opportunity for young people and contractors. The Government and farmers will be undertaking this important piece of work, and people will be needed to plant the trees and take care of them. Therefore, this is an opportunity for young farmers and for colleges in Wales to develop the skills necessary to achieve this.

Eleanor Burnham: You have a vision, Minister, and we welcome what you have just outlined. We hope there will be enough money available to do it.

I watched the programme *Ffermio* on S4C recently—and I say that so that S4C knows that someone is watching its programmes—and it was extremely interesting. The programme was based on diversification, and a lady talked about the bed-and-breakfast business that she had built up over 20 years from nothing. She is now diversifying further to offer a spa, massage treatments and all manner of such fantastic things. Will the business plan include something with a vision that extends beyond traditional farming only, namely the very kinds of things which that lady was able to achieve?

Elin Jones: I am also a regular viewer of *Ffermio*. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Me, too.'] It is evident that many people around the Chamber are avid viewers of *Ffermio*. You have to excuse me, Eleanor, because I do not know the exact details relating to the support grant for young farmers, and so I do not know

sba a pharlwr tylino yn gymwys ar gyfer y grant fel rhan o arallgyfeirio. Fodd bynnag, os ysgrifennwch ataf, gallaf roi'r wybodaeth honno ichi. Gyda llaw, yr ydych chi'n rhy hen i geisio amdano. [*Chwerthin.*]

whether developing a spa and massage parlour would qualify as diversification. However, if you write to me, I can give you that information. By the way, you are too old to apply. [*Laughter.*]

Community Farms

Q4 William Graham: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's policies to support community farms? OAQ(3)1009(RAF)

Elin Jones: I welcome the role that community farms undertake in empowering local people of all ages, backgrounds, and abilities to build better communities, often in deprived areas, and to make a positive impact on their surrounding environment.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. For many children, community farms offer their only opportunity to interact with farm animals and agricultural practices. They offer an appreciation of how much of our food is grown and the importance of farming for maintaining the countryside. Will the Minister ensure that the value of our community farms, such as that at Greenmeadow in Cwmbrân, which is also involved in projects to generate sustainable energy, can be more effectively promoted?

Elin Jones: I hope that all community farms in Wales are already well promoted in their communities. They exist to serve their surrounding communities in particular, but they also have a role to play in ensuring that people who live in urban communities, who have little direct experience of agriculture or of keeping farmed animals, have the opportunity to learn what it is all about in an urban context. I wish all endeavours, including new ones, well in their role of ensuring that our population knows where the food that we eat comes from, and that it has direct experience of learning about food production.

Leanne Wood: Minister, last week during questions to the First Minister, I raised the issue of food banks and their expansion in Wales in recent years. The Trussell Trust, which operates that network, donates three

Ffermydd Cymunedol

C4 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ffermydd cymunedol? OAQ(3)1009(RAF)

Elin Jones: Yr wyf yn croesawu rôl ffermydd cymunedol wrth rymuso pobl leol o bob oed, cefndir a gallu i greu cymunedau gwell, mewn ardaloedd difreintiedig yn aml, a chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd o'u cwmpas.

William Graham: Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Ffermydd cymunedol yw'r unig gyfle a gaiff llawer o blant i gael cyswllt ag anifeiliaid fferm ac arferion amaethyddol. Maent yn cynnig dealltwriaeth faint o'n bwyd sy'n cael ei dyfu a phwysigrwydd ffermio o safbwynt cynnal cefn gwlad. A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod gwerth ein ffermydd cymunedol, megis yr un yn Greenmeadow yng Nghwbrân, sydd hefyd yn ymwneud â phrosiectau i gynhyrchu ynni cynaliadwy, yn cael ei hyrwyddo'n fwy effeithiol?

Elin Jones: Gobeithio bod pob fferm gymunedol yng Nghymru eisoes yn cael eu hyrwyddo'n dda yn eu cymunedau. Maent yn bodoli i wasanaethu'r cymunedau o'u cwmpas yn arbennig, ond mae ganddynt hefyd rôl o ran sicrhau bod pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol ac nad oes ganddynt lawer o brofiad uniongyrchol o amaethyddiaeth nac o gadw anifeiliaid fferm, yn cael cyfle i ddysgu am hyn mewn cyddestun trefol. Yr wyf yn dymuno'n dda i bob menter, gan gynnwys rhai newydd, yn eu gwaith o sicrhau bod ein poblogaeth yn gwybod o ble y daw'r bwyd yr ydym yn ei fwyta, a'i bod yn cael profiad uniongyrchol o ddysgu am gynhyrchu bwyd.

Leanne Wood: Weinidog, yr wythnos diwethaf yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog codais fater banciau bwyd a'r gwaith o'u datblygu yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Ymddiriedolaeth

days of nutritionally balanced food to people who are in an emergency food crisis situation. There are 10 food banks in Wales at the moment, and there are plans to establish 10 more. The trust works on a voluntary basis and its work would not be possible without the generous donation of non-perishable food by the public. Last week, in Plenary, Jane Hutt said that links were being explored between the food bank network and the food co-operatives network and that £450,000 per annum had been given to them by the Welsh Assembly Government. Is there anything in the community farms network, or are there any other opportunities in your portfolio, to support the food bank network to provide essential food for those people who are unable to afford it?

Elin Jones: I have only recently become aware of the work of the Trussell Trust in developing food banks in Wales to meet the emergency requirements of some people who find that they are unable to source food and require food urgently. To date, I have not explored the possibilities regarding food banks and the work that they do in some communities where those communities are also served by food co-operatives, but it is an area of work that I am willing to look at to see whether they can be of some benefit to each other, although they serve slightly different purposes. Perhaps they should not exist entirely separately and there may be something that I need to look at regarding the future development of food co-operatives to see whether the role of food banks could be incorporated or whether they could work alongside each other. I will take that away and look at it further for you.

Hill Farming

Q5 The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Will the Minister outline her plans regarding the future of hill farming in Wales? OAQ(3)0994(RAF)

Elin Jones: The importance of upland farming to Wales is recognised in the farming, food and countryside strategy,

Trussell, sy'n gweithredu'r rhwydwaith hwnnw, yn rhoi gwerth tridiau o fwyd cytbwys ei faeth i bobl sy'n wynebu argyfwng o safbwynt bwyd. Mae yna 10 banc bwyd yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae cynlluniau i sefydlu 10 banc arall. Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithio'n wirfoddol, ac ni fyddai ei gwaith yn bosibl heb roddion hael gan y cyhoedd ar ffurf bwyd nad yw'n ddarfodus. Yr wythnos diwethaf, yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd Jane Hutt fod cysylltiadau'n cael eu harchwilio rhwng y rhwydwaith banciau bwyd a'r rhwydwaith cydweithfeydd bwyd, a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi £450,000 y flwyddyn iddynt. A oes unrhyw beth yn y rhwydwaith ffermydd cymunedol, neu a oes unrhyw gyfleoedd eraill yn eich portffolio, i gefnogi'r rhwydwaith banciau bwyd i ddarparu bwyd hanfodol i bobl na allant ei fforddio?

Elin Jones: Dim ond yn ddiweddar yr wyf wedi dod i wybod am waith Ymddiriedolaeth Trussell yn datblygu banciau bwyd yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion brys rhai pobl na allant gael bwyd ac sydd â thair angen bwyd arnynt. Hyd yma, nid wyf wedi archwilio'r posibilïadau o ran banciau bwyd a'r gwaith a wnânt mewn rhai cymunedau, lle mae'r cymunedau hynny hefyd yn cael eu gwasanaethu gan gydweithfeydd bwyd. Fodd bynnag, mae'n faes gwaith yr wyf yn barod i'w archwilio i weld a allant fod o ryw fudd i'w gilydd, er bod diben y naill ychydig yn wahanol i'r llall. Efallai na ddylent fodoli ar wahân yn llwyr, ac efallai fod hynny'n rhywbeth y mae angen imi ei ystyried mewn cysylltiad â datblygu cydweithfeydd bwyd i weld a fyddai'n bosibl ymgorffori swyddogaeth banciau bwyd, ynteu a fyddai'n bosibl iddynt gydweithio ochr yn ochr â'i gilydd. Byddaf yn ystyried hyn ymhellach ichi.

Ffermio'r Bryniau

C5 Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol (Kirsty Williams): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau ynghylch dyfodol ffermio'r bryniau yng Nghymru? OAQ(3)0994(RAF)

Elin Jones: Cydnabyddir pwysigrwydd ffermio ucheldir i Gymru yn y strategaeth ffermio, bwyd a chefn gwlad, sy'n ceisio

which aims to secure a profitable and sustainable future for the industry. Hill and upland areas currently represent 80 per cent of Wales, and those farms will secure additional support under the new Glastir scheme

Kirsty Williams: Indeed they will, Minister, but what percentage of farmers in the less favoured area who are currently in receipt of Tir Mynydd do you anticipate will reach the benchmark for qualifying for the all-Wales element of Glastir? How many of those will qualify will be in receipt of payments that are at least as much as their current Tir Mynydd payments, if not more?

Elin Jones: I would expect that a high percentage of farmers currently receiving Tir Mynydd will express an interest in becoming recipients of the all-Wales Glastir scheme. I very much hope that they will do that and that the scheme lends itself to being open to those farmers. Those decisions will be for individual farmers to take. A number of those Tir Mynydd farmers are also in receipt of Tir Gofal and Tir Cynnal payments currently, and a number of those farmers will not only be eligible for the all-Wales element but may well also be eligible for the targeted element of financial support.

Kirsty Williams: I am well aware of the issues around eligibility and that farmers may express an interest, but I asked you how many you anticipate will reach the qualifying points score to get into the Glastir scheme. You will be more aware than anyone else in the Chamber of the importance of that Tir Mynydd payment to many hill farmers in Wales. Have you carried out any research that will give you a figure of how many you anticipate will reach that qualifying total, and into the impact on those farms and their communities if those farms are not able to replace their Tir Mynydd payment with Glastir? Surely you can reassure us that you and your officials have done this analysis and work.

sicrhau dyfodol proffidiol a chynaliadwy i'r diwydiant yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae 80 y cant o Gymru yn ardaloedd o fryniau ac ucheldir, a bydd y ffermydd hynny'n cael cymorth ychwanegol dan y cynllun newydd Glastir.

Kirsty Williams: Byddant yn wir, Weinidog, ond pa ganran o'r ffermwyr hynny yn yr ardal lai ffafriol, sy'n cael taliadau Tir Mynydd ar hyn o bryd, yr ydych yn rhagweld y byddant yn cyrraedd y meincnod ar gyfer bod yn gymwys i gael yr elfen Cymru gyfan yn Glastir? Faint ohonynt a fydd yn gymwys i gael taliadau sydd o leiaf cymaint â'u taliadau Tir Mynydd presennol, os nad yn uwch?

Elin Jones: Byddwn yn disgwyl i ganran uchel o ffermwyr sy'n cael taliadau Tir Mynydd ar hyn o bryd fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r cynllun Glastir Cymru gyfan. Yr wyf yn gobeithio'n fawr iawn y byddant yn gwneud hynny a bod y cynllun yn addas i fod yn agored i'r ffermwyr hynny. Ffermwyr unigol a fydd yn penderfynu hynny. Mae nifer o'r ffermwyr Tir Mynydd hynny hefyd yn cael taliadau Tir Gofal a Thir Cynnal ar hyn o bryd, a bydd nifer o'r ffermwyr hynny'n gymwys, nid yn unig ar gyfer yr elfen Cymru gyfan, ond mae'n bosibl iawn y byddant hefyd yn gymwys ar gyfer yr elfen o gymorth ariannol a gaiff ei thargedu.

Kirsty Williams: Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r problemau sy'n gysylltiedig â chymhwyster ac y gall ffermwyr fynegi diddordeb, ond gofynnais ichi faint yr ydych yn rhagweld fydd yn cael y pwyntiau y mae eu hangen i fod yn gymwys i fod yn rhan o'r cynllun Glastir. Byddwch yn gwybod yn well na neb yn y Siambr mor bwysig yw'r taliad Tir Mynydd hwnnw i nifer o ffermwyr bryniau yng Nghymru. A ydych wedi gwneud unrhyw waith ymchwil a fydd yn rhoi ffigur ichi o faint a ragwelwch a fydd yn cyrraedd y cyfanswm cymhwyso hwnnw, a'r effaith ar y ffermydd hynny a'u cymunedau os na all y ffermydd hynny gael taliad Glastir yn lle eu taliad Tir Mynydd? Siawns na allwch roi sicrwydd inni eich bod chi a'ch swyddogion wedi gwneud y dadansoddiad a'r gwaith hwn.

Elin Jones: The scheme is designed to allow as high a proportion of farmers as possible to enter it. It is a different scheme to Tir Mynydd, which requires a basic level of entry and physical location in the LFA. The Glastir scheme is not a hill livestock compensatory scheme; it is a different scheme. Therefore, as you know, farmers will need to get the points that are required to gain entry into that scheme.

Elin Jones: Mae'r cynllun wedi ei lunio i ganiatáu i gyfran mor uchel ag sy'n bosibl o ffermwyr ymuno â'r cynllun. Mae'n gynllun gwahanol i Tir Mynydd, sy'n gofyn am lefel fynediad sylfaenol ac yn gofyn bod y fferm yn yr ardal lai ffafrïol. Nid cynllun digolledu i'r rheini sy'n ffermio da byw ar y bryniau mo Glastir; mae'n gynllun gwahanol. Felly, fel y gwyddoch, bydd angen i ffermwyr gael y pwyntiau angenrheidiol i allu ymuno â'r cynllun hwnnw.

1.50 p.m.

Kirsty Williams: I am well aware of the history of the LFA, and other schemes intended to ensure that hill farmers can maintain their businesses. I am sure that you will agree that these businesses are often marginal. We know that Glastir is different; what I want to know is how many people you expect to replace their Tir Mynydd payments, which are often vital to the survival of their business, with the new Glastir payments. It seems that you and your officials have done no analysis as to how many of those who rely on Tir Mynydd will get into Glastir. That is the crucial bit—how many of them will amass sufficient points to get in to the scheme. They are all eligible, and can all apply, but whether they will be successful, and replace their lost Tir Mynydd payment with a new Glastir payment, is another matter. You do not seem to have done any analysis of what that will mean to hill farmers in Wales.

Kirsty Williams: Yr wyf yn ymwybodol iawn o hanes yr ardaloedd llai ffafrïol, a chynlluniau eraill a fwriadwyd i sicrhau y gall ffermwyr bryniau gynnal eu busnesau. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod y busnesau hyn yn rhai ymylol yn aml. Gwyddom fod Glastir yn wahanol; yr hyn yr wyf am ei wybod yw faint o bobl yr ydych yn disgwyl iddynt gael y taliadau Glastir newydd yn lle eu taliadau Tir Mynydd, sy'n aml yn hollbwysig i sicrhau bod eu busnesau'n parhau. Ymddengys nad ydych chi a'ch swyddogion wedi gwneud dim gwaith dadansoddi i weld faint o'r rheini sy'n dibynnu ar Tir Mynydd a fydd yn gallu ymuno â Glastir. Dyna yw'r pwynt hollbwysig—faint ohonynt fydd yn cronni digon o bwyntiau i gael ymuno â'r cynllun. Maent i gyd yn gymwys, a gall pob un ohonynt wneud cais, ond mater arall yw a fyddant yn llwyddiannus, ac a fyddant yn cael y taliad Glastir newydd yn lle'r taliad Tir Mynydd y byddant yn ei golli. Ymddengys nad ydych wedi gwneud dim gwaith dadansoddi o ran yr hyn y bydd yn ei olygu i ffermwyr bryniau yng Nghymru.

Elin Jones: In previous discussions on Glastir you have made several references to the work that we did on the pilot farms. Those farms received different combinations of Tir Mynydd, Tir Gofal and organic farming payments, and we analysed those pilot farms and revised Glastir so as to increase the number of farmers who would get in to the scheme. That is the reason for having a pilot scheme—to learn the lessons of the original scheme and make changes accordingly.

Elin Jones: Mewn trafodaethau blaenorol ar Glastir, yr ydych wedi cyfeirio droeon at y gwaith a wnaethom ar y ffermydd peilot. Yr oedd y ffermydd hynny'n cael cyfuniadau gwahanol o daliadau Tir Mynydd, Tir Gofal a ffermio organig, a chafodd y ffermydd peilot hynny eu dadansoddi gennym a diwygiwyd Glastir er mwyn cynyddu nifer y ffermwyr a fyddai'n gallu ymuno â'r cynllun. Dyna'r rheswm dros gael cynllun peilot—er mwyn dysgu'r gwersi o'r cynllun gwreiddiol a gwneud newidiadau yn unol â hynny.

Janet Ryder: On 2 March you announced

Janet Ryder: Ar 2 Mawrth, cyhoeddwyd

that 97 per cent of those who had made valid applications for Tir Mynydd had received their full grant payments. That demonstrates your commitment to hill farmers in Wales, and I congratulate you on that. Do you agree that it is important that farmers are paid promptly?

Elin Jones: All agriculture Ministers in the European Union know that it is politically wise to pay farmers promptly. We have set up a system that does that, and my officials do a lot of commendable work—on which they are seldom congratulated—in ensuring that a high percentage of payments are made on the very first day that we can make them. Not every part of the United Kingdom could say that.

Andrew R.T. Davies: If I could take you back to Glastir and the question that was given to you by the leader of the opposition—I mean, the leader of the Welsh Liberal Democrats—[*Laughter.*]

The Presiding Officer: Order. Andrew, would you like me to call you again?

Andrew R.T. Davies: The leader of the minority party, I should have said.

The point that I put to you in the debate yesterday, Minister, was that it is important that hill farmers understand exactly what work has been undertaken by the rural affairs department in arriving at this figure of 20 per cent enhancement for the LFAs. From what I can understand, and from answers that you were able to give yesterday, and indeed in response to Kirsty Williams today, there does not seem to have been any analytical work behind it. How does it mitigate the social and economic challenges in the LFAs? Could you give me some firm evidence for that 20 per cent enhancement figure, so that farmers can understand, when they seek to replace their Tir Mynydd payments, how you arrived at it?

Elin Jones: The 20 per cent additional payment in the LFAs is based on our assessment of the additional cost of meeting the prescriptions in the Glastir scheme. We

gennych fod 97 y cant o'r rhai a oedd wedi gwneud ceisiadau dilys am Tir Mynydd wedi cael eu taliadau grant llawn. Dengys hynny eich ymrwymiad i ffermwyr bryniau yng Nghymru, ac yr wyf yn eich llongyfarch ar hynny. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig talu ffermwyr yn brydlon?

Elin Jones: Mae pob Gweinidog amaeth yn yr Undeb Ewropeaidd yn gwybod bod talu ffermwyr yn brydlon yn beth doeth o safbwynt gwleidyddol. Yr ydym wedi sefydlu system sy'n gwneud hynny, ac mae fy swyddogion yn gwneud llawer o waith clodwiw—ac anaml y cânt eu canmol am hynny—i sicrhau bod canran uchel o daliadau'n cael eu gwneud ar y diwrnod cyntaf y gellir eu gwneud. Ni allai pob rhan o'r Deyrnas Gyfunol ddweud hynny.

Andrew R.T. Davies: Hoffwn ddychwelyd at Glastir a'r cwestiwn a ofynnwyd ichi gan arweinydd yr wrthblaid—arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn hytrach—[*Chwerthin.*]

Y Llywydd: Trefn. Andrew, a hoffech imi alw arnoch eto?

Andrew R.T. Davies: Arweinydd y blaid leiafrifol a ddylwn fod wedi'i ddweud.

Y pwynt a godais gyda chi yn y ddadl ddoe, Weinidog, oedd ei bod yn bwysig i ffermwyr bryniau ddeall pa waith yn union sydd wedi'i wneud gan yr adran materion gwledig i gyrraedd y ffigur hwn o daliad chwyddo o 20 y cant ar gyfer yr ardaloedd llai ffafriol. O'r hyn a ddeallaf, ac o'r atebion a roddwyd gennych ddoe, ac yn wir mewn ymateb i Kirsty Williams heddiw, ymddengys nad oes dim gwaith dadansoddi yn sail i hyn. Sut mae'n lliniaru'r heriau cymdeithasol ac economaidd yn yr ardaloedd llai ffafriol? A allech roi rhywfaint o dystiolaeth gadarn imi ar gyfer y ffigur hwnnw o 20 y cant ar gyfer y taliad chwyddo, er mwyn i ffermwyr ddeall, pan fyddant yn ceisio cael taliadau yn lle eu taliadau Tir Mynydd, sut y cyfrifwyd y ffigur hwnnw gennych?

Elin Jones: Mae'r taliad ychwanegol o 20 y cant yn yr ardaloedd llai ffafriol yn seiliedig ar ein hasesiad o'r gost ychwanegol o fodloni amodau'r cynllun Glastir. Yr ydym yn trafod

are negotiating with the European Commission, and we will have to justify that 20 per cent enhancement figure, and provide a basis for it. We have to justify it in order to get the commission's agreement to having any enhancement in the LFA.

Andrew R.T. Davies: It is therefore fair to say, Minister, that you should not look at the 20 per cent enhancement in parallel with Tir Mynydd. It solely seeks approval from the European Union to get an enhanced measure within Glastir that is not reflective of the income that may be lost because of the loss of Tir Mynydd. Is that correct?

Elin Jones: You are right to point out that the regulations that dictate how Glastir will be agreed with the European Commission are agri-environment regulations, based therefore on cost incurred and income forgone, not the European Union's livestock compensatory regulations. Therefore, the justification for a 20 per cent enhancement in the LFAs is based on the additional costs that we must prove to the European Commission that farmers in LFAs will have to incur for the various prescriptions that they will sign up to under Glastir.

Cyswllt Ffermio

C6 Gareth Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau a ddarperir gan Cyswllt Ffermio? OAQ(3)0989(RAF)

Elin Jones: Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth i helpu ffermwyr a fforestwyr i ddatblygu eu busnesau. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y cymorth hwn wedi cynyddu wrth i'r gwasanaethau ymsefydlu ac ers imi gynyddu cyfradd y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau â chymhorthdal.

Gareth Jones: Awgrymwyd i mi gan rai ffermwyr bod rhywfaint o ddiffygion yn y graddau y mae Cyswllt Ffermio yn darparu ei wasanaethau yn ddwyieithog, yn enwedig ar lefel leol wrth drafod â ffermwyr, sydd bron yn gyfan gwbl Gymraeg eu hiaith yn fy etholaeth yn Aberconwy. A ydych yn ymwybodol o bryderon eraill tebyg, ac a

gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, a bydd yn rhaid inni gyfiawnhau'r ffigur hwnnw o 20 y cant ar gyfer y taliad chwyddo, a darparu'r sail ar ei gyfer. Rhaid inni ei gyfiawnhau er mwyn cael y Comisiwn i gytuno unrhyw daliad chwyddo yn yr ardal lai ffafriol.

Andrew R.T. Davies: Felly, mae'n deg dweud, Weinidog, na ddylech edrych ar y taliad chwyddo o 20 y cant ochr yn ochr â Tir Mynydd. Y cyfan a wna yw ceisio cymeradwyaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer taliad chwyddo o fewn Glastir nad yw'n adlewyrchu'r incwm a allai gael ei gollu o ganlyniad i gollu Tir Mynydd. A yw hynny'n gywir?

Elin Jones: Yr ydych yn iawn i nodi mai rheoliadau amaeth-amgylcheddol yw'r rheoliadau sy'n pennu sut y caiff Glastir ei gytuno gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Maent yn seiliedig, felly, ar y costau a dynnir a'r incwm a gollir, ac nid ar reoliadau digolledu da byw yr Undeb Ewropeaidd. Felly, mae'r cyfiawnhad dros daliad chwyddo o 20 y cant yn yr ardaloedd llai ffafriol yn seiliedig ar y costau ychwanegol y mae'n rhaid inni brofi i'r Comisiwn Ewropeaidd y bydd yn rhaid i ffermwyr yn yr ardaloedd hynny eu talu i fodloni'r amrywiol amodau y byddant yn ymrwymo iddynt dan Glastir.

Farming Connect

Q6 Gareth Jones: Will the Minister make a statement on the services provided by Farming Connect? OAQ(3)0989(RAF)

Elin Jones: Farming Connect offers a wide range of support to help farm and forestry holders to develop their businesses. Uptake has increased as services become more established and since I increased the rate of support for subsidised services.

Gareth Jones: It has been suggested to me by some farmers that there are some shortcomings in the degree to which Farming Connect provides bilingual services, especially on a local level in discussions with farmers, who are mostly Welsh-speaking in my Aberconwy constituency. Are you aware of other similar concerns, and will you

ymrwymwch i godi'r mater gyda'ch swyddogion chi a swyddogion Cyswllt Ffermio?

Elin Jones: Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gwynion penodol ar hyn, heblaw am yr hyn yr ydych newydd gyfeirio ato. Fy nealltwriaeth i yw bod holl staff Cyswllt Ffermio yn y gogledd yn rhugl yn y Gymraeg, a bod 62 y cant o staff Cyswllt Ffermio yn Gymry Cymraeg ar draws Cymru.

Brynle Williams: The skills development programme under Farming Connect provides an invaluable service to the farming industry. The February edition of *Gwlad*, for example, highlighted its role in providing training for young drivers to enable them to legally tow trailers of up to 3.5 tonnes. I had a meeting yesterday with representatives of the Vehicle and Operator Services Agency and Ifor Williams Trailers Ltd to discuss the confusion in the industry over the enforcement of towing weights. Do you agree, Minister, that there is an opportunity to use *Gwlad* to inform the wider farming community of the correct advice on gross train weights, so that qualified drivers know exactly where they stand with towing modern vehicles?

Elin Jones: Nid y fi yw golygydd *Gwlad*, wrth gwrs. Mae'n gyfrwng i roi gwybodaeth i ffermwyr a'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant amaeth. Nid wyf yn deall y materion yr ydych newydd eu cyflwyno yn gyfan gwbl, ond os ysgrifennwch ataf gyda'ch syniadau ynglŷn â sut y gellid rhoi gwell gwybodaeth i'r rhai sydd â diddordeb yn y maes hwn, byddaf yn hapus i edrych ar y mater ymhellach a thrafod gyda golygydd *Gwlad*.

The Sustainability of Rural Communities

Q7 Brian Gibbons: What investment is being made by the Welsh Assembly Government to improve the sustainability of our rural communities? OAQ(3)1016(RAF)

Elin Jones: The Welsh Assembly Government is committed to supporting the sustainability of our rural communities, as set

commit to raising this issue with your officials and with Farming Connect officials?

Elin Jones: I am not aware of any complaints, other than the issue that you have just raised. My understanding is that all Farming Connect staff in north Wales are fluent in Welsh and that 62 per cent of Farming Connect staff across Wales are Welsh speakers.

Brynle Williams: Mae'r rhaglen datblygu sgiliau dan Cyswllt Ffermio yn darparu gwasanaeth gwerthfawr iawn i'r diwydiant ffermio. Yr oedd rhifyn mis Chwefror o *Gwlad*, er enghraifft, yn tynnu sylw at ei rôl yn darparu hyfforddiant i yrwyrr ifanc i'w galluogi, yn gyfreithlon, i dynnu ôl-gerbydau sy'n pwyso hyd at 3.5 tonnell. Cefais gyfarfod ddoe â chynrychiolwyr yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr a chwmini Ifor Williams Trailers Cyf i drafod y dryswch yn y diwydiant ynglŷn â gorfodi pwysau tynnu. A ydych yn cytuno, Weinidog, fod cyfle i ddefnyddio *Gwlad* i rannu gwybodaeth gyda'r gymuned ffermio ehangach am y cyngor cywir ar bwysau tynnu gros, er mwyn i yrwyrr cymwys wybod beth yn union yw'r sefyllfa o ran tynnu cerbydau modern?

Elin Jones: I am not the editor of *Gwlad*, of course. It is a way of sharing information with farmers and those involved in the agriculture industry. I do not fully understand the issues that you have raised, but if you write to me with your ideas about how we could share information with those involved in this area, I would be happy to look at the issue again and to discuss it with the editor of *Gwlad*.

Cynaliadwyedd Cymunedau Gwledig

C7 Brian Gibbons: Pa fuddsoddiad sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig? OAQ(3)1016(RAF)

Elin Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i gefnogi cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig, fel y nodir yn 'Cymru'n

out in 'One Wales'. Under my portfolio, £795 million of investment is being made under the rural development plan over the period 2007-13 to support the land-based sector, the agri-food business and the wider rural community.

Brian Gibbons: You will remember that, less than two weeks ago, you visited Dragon Baits Ltd and Dragon Feeds Ltd in my constituency in Port Talbot; I thank you for talking the time out to visit, even if you did arrive an hour early and meant that I went without my breakfast. I hope that you were impressed with what you saw at Dragon Baits and by the vision that the owner of Dragon Baits, Tony Smith, had not only for the industry, but for the rural coastal communities of Wales. I thought that it was very inspiring indeed. Although I do not expect you to give an unequivocal commitment today, were you sufficiently impressed by what you heard and saw to think it worth exploring further the ideas raised with you at the meeting to improve the sustainability of our rural communities, particularly those close to the coast?

2.00 p.m.

Elin Jones: Thank you, Brian, for the invitation to meet with Dragon Baits in your constituency. The work being undertaken there is pioneering work, and the business is already in discussions with my department on how it can develop its work further, particularly with regard to receiving grant support through the European fisheries fund. I was particularly encouraged to see how aquaculture and fish farming, as a means of producing fish sustainably, could be linked to more land-based farming and how there could be potential for some livestock and cereal farmers in Wales to look at how fish farming could be undertaken on their land in coastal communities. I am certainly willing to explore that further with Dragon Baits. I am sure that there are farmers in Wales who would welcome additional income sources and who will look to embrace this potential.

Alun Cairns: The original question concerned the sustainability of rural communities. Does the Minister accept that

Un'. Dan fy mhortffolio i, mae £795 miliwn yn cael ei fuddsoddi dan y cynllun datblygu gwledig yn ystod y cyfnod rhwng 2007 a 2013 i gefnogi sector diwydiannau'r tir, y busnes bwyd-amaeth a'r gymuned wledig yn gyffredinol.

Brian Gibbons: Fe gofiwch ichi ymweld â Dragon Baits Cyf a Dragon Feeds Cyf, yn fy etholaeth ym Mhort Talbot, lai na phythefnos yn ôl. Diolch ichi am roi o'ch amser i wneud hynny, er ichi gyrraedd awr yn gynnar ac er imi fynd heb frecwast o ganlyniad. Yr wyf yn gobeithio bod yr hyn a welsoch yn Dragon Baits a gweledigaeth Tony Smith, perchennog Dragon Baits, nid yn unig ar gyfer y diwydiant, ond ar gyfer y cymunedau gwledig ar hyd arfordir Cymru, wedi creu argraff arnoch. Yr oeddwn yn meddwl ei fod yn ysbrydoledig iawn. Er nad wyf yn disgwyl ichi roi ymrwymiad pendant heddiw, a oedd yr hyn a glywsoch ac a welsoch wedi creu digon o argraff arnoch i wneud ichi feddwl y byddai'n werth archwilio'r syniadau a godwyd gyda chi yn y cyfarfod ar gyfer gwella cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig, yn arbennig y rheini sy'n agos i'r arfordir?

Elin Jones: Diolch, Brian, am y gwahoddiad i gwrdd â Dragon Baits yn eich etholaeth. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud yno'n waith arloesol, ac mae'r busnes eisoes yn trafod gyda'm hadran sut y gall ddatblygu ei waith ymhellach, yn arbennig o ran cael cymorth grant drwy gronfa pysgodfeydd Ewrop. Cefais fy nghalonogi'n arbennig o weld sut y gellid cysylltu dyframaethu a ffermio pysgod, fel dull cynaliadwy o gynhyrchu pysgod, â ffermio sy'n digwydd mwy ar y tir, ac o weld y gallai fod potensial i rai ffermwyr da byw a grawn yng Nghymru ystyried sut y gellid ffermio pysgod ar eu tir mewn cymunedau arfordirol. Yr wyf yn sicr yn barod iawn i archwilio hynny ymhellach gyda Dragon Baits. Yr wyf yn sicr bod yna ffermwyr yng Nghymru a fyddai'n croesawu ffynonellau incwm ychwanegol ac a fydd yn awyddus i wneud yn fawr o'r potensial hwn.

Alun Cairns: Yr oedd y cwestiwn gwreiddiol yn sôn am gynaliadwyedd cymunedau gwledig. A yw'r Gweinidog yn derbyn bod

shops and small businesses play an extremely important part in ensuring that sustainability and that the Conservative policy of offering business rate relief to these organisations would be an effective means of support for rural communities, keeping them together and allowing them to continue without subsidies from elsewhere?

Elin Jones: Other than public subsidies, of course. A number of rural shops and post offices are already in receipt of rural rate relief from the Assembly Government. That is quite a significant contributor to the viability of those businesses in rural areas. The retention and development of rural shops is the challenge for both the private sector individuals who run them and for Government in seeking to provide the right circumstances for those shops to survive.

Bethan Jenkins: Mae'r cwestiwn gwreiddiol am gymunedau gweledig, ond beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud o ran helpu cymunedau anghysbell, yn enwedig yng nghymoedd Castell-Nedd, Abertawe, Afan a Llynfi? Pan yr ydym yn cynnal syrjeri fel Aelodau Cynulliad yr ydym yn clywed bod y cymunedau hynny weithiau yn teimlo nad ydynt yn cael cymaint a chymunedau eraill, ac eu bod yn cael eu cau allan o ran derbyn cymorth gan y Llywodraeth. A ydych yn gweithio gyda'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio er mwyn adeiladu'r cymunedau hynny ac i'w sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o ddatblygiadau Llywodraeth Cymru'n Un.

Elin Jones: Mae rhaglen adfywio ar gyfer y cymoedd y cyfeiriwyd atynt gennych. Mae'n rhan o raglen adfywio'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio. Yn ogystal, mae wardiau gwledig penodol yn y cymoedd hynny sy'n elwa ar gynlluniau dan y cynllun datblygu gwledig. Mae nifer o brosiectau ar waith sydd wedi cael cefnogaeth dan y cynllun datblygu gwledig. Byddwn yn eich annog i hyrwyddo yn y cymunedau hynny y ffaith y bydd cyfle arall i gael arian ychwanegol dan echel 3 ac echel 4 y cynllun datblygu gwledig eleni i ddarparu cefnogaeth i brosiectau mewn wardiau gwledig. Bydd yr arian hwnnw ar gael o fis Ebrill nesaf ymlaen.

gan siopau a busnesau bach ran bwysig iawn yn y gwaith o sicrhau'r cynaliadwyedd hwnnw, a bod polisi'r blaid Geidwadol o gynnig rhyddhad ardrethi i'r sefydliadau hynny yn ffordd effeithiol o gefnogi cymunedau gwledig, gan eu cadw ynghyd a chaniatáu iddynt barhau heb gymorthdaliadau eraill?

Elin Jones: Ar wahân i gymorthdaliadau cyhoeddus, wrth gwrs. Mae nifer o siopau a swyddfeydd post eisoes yn cael rhyddhad ardrethi gwledig gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n gwneud cyfraniad sylweddol i hyfywedd y busnesau hynny mewn ardaloedd gwledig. Mae cadw siopau gwledig yn agored a'u datblygu yn her i'r unigolion yn y sector preifat sy'n eu rhedeg ac i'r Llywodraeth wrth geisio darparu'r amgylchiadau iawn i'r siopau hynny allu parhau.

Bethan Jenkins: The original question is about rural communities, but what is the Government doing to provide assistance for isolated communities, particularly in the Neath, Swansea, Afan and Llynfi valleys? When we hold surgeries as Assembly Members we hear that those communities sometimes feel they are not given as much assistance as other communities, and that they feel that they are out of the loop in getting assistance from Government. Are you working with the Deputy Minister for Housing and Regeneration to try to build these communities and make them feel they are part of the Welsh Assembly Government's developments?

Elin Jones: There is a regeneration programme for the valleys to which you referred. It is part of the Deputy Minister for Housing and Regeneration's regeneration programme. In addition, there are specific rural wards in those valleys that benefit from schemes under the rural development plan. There are several ongoing projects that have received assistance under the rural development plan. I would encourage you to promote in those communities the fact that there will be another opportunity for additional funding under axis 3 and axis 4 of the rural development plan during this year to provide support for projects in rural wards. That funding will be available as from next

April.

Laverbread

Q8 David Melding: Will the Minister make a statement on the promotion of laverbread? OAQ(3)0977(RAF)

Elin Jones: The Assembly Government is committed to supporting the promotion and production of food in Wales, including laverbread.

David Melding: I wonder whether, on one of your many shopping trips to Harrods or Fortnum and Mason—or, indeed, a particular favourite of yours, Partridges of Sloane Square—you have noticed that much of the laverbread that they sell is sourced from the west of Scotland. Do you not agree that posh ladies who lunch should be eating Welsh laverbread?

Elin Jones: I do not know many posh ladies who lunch, but I would say that Welsh laverbread is the best in the world, and I would want to see opportunities for Welsh laverbread to be sold in Wales and beyond. The programme of support that we have developed as a Government in supporting the Welsh fishing industry and the Welsh seafood industry has included processors of laverbread. In its initial work, it is concentrating on the promotion and development of these companies to sell within Wales. The next step is to take it to Harrods, of course.

Y Llywydd: Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac am ateb y cwestiynau eraill.

Bara Lawr

C8 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo bara lawr? OAQ(3)0977(RAF)

Elin Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo a chynhyrchu bwyd yng Nghymru, gan gynnwys bara lawr.

David Melding: Tybed a ydych wedi sylwi, ar un o'ch teithiau siopa niferus i Harrods neu Fortnum and Mason—neu, yn wir, un o'ch ffefrynnau arbennig, Partridges of Sloane Square—fod llawer o'r bara lawr y maent yn ei werthu yn dod o orllewin yr Alban. A ydych yn cytuno y dylai merched crand sy'n ciniawa fod yn bwyta bara lawr o Gymru?

Elin Jones: Nid wyf yn adnabod llawer o ferched crand sy'n ciniawa, ond byddwn yn dweud mai bara lawr Cymru yw'r gorau yn y byd, a byddwn am weld cyfleoedd i werthu bara lawr o Gymru yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r rhaglen gymorth a ddatblygwyd gennym fel Llywodraeth i gefnogi diwydiant pysgota Cymru a diwydiant bwyd môr Cymru wedi cynnwys proseswyr bara lawr. Yn y lle cyntaf, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar hyrwyddo a datblygu'r cwmnïau hyn i werthu yng Nghymru. Y cam nesaf yw mynd â'r cynnyrch i Harrods, wrth gwrs.

The Presiding Officer: Thank you for that answer, Minister, and for answering the other questions.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions for the Minister for Environment, Sustainability and Housing

Homelessness Among Ex-service People

Q1 David Melding: Will the Minister make a statement on the level of homelessness among ex-service people in Wales? OAQ(3)1176(ESH)

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): Statistics

Digartrefedd Ymysg Cyn-filwyr

C1 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel digartrefedd ymysg cyn-filwyr yng Nghymru? OAQ(3)1176(ESH)

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Dengys ystadegau ar nifer

on people presenting to local authorities for homelessness assistance indicate very low numbers from people leaving the armed services. We are working with the statutory and third sectors to promote awareness of services, which can help veterans affected by homelessness at any time after they have left the services.

David Melding: Many of us welcomed the announcement of your colleague, the Minister for Health and Social Services, that more money will be put into specialised mental health services for people who have been in the armed forces. You will know that many armed forces personnel are recruited in Wales, at a higher proportion than in the rest of the UK on average. However, to access specialist homelessness services to help them sustain a tenancy and get back into a productive way of life they have to travel to Portsmouth. Do you not think that we should be commissioning specialist homelessness services for ex-service people that are based in Wales?

Jocelyn Davies: You will probably have noticed that, in our 10-year homelessness plan, we have a special section on caring for veterans. We have prioritised them within our homelessness legislation. Therefore, we make a special case for veterans. I am not aware that service personnel have to travel out of Wales to access specialist services in relation to homelessness, but one problem of which we are aware is that veterans find it very difficult to ask for help, or even to acknowledge that they need help. That is acknowledged in our homelessness plan. We are very keen on early intervention and, as I have said, we are working with others, including the Royal British Legion, to improve services for veterans, and we are funding Cymorth Cymru to the tune of £15,000 to help to develop a directory of services for veterans.

Janet Ryder: Although you have said that the numbers that you have detected are quite low, this is a concern. Many servicemen, as

y bobl sy'n eu cyflwyno'u hunain i awdurdodau lleol am gymorth digartrefedd mai nifer bach iawn ohonynt sy'n bobl yn gadael y lluoedd arfog. Yr ydym yn gweithio gyda'r sector statudol a'r trydydd sector i gynyddu ymwybyddiaeth am wasanaethau, a all helpu cyn-filwyr y mae digartrefedd yn effeithio arnynt unrhyw bryd ar ôl iddynt adael y lluoedd arfog.

David Melding: Yr oedd llawer ohonom yn croesawu cyhoeddiad eich cydweithiwr, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y bydd mwy o arian yn cael ei roi mewn gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ar gyfer pobl sydd wedi bod yn y lluoedd arfog. Byddwch yn gwybod bod llawer o bersonél y lluoedd arfog yn cael eu recriwtio yng Nghymru, cyfran uwch nag yng ngweddill y DU ar gyfartaledd. Fodd bynnag, rhaid iddynt deithio i Portsmouth i allu cael gwasanaethau digartrefedd arbenigol i'w helpu i gynnal tenantiaeth a byw bywyd cynhyrchiol unwaith eto. Oni chredwch y dylem fod yn comisiynu gwasanaethau digartrefedd arbenigol ar gyfer cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru?

Jocelyn Davies: Mae'n debyg y byddwch wedi sylwi bod gennym adran arbennig ar ofalu am gyn-filwyr yn ein cynllun digartrefedd 10 mlynedd. Yr ydym wedi rhoi blaenoriaeth iddynt yn ein deddfwriaeth ar ddigartrefedd. Felly, yr ydym yn trin cyn-filwyr fel achos arbennig. Nid wyf yn ymwybodol ei bod yn rhaid i aelodau'r lluoedd arfog deithio allan o Gymru i allu cael gwasanaethau arbenigol ar gyfer digartrefedd, ond un broblem y gwyddom amdani yw bod cyn-filwyr yn ei chael yn anodd iawn gofyn am help, neu hyd yn oed gydnabod bod arnynt angen help. Caiff hynny ei gydnabod yn ein cynllun digartrefedd. Yr ydym yn awyddus iawn i ymyrryd yn gynnar, ac, fel yr wyf wedi'i ddweud, yr ydym yn gweithio gydag eraill, gan gynnwys y Lleng Brydeinig Frenhinol, i wella gwasanaethau i gyn-filwyr. Yr ydym hefyd wedi rhoi £15,000 i Cymorth Cymru i helpu datblygu cyfeirlyfr o wasanaethau i gyn-filwyr.

Janet Ryder: Er ichi ddweud bod y niferoedd yr ydych wedi eu canfod yn eithaf isel, mae hyn yn bryder. Fel y mae David

David Melding has intimated, are recruited at a very young age—straight from school. They spend a number of years in an environment where everything is provided for them, which can create an institutionalised mentality. Do you not think that the Ministry of Defence itself must play a role in resettling ex-servicemen and start to provide many more decommissioning and support services for those leaving the armed services, regardless of whether they are leaving as a result of injury or not? Once service personnel come to the end of their active service life, they need support to settle back into society. The Ministry of Defence should take its role in that.

Jocelyn Davies: I would not disagree with anything that you have said, Janet. As I have said, this Government recognises the vulnerability of some veterans. Sometimes it is very difficult for them to resettle. You mentioned the institutional lifestyles that they have experienced and some, of course, have experienced trauma. Any responsible employer would ensure that personnel are discharged safely, for their own sakes, and I do not think that the state can escape from the duty to do that.

2.10 p.m.

Jonathan Morgan: Deputy Minister, you will be aware that on 8 March the Big Lottery Fund announced £35 million of transition funding to help people with the move from military to civilian life. While we support and applaud all the work that is done by organisations such as the Big Lottery Fund, the Officers' Association and the Royal British Legion, there is an issue as to the duty of care that the Government, whether here or at Westminster, has for those people who have served our country. If you consider the spiral of decline among those who leave the army, particularly those who leave with mental health conditions as a result of active service, the prospect of not being able to go into meaningful employment and of becoming homeless, as David Melding rightly pointed out, is a grave one. I would urge you, if you have not already done so, to have conversations with your colleagues in

Melding wedi'i grybwyll, caiff nifer o filwyr eu recriwtio'n ifanc iawn—yn syth o'r ysgol. Byddant yn treulio nifer o flynyddoedd mewn amgylchedd lle caiff popeth ei ddarparu ar eu cyfer, a gall hynny greu meddylfryd sefydliadol. Oni chredwch ei bod yn rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ei hun wneud ei rhan i adsefydlu cyn-filwyr a dechrau darparu mwy o lawer o wasanaethau datgomisiynu a gwasanaethau cymorth i'r rheini sy'n gadael y lluoedd arfog, p'un a fyddant yn gadael oherwydd anaf ai peidio? Pan ddaw aelodau'r lluoedd arfog i ddiwedd eu gyrfa mewn gwasanaeth gweithredol, mae arnynt angen cymorth i ymgartrefu yn y gymdeithas. Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn wneud ei rhan hynny.

Jocelyn Davies: Ni fyddwn yn anghytuno â dim yr ydych wedi'i ddweud, Janet. Fel yr wyf wedi'i ddweud, mae'r Llywodraeth hon yn cydnabod mor agored i niwed yw rhai cyn-filwyr. Weithiau mae'n anodd iawn iddynt ailymgartrefu. Soniech am y ffyrdd o fyw sefydliadol y maent wedi eu cael, a bydd mae rhai, wrth gwrs, wedi cael trawma. Byddai pob cyflogwr cyfrifol yn sicrhau bod personél yn cael eu rhyddhau yn ddiogel, er eu lles eu hunain, ac ni chredaf y gall y wladwriaeth ddianc rhag y ddyletswydd i wneud hynny.

Jonathan Morgan: Ddirprwy Weinidog, byddwch yn gwybod bod y Gronfa Loteri Fawr wedi cyhoeddi £35 miliwn o arian pontio ar 8 Mawrth i helpu pobl wrth iddynt symud o fywyd milwrol i fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog. Er ein bod yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r holl waith y mae sefydliadau megis y Gronfa Loteri Fawr, Cymdeithas y Swyddogion a'r Llent Brydeinig Frenhinol yn ei wneud, mae yna gwestiwn ynghylch y ddyletswydd o ofal sydd ar y Llywodraeth, boed hynny yma ynteu yn San Steffan, tuag at y bobl hynny sydd wedi gwasanaethu ein gwlad. Os ystyriwch y dirywiad graddol sy'n digwydd ymhlith y rheini sy'n gadael y fyddin, yn enwedig y rheini sy'n gadael gyda phroblemau iechyd meddwl oherwydd gwasanaeth gweithredol, mae'r perygl o fethu â chael cyflogaeth ystyrllon a bod yn ddigartref, fel y dywedodd David Melding yn gywir, yn un difrifol. Byddwn yn eich annog

Westminster to see what else the Government could do to help this very vulnerable group of people.

Jocelyn Davies: I would certainly be prepared to do that. You will be aware of the command paper that has been endorsed by the Welsh Assembly Government. For our part, we have changed some of the rules here so that service personnel are acknowledged properly in respect of social housing. We give priority to veterans if they apply for low-cost home ownership and we have introduced a disregard for welfare veterans and compensation payments via the disabled facilities grant. We have certainly been prepared to acknowledge them and, as I said, we have given them a special place and a priority need if they present as homeless. You were quite right that there are a number of reasons why veterans might become homeless. We are finding that the largest group of people presenting with problems are those who had a good career in the forces and then encounter problems much later in life. We need to do more research into this perhaps, because we need appropriate services available when people need them.

Eleanor Burnham: I realise that you are very sincere about this issue, as is the Minister for Health and Social Services. Mark Isherwood and I have both been involved in our own ways with a centre that is sorting out many of the difficulties faced by former servicemen with particular mental health conditions. The response from the Minister for health has been that there is sufficient help available in the NHS. That is not so, otherwise this centre would not be doing the work that it is doing, following the inability of the NHS to cope adequately. Will you be having conversations not only with Westminster, but with the Minister for health in this regard? There are issues that are not being resolved fully within the NHS or even within your directorate. I urge you to do your very best.

i siarad â'ch cydweithwyr yn San Steffan, os nad ydych eisoed wedi gwneud hynny, i weld beth arall y gallai'r Llywodraeth ei wneud i helpu'r grŵp hwn o bobl sy'n agored iawn i niwed.

Jocelyn Davies: Yn bendant, byddwn yn barod i wneud hynny. Byddwch yn ymwybodol o'r papur gorchymyn y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i gymeradwyo. O'n rhan ni, yr ydym wedi newid rhai o'r rheolau yma er mwyn i aelodau'r lluoedd arfog gael eu cydnabod yn iawn o ran tai cymdeithasol. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gyn-filwyr os byddant yn gwneud cais am berchentyaeth cost isel, ac yr ydym wedi cyflwyno amodau sy'n diystyru taliadau lles i gyn-filwr ac iawndal a delir trwy'r grant cyfleusterau i'r anabl. Yn bendant, yr ydym wedi bod yn barod i'w cydnabod ac, fel y dywedais, yr ydym wedi rhoi lle arbennig a blaenoriaeth iddynt os byddant yn eu cyflwyno'u hunain fel rhywun digartref. Yr oeddech yn llygad eich lle wrth ddweud bod nifer o resymau pam y gallai cyn-filwyr fod yn ddigartref. Gwelwn mai'r grŵp mwyaf o bobl sy'n eu cyflwyno'u hunain i'r awdurdodau gyda phroblemau yw'r rheini sydd wedi cael gyrfa dda yn y lluoedd arfog ac sydd wedyn yn cael problemau lawer yn hwyrach yn eu bywyd. Mae angen inni wneud mwy o ymchwil i hyn efallai, oherwydd mae angen inni gael gwasanaethau priodol ar gael pan fydd eu hangen ar bobl.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn sylweddoli eich bod yn ddiffuant iawn am y mater hwn, fel y mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Mark Isherwood a minnau wedi bod yn ymwneud yn ein ffyrdd ein hunain â chanolfan sy'n datrys llawer o'r anawsterau sy'n wynebu cyn-filwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl penodol. Yr ymateb a gafwyd gan y Gweinidog dros iechyd oedd bod cymorth digonol ar gael yn y GIG. Nid felly y mae, neu ni fyddai'r ganolfan hon yn gwneud y gwaith y mae'n ei wneud, yn dilyn anallu'r GIG i ymdopi'n ddigonol. A fyddwch yn cael sgysiau â San Steffan ac â'r Gweinidog dros iechyd am hyn? Mae yna broblemau nad ydynt yn cael eu datrys yn llwyr yn y GIG nac yn eich cyfarwyddiaeth hyd yn oed. Fe'ch anogaf i wneud eich gorau glas.

Jocelyn Davies: I have been in discussion for some time with the Minister for health and we are exploring the possibility of providing capital for a housing programme for veterans. I have also had discussions with the Royal British Legion, which hopes to make a capital investment somewhere in Wales for veterans. However, I take your points on board.

Jocelyn Davies: Yr wyf wedi bod yn trafod gyda'r Gweinidog dros iechyd ers cryn amser, ac yr ydym yn archwilio posibilrwydd darparu cyfalaf ar gyfer rhaglen dai ar gyfer cyn-filwyr. Yr wyf wedi cael trafodaethau gyda'r Llenng Brydeinig Frenhinol hefyd, sy'n gobeithio gwneud buddsoddiad cyfalaf rywle yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr. Fodd bynnag, byddaf yn ystyried eich pwyntiau.

Targedau Tlodi Tanwydd

C2 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dargedau tlodi tanwydd? OAQ(3)1187(ESH)

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Yn yr hydref, cyhoeddir data ynghylch tlodi tanwydd o arolwg Byw yng Nghymru 2008. Bydd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch nifer yr aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd a chynnydd yn erbyn targedau. Hefyd, bydd y data'n rhoi amcangyfrifon wedi'u modelu ar nifer yr aelwydydd sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn 2009 a 2010.

David Lloyd: Diolch yn fawr am yr ateb cynhwysfawr hwnnw. Gyda biliau ynni yn aruthrol o uchel ac yn cynyddu o ddydd i ddydd, pa berswâd fyddwch chi'n ei ddwyn ar y cwmnïau ynni i ostwng eu prisiau gan gofio fod biliau trydan yng Nghymru, ar gyfartaledd, 10 y cant yn uwch na biliau trydan pobl yn Lloegr? Pa berswâd yr ydych yn ei ddwyn ar y cwmnïau ynni i ostwng eu prisiau, ac i helpu pobl mewn angen mewn ffyrdd eraill?

Jane Davidson: Mae'n bwysig iawn gweithio'n agos gyda'r cwmnïau ynni i ddeall yn union yr hyn y maent yn ei wneud o ran eu prisiau. Yr wyf hefyd yn gweithio gydag Ofgem, a gynhaliodd ymchwiliad y llynedd i edrych ar y prisiau hyn. Cwrddais â chynrychiolwyr Ofgem y bore yma, a byddant yn edrych eto ar y mater hwn ynghylch prisiau yng Nghymru.

Mark Isherwood: Minister, how and when will the 2010 target to eradicate fuel poverty among vulnerable households be met?

Fuel Poverty Targets

Q2 David Lloyd: Will the Minister make a statement on fuel poverty targets? OAQ(3)1187(ESH)

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): Fuel poverty data from the Living in Wales survey 2008 will be published this autumn. This will include an update on the number of households in fuel poverty and progress against targets. The data will also provide modelled estimates for the number of households in fuel poverty in 2009 and 2010.

David Lloyd: Thank you for that comprehensive answer. With fuel bills so exceedingly high and increasing daily, what pressure can you bring to bear on the energy companies to reduce their prices, bearing in mind that electricity bills in Wales, on average, are 10 per cent higher than in England? What pressure can you bring to bear on the energy companies to reduce their prices. What are you doing to persuade the energy companies to reduce their prices and to help people who are in need in other ways?

Jane Davidson: It is very important to work closely with the energy companies to understand what exactly they are doing in relation to their prices. I am also working with Ofgem, which investigated these prices last year. I met with representatives from Ofgem this morning, and they will look again at the issue of pricing in Wales.

Mark Isherwood: Weiniidog, sut a phryd fydd targed 2010 i ddileu tlodi tanwydd ymhllith aelwydydd sy'n agored i niwed yn cael ei gyrraedd?

Jane Davidson: The target relates specifically to eradicating fuel poverty in vulnerable households as far as is practicable by 2010. It is important to recognise that two of the three aspects of fuel poverty, namely income levels and fuel prices, are, essentially, not under the Assembly Government's control. As I said in my answer to the previous question, we are working closely with the energy companies and with Ofgem to look at issues relating to prices. We engage continually with the UK Government on issues relating to income and, particularly, social tariffs. What the Assembly Government can do is to make sure that our home energy efficiency scheme is targeted as effectively as possible. I will be publishing that in the context of our fuel poverty strategy relatively soon.

Mark Isherwood: You will be aware that several organisations have expressed concerns about the proposed all-Wales programmes to replace the home energy efficiency scheme, which include the creation of a central hub, particularly where it is understood that that will significantly reduce the number of households receiving support. Could the Minister explain how many households the new strategy will lift out of fuel poverty, and, ultimately, how it will help to meet the Assembly's goal to eradicate fuel poverty in Wales?

Jane Davidson: I am happy to do so. Our existing home energy efficiency scheme has been very successful. It has spent some £105 million over the last decade or so, and a substantial number of people have benefited from energy efficiency improvements. It has not been targeted at fuel poverty, and the same organisations asked us to target our scheme better. We are doing so, and our approach in looking at whole-house initiatives that are targeted at the most inefficient properties and the most vulnerable people has had support. Clearly, if you do that, fewer people will be able to benefit. That is why our big agenda through Arbed, as well as the extra £34 million for energy efficiency that the European Union announced for the first time today and the

Jane Davidson: Mae'r targed yn ymwneud yn benodol â dileu tlodi tanwydd mewn aelwydydd sy'n agored i niwed i'r graddau y mae hynny'n ymarferol erbyn 2010. Mae'n bwysig cydnabod nad yw dwy o'r tair agwedd ar dlodi tanwydd, sef lefelau incwm a phrisiau tanwydd, yn eu hanfod yn dod dan reolaeth Llywodraeth y Cynulliad. Fel y dywedais yn fy ateb i'r cwestiwn blaenorol, yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r cwmnïau ynni a chydag Ofgem i edrych ar faterion yn ymwneud â phrisiau. Yr ydym yn ymwneud yn barhaus â Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud ag incwm, a thariffau cymdeithasol yn benodol. Yr hyn y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud yw sicrhau bod ein cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn cael ei dargedu mor effeithiol ag sy'n bosibl. Byddaf yn cyhoeddi hynny yng nghyd-destun ein strategaeth ar dlodi tanwydd yn gymharol fuan.

Mark Isherwood: Byddwch yn ymwybodol bod nifer o sefydliadau wedi mynegi pryder am y rhaglenni Cymru gyfan arfaethedig i ddisodli'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, sy'n cynnwys creu gwasanaeth canolog, yn enwedig lle deellir y bydd hynny'n lleihau'n sylweddol nifer yr aelwydydd sy'n cael cefnogaeth. A wnaiff y Gweinidog egluro sawl aelwyd y bydd y strategaeth newydd yn ei chodi allan o dlodi tanwydd, ac yn y pen draw sut y bydd yn helpu cyrraedd nod y Cynulliad o ddileu tlodi tanwydd yng Nghymru?

Jane Davidson: Yr wyf yn fodlon gwneud hynny. Mae ein cynllun prsennol ar effeithlonrwydd ynni cartref wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae wedi gwario tua £105 miliwn dros y degawd diwethaf fwy neu lai, ac mae nifer sylweddol o bobl wedi elwa o welliannau effeithlonrwydd ynni. Nid yw'n targedu tlodi tanwydd, a gofynnodd yr un sefydliadau inni dargedu ein cynllun yn well. Yr ydym yn gwneud hynny, a chafwyd cefnogaeth i'n dull o edrych ar fentrau sy'n berthnasol i dai cyfan ac sy'n targedu'r eiddo mwyaf aneffeithlon a'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Yn amlwg, o wneud hynny bydd llai o bobl yn gallu elwa o'r cynllun. Dyna pam mae ein hagenda fawr drwy raglen Arbed, yn ogystal â'r £34 miliwn ychwanegol ar gyfer effeithlonrwydd ynni a

work that Jocelyn is doing on social housing delivery are all critical in ensuring that we use energy companies' money and regeneration money first, and then target our scheme towards those who have the greatest potential to be in fuel poverty.

Alun Davies: Minister, I welcome the news that you have met with Ofgem to discuss the issues that Dai Lloyd raised with you in his initial question. It has been a terrible failure of regulation over many years that prices for electricity are so much higher in Wales than in the rest of the United Kingdom. I am pleased to hear that you are taking up those issues with Ofgem.

On the Arbed scheme, that has received a broad welcome from all sides of the Chamber. It is targeted at vulnerable households in strategic regeneration areas. Could you indicate the timescale for the roll-out of the programme, and which areas stand to benefit first?

Jane Davidson: Yes. The roll-out of Arbed will depend on additional capital funding. We are delighted that we have managed to develop, for the first time, a strategic energy efficiency performance scheme to target strategic regeneration areas as effectively as possible. As we acquire additional funding, we can target it at areas that are most important in the context of energy efficiency.

2.20 p.m.

For example, later in the year, we will get data from the 2008 Living in Wales survey, which will help to inform our fuel poverty agenda. It may be that third phase of Arbed gets targeted in that area. However, having the strategic vehicle is extremely important to ensure the best fit with targeting.

Kirsty Williams: You will be aware that, in rural areas, we have relatively low incomes combined with architecture that can be

gyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd am y tro cyntaf heddiw, a'r gwaith y mae Jocelyn yn ei wneud ar gyflwyno tai cymdeithasol, i gyd yn hanfodol i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cwmnïau ynni ac arian adfywio yn gyntaf, ac yna'n targedu ein cynllun ni at y rheini y mae'r perygl mwyaf iddynt fod mewn tlodi tanwydd.

Alun Davies: Weinidog, croesawaf y newyddion eich bod wedi cyfarfod ag Ofgem i drafod y materion a gododd Dai Lloyd gyda chi yn ei gwestiwn dechreuol. Mae'r ffaith fod prisiau trydan gymaint yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn arwydd bod gwaith rheoleiddio wedi methu'n ofnadwy ers blynnyddoedd lawer. Yr wyf yn falch clywed eich bod yn codi'r materion hynny gydag Ofgem.

O ran rhaglen Arbed, cafodd groeso cyffredinol gan bob ochr i'r Siambr. Mae'n targedu aelwydydd sy'n agored i niwed mewn ardaloedd adfywio strategol. A allwch roi awgrym o'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen, a pha ardaloedd fydd y cyntaf i elwa ohoni?

Jane Davidson: Gallaf. Bydd cyflwyno rhaglen Arbed yn dibynnu ar gael arian cyfalaf ychwanegol. Yr ydym wrth ein bodd ein bod wedi llwyddo i ddatblygu cynllun perfformiad effeithlonrwydd ynni strategol am y tro cyntaf, i dargedu ardaloedd adfywio strategol mewn modd mor effeithiol ag sy'n bosibl. Wrth inni gael arian ychwanegol, gallwn ei dargedu at y meysydd sydd bwysicaf yng nghyd-destun effeithlonrwydd ynni.

Er enghraifft, yn ddiweddarach yn y flwyddyn byddwn yn cael data o arolwg Byw yng Nghymru 2008, a fydd yn helpu cyfrannu at ein hagenda ar dlodi tanwydd. Efallai y bydd trydydd cam rhaglen Arbed yn targedu'r maes hwnnw. Fodd bynnag, mae cael y cyfrwng strategol yn hynod bwysig i sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â thargedu yn y ffordd orau.

Kirsty Williams: Byddwch yn gwybod mai incwm cymharol isel sydd gennym mewn ardaloedd gwledig, ynghyd â phensaernïaeth

difficult to retrofit. People also rely on sources of energy that are not subject to social tariff because they are having to use liquid petroleum gas or oil. What help can my rural constituents hope to receive from your new approach to tackling fuel poverty in these most vulnerable households?

Jane Davidson: We have specifically targeted issues in rural areas in hard-to-treat homes, such as stone houses and the fact that people do not have access to reductions that are often available with dual fuel and the fact that we can map over some fuel poverty issues, particularly in north-west Wales. That is why we are focusing on the most inefficient homes with the most vulnerable people living in them in our new fuel poverty strategy. It is important that, at the end of state intervention for those who are most vulnerable, they are, if possible, lifted out of fuel poverty, and certainly that their houses become energy efficient. Under our current scheme, there was a particularly low cap on spending that would not have ensured that. Additionally, we have new renewable opportunities with feed-in tariffs that will be taken up effectively in rural areas.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(3)1195(ESH), yn ôl.

Energy Strategy

Q4 William Graham: Will the Minister outline which aspects of the UK Government energy strategy, 'Warm Homes, Greener Homes', will be extended to Wales? OAQ(3)1174(ESH)

Jane Davidson: Apart from the proposed warm homes standard for the social housing element, which replicates the Assembly Government's Welsh housing quality standard, all the other proposals in the strategy could be implemented in Wales. The Department of Energy and Climate Change is currently establishing stakeholder groups to include devolved administrations to further develop and implement the strategy, and to

a all fod yn anodd ei ôl-ffitio. Mae pobl hefyd yn dibynnu ar ffynonellau ynni sydd heb dariff cymdeithasol oherwydd eu bod yn gorfod defnyddio nwy petrolewm hylif neu olew. Pa gymorth y gall fy etholwyr gwledig obeithio'i gael dan eich dull newydd o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn yr aelwydydd hyn sydd fwyaf agored i niwed?

Jane Davidson: Yr ydym wedi targedu'n benodol broblemau mewn ardaloedd gwledig mewn cartrefi sy'n anodd eu trin, megis tai cerrig a'r ffaith nad yw pobl yn gallu cael gostyngiadau sydd ar gael yn aml trwy brynu nwy a thrydan gan yr un cyflenwr, a'r ffaith y gallwn fapio dros rai problemau tlodi tanwydd, yn enwedig yn y gogledd-orllewin. Dyna pam mae ein strategaeth newydd ar dlodi tanwydd yn canolbwyntio ar y cartrefi mwyaf aneffeithlon lle mae'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn byw. Pan ddaw ymyriad y wladwriaeth i ben ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed, mae'n bwysig iddynt gael eu codi allan o dlodi tanwydd, os yw hynny'n bosibl, ac yn bendant mae'n bwysig i'w cartrefi ddefnyddio ynni'n effeithlon. Dan ein cynllun presennol, yr oedd terfyn arbennig o isel ar wario na fyddai wedi sicrhau hynny. Hefyd, mae gennym gyfleoedd adnewyddadwy newydd gyda thariffau bwydo-i-mewn a gaiff eu defnyddio'n effeithiol mewn ardaloedd gwledig.

The Presiding Officer: Question 3, OAQ(3)1195(ESH), has been withdrawn.

Strategaeth Ynni

C4 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa agweddau ar strategaeth ynni Llywodraeth y DU, sef 'Warm Homes, Greener Homes', a fydd yn cael eu hymestyn i Gymru? OAQ(3)1174(ESH)

Jane Davidson: Ar wahân i'r safon cartrefi cynnes arfaethedig ar gyfer yr elfen tai cymdeithasol, sy'n ailadrodd safon ansawdd tai Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad, gellid gweithredu holl gynigion eraill y strategaeth yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn sefydlu grwpiau rhanddeiliaid i gynnwys gweinyddiaethau sydd wedi'u datganoli i ddatblygu'r strategaeth ymhellach a'i

look at what is best done on a UK basis and what is best done on a devolved basis.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. One element of this policy is the pay as you save green finance initiative. That would allow owners to invest in eco-upgrades to improve energy efficiency or renewable energy generating technologies, paying for these enhancements in energy reduction through the savings that they realise. Would such an initiative be suitable for Wales?

Jane Davidson: The advantage of pay as you save, particularly in the context of feed-in tariffs and renewable energy, is that it helps to give people with money the opportunity to create energy-saving measures, and it will help to incentivise in that way. The disadvantage is that pay as you save does not help those in fuel poverty because they do not have the money to take advantage of it. So, what we are looking at, across the piece, is as many different ways as possible of ensuring that we can encourage people to make their homes more energy efficient. There is a particular quick payback period, for example, in loft insulation, where you do not have to pay much and you have a quick payback period. Getting information out there about what is most effective for people is also important on this agenda.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf eich ymateb i gwestiwn William Graham ac, yn benodol, y ffaith eich bod yn nodi pa mor bwysig yw cael cynlluniau yng Nghymru sy'n cyfateb i'r sefyllfa sy'n bodoli yma. Weithiau nid yw cynlluniau sydd wedi eu cynllunio ar sail y Deyrnas Unedig yn gwbl briodol i Gymru. Mae'n dda eich clywed yn pwysleisio'r angen i edrych ar arbed ynni. A dderbyniwch fod arbed ynni yn chwarae rhan eithriadol o bwysig yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd? Sut yr ydych yn ymateb i feirniadaeth rhai pobl—nid yw'r rheiny'n fy nghynnwys i, gyda llaw—sy'n awgrymu eich bod yn rhoi gormod o bwyslais ar ynni adnewyddadwy a dim digon o bwyslais ar arbed ynni?

gweithredu, ac i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud orau ar lefel y DU a'r hyn y gellir ei wneud orau ar lefel ddatganoledig.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weinidog. Un elfen yn y polisi hwn yw'r cynllun cyllid gwyrdd i dalu wrth arbed. Byddai'r cynllun yn caniatáu i berchnogion fuddsoddi mewn gwaith eco-uwchraddio i wella effeithlonrwydd ynni, neu mewn technoleg sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan dalu am y gwelliannau hyn sy'n defnyddio llai o ynni drwy'r arbedion y byddent yn eu gwneud. A fyddai menter o'r fath yn addas i Gymru?

Jane Davidson: Mantais talu wrth arbed, yn enwedig yng nghyd-destun tariffau bwydo-i-mewn ac ynni adnewyddadwy, yw ei fod yn helpu rhoi'r cyfle i bobl sydd ag arian greu dulliau arbed ynni, a bydd yn helpu cynnig cymhellion yn hynny o beth. Yr anfantais yw nad yw talu wrth arbed yn helpu'r rheini sydd mewn tlodi tanwydd am nad oes ganddynt yr arian i fanteisio arno. Felly, yr hyn yr ydym yn edrych arno, yn gyffredinol, yw cynifer o wahanol ffyrdd ag sy'n bosibl i sicrhau y gallwn annog pobl i sicrhau bod eu cartrefi'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Mae inswleiddio'r atig, er enghraifft, yn talu amdano'i hun mewn cyfnod cymharol fyr, gan nad oes yn rhaid ichi dalu llawer am y gwaith a byddwch yn dechrau arbed arian yn gyflym. Mae sicrhau bod gwybodaeth ar gael am yr hyn sydd fwyaf effeithiol i bobl hefyd yn bwysig yng nghyswllt yr agenda hon.

Rhodri Glyn Thomas: I welcome your response to William Graham's question and, specifically, the fact that you note the importance of having schemes in place in Wales to correspond to the situation that exists here. Sometimes schemes that have been planned on a United Kingdom basis are not totally appropriate for Wales. It is good to hear you emphasise the need to save energy. Do you accept that saving energy is vitally important in our response to climate change? How do you respond to the criticism by some people—incidentally, those people do not include me—suggesting that you place too much emphasis on renewable energy and not enough emphasis on saving energy?

Jane Davidson: Yr ydym yn glir yn y ddogfen a gyhoeddwyd gennyf ddydd Llun mai effeithlonrwydd yw'r mater pwysicaf. Bydd rhaid inni annog pobl i arbed ynni ac i newid eu harferion o ran defnyddio ynni. Bydd rhaid inni hefyd annog pobl i beidio â defnyddio glo a nwy oherwydd y problemau gyda thanwydd ffosil. Fodd bynnag, effeithlonrwydd yw'r peth pwysicaf.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)1207(ESH), yn ôl.

Carbon Emissions

Q6 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government policies aimed at helping home owners to reduce their carbon emissions? OAQ(3)1189(ESH)

Jane Davidson: Arbed and our home energy efficiency scheme will continue to improve the energy efficiency of thousands of Welsh homes, while Assembly Government engagement and awareness-raising campaigns help people to identify how to reduce their carbon footprints.

Alun Cairns: I am grateful to the Minister for her answer. In England, the boiler scrappage scheme was announced last November, but it took some months before there was any movement in the Welsh Assembly Government. It was only after sustained attack from the Welsh Conservatives that the First Minister accepted that there was some sort of Barnett consequential, in spite of the fact that it is a mathematical formula. *[Interruption.]* It was announced in the pre-budget report in November and, eventually, by January, the First Minister came forward with some sort of acknowledgement. We are no further forward, really, in relation to having applications coming forward in Wales. Winter is now over—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I do not know why, but this place is being overtaken by what I would call Westminsteritis, and it seems to be infectious. *[Laughter.]* I ask Alun Cairns to ask a question. We know what season of the year it is, so a question would

Jane Davidson: We have made it clear in the document which I published on Monday that efficiency is the most important issue. We must encourage people to save energy and to change their energy use habits. We must also encourage people not to use coal and gas because of the problems with fossil fuels. However, efficiency is the most important thing.

The Presiding Officer: Question 5, OAQ(3)1207(ESH) is withdrawn.

Allyriadau Carbon

C6 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at helpu perchnogion tai i leihau eu hallyriadau carbon? OAQ(3)1189(ESH)

Jane Davidson: Bydd Arbed a'n cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn parhau i gynorthwyo miloedd o berchnogion tai yng Nghymru i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon. Yn y cyfamser, mae ymgyrchoedd gan Lywodraeth y Cynulliad i ymgyssylltu a chynyddu ymwybyddiaeth yn helpu pobl i nodi sut i leihau eu hól troed carbon.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb. Yn Lloegr, cyhoeddwyd y cynllun sgrapio boeleri fis Tachwedd diwethaf, ond aeth sawl mis heibio cyn i ddim ddigwydd yn Llywodraeth y Cynulliad. Dim ond ar ôl ymosodiadau cyson gan y Ceidwadwyr Cymreig y derbyniodd y Prif Weinidog fod rhyw fath o swm canlyniadol dan Barnett, er gwaetha'r ffaith mai fformiwla fathemategol ydyw. *[Torri ar draws.]* Fe'i cyhoeddwyd yn yr adroddiad rhag-gyllidebol ym mis Tachwedd, ac yn y diwedd, erbyn mis Ionawr, cafwyd rhyw fath o gydnabyddiaeth gan y Prif Weinidog. Nid ydym gam ymhellach ymlaen, mewn gwirionedd, o weld cyflwyno ceisiadau yng Nghymru. Mae'r gaeaf drosodd bellach—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Wn i ddim pam, ond mae'r lle hwn yn cael ei daro gan yr hyn y byddwn yn ei alw'n San Steffanitis, ac ymddengys ei fod yn heintus. *[Chwerthin.]* Gofynnaf i Alun Cairns ofyn cwestiwn. Gwyddom pa dymor o'r flwyddyn yw hi,

be helpful.

Alun Cairns: Does the Minister now accept that the greatest time of motivation among people who really need and want to apply for some sort of benefit under a boiler scrappage scheme has passed? The scheme is up and running in England and is receiving private investment as well as public investment. However, here, the Minister has dithered and delayed, and we are no further forward.

Jane Davidson: We are always used to the Conservatives rewriting history. Your inaccurate comments show that you forgot to read the letter that I sent to you on 3 March, which made it absolutely clear that the additional money that is funding the scheme in England and Wales commences in April this year for the new financial year. We have earmarked an equivalent share for the scheme for 2010-11. We have also—and this has been warmly welcomed—targeted our scheme particularly at pensioners because these are the people who are most likely to be in fuel poverty. That has been warmly welcomed by people concerned about fuel poverty in Wales, which I thought included the Conservatives, but apparently only some Conservatives.

Peter Black: Minister, could you outline your Government's current policy on encouraging microgeneration, particularly the Grant schemes that are available for homeowners who wish to undertake such generation in their homes? Are there any plans to improve on that regime?

2.30 p.m.

Jane Davidson: There are many ways in which we encourage microgeneration. I issued a statement last year on planning and microgeneration, and will make further statements this year to the effect that, wherever possible, we aim to ensure that microgeneration can be delivered without having to go through the planning application process. Grants are available, depending on the nature of the microgeneration,

felly, byddai cwestiwn yn ddefnyddiol.

Alun Cairns: A yw'r Gweinidog yn derbyn yn awr bod yr adeg pan welir y cymhelliant mwyaf ymhlith pobl y mae gwir angen ac awydd arnynt i wneud cais am ryw fath o gymorth dan gynllun sgrapio boeleri wedi mynd heibio? Mae'r cynllun eisoes yn gweithredu yn Lloegr ac mae'n cael buddsoddiad preifat yn ogystal â buddsoddiad cyhoeddus. Fodd bynnag, yma, mae'r Gweinidog wedi petruso ac oedi, ac nid ydym gam ymhellach ymlaen.

Jane Davidson: Yr ydym bob amser wedi arfer â'r Ceidwadwyr yn ailysgrifennu hanes. Mae eich sylwadau anghywir yn dangos eich bod wedi anghofio darllen y llythyr a anfonais atoch ar 3 Mawrth, a oedd yn dweud yn gwbl glir bod yr arian ychwanegol sy'n ariannu'r cynllun yng Nghymru a Lloegr yn dechrau ym mis Ebrill eleni ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Yr ydym wedi clustnodi cyfran gyfwerth ar gyfer y cynllun yn 2010-11. Yr ydym hefyd—a chroesawyd hyn yn gynnes—wedi targedu ein cynllun yn benodol at bensynwyr oherwydd y rhain yw'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod mewn tloedi tanwydd. Croesawyd hynny'n gynnes gan bobl sy'n pryderu am dlodi tanwydd yng Nghymru, ac yr oeddwn wedi meddwl bod hynny'n cynnwys y Ceidwadwyr, ond mae'n debyg mai dim ond rhai Ceidwadwyr sy'n pryderu.

Peter Black: Weinidog, a wnewch chi amlinellu polisi presennol eich Llywodraeth ar annog microgynhyrchu, yn enwedig y cynlluniau grantiau sydd ar gael i berchnogion tai sy'n dymuno gwneud hynny yn eu cartrefi? A oes cynlluniau i wella'r drefn honno?

Jane Davidson: Yr ydym yn annog microgynhyrchu mewn nifer o ffyrdd. Cyhoeddais ddatganiad y llynedd ar gynllunio a microgynhyrchu, a byddaf yn gwneud datganiadau pellach eleni i'r perwyl ein bod yn ceisio sicrhau bod modd sefydlu systemau microgynhyrchu heb orfod mynd trwy'r broses o gyflwyno cais cynllunio, lle bynnag y mae'n bosibl. Mae grantiau ar gael, yn dibynnu ar natur y microgynhyrchu, yn

particularly through our new community energy generation scheme, which we announced a few weeks ago and involves some £15 million. There is also money that has come through the Department of Energy and Climate Change's Low Carbon Communities Challenge and through the Big Green Challenge of the National Endowment for Science, Technology and the Arts, which is supporting communities in developing this new agenda.

The biggest perceived financial incentive will relate to feed-in tariffs, which are due to come in on 1 May. That will bring people much closer to microgeneration opportunities because they will be able to invest and benefit.

Blaenoriaethau

C7 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1200(ESH)

Jane Davidson: Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf wedi'u seilio ar gyflawni ein hymrwymiaadau yn 'Cymru'n Un' a'r blaenoriaethau strategol eraill ar gyfer Cymru. Mae'r ymrwymiaadau hyn yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, rheoli llifogydd, gwastraff, bioamrywiaeth a chynllunio, a chynsail pob un ohonynt fydd datblygu cynaliadwy, sef prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth hon.

Nerys Evans: Diolch am eich ateb, a chroesawaf eich cyhoeddiad ar ddechrau'r wythnos. Yr wyf wedi siarad yn ddiweddar â chwmnïoedd sy'n awyddus i ddatblygu prosiectau ynni amgen ar y môr. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o asesu'r effaith amgylcheddol a gaiff prosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr ar arfordir Cymru? Deallaf fod yr Alban wedi dechrau dynodi ardaloedd arbennig ar gyfer datblygu prosiectau. A allwch chi ddweud wrthym lle mae Cymru'n sefyll o ran y broses hon?

Jane Davidson: We are currently looking at the feasibility of Severn tidal power. These big schemes require strategic environmental assessments, and that is being looked at. We are very pleased that DECC is looking at a

enwedig drwy ein cynllun newydd ar gynhyrchu ynni cymunedol a gyhoeddwyd gennym ychydig wythnosau'n ôl ac sy'n werth tua £15 miliwn. Mae yna hefyd arian wedi dod drwy Her Cymunedau Carbon Isel yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a thrwy Her Fawr Werdd y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau, sy'n cefnogi cymunedau i ddatblygu'r agenda newydd hon.

Bydd y cymhelliant ariannol canfyddedig mwyaf yn ymwneud â thariffau bwydo-i-mewn, a fydd yn cael eu cyflwyno ar 1 Mai. Bydd hynny'n dod â phobl yn nes o lawer at gyfleoedd microgynhyrchu oherwydd gallant fuddsoddi a chael budd ohonynt.

Priorities

Q7 Nerys Evans: Will the Minister outline her priorities for the next six months? OAQ(3)1200(ESH)

Jane Davidson: My priorities for the next six months will be based around the delivery of our 'One Wales' commitments and other strategic priorities for Wales. These include climate change, flood management, waste, biodiversity and planning, all of which will be framed by sustainable development, which is the central organising principle of this Government.

Nerys Evans: Thank you for your response and I welcome the announcement which you made at the beginning of the week. I have been in speaking recently to companies which are eager to develop alternative energy schemes offshore. Can you give us an update on the environmental impact assessment required for renewable energy schemes off the coast of Wales? I understand that Scotland has started to designate specific areas for such developments. Can you tell us where Wales stands in this process?

Jane Davidson: Ar hyn o bryd, yr ydym yn edrych ar ddichonoldeb ynni'r llanw ar afon Hafren. Mae angen asesiadau amgylcheddol strategol ar gyfer y cynlluniau mawr hyn, ac mae hynny'n cael ei ystyried. Yr ydym yn

strategic environmental assessment of our seas more generally. That was announced this week in the context of the marine action plan, which looks at the major opportunities of seas in the UK, and the potential to power substantial numbers of homes, particularly from 2020 to 2030 and onwards. We are in discussions with the Crown Estate on issues of licensing. The first licences have been granted in Scotland, but we are looking to build on that agenda here. We are also doing work through convergence funding on testing marine technologies, on bringing them closer to commercialisation. So, it is a big, active agenda here in Wales.

Jonathan Morgan: Minister, I will return to the issue of the boiler scrappage scheme for Wales. I have written to you about this issue. We have to accept that large numbers of people in Wales were confused for some time, simply because a lot of the press coverage was delivered through the UK media, which has a greater reach in certain parts of Wales than some of the Welsh media, I am afraid. The UK Government made the announcement in the pre-budget report on 9 December, but we were still uncertain on 12 January, when the First Minister faced questions, about the extent of the boiler scrappage scheme. On 13 January, you said that £4 million would be made available as a result of the scheme in England. During that period, some of my own constituents spent large sums of money upgrading their boilers, some of whom are elderly people who can ill afford to spend large sums of money to do that work. Accordingly, you may find that a good number of people throughout Wales have been financially disadvantaged because of the level of confusion and uncertainty. Is it possible—it may not be, but I would like to put this on the record in asking you—for the Assembly Government to consider extending the scheme so that some issues may be looked at retrospectively?

Jane Davidson: You are right, Jonathan: we can never look at issues retrospectively. It is important to say that, where the scheme has started in England, it is being implemented

falch iawn fod yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn edrych ar asesiad amgylcheddol strategol o'n moroedd yn fwy cyffredinol. Cyhoeddwyd hynny'r wythnos hon yng nghyd-destun y cynllun gweithredu morol, sy'n edrych ar y cyfleoedd mawr sy'n gysylltiedig â moroedd yn y DU, a'r potensial i bweru nifer sylweddol o gartrefi, yn enwedig o 2020 i 2030 ac ymlaen. Yr ydym wrthi'n trafod gydag Ystad y Goron am faterion trwyddedu. Mae'r trwyddedau cyntaf wedi eu rhoi yn yr Alban, ond yr ydym ni'n gobeithio adeiladu ar yr agenda honno yma. Yr ydym hefyd yn gwneud gwaith drwy arian cydgyfeirio ar brofi technolegau môr, ar ddod â hwy'n nes at fasnacheiddio. Felly, mae'n agenda fawr a gweithredol yma yng Nghymru.

Jonathan Morgan: Weinidog, dychwelaf at fater y cynllun sgrapio boeleri ar gyfer Cymru. Yr wyf wedi ysgrifennu atoch am y mater hwn. Rhaid inni dderbyn bod nifer mawr o bobl yng Nghymru wedi drysu am gyfnod, oherwydd bod llawer o'r sylw yn y wasg wedi'i gyflwyno drwy gyfryngau'r DU, sy'n cyrraedd ymhellach mewn rhai rhannau o Gymru na rhai o'r cyfryngau Cymreig, mae arnaf ofn. Gwnaeth Llywodraeth y DU y cyhoeddiad yn yr adroddiad rhag-gyllidebol ar 9 Rhagfyr, ond yr oeddem yn dal yn ansicr ynghylch hyd a lled y cynllun sgrapio boeleri ar 12 Ionawr, pan wynebodd y Prif Weinidog gwestiynau. Ar 13 Ionawr, yr oeddech yn dweud y byddai £4 miliwn ar gael o ganlyniad i'r cynllun yn Lloegr. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwariodd rhai o'm hetholwyr i arian mawr yn uwchraddio'u boeleri. Mae rhai ohonynt yn bobl hŷn a phrin y gallant fforddio gwario arian mawr ar wneud y gwaith hwnnw. Felly, efallai y gwelwch fod nifer mawr o bobl ledled Cymru wedi cael eu rhoi dan anfantaes ariannol oherwydd lefel y dryswch a'r ansicrwydd. A yw'n bosibl—efallai na fydd yn bosibl, ond hoffwn i hyn gael ei gofnodi drwy ofyn ichi—i Lywodraeth y Cynulliad ystyried ymestyn y cynllun fel y gellir edrych ar rai materion yn ôl-weithredol?

Jane Davidson: Yr ydych yn iawn, Jonathan: ni allwn fyth edrych ar faterion yn ôl-weithredol. Mae'n bwysig dweud bod y cynllun, lle mae wedi dechrau yn Lloegr, yn

using existing funds that have been redirected. That has been very clear. Formally, the boiler scrappage scheme in England using new money—the same new money that was given to the Assembly Government—starts on 1 April. They were able to use some of the money they had in other budgets in the context of starting earlier.

What we have to say here is that we have had a warm response to two elements of our scheme. We had an opportunity to look at the English announcement and its applicability to Wales. We know that we have more pensioners who are fuel poor, so targeting the scheme effectively on pensioners has been met with warm support. Of course, we have also lifted by £100 the contribution from Government here. I am to make an announcement shortly about the mechanisms for application, and we have been working closely with the companies to ensure that some benefits similar to those in England in matching the boiler scrappage scheme Government money with money from the companies will be replicated here in Wales.

Alun Davies: In discussing your priorities for the next few months, Minister, the statement that you made earlier this week on the low carbon energy programme sets out your priorities and those of this Government for the next generation, and that is welcomed across the Chamber.

In the statement that you made on Monday for achieving our targets for low carbon energy generation, I think you said that it would be 40 per cent marine, a third from wind, and the rest from a number of other sources. Will you assure me that you are working closely with the Deputy Minister for Science, Innovation and Skills, Lesley Griffiths, with Leighton Andrews in education, and with the Deputy First Minister to ensure that we have the skills and the ability in place to ensure that this policy drives not only our targets for sustainability and low carbon energy generation, but our economy by creating the reality of a green

cael ei weithredu gan ddefnyddio cronfeydd presennol sydd wedi eu hailgyfeirio. Mae hynny wedi bod yn glir iawn. Yn ffurfiol, bydd y cynllun sgrapio boeleri yn Lloegr sy'n defnyddio arian newydd—yr un arian newydd ag a roddwyd i Lywodraeth y Cynulliad—yn dechrau ar 1 Ebrill. Yr oeddent wedi gallu defnyddio rhywfaint o'r arian a oedd ganddynt mewn cyllidebau eraill yng nghyd-destun dechrau'n gynharach.

Yr hyn y mae'n rhaid inni ei ddweud yma yw ein bod wedi cael ymateb brwd i ddwy elfen yn y cynllun. Cawsom gyfle i edrych ar y cyhoeddiad yn Lloegr a gweld mor berthnasol a fyddai i Gymru. Gwyddom fod gennym fwy o bensiynwyr sy'n dlawd o ran tanwydd, felly, bu cefnogaeth frwd i'r bwriad o dargedu'r cynllun yn effeithiol at bensiynwyr. Wrth gwrs, yr ydym wedi cynyddu'r cyfraniad gan y Llywodraeth yma £100. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad cyn hir am y systemau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, ac yr ydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r cwmnïau i sicrhau y bydd rhai manteision tebyg i'r rheini yn Lloegr i'w cael yng Nghymru hefyd o ran bod y cwmnïau'n darparu swm o arian sy'n cyfateb i'r swm a delir o gynllun y Llywodraeth i sgrapio boeleri.

Alun Davies: Wrth drafod eich blaenoriaethau ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf, Weinidog, mae'r datganiad a wnaethoch yn gynharach yr wythnos hon am y rhaglen ynni carbon isel yn egluro'ch blaenoriaethau chi a blaenoriaethau'r Llywodraeth hon ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a chroesewir hynny ar draws y Siambr.

Yn y datganiad a wnaethoch ddydd Llun am gyrraedd ein targedau ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, credaf ichi ddweud y byddai 40 y cant yn dod o'r môr, traean o'r gwynt, a'r gweddill o nifer o ffynonellau eraill. A wnewch fy sicrhau eich bod yn gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau, Lesley Griffiths, gyda Leighton Andrews ym maes addysg, a chyda'r Dirprwy Brif Weinidog i sicrhau bod gennym y sgiliau a'r gallu i sicrhau bod y polisi hwn yn gyrru nid yn unig ein targedau ar gyfer cynaliadwyedd a chynhyrchu ynni carbon isel, ond hefyd ein heconomi drwy greu realiti economi werdd a

economy and jobs for the future?

Jane Davidson: That statement that we made on Monday on the document ‘A Low Carbon Revolution’ was clear about the fact that the prime energy agenda, before we start on how we generate energy, is to do with energy efficiency. There is a big push on energy efficiency, and you have seen that in the work being done throughout the whole of the department, including the work that Jocelyn is doing. You are also seeing it in work across the whole of the Assembly Government, and that will come in big time this year with the introduction of the new carbon reduction commitment that will operate across Wales for bigger organisations.

The next element of the strategy is about renewables as a safe, local, indigenous agenda. We will be looking to revise the TAN 8 targets upwards on the basis of the potential identified. I would emphasise to the Assembly that knowing that we could produce twice as much electricity as we currently consume—as we have laid out in ‘A Low Carbon Revolution’—is the potential. It is up to this Government and future Governments to make sure that this potential is realised.

Lesley Griffiths can tell you that we met only last week to consider the skills element in this agenda. It is not just about the usual supply side discussions that I would normally have with Leighton Andrews; it is the demand side.

The third element of the strategy is that of delivering on the green jobs agenda and contributing to the Deputy First Minister’s economic renewal programme.

Michael German: I, too, thank you for your energy policy statement. I will dwell on the issue of renewables, which you have just mentioned. Of course, one judges a target for the future on the ability to achieve it. I have no problem with hard and harsh targets or with reaching and receiving them, but I wonder whether you will be able to tell us

swyddi ar gyfer y dyfodol?

Jane Davidson: Yr oedd y datganiad hwnnw a wnaethom ddydd Llun am y ddogfen ‘Chwyldro Carbon Isel’ yn glir am y ffaith bod y brif agenda ynni, cyn inni ddechrau ar y modd yr ydym yn cynhyrchu ynni, yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni. Mae ymdrech fawr yn cael ei gwneud ar effeithlonrwydd ynni, ac yr ydych wedi gweld hynny yn y gwaith sy’n cael ei wneud trwy’r adran i gyd, gan gynnwys y gwaith y mae Jocelyn yn ei wneud. Yr ydych hefyd yn ei weld mewn gwaith ar draws Llywodraeth y Cynulliad i gyd, a bydd hynny’n dod yn amlwg iawn eleni pan gyflwynir yr ymrwymiad newydd i leihau carbon a fydd yn gweithredu ledled Cymru ar gyfer sefydliadau mwy.

Mae elfen nesaf y strategaeth yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy fel agenda ddiogel, leol a brodorol. Byddwn yn gobeithio adolygu targedau TAN 8 am i fyny ar sail y potensial a nodwyd. Hoffwn bwysleisio wrth y Cynulliad mai gwybod y gallem gynhyrchu dwywaith cymaint o drydan ag yr ydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd—fel yr ydym wedi’i nodi yn ‘Chwyldro Carbon Isel’—yw’r potensial. Y Llywodraeth hon a Llywodraethau’r dyfodol a fydd yn gorfod sicrhau bod y potensial hwn yn cael ei wireddu.

Gall Lesley Griffiths ddweud wrthy ch ein bod wedi cyfarfod mor ddiweddar â’r wythnos diwethaf i ystyried yr elfen sgiliau yn yr agenda hon. Mae’n golygu nid yn unig y trafodaethau arferol am yr elfen gyflenwi y byddwn yn eu cael gyda Leighton Andrews fel arfer; mae hefyd yn golygu elfen y galw.

Trydedd elfen y strategaeth yw darparu’r agenda swyddi gwyrdd a chyfrannu at raglen y Dirprwy Brif Weinidog ar adnewyddu’r economi.

Michael German: Yr wyf fi hefyd yn diolch ichi am eich datganiad ar y polisi ynni. Yr wyf am aros gyda phwnc ynni adnewyddadwy, fel yr ydych newydd ei grybwyll. Wrth gwrs, bydd rhywun yn barnu targed ar gyfer y dyfodol ar y gallu i’w gyrraedd. Nid wyf yn gwrthwynebu targedau anodd a llym na’u cyrraedd a’u cael, ond

when you will have failed to meet the 2010 target, which was, if you remember, to have 10 per cent of our electricity generated from renewable sources. You have failed to meet that target considerably. What will be different in the next 15 years, given that you have failed to achieve by 2010?

2.40 p.m.

Jane Davidson: You have obviously not read the document, because it in no way says that there is a target. It says that there is the potential to deliver twice the amount of electricity that we consume as a nation via the sea, wind source, biomass and other potential. It is clear in the sense of saying that it is about the potential. You raised the point about targets for 2010, but if you look at what is consented in the planning system at the moment and the ambition in the planning system that is going before the Infrastructure Planning Commission, we will talk at the end of the year about the delivery of the potential in Wales for now in the context of targets, because, of course, we are only in March.

Michael German: You will have to go some to get there by the end of the year, Minister. Turning to page 19 of the report—you say that I have not read it—and the column bearing the heading ‘Annual energy output (TWhr)’, I would be grateful if you could tell us what the annual output in Wales currently is in order to confirm where we are moving from to where we have to reach by 2025, which is the production of 48 TWh annually. On that page, you say that tidal energy will give us 18 TWh by 2022. Which of the schemes that you are currently examining will have the potential to deliver that amount of energy by 2022, when all the evidence suggests that the large-scale barrage that would deliver that sort of output would not be available until 2030?

Jane Davidson: I say again that that chart designates the fact that if all the opportunities

tybed a fyddwch yn gallu dweud wrthym pan fyddwch wedi methu â chyrraedd targed 2010, sef, os cofiwch, sicrhau bod 10 y cant o'n trydan yn cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy. Yr ydych wedi methu â chyrraedd y targed hwnnw o bell ffordd. Beth fydd yn wahanol yn y 15 mlynedd nesaf, o gofio'ch bod wedi methu â'i gyrraedd erbyn 2010?

Jane Davidson: Mae'n amlwg nad ydych wedi darllen y ddogfen, oherwydd nid yw'n dweud mewn unrhyw ffordd bod yna darged. Mae'n dweud bod potensial i gyflwyno dwywaith cymaint o drydan ag yr ydym yn ei ddefnyddio fel cenedl drwy'r môr, y gwynt, bio-mas a photensial arall. Mae'n glir yn yr ystyr ei fod yn dweud mai'r potensial sy'n bwysig. Codwyd y pwynt gennych am dargedau ar gyfer 2010, ond os edrychwch ar yr hyn y rhoddir caniatâd ar ei gyfer yn y system gynllunio ar hyn o bryd, a'r uchelgais yn y system gynllunio sy'n mynd gerbron y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, cawn sgwrs ar ddiwedd y flwyddyn am gyflawni'r potensial yng Nghymru ar gyfer yn awr yng nghyd-destun targedau, oherwydd, wrth gwrs, dim ond mis Mawrth yw hi.

Michael German: Bydd yn rhaid ichi weithio'n galed i gyrraedd yno erbyn diwedd y flwyddyn, Weinidog. I droi at dudalen 19 yn yr adroddiad—yr ydych yn dweud nad wyf wedi'i ddarllen—a'r golofn dan y pennawd ‘Allbwn ynni blynyddol (TWhr)’, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym beth yw'r allbwn blynyddol yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn cadarnhau o ble'r ydym yn symud i gyrraedd y man y mae'n rhaid inni ei gyrraedd erbyn 2025, sef cynhyrchu 48 TWh bob blwyddyn. Ar y dudalen honno, yr ydych yn dweud y bydd ynni'r llanw yn rhoi 18 TWh inni erbyn 2022. Pa un o'r cynlluniau yr ydych yn eu harchwilio ar hyn o bryd a fydd â'r potensial i sicrhau'r cymaint â hynny o ynni erbyn 2022, pan fydd yr holl dystiolaeth yn awgrymu na fyddai'r morglawdd mawr a fyddai'n cynhyrchu'r math hwnnw o allbwn ar gael tan 2030?

Jane Davidson: Dywedaf eto fod y siart honno'n dynodi'r ffaith y byddai gwireddu'r

were realised, it would give us the 48 TWh. In the context of the Severn barrage, those of us who have not made up our mind without an evidence base continue to look at all the opportunities available in relation to the Severn, and that information will come before Government in October.

Tai Rhad ar y Farchnad Agored

C8 Gareth Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu tai rhad ar y farchnad agored? OAQ(3)1197(ESH)

Jocelyn Davies: Private sector provision of low-cost market housing can form an important part of meeting the housing requirements of the people of Wales. Under the 'One Wales' agreement, the Assembly Government's priority is the delivery of affordable housing that remains affordable in perpetuity, not just for the first occupier.

Gareth Jones: Diolch am yr ateb. Hoffwn ddiolch ichi hefyd am y gwaith yr ydych chi a'ch swyddogion wedi ei wneud dros yr ychydig fisoedd diwethaf gyda mi a gweithwyr proffesiynol lleol ym maes tai yn y sectorau preifat a chyhoeddus ac yn y trydydd sector yn Aberconwy wrth edrych ar y posibilïadau o safbwynt defnyddio cynlluniau rhannu ecwiti fel ffordd o sicrhau rhagor o dai fforddiadwy ar y farchnad agored. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal digwyddiad cyfathrebu arbennig dydd Gwener yma i weithwyr proffesiynol yn y sector i drafod darparu mwy o dai fforddiadwy o bob math. A fyddwch chi neu'ch swyddogion yn y cyfarfod hwnnw, ac a fyddai modd dweud wrth y rhai a fydd yn bresennol am y syniadau newydd y buom yn eu trafod am rannu ecwiti?

Jocelyn Davies: I do not think that I was invited, and I am not sure if an official is attending. However, I will check and let you know. The option that we have been speaking about is an intermediate option that involves a housing association or a local authority retaining an equity share of the property. I would be interested in pursuing that in a fully evaluated pilot in an area, so I have asked officials to get in touch with your local authority to see if we can pursue that.

holl gyfleoedd sydd ar gael yn rhoi'r 48 TWh inni. Yng nghyd-destun morglawdd afon Hafren, mae'r rheini ohonom nad ydym wedi penderfynu heb sylfaen dystiolaeth yn parhau i edrych ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael o ran afon Hafren, a daw'r wybodaeth honno gerbron y Llywodraeth ym mis Hydref.

Low-cost Market Housing

Q8 Gareth Jones: Will the Minister make a statement on the delivery of low-cost market housing? OAQ(3)1197(ESH)

Jocelyn Davies: Gall y ffaith bod y sector preifat yn darparu tai rhad ar y farchnad fod yn gyfraniad pwysig at ddiwallu gofynion pobl Cymru am dai. Dan gytundeb 'Cymru'n Un', blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad yw darparu tai fforddiadwy a fydd yn parhau'n dai fforddiadwy am byth, nid ar gyfer y preswlydd cyntaf yn unig.

Gareth Jones: Thank you for that answer. I should also like to thank you for the work which you and your officials have undertaken over the past few months with me and local professionals in the private and public housing sectors, and in the third sector in Aberconwy in looking at the possibilities of using shared equity schemes as a way of ensuring more affordable housing on the open market. Conwy County Borough Council will hold a special communications event this Friday for professionals in the sector to discuss greater provision of affordable housing of all kinds. Will you or your officials be attending that meeting, and would it be possible for those present to be told about the new ideas which we have been discussing on shared equity?

Jocelyn Davies: Nid wyf yn credu imi gael fy ngwahodd, ac nid wyf yn siŵr a fydd swyddog yn bresennol. Fodd bynnag, fe gadarnhaf hynny a rhoddaf wybod ichi. Y dewis yr ydym wedi bod yn siarad amdano yw dewis canolradd lle bydd cymdeithas tai neu awdurdod lleol yn cadw cyfran ecwiti o'r eiddo. Byddai gennyf ddiddordeb mewn edrych ar hynny mewn cynllun peilot wedi'i werthuso'n llawn mewn ardal benodol, felly, yr wyf wedi gofyn i swyddogion gysylltu

â'ch awdurdod lleol i weld a allwn edrych ar hynny.

Mark Isherwood: Last September, I visited Heritage Homes in Porthmadog with the director of Coed Cymru and a Conwy county councillor, Merfyn Thomas, with a view to bringing forward this technology as a low-cost market scheme for Conwy. These were modular homes already compliant at level 5 of the sustainable home rating, working on modular technology to bring quality and affordability for developers. I am not here to propose a particular company or supplier, but given the concern that the company raises in its brochure that society faces a housing crisis of epic proportions, what consideration have you given to, and what work are you taking forward with possible Welsh suppliers on modular affordable housing units, to be delivered by social and commercial developers?

Jocelyn Davies: You are quite right to say that none of us should be here to promote an individual company, and that should be put on the record. I have seen a number of these products, and my officials and I have had discussions with a number of companies. Therefore, I can assure you that we are pursuing that, but if there is a particular scheme that you would like me to visit, I would be grateful if you would write to me about it, Mark.

Jenny Randerson: The organisation Centre for Cities recently produced a report that indicated that the preference should be for greenfield development to satisfy the preferences of people who want housing, because apparently only 3 per cent of people would choose to live in a flat as a first choice. We talk about social housing, but the funding provided by the Assembly Government means that, in practice, it is virtually impossible for housing associations to build houses, given the land values in a city the size of Cardiff, and so they resort mainly to building flats. What will you do to address that serious problem and deal with the lack of accommodation for larger families?

Jocelyn Davies: You will be pleased to hear

Mark Isherwood: Fis Medi y llynedd, ymwelais â Heritage Homes ym Mhorthmadog gyda chyfarwyddwr Coed Cymru a chynghorydd sir o Gonwy, Merfyn Thomas, gyda'r bwriad o gyflwyno'r dechnoleg hon fel cynllun rhad ar y farchnad agored i Gonwy. Tai modiwlwr oedd y rhain ac yr oeddent eisoes yn cydymffurfio â lefel 5 ar y raddfa cartrefi cynaliadwy. Yr oeddent yn gweithio ar dechnoleg fodiwlwr i ddod ag ansawdd a fforddiadwyedd i ddatblygwyr. Nid wyf yma i gynnig cwmni neu gyflenwr penodol, ond o ystyried y pryder y mae'r cwmni'n ei fynegi yn ei lyfryn fod cymdeithas yn wynebu argyfwng tai enfawr, pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i unedau tai fforddiadwy modiwlwr, i gael eu cyflwyno gan ddatblygwyr cymdeithasol a masnachol, a pha waith yr ydych yn ei wneud gyda chyflenwyr posibl o Gymru?

Jocelyn Davies: Yr ydych yn iawn i ddweud na ddylai'r un ohonom fod yma i hyrwyddo cwmni unigol, a dylid cofnodi hynny. Yr wyf wedi gweld nifer o'r cynnyrch hyn, ac mae fy swyddogion a minnau wedi cael trafodaethau gyda nifer o gwmnïau. Felly, gallaf eich sicrhau ein bod yn edrych ar hynny, ond os oes cynllun penodol yr hoffech imi ymweld ag ef, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ysgrifennu ataf amdano, Mark.

Jenny Randerson: Yn ddiweddar, cynhyrchodd y sefydliad Centre for Cities adroddiad yn dangos y dylid ffafrio datblygu safleoedd tir glas i fodloni dewisiadau pobl y mae arnynt angen tai, oherwydd mae'n debyg mai 3 y cant yn unig o bobl fyddai'n dewis byw mewn fflat fel dewis cyntaf. Yr ydym yn sôn am dai cymdeithasol, ond mae'r arian y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu yn golygu, yn ymarferol, ei bod bron yn amhosibl i gymdeithasau tai adeiladu tai, o gofio gwerth tir mewn dinas o faint Caerdydd. Felly, maent yn troi'n bennaf at adeiladu fflatiau. Beth fyddwch yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem ddiffrifol honno ac i ymdrin â'r diffyg llety sydd ar gael i deuluoedd mwy o faint?

Jocelyn Davies: Byddwch yn falch clywed

that we are carrying out a number of reviews based on the work that has been done by the Essex work streams. We are reviewing the grant that we give to social housing providers, so that we ensure that we get the right sorts of property in the right places. We are also holding an independent review of rents, because our rents policy must allow properties to remain affordable but also maintainable, to repay any borrowing that was undertaken to build it.

Preserving the Natural Environment

Q9 Andrew R.T. Davies: What discussions has the Minister had with her ministerial colleagues about preserving the Welsh natural environment? OAQ(3)1222(ESH)

Jane Davidson: I discuss this issue regularly with my ministerial colleagues, both in Cabinet and on a one-to-one basis. These discussions cover our work on climate change, planning, agri-environment programmes and other relevant issues. Sustainable development is our guiding theme here and includes preserving and enhancing, wherever possible, Wales's natural environment.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, Minister. Over the next decade, a key tension will develop between the demand for food production and the need to sustain the natural environment. Two departments work on this: yours and Elin Jones's. What discussions do you both have to try to mitigate these compounding pressures? With population growth and food scarcity on the agenda, and increasingly so, it is important that the right balance be struck so that farmers make informed choices about agri-environment schemes and can run their businesses effectively. How do you foresee managing those tensions successfully over the next decade, so that we can develop a coherent strategy?

Jane Davidson: As you know from Elin's statement yesterday, Glastir, the new agri-environment scheme, will contribute to biodiversity via its emphasis on ecosystem

ein bod yn cynnal nifer o adolygiadau'n seiliedig ar y gwaith sydd wedi'i wneud gan ffrydiau gwaith Essex. Yr ydym yn adolygu'r grant yr ydym yn ei roi i ddarparwyr tai cymdeithasol, fel y gallwn sicrhau ein bod yn cael y mathau iawn o eiddo yn y lleoedd iawn. Yr ydym hefyd yn cynnal adolygiad annibynnol o renti, oherwydd rhaid i'n polisi rhent ganiatáu i eiddo barhau'n fforddiadwy ond yn gynaliadwy hefyd, er mwyn ad-dalu unrhyw fenthyciadau a gafwyd i'w adeiladu.

Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol

C9 Andrew R.T. Davies: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda chyd-Weinidogion ynghylch gwarchod amgylchedd naturiol Cymru? OAQ(3)1222(ESH)

Jane Davidson: Byddaf yn trafod y mater hwn yn rheolaidd gyda'm cyd-Weinidogion, yn y Cabinet ac yn unigol. Mae'r trafodaethau hyn yn cwmpasu ein gwaith ar y newid yn yr hinsawdd, cynllunio, rhaglenni amaeth-amgylcheddol a materion perthnasol eraill. Datblygu cynaliadwy yw ein thema arweiniol yn y cyswllt hwn, ac mae'n cynnwys diogelu a gwella amgylchedd naturiol Cymru, lle bynnag y mae hynny'n bosibl.

Andrew R.T. Davies: Diolch am eich ateb, Weinidog. Dros y degawd nesaf, bydd tensiwn allweddol yn datblygu rhwng y galw am gynhyrchu bwyd a'r angen i gynnal yr amgylchedd naturiol. Mae dwy adran yn gweithio ar hyn: eich adran chi ac adran Elin Jones. Pa drafodaethau yr ydych chi eich dwy yn eu cael i geisio lliniaru'r pwysau hyn sy'n dwysáu? Gyda thwf y boblogaeth a phrinder bwyd ar yr agenda, a hynny'n gynyddol, mae'n bwysig sicrhau'r cydbwysedd iawn fel y gall ffermwyr wneud dewisiadau deallus am gynlluniau amaeth-amgylcheddol a rhedeg eu busnesau'n effeithiol. Sut yr ydych yn rhagweld y byddwch yn rheoli'r tensiynau hynny'n llwyddiannus dros y degawd nesaf, er mwyn inni allu datblygu strategaeth gydlynol?

Jane Davidson: Fel y gwyddoch o ddatganiad Elin ddoe, bydd Glastir, y cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, yn cyfrannu at fioamrywiaeth drwy ei bwyslais ar

services, particularly carbon and water cycles. We have regular discussions about the interface between our portfolios, and we are due to have one later this afternoon on issues relating to land use in the context of climate change and the new report.

Chris Franks: We should all celebrate the achievement of significant growth in the red kite population and the fact that there have even been sightings of black kites in the skies of Wales. That shows that matters can be improved in the natural environment. What discussions have you had with the Minister for Rural Affairs on the Glastir scheme? Do you agree that it is essential that the scheme be up and running by the start date of 2012, and that it must include measures to support the conservation and recovery of biodiversity priorities, such as the curlew and lapwing? That is an important target given the failure to meet the 2010 biodiversity targets.

2.50 p.m.

You will know, Minister, that the red list records the decline in various species, and position in relation to birds has now reached its worst position ever. British birds on the red list number 52, and the list shows a 20 per cent increase in the number of species that are declining, even though they should be common birds, and it includes such iconic species as the cuckoo and the lapwing. [*Laughter.*] In 1996, there were only 36 species on the red list—

The Presiding Officer: Order. This is a serious matter. Some may consider the bird population of this planet to be a laughing matter, but, as a member of the RSPB, I consider it to be a serious matter, and the Assembly will discuss it seriously.

Chris Franks: In 1996, there were only 36 species on the red list, and farmland and woodland species make up a majority of the threatened birds. Minister, what discussions are you having with your colleague about this?

wasanaethau ecosystemau, yn enwedig cylchredau carbon a dŵr. Yr ydym yn cael trafodaethau rheolaidd am y rhyngwyneb rhwng ein portffolios, a byddwn yn cael trafodaeth yn ddiweddarach y prynhawn yma ar faterion yn ymwneud â defnyddio tir yng nghyd-destun y newid yn yr hinsawdd a'r adroddiad newydd.

Chris Franks: Dylem bob un ddathlu'r twf sylweddol ym mhoblogaeth y barcud a'r ffaith bod y barcut du hyd yn oed wedi ei weld yn yr awyr yng Nghymru. Dengys hynny fod modd gwella pethau yn yr amgylchedd naturiol. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig am gynllun Glastir? A ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol i'r cynllun fod yn barod ac ar waith erbyn y dyddiad cychwyn, sef 2012, a'i bod yn rhaid iddo gynnwys mesurau i gefnogi'r gwaith o warchod ac adfer rhywogaeth sy'n cael blaenoriaeth o safbwynt bioamrywiaeth, megis y gylfinir a'r gornchwiglen? Mae hwnnw'n darged pwysig o gofio'r methiant i gyrraedd targedau bioamrywiaeth 2010.

Gwyddoch, Weinidog, fod y rhestr goch yn cofnodi'r dirywiad mewn amrywiol rywogaethau, ac mae'r sefyllfa o ran adar yn waeth nag erioed erbyn hyn. Mae 52 o adar Prydain ar y rhestr goch, ac mae'r rhestr yn dangos cynnydd o 20 y cant yn nifer y rhywogaethau sy'n dirywio, er y dylent fod yn adar cyffredin, ac mae'n cynnwys rhywogaethau eiconig megis y gwcw a'r gornchwiglen. [*Chwerthin.*] Yn 1996, dim ond 36 o rywogaethau oedd ar y rhestr goch—

Y Llywydd: Trefn. Mae hwn yn fater difrifol. Efallai fod rhai'n ystyried poblogaeth adar y blaned hon yn rhywbeth i chwerthin yn ei gylch, ond fel aelod o'r RSPB yr wyf yn ei ystyried yn fater difrifol, a bydd y Cynulliad yn ei drafod o ddifrif.

Chris Franks: Yn 1996, dim ond 36 o rywogaethau oedd ar y rhestr goch, a rhywogaethau tir amaeth a choetiroedd yw mwyafrif yr adar sydd dan fygythiad. Weinidog, pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda'ch cydweithiwr am hyn?

Jane Davidson: Not only do I have discussions with my colleague, Elin Jones, but our officials are in regular discussions with each other. In fact, technical and scientific support is shared by our departments. In the context of Glastir, our departments have worked closely together on its development. We are agreed that the new programme should maximise the wider environmental benefits and help to deliver a more sustainable land-management approach in Wales, and Elin Jones talked the Assembly through this yesterday.

In the context of wild bird statistics, the work that is done by the RSPB in its bird survey is tremendously important and complex. Some bird species are declining, such as the bullfinch, coal tit and goldcrest, and others are increasing, such as the dunnoek, nuthatch and song thrush. We have a range of actions under way to help to counter the decline that has been recorded. As I said in the statement that I issued earlier in the year, in developing a natural environment framework, we lay out our overall commitments in the context of biodiversity. Sadly, although we have failed to meet the 2010 target, so has everyone else; no-one has met this target, and that is why I issued a statement that we are looking actively at any ways in which we can improve the situation.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog. Symudwn yn awr at y ddadl am adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar seilwaith rheilffyrdd—mater arall y gwn sydd o ddiddordeb mawr inni yma yn y Cynulliad.

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Seilwaith Rheilffyrdd Cymru ar gyfer y Dyfodol

The Enterprise and Learning Committee's Report on Future Railway Infrastructure in Wales

Gareth Jones: Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Jane Davidson: Nid yn unig yr wyf fi'n cael trafodaethau gyda'm cydweithiwr, Elin Jones, ond bydd ein swyddogion hefyd yn trafod yn rheolaidd. A dweud y gwir, mae ein hadrannau'n rhannu cefnogaeth dechnegol a gwyddonol. Yng nghyd-destun Glastir, mae ein hadrannau wedi cydweithio'n agos ar y gwaith o'i ddatblygu. Yr ydym yn gytûn y dylai'r rhaglen newydd gynyddu'r manteision amgylcheddol ehangach i'r eithaf, a helpu cyflwyno dull mwy cynaliadwy o reoli tir yng Nghymru, ac eglurodd Elin Jones hyn wrth y Cynulliad ddoe.

Yng nghyd-destun ystadegau ar adar gwylltion, mae'r gwaith y mae'r RSPB yn ei wneud yn ei arolwg adar yn hynod o bwysig a chymhleth. Mae rhai rhywogaethau adar yn dirywio, megis coch y berllan, y titw penddu a'r dryw eurben, ac mae eraill yn cynyddu, megis llwyd y gwrych, telor y cnau a'r fronfraith. Mae gennym ystod o gamau gweithredu ar waith i helpu atal y dirywiad sydd wedi'i gofnodi. Fel y dywedais yn y datganiad a gyhoeddais yn gynharach yn y flwyddyn, wrth ddatblygu fframwaith ar gyfer yr amgylchedd naturiol, yr ydym yn gosod ein hymrwymiaidau cyffredinol yng nghyd-destun bioamrywiaeth. Yn anffodus, er inni fethu â chyrraedd targed 2010, mae pawb arall wedi methu hefyd; nid oes neb wedi cyrraedd y targed hwn, a dyna pam y cyhoeddais ddatganiad yn dweud ein bod wrthi'n edrych ar unrhyw ffyrdd i wella'r sefyllfa.

The Presiding Officer: I thank the Minister and the Deputy Minister. We now come to the debate on the Enterprise and Learning Committee report on railway infrastructure—another matter which I know is of great interest to us in the Assembly.

Gareth Jones: I move that

the National Assembly for Wales:

yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, 'Seilwaith Rheilffyrdd Cymru yn y Dyfodol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ionawr 2010. (NDM4441)

notes the Enterprise and Learning Committee's report, 'Future Railway Infrastructure in Wales', which was laid in the Table Office on 25 January 2010. (NDM4441)

Os ydym am ddatblygu gwasanaethau rheilffyrdd sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru, rhaid sicrhau trenau cyflymach, gorsafoedd gwell, a datganoli'r pwerau a'r cyllid ar gyfer y rheilffyrdd. Mae'r blaenoriaethau hyn ymhlith 21 o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Dysgu yn ei adroddiad, 'Seilwaith Rheilffyrdd Cymru yn y Dyfodol'.

If we are to develop rail services that are suitable for the twenty-first century in Wales, we must secure faster trains, better stations, and the devolution of the powers and associated funding for railway provision. These priorities were just some of the 21 recommendations made by the Enterprise and Learning Committee in its report, 'Future Railway Infrastructure in Wales'.

A minnau'n Gadeirydd y pwyllgor hwnnw, yr wyf yn falch iawn o gael agor y ddatl am yr adroddiad. Mae hwn yn amser da i ddechrau trafod y materion hyn er mwyn gosod sylfaen ar gyfer cyfnod rheoli nesaf Network Rail o 2014-19 a thu hwnt.

As Chair of that committee, I am delighted to open this debate on our report. This is an excellent time to start discussing these issues in order to set the foundation for Network Rail's next control period from 2014-19 and beyond.

Pan wnaethom gychwyn ar y daith hon, yr oedd y pwyllgor â'i lygad ar ddyfodol hirdymor y system rheilffyrdd yng Nghymru. Ein bwriad oedd dylanwadu ar y blaenoriaethau a'r mecanweithiau ar gyfer cynllunio strwythur y rheilffyrdd dros yr 20 i'r 30 blynedd nesaf. Y rhagolygon ar hyn o bryd yw y bydd angen i rwydwaith rheilffyrdd Cymru ddygydd â chynnydd o' safbwynt nwyddau a theithwyr dros y cyfnod hwnnw. Mae'n hanfodol, felly, fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ar gyfer y cynnydd hwn mewn galw. Rhaid i'r gwaith cynllunio ddechrau yn awr os yw Cymru i elwa o ddatblygiadau fel y cysylltiadau rheilffordd cyflym i weddill Prydain ac Ewrop.

When we embarked on this journey, the committee had its eye on the long-term future of the railway system in Wales. It was our intention to influence the priorities and mechanisms for railway infrastructure planning over the next 20 to 30 years. Current predictions are that the Welsh rail network will need to cope with an increase in both freight and passenger traffic over that time. It is therefore essential for the Welsh Government to work with partners to provide for the extra demand. Planning needs to start now if Wales is to benefit from developments such as high-speed rail links to the rest of the UK and Europe.

Hoffwn ddiolch i'r nifer fawr o dystion a gyflwynodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Mae llawer o bobl yn teimlo'n gryf am ddyfodol ein rheilffyrdd. Er enghraifft, bu inni ystyried deiseb a oedd wedi'i llofnodi gan fwy na 1,300 o bobl yn galw am fwy o wasanaethau i Abergwaun. Cyfran fach yn unig ydynt o'r llawer sy'n defnyddio ein rheilffyrdd yn rheolaidd.

I should like to thank the numerous witnesses who submitted evidence to this inquiry. There are many people out there who feel passionately about the future of our railways. We considered, for example, a petition signed by more than 1,300 people calling for more services to Fishguard. They are just a fraction of the many people in Wales who use the railway system regularly.

Estynnaf ddiolch arbennig hefyd i Gadeirydd, aelodau a staff y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig am ymuno â ni yn gynharach eleni mewn sesiwn graffu gynhyrchiol iawn ym

I also express thanks to the Chair, members and staff of the Welsh Affairs Select Committee for joining us earlier in the year in a very productive scrutiny session in Cardiff

mae Caerdydd. Rhaid imi gyferbynnu'r ymchwydd poblogaidd hwn o ddi-ddordeb ac optimistiaeth gydag ymateb petrusgar Llywodraeth Cymru i'r adroddiad. O'r 21 o argymhellion, pump yn unig a gafodd eu derbyn. Cytunwyd â saith arall mewn egwyddor, ond gwrthodwyd naw ohonynt.

A minnau'n rhywun nad yw'n ildio'n hawdd, hoffwn dynnu sylw at rai o uchafbwyntiau'r adroddiad, gan ddechrau gyda phwysigrwydd ystyried seilwaith rheilffyrdd Cymru o fewn cyd-destun polisi trafnidiaeth integredig a chynaliadwy. Mae angen integreiddio'r gwahanol fathau o drafnidiaeth â strategaethau lleihau carbon a'r amcanion ehangach ym meysydd cyfiawnder cymdeithasol, addysg, iechyd, creu cyfoeth, a'r system cynllunio defnydd tir, a hynny er mwyn lleihau'r angen i deithio yn y lle cyntaf. Er y dylid croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth wedi cynhyrchu blaenraglen rheilffyrdd am y tro cyntaf, byddai'r pwyllgor wedi hoffi gweld agwedd mwy cyfannol wedi'i phlannu yn rhan annatod o'i ymateb.

Bu inni edrych ar fater trydaneiddio'r rheilffyrdd, sydd â manteision sylweddol i deithwyr o ran teithio'n gyflymach, yn ddistawach ac yn esmwythach. Nid oes yr un trac wedi'i drydaneiddio yng Nghymru ar hyn o bryd, ac nid oes gennym ond y gobaith o drydaneiddio'r brif reilffordd o Lundain i Abertawe. Mae'r sefyllfa yma mor wahanol i honno yn yr Alban, sydd ag 16 o gynlluniau ar y gweill. Yr wyf yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi derbyn egwyddor ein hargymhelliad y dylai'r blaenoriaethau am drydaneiddio gynnwys y rheilffyrdd dargyfeiriol rhwng de Cymru a Llundain, rhwydwaith ardal Caerdydd, gan gynnwys rheilffyrdd y Cymoedd, a phrif reilffordd gogledd Cymru, yn ogystal â phrif reilffordd y de.

Argymhellwyd gennym hefyd y dylai twnnel Hafren gael ei uwchraddio a'i addasu ar gyfer trydaneiddio, ac y dylid comisiynu Network Rail i ystyried dewisiadau o ran adnewyddu'r twnnel yn y tymor hirach. Yr wyf yn siomedig bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi gwrthod hyn, o gofio pwysigrwydd y twnnel i wasanaethau rheilffyrdd i mewn a thu allan i

bay. I must contrast that popular swell of interest and optimism with the Welsh Government's tentative response to the report. Only five of our 21 recommendations were accepted, a further seven were agreed only in principle, while nine were rejected outright.

Not one to be deterred easily, I wish to draw attention to some of the highlights in our report, beginning with the importance of considering Wales's rail infrastructure within the context of an integrated and sustainable transport policy. There needs to be integration between different types of transport with carbon reduction strategies, wider strategic objectives in the areas of social welfare, education, health, wealth creation, and with the land use planning system to reduce the need for travel in the first place. Although it is to be welcomed that the Government has produced a rail forward programme for the first time, the committee would have wished to see a more holistic approach ingrained in its response.

We looked at the issue of electrification of railways, which has significant benefits for passengers, such as faster, quieter and smoother rail travel. There is currently no electrified track in Wales, and we have only the prospect of the electrification of the main line from London to Swansea. The situation here is in stark contrast to that in Scotland, where 16 schemes are planned. I am pleased that the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport has accepted the principle of our recommendation that the priorities for electrification should include the diversionary lines between south Wales and London, the Cardiff area network, including the Valleys lines, and the north Wales main line, as well as the south Wales main line.

We also recommended that the Severn tunnel be upgraded and adapted for electrification, and that Network Rail be commissioned to consider the options for renewing the tunnel in the longer term. I am disappointed that the Deputy First Minister rejected that, given the importance of the tunnel to rail services in and out of Wales. I note that his justification

Gymru. Nodaf ei gyfiawnhad nad oes ganddo'r pwerau angenrheidiol, a byddaf yn dychwelyd at y pwynt hwnnw maes o law.

Electrification is a prerequisite for operating high-speed rail. We were aware of the concerns expressed by some witnesses regarding the potential adverse impacts of high-speed rail on existing line services. We concluded, however, that Wales should not be left on the slow train. To benefit from high-speed rail links to the rest of England, Scotland and further still to Europe, the Welsh Government should develop a strong case and lobby jointly with other interested partners for a new high-speed line between London and south Wales, and for the north Wales main line to be directly connected to the proposed high speed 2 line from London to the north west and Scotland. I am delighted that the Deputy First Minister accepted our recommendation in full.

The committee received a lot of evidence about improving the rail links and services between north and south Wales. We recommended that the Welsh Government work with Network Rail and the regional transport consortia on a programme of line speed improvements, additional faster services, and a limited stop service on alternate hours during peak periods. While the Deputy First Minister has agreed to infrastructure improvements, he has not made any commitment for additional services in the future on funding grounds. That is an issue that I will return to in a moment.

Overcrowding and poor rolling stock were raised as major concerns in our inquiry, particularly on the busy Valleys lines into Cardiff. We are aware that money has been spent on making station platforms longer to accommodate longer trains, yet those extra carriages have still not been introduced. We therefore recommended again that the Government draw up a rolling stock plan. It is disappointing that the Deputy First Minister has rejected that recommendation, although I note that that he has, at least, set out some initiatives in this area.

was the fact that he lacks the necessary powers to do so, and I shall return to that point later.

Mae trydaneiddio'n hanfodol i weithredu rheilffyrdd cyflym. Yr oeddem yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd gan rai tystion am yr effeithiau andwyol y gallai rheilffyrdd cyflym eu cael ar wasanaethau rheilffyrdd presennol. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad na ddylai Cymru gael ei gadael ar y trê'n araf. Er mwyn elwa o gysylltiadau rheilffyrdd cyflym i weddill Lloegr, yr Alban ac ymhellach fyth i Ewrop, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu achos cryf a lobïo ar y cyd â phartneriaid eraill sydd a wnelont â'r mater i gael rheilffordd gyflym newydd rhwng Llundain a'r de, a sicrhau bod prif reilffordd y gogledd yn cael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r rheilffordd High Speed 2 arfaethedig o Lundain i ogledd-orllewin Lloegr a'r Alban. Yr wyf wrth fy modd fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn ein hargymhelliad yn llawn.

Daeth llawer o dystiolaeth i law'r pwyllgor ar wella'r cysylltiadau a'r gwasanaethau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de. Yr oeddem yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Network Rail a'r consortia cludiant rhanbarthol ar raglen o wella cyflymder rheilffyrdd, gwasanaethau cyflymach ychwanegol, a gwasanaeth sy'n aros mewn nifer cyfyngedig o orsafoedd bob yn ail awr yn ystod cyfnodau brig. Er bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cytuno â gwelliannau yn y seilwaith, nid yw wedi ymrwymo o gwbl i wasanaethau ychwanegol yn y dyfodol, am resymau cyllid. Mae hwnnw'n fater y deuf yn ôl ato yn y man.

Yr oedd trenau gorlawn a cherbydau gwael yn bryderon mawr a fynegwyd yn ystod ein hymchwiliad, yn enwedig ar reilffyrdd prysur y Cymoedd i mewn i Gaerdydd. Yr ydym yn ymwybodol bod arian wedi ei wario ar wneud platfformau gorsafoedd yn hwy er mwyn gwneud lle i drenau hwy, ond nid yw'r cerbydau ychwanegol hynny wedi eu cyflwyno o hyd. Felly, yr oeddem yn argymhell unwaith yn rhagor y dylai'r Llywodraeth lunio cynllun cerbydau. Mae'n siom fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi gwrthod yr argymhelliad hwnnw, er fy mod yn sylwi iddo o leiaf gyflwyno rhai mentrau

yn y maes hwn.

3.00 p.m.

The Deputy First Minister has responded more positively to other recommendations in our report, including the commissioning of feasibility studies for urban light railway systems in Cardiff, Swansea and Newport; accessibility improvements to stations, particularly the very many unstaffed stations in Wales—I am delighted that the Committee on Equality of Opportunity has decided to examine this issue in more detail—and also giving a far higher priority and more resources to shifting freight from road to rail, with all the infrastructure planning that that will require. There has been that positive response in those three areas.

We studied in some depth the legislative and financial arrangements that operate for the Scottish rail system, taking some enlightening evidence from representatives of Transport Scotland. In line with the vast majority of witnesses to this inquiry, we concluded that Scotland has benefited greatly from the devolution of powers and funding for investing in its rail infrastructure. We therefore recommended that Welsh Ministers should be given the equivalent powers of the Scottish Government, together with the associated specific funding. In our view, it is vital that Wales should be able to plan and invest directly in its future rail infrastructure, and not have to lobby at a Whitehall level, thereby competing with English priorities. I am pleased that the Deputy First Minister has accepted this recommendation in principle.

In the meantime, we are hindered by the fact that the Wales and borders Arriva Trains Wales franchise has no major investment obligations. The Welsh Government has indicated that it cannot use the opportunity of the next five-year performance review assessment of the franchise to seek improvements for rail passengers and better value for public money, and neither will it accept our recommendation to establish a round-table partnership with the regional transport consortia to explore how the

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb yn fwy cadarnhaol i argymhellion eraill yn ein hadroddiad, gan gynnwys comisiynu astudiaethau dichonoldeb ar gyfer systemau rheilffyrdd ysgafn trefol yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd; gwella hwylustod gorsafoedd, yn enwedig y gorsafoedd niferus iawn sydd heb staff yng Nghymru—yr wyf wrth fy modd fod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi penderfynu archwilio'r mater hwn yn fanylach—a rhoi llawer mwy o flaenoriaeth a mwy o adnoddau i symud nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd, a'r holl waith cynllunio seilwaith y bydd hynny'n gofyn amdano. Cafwyd ymateb cadarnhaol yn y tri maes hynny.

Buom yn astudio'n eithaf manwl y trefniadau deddfwriaethol ac ariannol sydd ar waith ar gyfer system rheilffyrdd yr Alban, gan gasglu rhywfaint o dystiolaeth gan gynrychiolwyr Transport Scotland i'n rhoi ar ben y ffordd. Fel mwyafrif llethol y tystion i'r ymchwiliad hwn, daethom i'r casgliad fod yr Alban wedi elwa'n fawr o ddatganoli pwerau a chyllid i fuddsoddi yn ei seilwaith rheilffyrdd. Felly, yr oeddem yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau cydradd â'r pwerau sydd gan Lywodraeth yr Alban, yn ogystal â'r cyllid penodol sy'n gysylltiedig. Yn ein barn ni, mae'n hollbwysig i Gymru allu cynllunio'i seilwaith rheilffyrdd ar gyfer y dyfodol a buddsoddi'n uniongyrchol ynddo, ac na ddylai orfod llobio yn Whitehall a chystadlu drwy hynny â blaenoriaethau ar gyfer Lloegr. Yr wyf yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.

Yn y cyfamser, cawn ein llesteirio gan y ffaith nad oes gan fasnachfaint Trenau Arriva Cymru ar gyfer rheilffordd Cymru a'r Gororau ddim rhwymedigaethau o bwys o ran buddsoddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud na all ddefnyddio'r cyfle a ddaw, yn sgil yr asesiad nesaf i adolygu perfformiad y fasnachfaint dros bum mlynedd, i geisio sicrhau gwelliannau i deithwyr ar y rheilffyrdd ac i sicrhau gwell gwerth am arian cyhoeddus. Ni fydd ychwaith yn derbyn ein hargymhelliad i sefydlu partneriaeth o

franchise could be improved. I ask the Deputy First Minister to reconsider this.

In conclusion, the evidence to our inquiry left us with the distinct impression that Wales is not getting its fair share of investment in rail infrastructure, or getting it fast enough. The Government's response to our inquiry report leaves me feeling frustrated, because it seems that, until we get the powers in Wales, such as those in Scotland, we cannot plan progressively for the long term. I am pleased that the Deputy First Minister accepted our recommendation to discuss such powers with his Cabinet colleagues, as they are sorely needed, and I urge him and the Government to take up that challenge.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Hoffwn ddiolch yn gynnes iawn i Gareth, ar ran y pwyllgor, am adroddiad llawn ac ystyrlon ac am amlinellu yn ei gyflwyniad heddiw nifer o'r argymhellion a drafodwyd ac a gytunwyd gan y pwyllgor. Fel yr eglurodd Gareth, yr ydym yn derbyn nifer ohonynt, gwrthod nifer ohonynt, a derbyn rhai mewn egwyddor. Mae'r nifer yr ydym wedi'i dderbyn yn dangos ein bod yn derbyn bod lle i wella mewn rhai meysydd. Mewn meysydd eraill, yr unig reswm pam y bu inni wrthod yr argymhellion oedd nad oes gennym mo'r pwerau ar hyn o bryd i wneud hynny neu, mewn gwirionedd, mae gofyn inni fynd ymhellach na'r flaenraglen a osodwyd gennym. Yn naturiol, mae arian wedi'i ddarparu yn y gyllideb ar gyfer y flaenraglen honno, felly ni allwn fynd ymhellach na hynny o fewn yr amlen ariannol sydd wedi'i gosod ar ein cyfer. Er fy mod yn cydymdeimlo'n fawr â nifer o'r pwyntiau a wnaeth Gareth—ni chredaf y gallwn anghytuno, mewn gwirionedd, â'r awydd sydd gennym fel pwyllgor ac fel Llywodraeth i wella'r gwasanaeth rheilffyrdd yng Nghymru—credaf fod tri pheth i'w hystyried.

Yn gyntaf, mae gennym flaenraglen ddatblygu wedi'i gosod am y tro cyntaf, fel y cydnabu'r pwyllgor. Yn ail, nid oes gennym

amgylch y bwrdd gyda'r consortia cludiant rhanbarthol i archwilio sut y gellid gwella'r fasnachfaint. Gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog ailystyried hyn.

I gloi, rhoddodd y dystiolaeth i'n hymchwiliad yr argraff bendant inni nad yw Cymru'n cael ei chyfran deg o fuddsoddiad mewn seilwaith rheilffyrdd, nad yn ddigon cyflym. Mae ymateb y Llywodraeth i'n hadroddiad ar yr ymchwiliad yn gwneud imi deimlo'n rhwystredig, oherwydd ymddengys na allwn gynllunio'n raddol ar gyfer y tymor hir nes inni yng Nghymru gael pwerau tebyg i'r rhai sydd gan yr Alban. Yr wyf yn falch fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn ein hargymhelliad i drafod pwerau o'r fath gyda'i gydweithwyr yn y Cabinet, gan fod arnom eu hangen yn daer, ac anogaf y Gweinidog a'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r her honno.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I wish to thank Gareth very sincerely, on behalf of the committee, for a full and meaningful report and for outlining in his contribution today a number of the recommendations that have been discussed and agreed by the committee. As Gareth explained, we accept several of them, we reject many, and we accept some in principle. Those that we do accept demonstrate that we accept that there is room for improvement in some areas. In other areas, the only reason for rejecting some recommendations is that we do not currently have the powers to act or, in fact, the recommendation goes further than the forward programme which we have set. Naturally, money has been provided in the budget for that forward programme, so we cannot go further within the funding earmarked for us. Even though I sympathise greatly with many of the points which Gareth made—I do not believe I could really disagree, in fact, with our desire as a committee and as a Government to improve rail services in Wales—I believe there are three things to consider.

Firstly, have set a development forward programme for the first time, as the committee recognised. Secondly, we do not

y pwerau mewn rhai meysydd i symud ymlaen. Yn drydydd, nid ni a gytunodd ar delerau masnachfaint Arriva. Felly, yr ydym mewn sefyllfa lle na allwn symud ymlaen i wneud rhai o'r newidiadau hynny nes daw cyfnod lle gallwn edrych ar fasnachfaint ar gyfer y dyfodol. Felly, mae yna lawer o rwystrau.

Mae'n bwysig nodi ein bod yn rhannu gweledigaeth hirdymor y pwyllgor ynglŷn â'n cyfeiriad, ond yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn wynebu realiti ariannol, y pwerau ac, wrth gwrs, y ffaith bod gennym raglen 'Cymru'n Un'. Ein prif flaenoriaeth o hyn tan fis Mai 2011 yw sicrhau ein bod yn eu gwireddu. Mae llawer ohonynt yn ymwneud â thrafnidiaeth.

O ran y pwynt olaf a grybwyllwyd gan Gadeirydd y pwyllgor, sef cael yr un pwerau â'r Alban, gwneir ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i gryfhau pwerau'r Cynulliad ond, fel y mae'n digwydd, nid yn y maes hwn. Felly, nid oes ymrwymiad gan y Llywodraeth yn 'Cymru'n Un' i wneud hynny. Serch hynny, gan fy mod yn sylweddoli pwysigrwydd y pwnc, yr wyf wedi cytuno i ofyn i'r Llywodraeth, yn gorfforaethol, i edrych ar y cais hwn i wneud ychydig waith arno, ac, o bosibl, i ddychwelyd at y pwyllgor pan fyddwn wedi ystyried hynny'n ofalus.

Gobeithiaf y caf gyfle i ymateb i rai o'r pwyntiau eraill a godir yn y drafodaeth yn nes ymlaen, ond gwnaf ddau bwynt ychwanegol ynglŷn â rhai o'r materion y soniodd Gareth amdanynt. Yn y lle cyntaf, o ran trydaneiddio, yr ydym yn rhannu'r un weledigaeth, ac, am y tro cyntaf, credaf y dylai'r Cynulliad gydnabod bod y Llywodraeth wedi llwyddo i berswadio'r Llywodraeth yn San Steffan i gynnwys, yn y rhaglen, drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe. Dyna'r tro cyntaf i hynny ddigwydd yn hanes gwleidyddiaeth Cymru. Nid yw hynny, yn ei hun, yn ddigon, gan fod gwasanaethau rheilffyrdd eraill y dymunwn eu trydaneiddio, ond o leiaf mae'r drws wedi'i agor am y tro cyntaf. Pwy bynnag fydd y Llywodraeth ar ôl unrhyw etholiad cyffredinol, gobeithiaf y bydd yn parhau â'r cynllun hwnnw.

Yn ail, o ran rheilffyrdd cyflym, cefais

have powers in some areas to move forward. Thirdly, it was not us who agreed the conditions of the Arriva franchise. We are, therefore, in a situation where we cannot move forward to make some of those changes until a time comes when we can look at the franchise for the future. So, there are a many barriers.

It is important that we share the committee's long-term vision with regard to where we want to go, but we, as a Government, have to face the financial reality, the powers and, of course, the fact that we have a 'One Wales' programme. Our main priority from now until May 2011 is to ensure that we achieve those. A number of those involve transport.

On the final point made by the committee Chairman, that we should have the same powers as Scotland, there is a commitment in 'One Wales' to strengthen the Assembly's powers, but, as it happens, not in this area. Therefore, there is no Government commitment in 'One Wales' to do so. However, since I realise the importance of the matter, I have agreed to ask the Government, in a corporate sense, to look at this application and to do some work, perhaps returning to the committee when we have considered the matter in detail.

I hope to have the opportunity to respond later on to some of the other points raised in the discussion, but I will make two additional points regarding some of the issues that Gareth mentioned. In the first instance, with regard to electrification, we share the same vision, and for the first time I believe the Assembly should recognise that the Government has succeeded in persuading the Westminster Government to include in the programme the electrification of the line to Swansea. That is the first time that has happened in the history of Welsh politics. Of itself it is not enough, because there are other rail services we want to see electrified, but at least the door has been opened for the first time. We hope that whoever is in Government after any general election will continue with that scheme.

Secondly, on high-speed railways, I met with

gyfarfod gyda chadeirydd pwyllgor HS2 Cyf. ar y pryd ac yr wyf hefyd yn bwriadu cael cyfarfod gyda'r cadeirydd newydd pan fydd cyfle. Mae cysylltu â'r gwasanaeth hwn yr un mor bwysig, yn y tymor hir, â thrydaneiddio oherwydd os bydd y gwasanaeth hwnnw'n digwydd yn Lloegr ac yn yr Alban, a bod Cymru'n cael ei heithrio, bydd hynny'n niweidiol, nid yn unig o safbwynt trafndiaeth ond i economi Cymru. Gallaf roi'r addewid i'r Cynulliad y byddwn yn gweithredu mewn unrhyw fodd posibl i sicrhau hynny. Gobeithio y bydd cyfle yn nes ymlaen i sôn am bethau eraill megis y stoc a gwella gwasanaethau tua'r gogledd ac ati, ond ar hyn o bryd, mae'n bwysig imi wrando ar rai o sylwadau Aelodau eraill y Cynulliad.

David Melding: I wish to start with a tribute to the Chair of the Enterprise and Learning Committee, Gareth Jones, who led us with his usual urbanity and distinction. The secretariat that serves him has produced a focused report, which is profoundly evidence-led. From start to finish, there was hardly any difference of opinion among committee members on where we were being led by the evidence. We have a highly focused report with very poignant and appropriate recommendations. I also share Gareth's frustration that the Deputy First Minister perhaps lacks the vision to grasp the wider conclusions of the report. He can hide behind some of the technicalities, but he could still have made some broader statements that would have sent a more positive signal.

This is a long-term job. At the end of his first contribution, the Deputy First Minister spoke about high-speed rail in the longer term; of course it is for the long term. However, with regard to some of the issues that we refer to, such as the condition of the Severn tunnel, the Welsh Assembly Government must really take more ownership and not hide behind some of the technicalities. If you do not do it, I think that it is less likely that a Government in London is going to give the Severn tunnel the priority that we would give it, being based in Cardiff.

3.10 p.m.

the then chair of HS2 Ltd, and I also intend to have a meeting with the new chair when the opportunity arises. Linking into that service is just as important in the long term as electrification, because if that service happens in England and Scotland and Wales is left behind, it will be damaging not only in transport terms, but for the Welsh economy. I can promise the Assembly that we will act in any way possible to ensure that. I hope there will be an opportunity later to mention some other issues, such as rolling stock and improving north-south links, and so on, but at present it is better for me to listen to the comments of some other Assembly Members.

David Melding: Dymunaf ddechrau trwy roi teyrnged i Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu, Gareth Jones, a'n harweiniodd yn ei ffordd hynaws a rhagorol arferol. Mae'r ysgrifenyddiaeth sy'n ei wasanaethu wedi cynhyrchu adroddiad ac iddo ffocws, sydd wedi'i arwain i raddau helaeth iawn gan dystiolaeth. O'r dechrau i'r diwedd, ni fu fawr ddim gwahaniaeth barn ymysg aelodau'r pwyllgor ynghylch ble oedd y dystiolaeth yn ein harwain. Mae gennym adroddiad ac iddo ffocws penodol iawn ac argymhellion ystyrlon a threiddgar iawn. Yr wyf fi, fel Gareth, yn teimlo'n rhwystredig am nad oes gan y Dirprwy Brif Weinidog y weledigaeth efallai i amgyffred casgliadau ehangach yr adroddiad. Gall guddio y tu ôl i rai o'r manylion technegol, ond gallai hefyd fod wedi gwneud rhai datganiadau mwy cyffredinol a fyddai wedi cyfleu neges fwy cadarnhaol.

Mae hwn yn waith tymor hir. Ar ddiwedd ei gyfraniad cyntaf, soniodd y Dirprwy Brif Weinidog am reilffyrdd cyflym yn y tymor hir; wrth gwrs maent ar gyfer y tymor hir. Fodd bynnag, o ran rhai o'r materion y cyfeiriwn atynt, megis cyflwr twnnel Hafren, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gymryd mwy o berchenogaeth a pheidio â chuddio y tu ôl i rai o'r materion technegol. Os na wnewch hynny, credaf y bydd Llywodraeth yn Llundain yn llai tebygol o roi'r un flaenoriaeth i dwnnel Hafren ag y byddem ni'n ei roi, gan ein bod ni yng Nghaerdydd.

I will start my contribution by looking at electrification. I think that this really sums up the situation that we are in. About 35 per cent of the UK rail network is now electrified and I remember asking Network Rail—of course, I knew the answer, but I feigned ignorance—'How much of the Welsh network is electrified?' The rather embarrassed official said, 'Well, we are committed to electrification; the Valleys network and the line to Swansea are prime targets for electrification, and the case has been made.' I asked again, 'But how much of the Welsh network is electrified?' and, of course, the official sheepishly had to say, 'None of it.' Thirty five per cent of the UK network is electrified, but none of the network in Wales.

Eleanor Burnham: Do you not agree that we have missed out on a lot of European funding? I believe that the previous Member for Wrexham, Dr Marek, who used to keep a watch on all these issues, fought as an MP to discuss the possibility of spending European money on this. The line to Crewe from Euston is electrified. It is the natural progression and yet we are now 10 years into devolution and we have made no progress. Surely there would have been a political and psychological benefit for constituents in north Wales if they had the benefit of electrification for some of the journey from north to south, which may have shortened that long journey.

David Melding: I certainly think that the north Wales line needs to be electrified as a matter of urgency, as well as the Valleys network. I think that all parties accept that the Swansea to London line will be electrified at some point in the medium term. Whether we could have transferred European moneys, given the current restrictions on some infrastructure projects, I simply do not know. I do not think that the committee took direct evidence on that.

We want to ensure that Wales gets its fair share of infrastructure spend in future. It is important for the Welsh Assembly

Dechreuaf fy nghyfraniad trwy ystyried trydaneiddio. Credaf fod hynny'n crynhoi'n wirioneddol y sefyllfa yr ydym ynddi. Mae oddeutu 35 y cant o rwydwaith rheilffyrdd y DU wedi'i drydaneiddio erbyn hyn, a chofiaf ofyn i Network Rail—yr oeddwn yn gwybod yr ateb, wrth gwrs, ond esgusais and oeddwn—'Faint o'r rhwydwaith yng Nghymru sydd wedi'i drydaneiddio?' Dywedodd y swyddog, gan deimlo braidd yn lletchwith, 'Wel, yr ydym wedi ymrwymo i waith trydaneiddio; mae rhwydwaith y Cymoedd a'r rheilffordd i Abertawe yn brif dargedau ar gyfer trydaneiddio, ac mae'r achos wedi'i gyflwyno.' Gofynnais eto, 'Ond faint o'r rhwydwaith yng Nghymru sydd wedi'i drydaneiddio?', ac wrth gwrs, yr oedd yn rhaid i'r swyddog gyfaddef mewn cywilydd, 'Dim'. Mae 35 y cant o rwydwaith y DU wedi'i drydaneiddio, ond nid o'r rhwydwaith yng Nghymru.

Eleanor Burnham: Oni chytunwch ein bod wedi colli cyfle i gael llawer o gyllid Ewropeaidd? Credaf fod y cyn-Aelod dros Wrecsam, Dr Marek, a arferai gadw golwg ar bob un o'r materion hyn, frwydro fel Aelod Seneddol i drafod posibilrwydd gwario arian Ewropeaidd ar hyn. Mae'r rheilffordd o Euston i Crewe wedi'i thrydaneiddio. Dyna'r cam nesaf naturiol, ac eto, 10 mlynedd ers datganoli, nid ydym wedi gwneud dim cynnydd. Rhaid y byddai wedi bod o fantais wleidyddol a seicolegol i etholwyr yn y gogledd pe baent wedi elwa o waith trydaneiddio rhan o'r daith o'r gogledd i'r de, a allai fod wedi cyflymu'r daith hir honno.

David Melding: Yr wyf yn sicr yn credu bod angen trydaneiddio rheilffordd y gogledd ar frys, yn ogystal â rhwydwaith y Cymoedd. Credaf fod pob plaid yn derbyn y bydd y rheilffordd rhwng Abertawe a Llundain yn cael ei thrydaneiddio ryw bryd yn y tymor canolig. Ni wn a fyddem wedi gallu trosglwyddo arian o Ewrop, o gofio'r cyfyngiadau cyfredol ar rai prosiectau seilwaith. Ni chredaf fod y pwyllgor wedi cael tystiolaeth uniongyrchol ar hynny.

Yr ydym am sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o wariant ar seilwaith yn y dyfodol. Mae'n bwysig i Lywodraeth y

Government to lobby hard for high-speed rail. We have just heard the Government's intentions for the first wave of the high-speed rail network and I think that we need to combine the whole Severn-side region as it were—Bristol in particular—to make sure that high-speed rail does come to south Wales. That really is very important.

I will just make a few comments on where this evidence seemed to lead us, and that relates to further powers. I think that the Scottish model has a lot to recommend it and I am pleased that the Welsh Assembly Government is open to examining the case in detail. I have to say that I cannot see how we would do worse than we have done in the last 10 or 20 years if we had these powers and exercised them in the way that they have done in Scotland. We did ask about the technical issues involved, because obviously there are many more cross-border networks between England and Wales than between Scotland and England. It seemed to me that there was a technical solution to all these and that we would benefit from having this responsibility transferred to us. Indeed, a former Welsh Assembly Government, which you were not part of, Deputy First Minister, did look at this case. I suspect that it came quite close to requesting similar powers to those that were eventually devolved to Scotland, but we did not get them in the end.

I will finish by referring to the Arriva franchise. We must learn the lesson that, if you award a franchise for an extended period, you have to ensure that it includes a high level of improvement and capital development. We have ended up with a relatively long contract with not much ability to influence it. One of the witnesses said that it was a cheap and cheerful contract. However, it has delivered on many things, such as punctuality, and the number of passengers carried has gone up. I know that the former First Minister always used to say that when I was questioning him on the franchise. However, I think that we could have expected more than we got when a previous Welsh Assembly Government negotiated the franchise.

Cynulliad lobio'n galed i gael rheilffordd gyflym. Yr ydym newydd glywed bwriadau'r Llywodraeth ar gyfer y don gyntaf o reilffyrdd cyflym, a chredaf fod angen inni gyfuno holl ranbarth glannau afon Hafren, fel petai—yn enwedig Bryste—i sicrhau bod rheilffordd gyflym yn dod i dde Cymru. Mae hynny'n wirioneddol bwysig.

Yr wyf am wneud rhai sylwadau am y cyfeiriad yr oedd y dystiolaeth hon fel pe bai'n mynd â ni iddo, ac mae hynny'n ymwneud â phwerau ychwanegol. Credaf fod gan fodel yr Alban lawer o bethau sydd o'i blaid, ac yr wyf yn falch fod Llywodraeth y Cynulliad yn barod i archwilio'r achos yn fanwl. Rhaid imi ddweud na allaf weld sut y gallem wneud yn waeth nag yr ydym wedi'i wneud yn y 10 neu'r 20 mlynedd diwethaf pe bae gennym y pwerau hyn a phe baem wedi'u defnyddio fel y mae'r Alban wedi'u defnyddio. Buom yn holi ynghylch y problemau technegol dan sylw, oherwydd mae'n amlwg bod llawer mwy o rwydweithiau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr nag sydd rhwng yr Alban a Lloegr. Ymddangosai i mi fod ateb technegol i'r rhain i gyd ac y byddem yn elwa o gael y cyfrifoldeb hwn wedi'i drosglwyddo inni. Yn wir, bu cyn-Lywodraeth y Cynulliad, nad oeddech chi'n rhan ohoni, Ddirprwy Brif Weinidog, yn ystyried yr achos hwn. Tybiaf iddi ddod yn eithaf agos at ofyn am bwerau tebyg i'r pwerau hynny a gafodd eu datganoli yn y pen draw i'r Alban, ond ni chawsom ni'r pwerau yn y diwedd.

Hoffwn orffen trwy gyfeirio at fasnachfaint Arriva. Rhaid inni ddysgu'r wers, sef, os dyfernir masnachfaint am gyfnod estynedig, rhaid ichi sicrhau ei bod yn cynnwys lefel uchel o waith gwella a datblygu cyfalaf. Yr hyn sydd gennym yn awr yw contract eithaf hir, heb lawer o allu i ddylanwadu arno. Dywedodd un o'r tystion ei fod yn contract rhad ond digon dymunol. Fodd bynnag, mae'r contract wedi cyflawni nifer o bethau, megis sicrhau prydlondeb, ac mae nifer y teithwyr wedi cynyddu. Gwn y byddai'r cyn-Brif Weinidog yn dweud hynny bob tro pan fyddwn yn ei holi ynghylch y fasnachfaint. Fodd bynnag, credaf y gallem fod wedi disgwyl mwy na'r hyn a gawsom pan oedd Llywodraeth flaenorol y Cynulliad yn trafod y fasnachfaint.

The Deputy First Minister: May I intervene at that point?

David Melding: I do hope that if you are in post when the new franchise comes up in a few years' time, that you will pay particular heed to the long-term consequences.

The Deputy First Minister: I think that it is important to stress that the previous administration here had no influence over this; the franchise was fixed before the powers were transferred.

David Melding: I have to say that that is not my understanding, but I will check that. I will write to you once the situation has been established. I will take heed of what you have said if I have made an error in that respect.

I will conclude by saying that the report shows what effective scrutiny can do, and what you can get through a cross-party approach that does not have any hard partisan element. We have brought light to bear on an important subject and have given it extensive study. Many of these questions have not been examined at this level before. I now hope that the Welsh Assembly Government, in the years ahead, has the courage to raise its vision and deliver for the people of Wales.

Brian Gibbons: I am a member of the committee, although most of this work has been done by colleagues. I do not take any credit for the report, which is very positive, although, by their nature, all reports will seek to be aspirational and 'must do better' will always be appended. Given Gareth's previous occupation, he probably could not resist adding that to the report.

Nonetheless, it would be a mistake not to recognise the real progress that is being made in this regard. Going back to 1997, the number of rail journeys in the United Kingdom was around 800 million. There are now 1.2 billion rail journeys every year, which is an increase of over 50 per cent in

Y Dirprwy Brif Weinidog: A gaf fi ymyrryd yn y fan honno?

David Melding: Os byddwch yn eich swydd pan fydd y fasnachfaint newydd yn cael ei chynnig ymhen ychydig flynyddoedd, gobeithio'n wir y byddwch yn ystyried y canlyniadau tymor hir yn ofalus.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Credaf ei bod yn bwysig pwysleisio nad oedd gan y weinyddiaeth flaenorol yn y fan hon ddim dylanwad ar hyn; yr oedd y fasnachfaint wedi'i phennu cyn i'r pwerau gael eu trosglwyddo.

David Melding: Rhaid imi ddweud nad felly'r wyf fi'n ei deall hi, ond fe holaf am hynny. Ysgrifennaf atoch pan fydd y sefyllfa wedi ei sefydlu. Byddaf yn ystyried yr hyn yr ydych wedi'i ddweud os wyf wedi gwneud camgymeriad yn y cyswllt hwnnw.

Hoffwn gloi trwy ddweud bod yr adroddiad yn dangos yr hyn y gall craffu effeithiol ei gyflawni, a'r hyn y gallwch ei gael trwy ddull trawsbleidiol o weithredu nad yw'n cynnwys elfen bleidiol gref. Yr ydym wedi taflu goleuni ar bwnc pwysig ac wedi'i astudio'n helaeth. Mae nifer o'r cwestiynau hyn heb eu harchwilio ar y lefel hon o'r blaen. Gobeithio'n awr y bydd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ystod y blynyddoedd i ddod, y dewrder i godi lefel ei gweledigaeth a gweithredu dros bobl Cymru.

Brian Gibbons: Yr wyf yn aelod o'r pwyllgor, er bod y rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i wneud gan gydweithwyr. Ni chymeraf ddim clod am yr adroddiad hwn, sy'n adroddiad cadarnhaol iawn, er y bydd pob adroddiad, yn ei hanfod, yn ceisio dangos dyhead ac yn nodi bob amser ei bod yn 'rhaid inni wneud yn well'. O gofio galwedigaeth flaenorol Gareth, mae'n sicr na allai ymatal rhag ychwanegu hynny at yr adroddiad hwn.

Er hynny, byddai'n gamgymeriad peidio â chydabod y cynnydd gwirioneddol a wneir yn y cyswllt hwn. Yn ôl yn 1997, yr oedd oddeutu 800 miliwn o deithiau rheilffordd yn y Deyrnas Unedig. Erbyn hyn mae 1.2 biliwn o deithiau rheilffordd bob blwyddyn, sy'n gynydd o dros 50 y cant mewn ychydig dros

just over a decade. In Wales, the number of rail journeys is of the order of 20 million, two thirds of which are wholly in Wales. Real progress has been made, and it is important that we acknowledge that.

Looking at how the train operating companies are working here in Wales, I am no great fan of First Great Western, but I am pleased to see that, last December, it was voted as being the train operator of the year as a result of its performance in relation to its routes. Two years ago, it had a punctuality rate of 82 per cent. I issued a number of public statements at the time criticising the railway company on its performance, but its current rate of punctuality is over 92 per cent, with the south Wales wing, as it were, performing better than the franchise in general. Its performance is better than the British average for punctuality, which is 91 per cent. Indeed, in the last four months, punctuality on the Great Western main line in south Wales was around 94 per cent. Again, that is a story of positive progress, which we need to acknowledge. I am sure that that level of improvement is bound to continue if electrification goes ahead.

I was equally pleased to see the Passenger Focus report on Arriva Trains Wales, which showed that, compared with an overall satisfaction rate across Great Britain of 83 per cent, the figure for the franchise in Wales was 86 per cent. Therefore, again, a somewhat better figure is reported for Wales than for Great Britain.

However, there were a number of areas where dissatisfaction was expressed, which are the areas on which I would like to concentrate, particularly as they address the issues in recommendation 12. If we look at the Passenger Focus report, we find that almost one third of all passengers were unhappy with cleanliness and their personal security during their journey, with well under 50 per cent happy with the facilities that were available. That bears out my experience in relation to the passenger journey on our transport.

3.20 p.m.

ddegawd. Yng Nghymru mae oddeutu 20 miliwn o deithiau rheilffordd, a dwy ran o dair o'r rheini'n gyfan gwbl yng Nghymru. Mae cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud, ac mae'n bwysig inni gydnabod hynny.

Wrth ystyried sut mae'r cwmnïau trenau'n gweithredu yma yng Nghymru, nid wyf yn gefnogwr mawr o First Great Western, ond yr wyf yn falch gweld iddo gael ei ddewis yn gwmni trenau gorau'r flwyddyn fis Rhagfyr diwethaf, o ganlyniad i'w berfformiad yng nghyswllt ei lwybrau. Ddwy flynedd yn ôl, yr oedd ganddo gyfradd prydlondeb o 82 y cant. Gwneuthum nifer o ddatganiadau cyhoeddus ar y pryd yn beirniadu'r cwmni rheilffyrdd am ei berfformiad, ond mae ei gyfradd prydlondeb ar hyn o bryd dros 92 y cant, ac mae adain y de, fel petai, yn perfformio'n well na'r fasnachfaint yn gyffredinol. Mae ei berfformiad yn well na'r cyfartaledd Prydeinig mewn prydlondeb, sy'n 91 y cant. Yn wir, yn ystod y pedwar mis diwethaf yr oedd prydlondeb ar brif reilffordd Great Western yn y de tua 94 y cant. Unwaith eto, mae'n stori am gynnydd cadarnhaol, ac mae angen inni ei chydabod. Yr wyf yn siŵr y bydd y lefel honno o welliant yn sicr o barhau os bydd trydaneiddio'n digwydd.

Yr oeddwn yr un mor falch gweld adroddiad Passenger Focus ar Drenau Arriva Cymru, a ddangosai fod y gyfradd gyffredinol ar gyfer bodlonrwydd yn achos y fasnachfaint yng Nghymru yn 86 y cant, o'i chymharu â'r ffigur ar gyfer Prydain Fawr o 83 y cant. Unwaith yn rhagor, felly, mae'r ffigur ychydig yn well ar gyfer Cymru na Phrydain Fawr.

Fodd bynnag, mynegwyd anfodlonrwydd â nifer o feysydd, sef y meysydd yr hoffwn ganolbwyntio arnynt, yn enwedig gan eu bod yn mynd i'r afael â'r materion yn argymhelliad 12. O edrych ar adroddiad Passenger Focus, gwelwn fod bron i draean yr holl deithwyr yn anhapus â glanweithdra a'u diogelwch personol yn ystod eu taith, ac yr oedd tipyn llai na 50 y cant ohonynt yn hapus â'r cyfleusterau a oedd ar gael. Mae hynny'n cadarnhau fy mhrofiad i o daith y teithiwr ar ein trafndiaeth.

This is of particular importance to me at a constituency level, particularly in relation to the facilities at Port Talbot railway station. The railways are important to my constituents. The level of car ownership in the Neath Port Talbot area is the fifth lowest in Wales, so public transport is very important. Port Talbot station is an island platform and the first time that I was made aware of difficulties in relation to the platform was when a constituent approached me to report that they had arrived late on a train to Port Talbot and had ended up trapped on the platform because the only way in which you can get on and off it, particularly if staff are not available at the station, is via steps. I realise that the Deputy First Minister has included, in his forward plans, proposals to upgrade railway stations, but I am sorry to see that the Port Talbot railway station has not been included in those upgrade proposals. So, on balance, this report is challenging. It probably does not give sufficient weight to the progress that has been made, but, at a local level, I am somewhat disappointed that the needs of train passengers from the Port Talbot station area have been overlooked.

Jenny Randerson: This is a wide-ranging report and I will draw out three or four aspects of it that I think are important. The first is that it is undoubtedly the case that having greater powers over railway infrastructure has brought tremendous benefits to Scotland. That was on the cards at the time when these arrangements were made and Wales could have pushed for it, but the Minister at that time said that it might be too risky. However, in Scotland, it has proved to be a much better deal and has led to much greater funding for the railways.

The report also deals with electrification. I emphasise the importance not only of the long-distance London to south Wales electrification, but of electrification of north to south Wales lines and of the Valleys lines. The message that we were given was that this needs to be done in one rolling programme and that it is important for the Government to push for this. We also included, among

Mae hyn yn arbennig o bwysig i mi ar lefel etholaethol, yn enwedig o ran y cyfleusterau gorsaf reilffordd Port Talbot. Mae'r rheilffyrdd yn bwysig i'm hetholwyr. Pedwar lle yn unig yng Nghymru sydd â lefel is o berchnogion ceir na Chastell-nedd Port Talbot, felly, mae cludiant cyhoeddus yn bwysig iawn. Mae gorsaf Port Talbot yn blatfform ynysol, a'r tro cyntaf y deuthum i wybod am drafferthion gyda'r platfform oedd pan ddaeth etholwr ataf i ddweud iddo gyrraedd Port Talbot yn hwyr ar drên, a gweld nad oedd modd iddo ddod oddi ar y platfform oherwydd mai'r unig ffordd o fynd yn ôl ac ymlaen i'r platfform, yn enwedig os nad oes staff yn yr orsaf, yw drwy ddefnyddio'r grisiau. Yr wyf yn sylweddoli bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cynnwys cynigion i uwchraddio gorsafoedd rheilffyrdd yn ei flaengynlluniau, ond mae'n flin gennyf weld nad yw gorsaf reilffordd Port Talbot wedi'i chynnwys yn y cynigion hynny ar gyfer uwchraddio. Felly, at ei gilydd mae'r adroddiad hwn yn heriol. Mae'n debyg nad yw'n rhoi digon o bwyslais ar y cynnydd sydd wedi'i wneud, ond ar lefel leol yr wyf braidd yn siomedig bod anghenion teithwyr ar drenau o ardal gorsaf Port Talbot wedi eu hanwybyddu.

Jenny Randerson: Mae hwn yn adroddiad eang, a hoffwn sôn am dair neu bedair agwedd arno sy'n bwysig yn fy marn i. Yr agwedd gyntaf yw bod cael rhagor o bwerau dros y seilwaith rheilffyrdd, heb os, wedi esgor ar fanteision aruthrol i'r Alban. Yr oedd disgwyl i hynny ddigwydd pan wnaed y trefniadau hyn, a gallai Cymru fod wedi pwyso i gael yr un bwerau, ond dywedodd y Gweinidog ar y pryd y gallai hynny fod yn rhy fentrus. Yn yr Alban, fodd bynnag, gwelwyd ei bod yn ddêl well o lawer, ac mae wedi arwain at sicrhau llawer mwy o gyllid i'r rheilffyrdd.

Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin â thrydaneiddio. Yr wyf yn pwysleisio pwysigrwydd nid yn unig trydaneiddio dros bellter mawr rhwng Llundain a'r de, ond trydaneiddio rheilffyrdd rhwng y gogledd a'r de a thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Y neges a gawsom oedd bod angen gwneud hynny mewn un rhaglen dreigl, a'i bod yn bwysig i'r Llywodraeth bwysio am hynny.

dozens of important recommendations, recommendations relating to the reopening of stations and the remodelling of stations, for example, the Severn Tunnel Junction station came up.

In my experience, this is just about the best report that has been produced by a scrutiny committee of which I have been lucky enough to be a member. I place on record my thanks to the Chair of the committee for the always fair way in which he deals with committee meetings and with evidence. I also thank the committee staff and, in particular, the many witnesses. There were other witnesses that we could have called, but did not have time to do so. I am thinking particularly of Yn Ein Blaenau, which has an ambitious proposal for a north-to-south rail link. That organisation sent in written evidence, but did not give oral evidence. It also talked about the importance of the upgrade of the Conwy valley line.

I, therefore, join my colleagues in despair at the tone of the rejection of so many of the recommendations here. I am depressed by the lack of vision demonstrated in the reasons for the rejections. The Minister said that it is not we who agreed the Arriva Trains Wales franchise. That is typical of the issue, because, in technical terms, we were a consultee. However, the Minister at the time made it clear that he was absolutely in the loop on it. He gave a very different picture from the totally hands-off view that we have just been given. No-one here would dream of blaming the current Minister for the Arriva franchise that we have. Clearly, he had nothing to do with it personally.

I am concerned that this is a rejected opportunity to consider including additional proposals that we put forward on increasing speed and various capacity improvements. The Minister keeps referring to his own programme, but time moves on and ideas move on and, indeed, the needs of the travelling public have moved on and travellers are increasing in great numbers.

Ymysg dwsinau o argymhellion pwysig, cafodd argymhellion ynghylch ailagor gorsafoedd ac ailwampio gorsafoedd eu cynnwys gennym hefyd, er enghraifft, soniwyd am orsaf Cyffordd Twannel Hafren.

O'm profiad i, dyma'r adroddiad gorau bron a gynhyrchwyd erioed gan bwyllgor craffu imi fod yn ddigon ffodus i fod yn aelod ohono. Yr wyf am gofnodi fy niolch i Gadeirydd y pwyllgor am y modd teg y mae bob amser yn ymdrin â chyfarfodydd pwyllgor ac â thystiolaeth. Diolch i staff y pwyllgor hefyd, a'r holl dystion yn enwedig. Yr oedd tystion eraill y gallem fod wedi'u galw, ond ni chawsom amser i wneud hynny. Yr wyf yn meddwl yn benodol am Yn Ein Blaenau, sydd â chynnig uchelgeisiol ar gyfer cyswllt rheilffordd rhwng y gogledd a'r de. Cyflwynodd y sefydliad hwnnw dystiolaeth ysgrifenedig, ond ni roddodd dystiolaeth ar lafar. Soniodd hefyd am bwysigrwydd uwchraddio rheilffordd dyffryn Conwy.

Felly, ymunaf â'm cydweithwyr wrth deimlo anobaith ynghylch y modd y mae cynifer o'r argymhellion sydd yma wedi eu gwrthod. Yr wyf yn teimlo'n ddigalon am y diffyg gweledigaeth a ddangosir yn y rhesymau dros wrthod yr argymhellion. Dywedodd y Gweinidog nad ni a gytunodd ar fasnachfrait Trenau Arriva Cymru. Mae hynny'n nodweddiadol o'r broblem, oherwydd, yn dechnegol, ymgynghorwyd â ni. Fodd bynnag, ar y pryd eglurodd y Gweinidog ei fod yn bendant yn rhan o'r trafodaethau. Rhoddodd ddarlun gwahanol iawn i'r hyn yr ydym newydd ei gael, sef na chymerwyd rhan o gwbl yn y gwaith. Ni fyddai neb yma'n breuddwydio beio'r Gweinidog presennol am y fasnachfrait Arriva sydd gennym. Mae'n amlwg nad oedd ganddo ddim i'w wneud â'r fasnachfrait yn bersonol.

Yr wyf yn pryderu bod hwn yn gyfle a wrthodwyd i ystyried cynnwys cynigion ychwanegol a gyflwynwyd gennym ynghylch cynyddu cyflymder a gwneud amryw welliannau mewn capasiti. Mae'r Gweinidog yn cyfeirio byth a hefyd at ei raglen ei hun, ond mae amser yn symud yn ei flaen ac mae syniadau'n symud yn eu blaen, ac yn wir mae anghenion y cyhoedd sy'n teithio wedi symud yn eu blaen, ac mae nifer y teithwyr

yn cynyddu'n sylweddol.

Mark Isherwood: You referred to the Arriva franchise; it has been reported this afternoon that Wrexham and Shropshire, or its parent company, has made a bid for Arriva buses and trains. Its share price has risen 20 per cent on the news. Do you share my interest in the implications that this might have for the Arriva franchise should this develop into something bigger?

Mark Isherwood: Yr oeddech yn cyfeirio at fasnachfaint Arriva; dywedwyd y prynhawn yma fod Wrexham and Shropshire, neu ei riant-gwmni, wedi gwneud cais i brynu bysiau a threnau Arriva. Mae pris ei gyfranddaliadau wedi codi 20 y cant yn ôl y newyddion. A oes gennych chi, fel finnau, ddi-ddordeb yng ngoblygiadau posibl hynny ar fasnachfaint Arriva, pe bai'n datblygu'n rhywbeth mwy?

Jenny Randerson: I very much hope that the Minister will take the opportunity of a possible change in the management and ownership of Arriva to try to bargain for some rather better conditions for us as a result. I am concerned—and I am depressed—above all by the Minister's rejection of our ideas on how to improve rolling stock. The overcrowding on the Valleys lines—I am sure that Jeff Cuthbert will join in on this point later—is unparalleled throughout Europe. It is high time that something was done about it. Therefore, I am depressed to hear that the Minister feels that he cannot do anything.

Jenny Randerson: Yr wyf yn gobeithio'n fawr y bydd y Gweinidog yn cymryd y cyfle efallai i newid y sawl sy'n rheoli ac sy'n berchen Arriva, er mwyn ceisio bargeinio am amodau ychydig yn well inni o ganlyniad. Yr wyf yn pryderu—ac yr wyf yn ddigalon—yn bennaf fod y Gweinidog wedi gwrthod ein syniadau am y modd i wella cerbydau. Mae'r trenau gorlawn sydd ar reilffyrdd y Cymoedd—yr wyf yn siŵr y bydd Jeff Cuthbert yn sôn am y pwynt hwn yn ddiweddarach—heb eu tebyg ar draws Ewrop. Mae'n hen bryd i rywbeth gael ei wneud ynghylch hyn. Felly, teimlaf yn ddigalon pan glywaf fod y Gweinidog yn teimlo na all wneud dim byd.

The rejection hides behind semantics and technicalities. Some of the reasons given smack of absolute desperation, and I would say that one of the reasons given is spurious, because recommendation 20, which relates to the five-year performance review, is rejected for reasons that were not included in the recommendation. Therefore, I am sorry that the Minister has not had a more open mind on this.

Cafodd semanteg a manylion technegol eu defnyddio i egluro pam y gwrthodwyd yr argymhellion. Mae rhai o'r rhesymau a roddwyd yn cyfleu anobaith llwyr, a byddwn yn dweud bod un o'r rhesymau a roddwyd yn ffug, oherwydd caiff argymhelliad 20, sy'n ymwneud â'r adolygiad perfformiad pum mlynedd, ei wrthod am resymau na chawsant eu cynnwys yn yr argymhelliad. Felly, mae'n flin gennyf nad oedd y Gweinidog yn fwy agored ei feddwl ynghylch hyn.

It is absolutely the case that we are not getting a fair deal under our current arrangements and it is depressing that we seem to have a Minister who has become complacent about the situation in which we find ourselves. I do not think that there has ever been a committee report that has been given such short shrift by a Minister. That is depressing in light of the fact that, as I am sure everyone would agree, it is a committee report of great calibre and had total cross-party support.

Mae'n sicr yn wir nad ydym yn cael chwarae teg dan ein trefniadau presennol, ac mae'n dorcalonnus fod gennym Weinidog sydd, yn ôl pob golwg, wedi mynd yn hunanfodlon am y sefyllfa yr ydym ynnddi. Ni chredaf fod yr un adroddiad pwyllgor wedi cael cyn lleied o drugaredd gan Weinidog erioed o'r blaen. Mae hynny'n dorcalonnus o gofio'r ffaith ei fod, ac yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn cytuno, yn adroddiad pwyllgor o safon ardderchog ac iddo gael cefnogaeth ar draws y pleidiau i gyd.

Trish Law: I congratulate the Enterprise and Learning Committee on its robust and searching inquiry into Wales's future railway infrastructure. While I accept that we live in bleak economic times, and that belts have to be pulled ever tighter, I am disappointed that the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport has all but ruled out a review of the rail forward programme.

I am delighted that he has seen fit to include in the programme an extension of the line from Ebbw Vale parkway to the general offices at the former Corus steelworks site, now known as 'the works'. That will be of considerable benefit to those who do not have cars to take them to parkway and who rely on sketchy public transport to get from parkway to the town centre. I was also pleased to see that the programme included work on new crossovers and a passing loop to enable additional hourly services between Ebbw Vale and Newport. One of my first campaigns on entering the Assembly in 2006 was to get this line reinstated in time for the Ryder Cup. While it is a little later than I would have liked, at least it is on its way.

3.30 p.m.

With the promise of new stations at Cwm and further down the line, the only missing link now is the spur between Aberbeeg and Abertillery. The reinstatement of the Aberbeeg/Abertillery line is included in the development plan of Railfuture, the former Railway Development Society, and has the backing of the Enterprise and Learning Committee. We did at least have a bus service linking Llanhilleth and Abertillery until the Welsh Assembly Government pulled the plug on it. Abertillery is therefore isolated from the Ebbw valley railway, but I consider its inclusion to be essential. I hold out some hope from the Deputy First Minister's written response, for he says that while he has no current plans to review the rail forward programme, he will keep other schemes in mind for the future. I hope, Deputy First Minister, that you keep the Aberbeeg-

Trish Law: Yr wyf am longyfarch y Pwyllgor Menter a Dysgu ar ei ymchwiliad cadarn a manwl i seilwaith rheilffyrdd Cymru ar gyfer y dyfodol. Er fy mod yn derbyn ein bod yn byw mewn amseroedd economaidd llwm, a'i bod yn rhaid byw ar lai yn gynyddol, yr wyf yn siomedig fod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth fwy neu lai wedi penderfynu peidio â gwneud adolygiad o'r flaenraglen rheilffyrdd.

Yr wyf wrth fy modd iddo weld yn dda i'r rhaglen gynnwys ymestyn y rheilffordd o barcfordd Glynebwy i'r swyddfeydd cyffredinol ar hen safle gwaith dur Corus—'y gweithfeydd' yw enw'r safle erbyn hyn. Bydd hynny'n fantais fawr i bobl nad oes ganddynt geir i fynd â hwy i'r barcfordd ac sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus annigonol i fynd o'r barcfordd i ganol y dref. Yr oeddwn hefyd yn falch gweld bod y rhaglen yn cynnwys gwaith ar groesfannau newydd a dolen basio i allu cynnig gwasanaethau ychwanegol bob awr rhwng Glynebwy a Chasnewydd. Un o'm hymgyrchoedd cyntaf pan ddeuthum i'r Cynulliad yn 2006 oedd adfer y rheilffordd hon mewn pryd ar gyfer pencampwriaeth y Cwpan Ryder. Er bod hynny'n digwydd ychydig yn hwyrach nag y byddwn wedi ei ddymuno, o leiaf mae ar y gweill.

Gyda'r addewid y bydd gorsafod newydd yn y Cwm ac ymhellach i lawr y rheilffordd, yr unig beth sydd ar goll yn awr yw'r gangen rhwng Aber-big ac Abertyleri. Caiff gwaith adfer y rheilffordd rhwng Aber-big ac Abertyleri ei gynnwys yng nghynllun datblygu Railfuture, yr hen Gymdeithas Datblygu Rheilffyrdd, a chaiff ei gefnogi gan y Pwyllgor Menter a Dysgu. O leiaf yr oedd gennym wasanaeth bysiau'n cysylltu Llanhilledd ac Abertyleri nes i Lywodraeth y Cynulliad ei ddiddymu. Mae tref Abertyleri, felly, wedi'i gwahanu oddi wrth reilffordd cwm Ebwy, ond credaf ei bod yn hollbwysig ei chynnwys. Yr wyf yn dal yn obeithiol ar ôl gweld ymateb ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog, gan ei fod yn dweud nad oes ganddo ddim cynlluniau ar hyn o bryd i adolygu'r flaenraglen rheilffyrdd, ond y bydd yn cadw cynlluniau eraill mewn golwg ar

Abertillery link uppermost in your mind.

gyfer y dyfodol. Gobeithio, Ddirprwy Brif Weinidog, y byddwch yn cadw'r cyswllt rhwng Aber-big ac Abertyleri ar flaen eich meddwl.

Paul Davies: As a member of the Enterprise and Learning Committee, I will take this opportunity to thank the Chair for his leadership on producing this important report. I also thank the clerk and her staff for all their hard work in assisting the committee in putting this report together. This is a very important report that attempts to influence railway infrastructure priorities for the next 20 to 30 years. The recommendations made in this report are sensible ones that seek to improve train services in the longer term.

Paul Davies: Fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Cadeirydd am ei arweiniad wrth gynhyrchu'r adroddiad pwysig hwn. Diolch hefyd i'r clerch a'i staff am eu holl waith caled wrth gynorthwyo'r pwyllgor i lunio'r adroddiad. Mae'n adroddiad pwysig iawn, sy'n ceisio dylanwadu ar flaenoriaethau'r seilwaith rheilffyrdd am yr 20 i'r 30 mlynedd nesaf. Mae'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn yn rhai synhwyrol sy'n ceisio gwella gwasanaethau trên yn y tymor hwy.

I am extremely disappointed that the Assembly Government has seen fit to completely reject nine out of the 21 recommendations. I cannot discuss all the recommendations, and I am therefore going to be absolutely parochial and concentrate my remarks on recommendation 11, which directly affects my constituency. I am sure that the Deputy First Minister will not be surprised at this. This recommendation states that the Welsh Assembly Government should agree to fund additional train services to Fishguard. I am hugely disappointed that the Deputy First Minister has decided to reject this particular proposal, given that recommendation 13 clearly states that the regional transport plans have recently been agreed, including the Fishguard proposal.

Yr wyf yn hynod siomedig fod Llywodraeth y Cynulliad wedi gweld yn dda i wrthod naw o'r 21 argymhelliad yn gyfan gwbl. Ni allaf drafod pob un o'r argymhellion, ac felly yr wyf am fod yn hollol blwyfol a chanolbwyntio fy sylwadau ar argymhelliad 11, sy'n effeithio ar fy etholaeth i'n uniongyrchol. Yr wyf yn siŵr na fydd y Dirprwy Brif Weinidog yn synnu clywed hynny. Mae'r argymhelliad hwnnw'n nodi y dylai Llywodraeth y Cynulliad gytuno i ariannu gwasanaethau trên ychwanegol i Abergwaun. Yr wyf yn hynod siomedig fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi penderfynu gwrthod y cynnig penodol hwn, o gofio bod argymhelliad 13 yn dweud yn glir fod y cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol wedi'u cytuno'n ddiweddar, gan gynnwys y cynnig ar gyfer Abergwaun.

I am sure that the Deputy First Minister has seen the report by Jacobs Consultancy, which supports improvements in rail services to Fishguard. That report concludes that the most favourable option for rail passengers is to introduce five additional services between Carmarthen and Fishguard Harbour on a daily basis. An increase in additional rail passenger services to Fishguard is of the highest priority for the improvement of travel for people in west Wales, and particularly for the people of north Pembrokeshire. The proposed additional rail services are consistent with the key strategies—the Wales transport strategy and the Wales spatial plan—and are supported by the south-west Wales integrated transport consortium. The

Yr wyf yn siŵr bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi gweld adroddiad Jacobs Consultancy, sy'n cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau rheilffyrdd i Abergwaun. Daw'r adroddiad hwnnw i'r casgliad mai'r dewis mwyaf ffafriol i deithwyr ar y rheilffyrdd fyddai cyflwyno pum gwasanaeth ychwanegol rhwng Caerfyrddin a Phorthladd Abergwaun bob dydd. Mae cynyddu gwasanaethau rheilffyrdd ychwanegol i deithwyr i Abergwaun yn un o'r prif flaenoriaethau wrth geisio gwella cyfleusterau teithio i bobl yn y gorllewin, yn enwedig pobl gogledd sir Benfro. Mae'r gwasanaethau rheilffyrdd ychwanegol arfaethedig yn cyd-fynd â'r prif strategaethau—strategaeth trafndiaeth

five additional daily trains would radically improve the mobility of those who have no car to access work and leisure, and of families who have no car to use while the wage-earner in the household uses it for work. They would also be hugely beneficial to the elderly and the vulnerable, who might feel that driving along increasingly congested rural roads is becoming more and more difficult.

Undoubtedly, these additional services would improve people's access to health and education facilities in Carmarthen and Swansea. The additional trains would also improve our economic situation in Pembrokeshire, increasing job opportunities because of more reasonable daily commuting times and improving journey times generally between north Pembrokeshire and the rest of Wales. The demand for these improved services was highlighted by a petition mentioned by the committee Chair earlier on. I had the honour of accepting the petition, which was sent to the Assembly's Petitions Committee by two young people from my constituency, namely Sam Faulkner and Joanne Griffiths.

The lack of service provision hits non-drivers, including young people, very hard. For young people, it is difficult to travel to meet with friends and get around the area without being dependent on their parents or others who can drive them. Young people are concerned about how this will impact on their opportunities to access employment after completing full-time education. I would argue that Fishguard is a special case because it is the only port on the entire west coast of Wales that is serviced by only one train during the day. Compare that with Pwllheli, for example, which has a population of 3,861 and is serviced by six trains a day. The proposed marina in Fishguard harbour is clearly an additional potential market for rail services to Fishguard. However, that was not even considered in the Jacobs Consultancy report. The value of this to the people of Pembrokeshire, and those visiting for business or pleasure, cannot be

Cymru a chynllun gofodol Cymru—ac mae consortiwm cludiant integredig y de-orllewin yn eu cefnogi. Byddai'r pum trê'n ychwanegol a fyddai'n rhedeg bob dydd o gymorth i bobl nad oes ganddynt gar i fynd o le i le a manteisio ar gyfleoedd gwaith a hamdden, a theluloedd nad oes ganddynt gar i'w ddefnyddio pan fyd yr unigolyn sy'n ennill cyflog ar yr aelwyd yn defnyddio'r car i fynd i'w waith. Byddai'r trenau ychwanegol yn hynod fanteisiol hefyd i'r henoed ac i bobl sy'n agored i niwed, sydd efallai'n teimlo bod gyrru ar hyd ffyrdd cynyddol brysur yn mynd yn fwyfwy anodd.

Heb os, byddai'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn gwella mynediad pobl i gyfleusterau iechyd ac addysg yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Byddai'r trenau ychwanegol hefyd yn gwella ein sefyllfa economaidd yn sir Benfro, gan gynyddu cyfleoedd gwaith yn sgil amseroedd teithio mwy rhesymol o ddydd i ddydd, a gwella amseroedd teithiau'n gyffredinol rhwng gogledd sir Benfro a gweddill Cymru. Tynnwyd sylw at y galw am y gwasanaethau gwell hyn gan ddeiseb y soniodd Cadeirydd y pwyllgor amdani'n gynharach. Cefais y fraint o dderbyn y ddeiseb, a anfonwyd at Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad gan ddau berson ifanc o'm hetholaeth, Sam Faulkner a Joanne Griffiths.

Mae'r diffyg hwn yn y ddarpariaeth gwasanaethau yn effeithio'n arw ar bobl nad ydynt yn gyrru, gan gynnwys pobl ifanc. Mae'n anodd i bobl ifanc deithio i gwrdd â'u ffrindiau, a mynd o gwmpas yr ardal heb fod yn ddibynnol ar eu rhieni neu bobl eraill sy'n gallu eu hebrwng. Mae pobl ifanc yn pryderu sut y bydd hynny'n effeithio ar eu cyfleoedd i gael gwaith ar ôl gorffen addysg amser llawn. Byddwn yn dadlau bod Abergwaun yn achos arbennig, oherwydd dyna'r unig borthladd ar hyd holl arfordir y gorllewin a gaiff ei wasanaethu gan un trê'n yn unig yn ystod y dydd. Cymharwch y sefyllfa honno â'r sefyllfa ym Mhwllheli, er enghraifft, sydd â phoblogaeth o 3,861 ac sy'n cael ei gwasanaethu gan chwe thrê'n y dydd. Mae'n amlwg bod y marina arfaethedig ar gyfer porthladd Abergwaun yn farchnad ychwanegol bosibl ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd i Abergwaun. Fodd bynnag, nid ystyriwyd hynny hyd yn oed yn adroddiad

underestimated. At the moment, Fishguard and north Pembrokeshire are not regarded as destinations. Unfortunately, the present rail service merely serves as a funnel through which people pass while travelling to and from Ireland. Additional train services would allow people to travel to Pembrokeshire and the west to enjoy the area as a destination.

Funding for enhanced rail services would enable the railway to play a full role in the economic and social regeneration of the Fishguard and north Pembrokeshire area. I fully accept that budgets are going to be tight, but improving these services can be done without redoubling the line to the west of Swansea. These improvements can be made at a modest cost, and that would be a quick win that would bring the area up to the standard enjoyed by all the other coastal destinations.

To ensure an integrated rail network that connects the whole of Wales, I urge the Deputy First Minister to reconsider his decision and to fund these additional train services to west Wales.

Ann Jones: I welcome this committee report. I will make some brief comments.

I have written to the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, and to you, Gareth, as Chair of the committee, about issues that constituents have raised with me about the need for a train station or a halt at Connah's Quay. I would just point out that Connah's Quay is spelled with two Ns. In the report, it only has one. That is on page 44—just to prove that I have read the report.

I welcome the recommendation on freight. It is well worth reading as it notifies everybody that we intend to take freight off our roads and onto the railways. One of the reasons that I welcome that is that it will make the A55 a

Jacobs Consultancy. Rhaid sylweddoli mor werthfawr fyddai hyn i bobl sir Benfro a phobl sy'n ymweld â sir Benfro at ddibenion busnes neu bleser. Ar hyn o bryd, ni chaiff Abergwaun a gogledd sir Benfro eu hystyried yn gyrchfannau. Yn anffodus, nid yw'r gwasanaeth rheilffyrdd presennol yn ddim byd ond sianel i bobl fynd drwyddi wrth deithio'n ôl ac ymlaen i Iwerddon. Byddai gwasanaethau trên ychwanegol yn caniatáu i bobl deithio i sir Benfro a'r gorllewin i fwynhau'r ardal fel cyrchfan.

Byddai cyllid ar gyfer gwell gwasanaethau rheilffyrdd yn golygu y byddai'r rheilffordd yn chwarae rôl lawn yn adfywiad economaidd a chymdeithasol ardal Abergwaun a gogledd sir Benfro. Yr wyf yn derbyn yn gyfan gwbl bod cyllidebau'n mynd i fod yn dynn, ond gellir gwella'r gwasanaethau hyn heb ailddyblu'r rheilffordd i'r gorllewin o Abertawe. Gellir gwneud y gwelliannau hyn am gost eithaf rhesymol, a byddai'n ffordd gyflym o lwyddo a fyddai'n codi'r ardal i safon yr holl gyrchfannau eraill sydd ar yr arfordir.

Er mwyn sicrhau rhwydwaith rheilffyrdd integredig sy'n cysylltu Cymru gyfan, yr wyf yn annog y Dirprwy Brif Weinidog i ailystyried ei benderfyniad ac i ariannu'r gwasanaethau trên ychwanegol hyn i'r gorllewin.

Ann Jones: Yr wyf yn croesawu'r adroddiad pwyllgor hwn. Mae gennyf rai sylwadau cryno.

Yr wyf wedi ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ac atoch chi, Gareth, fel Cadeirydd y pwyllgor, ynghylch materion y mae etholwyr wedi'u codi gyda mi am yr angen am orsaf drenau neu arhosfa yng Nghei Connah. Hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod dwy 'n' yng Nghei Connah. Yn yr adroddiad Saesneg, dim ond un 'n' sydd yn yr enw. Mae ar dudalen 44—i brofi fy mod wedi darllen yr adroddiad.

Croesawaf yr argymhelliad ynghylch cludo nwyddau. Mae'n sicr yn werth ei ddarllen gan ei fod yn hysbysu pawb ein bod yn bwriadu symud nwyddau oddi ar ein ffyrdd i'r rheilffyrdd. Un o'r rhesymau pam yr wyf

much better road for those who travel by car, and it will perhaps make it a safer road by not encouraging ever more freight onto that major network.

Recommendation 10 looks at filling in stations. I come back to the issue of Airbus at Broughton, Deeside College, and employment prospects in north-east Wales. I have raised on many occasions the issue of how people west of Flint can get to those destinations. The answer is that they can only reach them by car. We are therefore jeopardising the employment prospects of quite a lot of people by not having a halt or a station at Broughton or a railway station at Connah's Quay or Bagillt. I am grateful to a constituent of mine for raising that issue with me, and I hope that the committee can look at it.

Turning to north-south rail, before we all plumb the depths of depression, as a regular user of the north-south link to come down to the Assembly and to go home again at the end of a week, 99.9 per cent of the time, the rail service is fine. When there are problems, there are problems, and unfortunately, that is the issue that we face. However, I notice that you mention that the fastest journey time, at three hours 56 minutes, is on the Gerallt Gymro service. I point out to you that that goes via Crewe. The reason for that is that we do not have a double link between Chester and Wrexham. If we had that link, those of us who travel on the Arriva trains would have the benefit of a faster service. I find it strange that you can celebrate three hours 56 minutes when we use the Crewe route, yet we do not publicise the fact that we should be looking to redouble the line between Chester and Wrexham.

The issue for us is that we should encourage more people on to the train services, and Arriva does its best. For those of us who travel with Arriva and are over a certain age, we have a fantastic opportunity to travel for

yn croesawu hynny yw y bydd yn gwneud yr A55 yn ffordd well o lawer i bobl sy'n teithio arni mewn car, ac y bydd efallai'n ei gwneud yn fwy diogel wrth annog pobl i beidio â chludo mwy fyth o nwyddau ar y rhwydwaith pwysig hwnnw.

Mae argymhelliad 10 yn sôn am orsafoedd i lenwi bylchau. Dof yn ôl at fater Airbus ym Mrychdyn, Coleg Glannau Dyfrdwy, a'r rhagolygon cyflogaeth yn y gogledd-ddwyrain. Yr wyf droeon wedi codi'r mater ynghylch sut y gall pobl sy'n byw i'r gorllewin o'r Fflint gyrraedd y mannau hynny. Yr ateb yw mai mewn car yn unig y gallant eu cyrraedd. Felly, yr ydym yn peryglu rhagolygon llawer o bobl o ran cyflogaeth trwy beidio â chael arhosfa neu orsaf ym Mrychdyn, neu orsaf drenau yng Nghei Connah neu Fagillt. Yr wyf yn ddiolchgar i un o'm hetholwyr am godi'r mater hwnnw gyda mi, a gobeithio y gall y pwyllgor ei ystyried.

I droi at y rheilffordd o'r gogledd i'r de, cyn inni i gyd blymio i ddyfnderoedd anobaith, fel un sy'n defnyddio'r cyswllt rhwng y gogledd a'r de'n rheolaidd i ddod i lawr i'r Cynulliad a mynd yn ôl adref ar ddiwedd yr wythnos, mae'r gwasanaeth rheilffyrdd yn iawn 99.9 y cant o'r amser. Pan fydd problemau, bydd problemau, a dyna'r sefyllfa yr ydym yn ei hwynebu'n anffodus. Fodd bynnag, sylwaf ichi ddweud mai'r amser teithio cyflymaf, sef tair awr a 56 munud, yw hwnnw ar wasanaeth Gerallt Gymro. Yr wyf am dynnu eich sylw at y ffaith bod y gwasanaeth hwnnw'n mynd trwy Crewe. Y rheswm am hynny yw nad oes gennym gyswllt dwbl rhwng Caer a Wrecsam. Pe bai gennym gyswllt o'r fath, byddai'r rheini ohonom sy'n teithio ar drenau Arriva yn elwa o gael gwasanaeth cyflymach. Mae'n rhyfedd i mi eich bod yn gallu ymfalchïo yn y tair awr a 56 munud o amser teithio, pan fyddwn yn defnyddio'r llwybr trwy Crewe, ond nad ydym yn tynnu sylw at y ffaith y dylem fod yn ceisio ailddyblu'r rheilffordd rhwng Caer a Wrecsam.

Y broblem i ni yw y dylem annog rhagor o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau trenau, ac mae Arriva yn gwneud ei orau. I'r rheini ohonom sy'n teithio gydag Arriva ac sydd dros oedran arbennig, mae gennym gyfle

£15. Any of you who are trying to claim the first class fare or a fare other than £15, beware because it is £15 if you are over 55. That is a fantastic opportunity, and a fantastic idea to get people back on the railways. I defy anybody to get from Rhyl to Cardiff for £15 in their car. You just cannot do it. The price of fuel alone would mean that you would pay a lot more. There are some fantastic ideas; we just need more stations and we need more people to engage with trains. We owe it to the train companies to tell them when they are wrong and to praise them when they are right. People look to us as people who use the rail services, and if we constantly carp about their poor performance, we will put people off using the railways. There is a duty on us all to be sensible when we complain about the 0.1 per cent of occasions when it goes wrong.

gwyh i deithio am £15. Os oes unrhyw rai ohonoch yn ceisio hawlio'r tâl am docyn dosbarth cyntaf neu unrhyw dâl heblaw am £15, byddwch yn ofalus, oherwydd £15 yw'r tâl os ydych dros 55. Mae'n gyfle gwyh, ac yn syniad gwyh i ddenu pobl yn ôl ar y rheilffyrdd. Heriaf unrhyw un i deithio o'r Rhyl i Gaerdydd am £15 mewn car. Mae'n amhosibl. Byddai pris tanwydd yn unig yn golygu y byddech yn talu llawer mwy. Mae yna rai syniadau gwyh; yr unig beth y mae arnom ei angen yw rhagor o orsafoedd, ac mae arnom angen rhagor o bobl i ddefnyddio trenau. Mae'n rheidrwydd arnom ddweud wrth y cwmnïau trenau pan fyddant yn anghywir, a'u canmol pan fyddant yn iawn. Mae pobl yn edrych arnom ni sy'n defnyddio'r gwasanaethau trenau, ac os byddwn yn cwyno byth a hefyd am eu perfformiad gwael byddwn yn peri i bobl beidio â defnyddio'r rheilffyrdd. Mae dyletswydd ar bob un ohonom i fod yn gall pan fyddwn yn cwyno am y 0.1 y cant o achlysuron pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

3.40 p.m.

I have seen an increase in the number of people using the trains between the north and the south. They deserve a service that is comfortable, clean and, above all, on which they can have something to drink. Those things will come in time. They are coming now and, although they are not available on every train, most trains will have a trolley. We must ensure that every train has the same facilities.

Yr wyf wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r trenau rhwng y gogledd a'r de. Maent yn haeddu gwasanaeth sy'n gyffyrddus, yn lân ac yn anad dim lle gallant gael rhywbeth i'w yfed. Bydd y pethau hynny'n gwella gydag amser. Maent yn gwella'n awr, ac er nad oes troli ar gael ar bob trê, mae un ar y rhan fwyaf o drenau. Rhaid inni sicrhau bod gan bob trê yr un cyfleusterau.

I am grateful for the committee's hard work on this report, and I hope that you will take some of those issues on board and that we will see further stations opened along the north Wales coastline.

Yr wyf yn ddiolchgar am waith caled y pwyllgor ar yr adroddiad hwn, a gobeithio y byddwch yn ystyried rhai o'r materion hyn, ac y gwelwn ragor o orsafoedd yn cael eu hagor ar hyd arfordir y gogledd.

Darren Millar: I want to make a brief contribution to this debate. I appreciate the high quality of this report and its sensible recommendations, which the Deputy First Minister could have accepted in full. I am disappointed that some of those recommendations have been rejected. As a regular rail user, I want to give my perspective of the service between north and south Wales. It is a reasonable and reliable

Darren Millar: Yr wyf am wneud cyfraniad byr i'r ddadl hon. Yr wyf yn gwerthfawrogi safon uchel yr adroddiad hwn, a'r argymhellion call sydd ynddo, y gallai'r Dirprwy Brif Weinidog fod wedi'u derbyn yn llawn. Yr wyf yn siomedig bod rhai o'r argymhellion hynny wedi eu gwrthod. Fel un sy'n defnyddio'r rheilffyrdd yn rheolaidd, yr wyf am roi fy safbwynt i ar y gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de. Mae'n wasanaeth

service on the whole, but that does not mean that it cannot be improved. The quality of the rolling stock—a recommendation to which the Deputy First Minister gave quite a long-winded response—is something that seriously needs to be addressed. The rolling stock that we have on the north-south service at the moment, apart from the Gerallt Gymro service, is designed for short-haul journeys, not long-haul journeys. However, for people like me that have to spend in excess of eight hours on the train each week, it is hard on the old backside. Surely, we can do better than we currently do on the rolling stock. Therefore, in the Deputy First Minister's response to some of these points, I would like a little more detail about how he intends to move the improvements of rolling stock forward so that rail users using the north-south rail link can reap some benefits.

One of the other recommendations that caught my eye was the need to ensure established rail links with north Wales and the north-west of England, which are not only maintained but improved. You will know from correspondence with me, Deputy First Minister, that I am passionate about reinstating the direct Liverpool link to the north Wales main line. It is not in place at the moment, as you know, but it can be put in place for a relatively low investment. It would bring huge economic benefits to tourism in north Wales, and Liverpool is also a major centre of commerce on the doorstep of the people of north Wales. Re-establishing that direct rail service would reap enormous benefits. I urge you to consider how that might be achieved. I know that it is something that the regional transport consortia, Taith, has looked at, and is keen to promote and support.

Building on the point that Ann Jones made about the halts that are in place in some of the older stations and the need to reopen those, we have a railway infrastructure which is old and outdated, and since it was put in place there has been significant growth in some settlements across Wales. To refer again to the north Wales coast, there is a particular need for the reintroduction of a halt or station in the Towyn and Kinnel Bay area in my

rhesymol a dibynadwy ar y cyfan, ond nid yw hynny'n golygu na ellir ei wella. Mae gwir angen mynd i'r afael ag ansawdd y cerbydau—sy'n argymhelliad y rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog ymateb digon hirwyntog iddo. Mae'r cerbydau sydd gennym ar y gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de ar hyn o bryd, ar wahân i gerbydau gwasanaeth Gerallt Gymro, wedi'u cynllunio ar gyfer teithiau byr, nid teithiau hir. Fodd bynnag, i bobl fel fi sy'n gorfod treulio dros wyth awr ar y trêen bob wythnos, gallant fod yn eithaf anghyffyrddus. Nid oes bosibl na allwn wneud yn well nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'n cerbydau. Felly, i ymateb y Dirprwy Brif Weinidog i rai o'r pwyntiau hyn, hoffwn gael ychydig mwy o fanylion am y modd y mae'n bwriadu symud y gwelliannau i gerbydau ymlaen fel y gall pobl sy'n defnyddio'r cyswllt rheilffordd rhwng y gogledd a'r de elwa ryw ychydig.

Un o'r argymhellion eraill a dynnodd fy sylw oedd yr angen i sicrhau cysylltiadau rheilffyrdd cadarn â'r gogledd a gogledd-orllewin Lloegr, sy'n cael eu gwella yn ogystal â'u cynnal a'u cadw. Byddwch yn gwybod o ohebiaeth rhyngom, Ddirprwy Brif Weinidog, fy mod yn frwd ynghylch adfer y cyswllt uniongyrchol rhwng Lerpwl a phrif reilffordd y gogledd. Nid yw wedi'i sefydlu ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, ond gellid ei sefydlu am fuddsoddiad cymharol fach. Byddai'n dod â manteision economaidd enfawr i dwristiaeth yn y gogledd, ac mae Lerpwl hefyd yn ganolfan fasnach bwysig ar stepen y drws i bobl y gogledd. Byddai ailsefydlu'r gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol hwnnw'n dod â manteision sylweddol. Fe'ch anogaf i ystyried sut y gellid cyflawni hynny. Gwn ei fod yn rhywbeth y mae'r consortia cludiant rhanbarthol, Taith, wedi'i ystyried, ac y mae'n awyddus i'w hyrwyddo a'i gefnogi.

I ddatblygu'r pwynt a wnaed gan Ann Jones am yr arosfeydd sydd i'w cael yn rhai o'r gorsafydd hyn, a bod angen eu hailagor, mae gennym seilwaith rheilffyrdd sy'n hen ac yn henffasiwn, ac mae rhai aneddleoedd ledled Cymru wedi tyfu'n sylweddol ers ei sefydlu. I gyfeirio unwaith yn rhagor at arfordir y gogledd, mae angen penodol i ailgyflwyno arhosfa neu orsaf yn ardal Tywyn a Bae Cinnel yn fy etholaeth i—ardal

constituency—an area that is extremely important for tourism. We know that there are tens of thousands of bed spaces available in the accommodation that is provided for visitors, and I am extremely keen to see some investment in a new station in that particular area. I very much hope, Deputy First Minister, that you will look upon that favourably. Again, I know that Taith is keen to undertake a feasibility study to see whether there is an opportunity to invest in the establishment of a new station, and I would encourage you and your officials to look at that in some detail to see whether there is an opportunity to develop something there.

With those remarks, I thank the committee for its report and the Deputy First Minister for his attention to those recommendations. However, I ask him again to reconsider those particular issues.

Jeff Cuthbert: I welcome the opportunity to contribute to this important debate. I add my thanks to Gareth for his chairing of the committee's work, to the staff, and to the witnesses who came to talk to us. I would like to focus my contribution on your rejection of recommendation 8 of the committee's report, Deputy First Minister. Furthermore, I am sure that it will come as no surprise to you—and this was trailed by Jenny—that I would like to raise the issue of more rolling stock on the Rhymney valley line. In your response to the recommendation, Deputy First Minister, you state that your rail forward programme contains

'a number of rail improvement schemes requiring additional rolling stock'.

You go on to say that your officials have been

'discussing with a number of parties a number of options for additional rolling stock'

and that

'a substantial programme for modernising rolling stock'

has been agreed with Arriva Trains Wales.

sy'n hynod bwysig o safbwynt twristiaeth. Gwyddom fod degau ar filoedd o welyau ar gael yn y llety a ddarperir i ymwelwyr, ac yr wyf yn awyddus iawn i weld ychydig fuddsoddi mewn gorsaf newydd yn yr ardal benodol honno. Gobeithio'n fawr, Ddirprwy Brif Weinidog, y byddwch o blaid gwneud hynny. Unwaith eto, gwn fod Taith yn awyddus i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i weld a oes cyfle i fuddsoddi mewn sefydlu gorsaf newydd, a byddwn yn eich annog chi a'ch swyddogion i ystyried hynny'n ofalus i weld a oes cyfle i ddatblygu rhywbeth yno.

Gyda'r sylwadau hynny, dymunaf ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad, ac i'r Dirprwy Brif Weinidog am y sylw y mae wedi'i roi i'r argymhellion dan sylw. Fodd bynnag, gofynnaf unwaith eto iddo ailystyried y materion penodol hynny.

Jeff Cuthbert: Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Yr wyf finnau am ddiolch i Gareth am gadeirio gwaith y pwyllgor, a diolch i'r staff ac i'r tystion a ddaeth i siarad â ni. Yn fy nghyfraniad, hoffwn ganolbwyntio ar y ffaith ichi wrthod argymhelliad 8 yn adroddiad y pwyllgor, Ddirprwy Brif Weinidog. Yn ogystal, yr wyf yn siŵr na fydd yn peri syndod ichi—a soniodd Jenny am hyn hefyd—fy mod am godi'r mater ynghylch cael rhagor o gerbydau ar reilffordd cwm Rhymni. Yn eich ymateb i'r argymhelliad, Ddirprwy Brif Weinidog, dywedwch fod eich blaenraglen rheilffyrdd yn cynnwys

nifer o gynlluniau gwella rheilffyrdd y mae angen cerbydau ychwanegol arnynt.

Yr ydych yn mynd ymlaen i ddweud bod eich swyddogion wedi bod

yn trafod nifer o ddewisiadau ar gyfer cerbydau ychwanegol gyda nifer o bobl

a bod

rhaglen sylweddol ar gyfer moderneiddio cerbydau

wedi'i chytuno gyda Threnau Arriva Cymru.

You conclude your response to this recommendation by saying that

‘train services on the busiest routes, primarily those in the Cardiff Valleys, have been strengthened so that they consist of 4 carriages’

and that you

‘monitor passenger usage on a regular basis and will be deploying 6 carriage trains when the level of peak demand requires it.’

I would be grateful if you could write to me to tell me how that monitoring is undertaken.

I must say in relation to that that several stations along the Rhymney valley line in my constituency have had their platforms extended in preparation for the arrival of trains with more carriages. These stations include Pengam, Hengoed and Aber halt, to name three. However, I continue to receive regular correspondence from constituents complaining about too few carriages being provided during peak travel times, as well as the poor state of Arriva’s carriages. In October, I was contacted by a constituent who said that during that month’s school half term, Arriva reduced the number of carriages during peak travel time from four to two, causing much discomfort for commuters who live in Caerphilly and the lower Rhymney valley. Surely, school half term holidays generate extra traffic, with parents and children using trains as well as the usual commuters, so the decision to halve the number of carriages running on the line seems strange. The same constituent contacted me again in January this year saying that she had experienced the same problem and asked me to urge the Welsh Assembly Government to be more aggressive in its negotiations with Arriva about more rolling stock.

Furthermore, I was recently contacted by a constituent who regularly uses the Rhymney valley line to travel back from Cardiff to her

Dowch â’ch ymateb i’r argymhelliad hwn i ben trwy ddweud bod

gwasanaethau trenau ar y llwybrau prysuraf, sef y llwybrau yng nghymoedd Caerdydd yn bennaf, wedi’u hatgyfnerthu i gynnwys 4 cerbyd

a’ch bod yn

monitro’n rheolaidd y modd y mae teithwyr yn defnyddio’r trenau, ac y byddwch yn cyflwyno trenau 6 cherbyd pan fydd lefel y galw am wasanaethau trenau yn ystod oriau brig yn gofyn am hynny.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu ataf i ddweud wrthyf sut y caiff y gwaith monitro hwnnw ei gyflawni.

Rhaid imi ddweud o ran hynny fod platfformau nifer o orsafoedd ar hyd rheilffordd cwm Rhymni yn fy etholaeth i wedi eu hymestyn yn barod i dderbyn trenau gyda rhagor o gerbydau. Mae’r gorsafoedd hynny’n cynnwys Pengam, yr Hengoed ac arhosfa Aber, i enwi tair yn unig. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i gael gohebiaeth reolaidd gan etholwyr yn cwyno nad oes digon o gerbydau’n cael eu darparu yn ystod oriau teithio brig, ac yn cwyno am gyflwr gwael cerbydau Arriva. Ym mis Hydref, cysylltodd etholwr â mi i ddweud bod Arriva wedi lleihau nifer y cerbydau yn ystod oriau brig o bedwar cerbyd i ddau yn ystod gwyliau hanner tymor yr ysgolion y mis hwnnw. Yr oedd hynny wedi peri cryn anesmwythdra i gymudwyr sy’n byw yng Nghaerffili a chwm Rhymni isaf. Nid oes bosibl nad yw gwyliau hanner tymor yr ysgolion yn cynhyrchu rhagor o draffig, gan fod rhieni a phlant yn defnyddio’r trenau yn ogystal â’r cymudwyr arferol. Felly, mae’r penderfyniad i haneru nifer y cerbydau ar y rheilffordd yn ymddangos yn rhyfedd. Cysylltodd yr un etholwr â mi unwaith eto ym mis Ionawr eleni i ddweud ei bod wedi cael yr un broblem, a gofynnodd imi annog Llywodraeth y Cynulliad i fod yn fwy ymosodol yn ei thrafodaethau ag Arriva ynghylch rhagor o gerbydau.

Yn ddiweddar hefyd cysylltodd etholwr â mi sy’n defnyddio rheilffordd cwm Rhymni yn rheolaidd i deithio’n ôl o Gaerdydd i’w

home in Caerphilly town after Wales rugby internationals. She was astonished to find out that, following Wales's recent home game against France, which was played on a Friday evening as you will recall, no extra trains were provided for fans leaving Cardiff and returning along the Valleys lines. Again, this caused considerable discomfort, and it happened despite Arriva being alerted to the time and date of this fixture about a year in advance.

Aside from the issue of more carriages, constituents have also raised the issue of the poor state of the existing ones, although I must stress that my main thrust is for more carriages. Indeed, *Private Eye*, which is compulsory reading for me on long train journeys, revealed in November that Arriva was under no obligation to provide any new carriages under the current franchise agreement, which does not expire until 2018. Incredibly, the assumption appears to have been made by the then Strategic Rail Authority that passenger numbers would not increase over the years. Surely, Deputy First Minister, the situation has changed to such an extent that more has to be done to provide more, and new, rolling stock. This is especially so as, in a recent interview with *Modern Railways*, one of Arriva's senior management implied that he was perfectly content to keep the current rolling stock, known as Pacers, for another decade. Those of my age will remember that it was Margaret Thatcher who compelled British Rail to buy the Pacer trains because they were cheaper than Sprinters as a result of their being based on fixed axles as opposed to four-wheel bogies. However, they put extra stress on the tracks, especially bends, which means greater and permanent maintenance costs. You will be aware that there are many bends on the Valleys lines; it is their main feature. Consequently, that was a false economy. Should we have to put up with this in Wales when Scotland is already a Pacer-free country and enjoys far more modern rolling stock?

chartref yng Nghaerffili ar ôl gemau rygbi rhyngwladol Cymru. Yr oedd wedi'i syfrdanu o weld na chafodd trenau ychwanegol eu darparu i gefnogwyr a oedd yn gadael Caerdydd ac yn mynd adref ar hyd rheilffyrdd y Cymoedd ar ôl gêm Cymru gartref yn erbyn Ffrainc yn ddiweddar, a gafodd ei chwarae ar nos Wener, fel y cofiwch. Unwaith eto, yr oedd hynny wedi peri cryn anesmwythdra, a digwyddodd er i Arriva gael gwybod am amser a dyddiad y gêm oddeutu blwyddyn o flaen llaw.

Ar wahân i'r broblem ynghylch cael rhagor o gerbydau, mae etholwyr hefyd wedi codi'r mater sy'n ymwneud â chyflwr gwael y cerbydau presennol, er ei bod yn rhaid imi bwysleisio mai fy mhrif ddyhead yw cael rhagor o gerbydau. Yn wir, ym mis Tachwedd datgelodd *Private Eye*, cylchgrawn y mae'n rhaid imi ei ddarllen yn ystod teithiau hir ar y trê, nad oedd dim gworfodaeth ar Arriva i ddarparu cerbydau newydd dan gytundeb presennol y fasnachfaint, nad yw'n dod i ben nes 2018. Mae'n anhygoel meddwl i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol bryd hynny dybio, yn ôl pob golwg, na fyddai niferoedd y bobl sy'n teithio ar drenau'n cynyddu dros y blynyddoedd. Nid oes bosibl, Ddirprwy Brif Weinidog, nad yw'r sefyllfa wedi newid i'r fath raddau nes bydd yn rhaid gwneud mwy i ddarparu rhagor o gerbydau, a darparu cerbydau newydd. Mae hynny'n arbennig o wir, oherwydd mewn cyfweiliad diweddar â *Modern Railways*, awgrymodd un o uwchreolwyr Arriva ei fod yn berffaith fodlon cadw'r cerbydau presennol, a elwir yn *Pacers*, am ddegawd arall. Bydd y rheini ohonoch sydd yr un oed â mi'n cofio mai Margaret Thatcher a orfododd British Rail i brynu trenau *Pacer* am eu bod yn rhatach na threnau *Sprinter*, gan eu bod yn rhedeg ar echelau sefydlog yn hytrach na bogiau pedair olwyn. Fodd bynnag, maent yn rhoi straen ychwanegol ar y cledrau, yn enwedig ar droeon, sy'n golygu costau cynnal a chadw uwch a pharhaol. Byddwch yn ymwybodol bod nifer o droeon ar reilffyrdd y Cymoedd; dyna yw eu prif nodwedd. O ganlyniad, ymdrechion ofer i fod yn ddarbodus oedd hynny. A ddylem orfod goddef hyn yng Nghymru, pan fo'r Alban eisoes yn wlad heb drenau *Pacer* sy'n medru defnyddio cerbydau llawer mwy modern?

3.50 p.m.

In conclusion, I am sorry that I need to raise this issue with you once again and I genuinely look forward to the day when I do not have to. However, I do not want to come across as unappreciative of the work that we have already done. A recent newsletter from Rail Wales urges those of us campaigning for future improvements to the rail service to remember that today's timetables are in most cases much better than they have ever been. This is especially true on the Valleys lines, which the group says has been transformed into a genuine inter-urban commuter network. Figures show that between Bargoed and Cardiff Queen Street stations, for example, there are nearly two and a half times as many trains per week as there were in the dark days of the 1980s. This is very welcome, but it should not mean that we lose sight of the need to make further improvements. Demand for rail services is increasing, and I am pleased with that. The number of calls and e-mails that I get from constituents about overcrowding and too few carriages on the Rhymney valley line is testament to that. In the light of that, I am disappointed at your decision to reject this recommendation. Deputy First Minister, we need to act, and we need to act soon.

William Graham: The Welsh Conservatives warmly welcomed last summer's news that the Great Western main line is to be electrified. I endorse the opinion that the Valleys network into Cardiff should be a high priority for electrification once the main line is completed. This would complement existing road schemes such as the dualling of the A465, and give the Valleys a transport infrastructure more befitting the twenty-first century. It is encouraging to read Arriva Trains Wales's view expressed in the report that the Valleys lines network is

'reasonably self-contained and could therefore benefit from electrification and

I gloi, mae'n flin gennyf fod angen imi godi'r mater hwn gyda chi unwaith eto, ac yr wyf yn wir yn edrych ymlaen at y dydd pan na fydd yn rhaid imi wneud hynny. Fodd bynnag, nid wyf am roi'r argraff nad wyf yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydym wedi'i wneud eisoes. Mae cylchlythyr yn ddiweddar gan Rail Wales yn annog y rheini ohonom sy'n ymgyrchu dros welliannau yn y gwasanaeth rheilffyrdd yn y dyfodol i gofio bod yr amserlenni sydd gennym heddiw lawer yn well nag erioed o'r blaen yn y rhan fwyaf o achosion. Mae hynny'n arbennig o wir ar reilffyrdd y Cymoedd sydd, yn ôl y grŵp, wedi'u gwednewid yn rhwydwaith cymudwyr rhyngdrefol go iawn. Rhwng gorsafoddd Bargoed a Stryd y Frenhines, Caerdydd, er enghraifft, dengys y ffigurau bod bron i ddwywaith a hanner yn fwy o drenau'r wythnos nag a oedd yn nyddiau tywyll yr 1980au. Mae hynny i'w groesawu'n fawr, ond ni ddylai olygu y gallwn anghofio bod angen mwy o welliannau. Mae'r galw am wasanaethau rheilffyrdd yn cynyddu, ac yr wyf yn falch o hynny. Mae nifer y galwadau ffôn a negeseuon e-bost a gaf gan etholwyr am drenau gorlawn a phrinder cerbydau ar hyd rheilffordd cwm Rhymni yn brawf o hynny. O gofio hynny, yr wyf yn siomedig am eich penderfyniad i wrthod yr argymhelliad hwn. Ddirprwy Brif Weinidog, mae angen inni weithredu, a hynny'n fuan.

William Graham: Yr oedd y Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu'n fawr y newyddion a gafwyd yr haf diwethaf am y bwriad i drydaneiddio prif reilffordd Great Western. Yr wyf yn cefnogi'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i drydaneiddio rhwydwaith y Cymoedd i mewn i Gaerdydd wedi i'r gwaith ar y brif reilffordd orffen. Byddai hynny'n ategu cynlluniau ffyrdd sy'n bodoli eisoes, megis gwneud yr A465 yn ffordd ddeuol, a byddai'n sicrhau bod y Cymoedd yn cael seilwaith trafndiaeth sy'n fwy addas i'r unfed ganrif ar hugain. Mae'n galonogol darllen y farn a fynegwyd gan Drenau Arriva Cymru yn yr adroddiad, sef bod rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd yn

gymharol hunangynhwysol ac y gallai, felly, elwa o drydaneiddio a chael cerbydau

appropriate rolling stock’.

It is to be hoped that the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport retains his enthusiasm for this project in a tighter public spending environment. I would further urge the Assembly Government to appeal again to the UK Government to alter its plans for a high-speed line to Birmingham that leaves Wales out of the social, economic and regeneration benefits of high-speed rail.

The report raises, at point 32, important questions regarding the future of rail crossing the Severn; without action, we may see the Severn tunnel become to rail what the Brynglas tunnels are to motorway journeys.

The committee report also highlights, at point 63, that there remain a number of stations, such as Ystrad Mynach, where wheelchair passengers are unable to access trains to Cardiff. While it is recognised that because footfall is the qualifying criterion for infrastructure that complies with the Disability Discrimination Act 1995, the station, and others like it, will not be improved. There is a clear need to factor in the needs of passengers with disabilities to a greater extent than has previously been the case. Never again should we have a repeat of the situation when a new platform is opened at a major rail hub without wheelchair access, as happened when platform 4 was opened at Newport railway station in 2007. Overall, no railway station in south-east Wales has both disabled access to all platforms and accessible lavatory facilities. This region also has the highest percentage—80 per cent—of unmanned stations. Of the other six stations, five have a ticket office only. Most famously, the Welsh Assembly Government funded platform 4 at Newport station, where wheelchair access by taxi has to be arranged by station staff. The situation is little better in many of the region’s other rail stations. Chepstow station has access to the Newport-bound platform via a steep footbridge. Abergavenny station has access to Newport-bound platforms via a footbridge with 45 steps, or the incredible indignity of a barrow

priodol.

Gobeithio y bydd y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yr un mor frwdfrydig ynghylch y prosiect hwn mewn amgylchedd lle mae gwariant cyhoeddus yn dynnach. Byddwn hefyd yn annog Llywodraeth y Cynulliad i apelio eto ar Lywodraeth y DU i newid ei chynlluniau ar gyfer rheilffordd gyflym i Birmingham, sy’n golygu nad yw Cymru’n cael rhannu manteision cymdeithasol ac economaidd rheilffyrdd cyflym, a’u manteision o safbwynt adfywio.

Ym mhwynt 32, mae’r adroddiad yn codi cwestiynau pwysig am ddyfodol croesi afon Hafren ar drên; os na fydd gweithredu, mae’n bosibl y bydd twnnel Hafren yn achosi’r un broblem i reilffordd ag y mae twnelau Brynglas yn ei chreu i draffyrdd.

Ym mhwynt 63, mae adroddiad y pwyllgor yn tynnu sylw hefyd at y ffaith bod nifer o orsafoedd o hyd, megis gorsaf Ystrad Mynach, lle nad yw teithwyr mewn cadair olwyn yn gallu cyrraedd trenau i Gaerdydd. Cydnabyddir na chaiff yr orsaf hon, a gorsafoedd eraill tebyg, eu gwella gan mai nifer y teithwyr yw’r maen prawf cymhwyso ar gyfer seilwaith sy’n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Er hynny, mae’n amlwg bod angen ystyried anghenion teithwyr ag anableddau’n fwy helaeth nag a wnaed yn flaenorol. Ni ddylem weld sefyllfa byth eto lle caiff platfform newydd ei agor mewn canolfan reilffordd o bwys, heb fynediad i gadeiriau olwyn, fel a ddigwyddodd pan agorwyd platfform 4 yng ngorsaf reilffordd Casnewydd yn 2007. At ei gilydd, nid oes gan yr un orsaf reilffordd yn y de-ddwyrain doiledau hygyrch a modd i bobl anabl gael mynediad i bob platfform. Y rhanbarth hwn hefyd sydd â’r ganran uchaf—80 y cant—o orsafoedd heb staff. O’r chwe gorsaf arall, dim ond swyddfa docynnau sydd gan bump ohonynt. Yr achos enwocaf yw hwnnw lle ariannodd Llywodraeth y Cynulliad blatfform 4 yng ngorsaf Casnewydd, lle mae’n rhaid i fynediad i gadeiriau olwyn drwy ddefnyddio tacsï gael ei drefnu gan staff yr orsaf. Nid yw’r sefyllfa fawr gwell mewn nifer o orsafoedd rheilffyrdd eraill yn y rhanbarth. Yng ngorsaf Cas-gwent, rhaid defnyddio pont droed serth

crossing during ticket office hours.

Jeff Cuthbert: I am grateful to William Graham for taking an intervention. In the case of Ystrad Mynach station—and you referred to the figures on footfall—would you agree that local people who are disabled and use wheelchairs know that they cannot get onto the Cardiff-bound train? Therefore, they are not using the station. Consequently, to use current footfall as a guide to potential future usage is meaningless.

William Graham: I wholly agree, and I think that the criteria should be changed. After all, we are trying to achieve access for disabled people, regardless of whether they are local or not.

Pontypool and New Inn station has access to both platforms via a flight of 24 steps. Caerphilly station has access to the Rhymney-bound platform via either a footbridge or a long ramp steeper than 1:12. At Caldicot station, both platforms are only accessible by a ramp steeper than 1:12. Only two of the 30 stations in south-east Wales have lavatory facilities accessible to disabled people.

Most of us only need to enquire about the time of a train and the cost of the fare; a wheelchair user has to know whether there is access to the platform, assistance at their destination, a platform lift and will it be working? There are currently too many stations in the region where platform lifts are closed in the evening. However, Network Rail should be congratulated on the tremendous success of the refurbishment of Newport station to provide a positive first impression of the city and of Wales for many overseas visitors to this October's Ryder Cup.

It is a little disappointing that the report did

i gyrraedd y platfform ar gyfer trenau i gyfeiriad Casnewydd. Yn y Fenni, rhaid defnyddio pont droed gyda 45 o risiau i gyrraedd y platfformau ar gyfer trenau i gyfeiriad Casnewydd, neu ddiodef y sarhad o ddefnyddio croesfan nwyddau pan fydd y swyddfa docynnau ar agor.

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn ddiolchgar i William Graham am dderbyn ymyriad. Yn achos gorsaf Ystrad Mynach—yr oeddech yn cyfeirio at y ffigurau ar gyfer nifer y teithwyr—a fyddech yn cytuno bod pobl leol sy'n anabl ac sy'n defnyddio cadair olwyn yn gwybod na allant gyrraedd trenau sy'n mynd i gyfeiriad Caerdydd? Felly, nid ydynt yn defnyddio'r orsaf. O ganlyniad, mae'n ddiystyr defnyddio ffigurau ar gyfer nifer y teithwyr ar hyn o bryd i awgrymu'r nifer a allai ddefnyddio'r orsaf yn y dyfodol.

William Graham: Yr wyf yn cytuno'n llwyr, a chredaf y dylid newid y meini prawf. Wedi'r cyfan, yr ydym yn ceisio sicrhau mynediad i bobl anabl, boed yn bobl leol ai peidio.

Rhaid dringo 24 o risiau i gyrraedd y ddau blatfform yng ngorsaf Pont-y-pŵl a New Inn. Yng ngorsaf Caerffili, rhaid defnyddio pont droed neu ramp hir sy'n fwy serth nag 1:12 i gyrraedd y platfform ar gyfer trenau i gyfeiriad Rhymni. Yng ngorsaf Cil-y-coed, defnyddio ramp sy'n fwy serth nag 1:12 yw'r unig ffordd i gyrraedd y ddau blatfform. Dwy yn unig o'r 30 o orsafoedd yn y de-ddwyrain sydd â thoiledau sy'n gyfleus i bobl anabl.

Y cyfan y mae angen i'r rhan fwyaf ohonom holi yn ei gylch yw amser y trê'n a phris y tocyn; rhaid i rywun sy'n defnyddio cadair olwyn wybod a all gyrraedd y platfform, a fydd cymorth ar gael ar ben y daith, a oes lifft i'r platfform, ac a fydd yn gweithio? Ar hyn o bryd mae gormod o orsafoedd yn y rhanbarth lle caiff y lifftiau i'r platfformau eu cau gyda'r nos. Fodd bynnag, dylid llongyfarch Network Rail ar lwyddiant ysgubol y gwaith ailwampio yng ngorsaf Casnewydd i gyfleu argraff gyntaf gadarnhaol o'r ddinas ac o Gymru i lawer o ymwelwyr o dramor a fydd yn dod i gystadleuaeth y Cwpan Ryder ym mis Hydref eleni.

Braidd yn siomedig yw'r ffaith nad

not probe the circumstances surrounding the many false dawns for the opening of the line between Ebbw Vale Parkway and Newport station. While the success of the Ebbw Vale-Cardiff link in far exceeding initial passenger estimates is a major achievement, it simultaneously highlights the urgency to complete the Newport-Ebbw Vale link. The first National Assembly Government announced the Newport-Ebbw Vale rail link as an integral part of the Corus steelworks regeneration programme, which was designed to maximise inward investment and enhance social benefits throughout south-east Wales. The delay in introducing this service has unquestionably impeded us in realising the full potential to develop the economy of south-east Wales and attract further visitors.

When I questioned the previous First Minister on this issue last October, he explained that the Assembly is waiting for Network Rail to complete re-signalling work, which is expected to be completed early this year. There was no guarantee that the Newport-Ebbw Vale rail service would be operational in time for the Ryder Cup or the National Eisteddfod. Will the Deputy First Minister take the opportunity in his response to clarify the date on which he expects the Newport-Ebbw Vale link to commence carrying passengers, and will he also give an update on any future plans to provide an additional service from Newport to Abergavenny, with a reopened station at Caerleon?

We welcome the fact that the Deputy First Minister has accepted many of the report's recommendations. Giving the Welsh Government parity with the Scottish Government regarding powers to direct Network Rail's investment may prevent the situation that we see today where some regular services to and from Wales only operate between London and Swindon, or have been cancelled completely, so as to carry people to the Cheltenham Festival. As the general manager of Chepstow Racecourse observed today, this is particularly

ymchwiliodd yr adroddiad i'r amgylchiadau'n gysylltiedig â'r troeon y drylliwyd gobeithion o agor y rheilffordd rhwng Parcffordd Glynebwy a gorsaf Casnewydd. Er bod llwyddiant y cyswllt rhwng Glynebwy a Chaerdydd, sydd wedi denu mwy o lawer o deithwyr nag a ragwelwyd i ddechrau, yn llwyddiant mawr, mae hefyd yn dangos bod angen cwblhau'r cyswllt rhwng Casnewydd a Glynebwy ar frys. Cyhoeddodd Llywodraeth gyntaf y Cynulliad fod y cyswllt rheilffordd rhwng Casnewydd a Glynebwy yn rhan hanfodol o raglen adfywio gwaith dur Corus. Bwriad y rhaglen honno oedd sicrhau cymaint o fewnffuddsoddi ag a oedd yn bosibl a gwella manteision cymdeithasol trwy'r de-ddwyrain i gyd. Nid oes amheuaeth nad yw'r oedi cyn cyflwyno'r gwasanaeth hwn wedi ein rhwystro rhag gwireddu'r potensial llawn i ddatblygu economi'r de-ddwyrain ac i ddenu mwy o ymwelwyr.

Pan holais y cyn-Brif Weinidog am y mater fis Hydref diwethaf, eglurodd fod y Cynulliad yn aros i Network Rail gwblhau'r gwaith o ailosod signalau, y mae disgwyl iddo gael ei gwblhau'n gynnar eleni. Ni chafwyd dim sicrwydd y byddai gwasanaeth rheilffordd rhwng Casnewydd a Glynebwy ar waith mewn pryd ar gyfer cystadleuaeth y Cwpan Ryder na'r Eisteddfod Genedlaethol. A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog gymryd y cyfle yn ei ymateb i ddweud ar ba ddyddiad y mae'n disgwyl i'r cyswllt rhwng Casnewydd a Glynebwy ddechrau cludo teithwyr, ac a wnaiff hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynlluniau i ddarparu gwasanaeth ychwanegol o Gasnewydd i'r Fenni yn y dyfodol, gyda gorsaf wedi'i hailagor yng Nghaerllion?

Yr ydym yn croesawu'r ffaith fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn nifer o argymhellion yr adroddiad. Gallai sicrhau cydraddoldeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yng nghyswllt pwerau i gyfarwyddo buddsoddiad Network Rail atal y sefyllfa a welwn heddiw, lle mae rhai gwasanaethau rheolaidd i Gymru ac o Gymru yn gweithredu rhwng Llundain a Swindon yn unig, neu wedi'u canslo'n llwyr, er mwyn cludo pobl i wyl Cheltenham. Fel y dywedodd rheolwr cyffredinol Cae Rasio Cas-gwent heddiw, mae hynny'n arbennig o

disappointing when one considers that at the time of the Welsh National at Chepstow in December, the line was closed for maintenance work.

The Welsh Conservatives' goal is to ensure that the rail industry works more efficiently and cohesively, so that it delivers what passengers and goods distributors require. We need a stronger, more unified cross-industry focus on tackling overcrowding and keeping costs down. That will help to reduce the pressure of rising fares and provide better value for money.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydym wedi dod i ddiwedd yr amser a ddynodwyd ar gyfer y busnes hwn, ond, oherwydd y diddordeb, yr wyf wedi penderfynu defnyddio hynny o ddisgresiwn sydd gennyf i alw'r Aelodau eraill sydd wedi gofyn i siarad. Gofynnaf i'r Aelodau hynny siarad yn weddol gryno, gan ragweld na fydd y busnes sydd i ddilyn yn cymryd yr amser llawn sydd wedi'i ddynodi ar ei gyfer. Galwaf ar Nerys Evans i siarad nesaf.

Nerys Evans: Fel aelod o'r pwyllgor, yr wyf yn falch iawn o gael cyfrannu at y drafodaeth. Hoffwn ategu sylwadau David Melding ynglŷn â natur y pwyllgor a'r dystiolaeth yr ydym wedi'i derbyn, ac am y ffordd y mae'r pwyllgor yn gweithredu. Diolchaf i Gareth a'r staff am hynny.

Fel y mae pawb wedi ei ddweud, mae'r ymchwiliad yn un pwysig iawn, ac mae'n ddarn o waith arwyddocaol. Mae'r sefyllfa yn un gymhleth. Ers Deddf Rheilffyrdd 2005, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am fasnachfaint Trenau Arriva Wales ac wedi derbyn cyllid oddi wrth Llywodraeth Prydain i'w chyllido. Yr ydym eisoes wedi clywed am broblem sylfaenol y fasnachfaint honno. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyllido gwaith i wella isadeiledd rheilffyrdd o fewn y gyllideb graidd, ond nid yw'r cyfrifoldeb ar gyfer dynodi allbynnau gan Network Rail, sydd yn berchen ac yn gofalu am y trac, y gorsafod ac yn y blaen, wedi'i ddatganoli ac, felly, mae'n dal i orwedd gyda Llywodraeth

siomedig o gofio bod y rheilffordd wedi'i chau ar gyfer gwaith cynnal a chadw adeg Ras Fawr Genedlaethol Cymru yng Nghas-gwent ym mis Rhagfyr.

Nod y Ceidwadwyr Cymreig yw sicrhau bod y diwydiant rheilffyrdd yn gweithio'n fwy effeithlon ac yn fwy cydlynol, er mwyn darparu'r hyn y mae ei angen ar deithwyr a dosbarthwyr nwyddau. Mae arnom angen ffocws cryfach, mwy unedig ar draws y diwydiant ar fynd i'r afael â threnau gorlawn a chadw costau i lawr. Bydd hynny'n helpu lleihau'r pwysau a achosir gan gynydd ym mhrisiau tocynnau, a bydd yn darparu gwell gwerth am arian.

The Presiding Officer: Order. We have reached the end of the time allocated for this item of business, but because of the interest in the issue, I have decided to use what discretion I have to call the other Members who have sought to contribute. I would ask those Members to be brief, while anticipating that the remaining business timetabled for this afternoon does not take the full time allocated for it. I call Nerys Evans to speak next.

Nerys Evans: As a member of the committee, I am very pleased to be able to contribute to this debate. I should like to endorse the comments made by David Melding about the nature of the committee and the evidence we have received, and about the way in which the committee operates. I thank Gareth and the staff for that.

As everyone has said, the inquiry is very important, and it is a significant piece of work. The situation is a very complex one. Since the Railways Act 2005, the Welsh Government has been responsible for the Arriva Trains Wales franchise and has received funding from the British Government for that purpose. We have heard of the fundamental problem with the franchise. The Welsh Government also has powers to fund improvements to the railway infrastructure within its core budget, but responsibility for allocating outputs from Network Rail, which owns and maintains the track, stations and so on, is not devolved, and it therefore lies with the British Government. So, planning for infrastructure improvements

Prydain. Felly, mae cynllunio ar gyfer gwella isadeiledd rheilffyrdd yn dibynnu'n bennaf ar ddylanwadu ar flaenoriaethau yr Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Llundain a dylanwadu ar gyllid Network Rail. Yr ydym wedi crybwyll elfennau eraill, megis porthladdoedd, lle nad yw'r cyfrifoldeb wedi'i datganoli. Daeth y cymhlethdodau i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad, fel y soniodd David, wrth inni drafod gyda Network Rail, yn enwedig wrth inni holi'r cynrychiolwyr faint o gyllid yr oeddynt yn ei wario yng Nghymru. Nid oeddent yn gallu ateb y cwestiwn hwnnw.

Yr wyf hefyd am sôn am elfen bwysig i mi fel Aelod sy'n cynrychioli gorllewin Cymru. Clywsom dystiolaeth yn y pwyllgor—ac yr wyf yn llawn ymwybodol o hyn fel rhywun sy'n byw yn y gorllewin—am yr angen i wella gwasanaethau trên i Abergwaun. Yr ydym wedi gweld ymgyrchoedd lleol a chyflwynwyd deiseb i'r Cynulliad. Deallaf o'ch ymateb i'r argymhelliad nad ydych chi, Ddirprwy Brif Weinidog, am fanylu ar un cynllun, ond fe'ch anogaf, wrth ystyried y cynlluniau hyn yn ehangach, i edrych ar yr angen i gynyddu'r gwasanaethau i'r gorllewin. Os taw'r bwriad yw denu mwy o bobl i ddefnyddio'r rheilffyrdd yn hytrach na'u ceir, mae'n rhaid i'r gwasanaethau rheilffyrdd fod ar gael yn y lle cyntaf. Mae diffygion mawr ar hyn o bryd.

4.00 p.m.

A symud ymlaen, mae sawl argymhelliad, ac nid oes amser i sôn amdanynt i gyd, ond hoffwn grybwyll dau ohonynt. Un o straeon mawr yr wythnos diwethaf oedd datganiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig am drenau cyflymder uchel a'r bwriad i flaenoriaethu Lloegr—wrth gwrs. Nid oedd sôn o gwbl am Gymru. Y bwriad yw datblygu llinell i'r Alban drwy ganolbarth a gogledd Lloegr, ond nid oes uchelgais o gwbl gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu gwasanaeth trenau cyflym i Gymru. O dan y cynlluniau hynny, bydd Cymru dan anfantais economaidd enfawr. Yn wir, hi fydd yr unig ran o Brydain sydd heb ei chysylltu â rhwydwaith Ewrop. Mae hynny'n profi bod Llywodraeth Llundain yn anwybyddu anghenion Cymru.

depends primarily on influencing the priorities of the Department for Transport in London and Network Rail expenditure. We have mentioned other elements such as ports, responsibility for which is, again, non-devolved. The complexities came to light during the inquiry, as David mentioned, and in our discussions with Network Rail, particularly when we asked its representatives how much of its budget is spent in Wales. Indeed, they could not answer that question.

I wish to mention an aspect which I as a Member representing west Wales consider important. We heard evidence in committee—and I am fully aware of this as someone who lives in west Wales—of the need to improve train services to Fishguard. We have seen local campaigns and a petition submitted to the Assembly. I understand from your response to the recommendation, Deputy First Minister, that you do not wish to go into any detail on a single scheme, but I would urge you, when you consider these schemes in a broader sense, to look at the need to increase services to west Wales. If the intention is to attract more people onto the railways and out of their cars, then the rail services must be available in the first place. There are great deficiencies at present.

To move on, there are several recommendations, and there is no time to cover them all, but I wish to mention two. One of the big stories last week was the announcement by the UK Government about high-speed trains and its intention to prioritise England—of course. There was no mention whatsoever of Wales. The intention is to create a line to Scotland through the midlands and northern England, but the UK Government has no ambitions to develop a high-speed train service for Wales. Under these plans, Wales will be severely disadvantaged in economic terms. Indeed, we will be the only part of Britain that is not connected to the European network. That proves that the London Government ignores the needs of Wales.

O ran yr angen i drydaneiddio'r rheilffyrdd, mae'n newyddion da iawn bod llinell First Great Western i gael ei thrydaneiddio hyd Abertawe, ond gadewch inni roi hynny yn ei gyd-destun. Ar hyn o bryd, fel y dywedodd David Melding, nid oes yr un rheilffordd yng Nghymru wedi'i drydaneiddio, tra mae 35 y cant o'r seilwaith ar hyd y Deyrnas Unedig wedi'i drydaneiddio. Mae cynllun gwaith Network Rail yn ystyried trydaneiddio 16 llinell yn yr Alban, a dim ond un sy'n cael ystyriaeth i Gymru. Fel y dywedais, yr wyf yn falch iawn y bydd y gwaith hwn yn digwydd, ond ble mae'r uchelgais i Gymru? Yn anffodus, rhaid inni ddibynnu ar eraill i gyflawni'r hyn sy'n hynod bwysig i ni, a disgwylir inni fod yn ddiolchgar am un cynllun, er bod cynlluniau mwy uchelgeisiol a manteisiol o lawer yn cael eu datblygu ar gyfer Lloegr a'r Alban. Y disgwyl yw inni fod yn ddiolchgar ac yn hapus gydag un cynllun. Mae'n glir nad yw blaenoriaethau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith Network Rail na'r Adran Drafnidiaeth yn Llundain. Mae'n hynod bwysig felly fod argymhellad 19 yn cael ei wireddu, sef bod Llywodraeth Cymru yn cael yr un pwerau â Senedd yr Alban, yn ogystal â'r cyllid cyfatebol, un ai drwy ddiwygio Deddf Rheilffyrdd 2005 neu Ddeddf newydd.

Mae'n amlwg bod gan yr Alban lais cryf, gan fod ei blaenoriaethau hi'n cael llawer mwy o sylw ar lefel Brydeinig na'n rhai ni. Mae'r datblygiadau yno yn uchelgeisiol iawn—

Alun Cairns *a gododd—*

Nerys Evans: Derbyniwn na fydd pob un o'r argymhellion yn cael eu gweithredu, yn anffodus, ond os yw'r nifer helaeth ohonynt i gael eu gweithredu, bydd angen llais cryfach o lawer ar Gymru yn y broses.

Alun Cairns: A wnaiff yr Aelod ildio?

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Aelod wedi eistedd i lawr.

Alun Davies: Like others in the debate this afternoon, I pay tribute to the work of the Chair of the committee. The work that Gareth has led has clearly added a great deal not only to the debate that we are having this afternoon but to our knowledge and ability to

On the need to electrify the railways, it is very good news that the First Great Western line is to be electrified as far as Swansea, but let us put that in context. Currently, as David Melding mentioned, no part of the railway in Wales is electrified, although some 35 per cent of the infrastructure across Britain is. Network Rail, in its work programme, is considering electrifying 16 lines in Scotland, but only one is being considered for Wales. As I said, I am very pleased that this work is to be done, but where is the ambition for Wales? Unfortunately, we have to depend on others to deliver what is extremely important to us, and we are expected to be grateful for one scheme, although far more ambitious and beneficial schemes are being developed for England and Scotland. We are expected to be grateful and happy with a single scheme. It is clear that the priorities of Wales are not reflected in the work of Network Rail or the Department for Transport in London. Therefore, it is extremely important that recommendation 19 be implemented, namely that the Welsh Government be given the same powers as the Scottish Parliament, as well as match funding, either by way of an amendment to the Railways Act 2005 or through a new Act.

It is evident that Scotland has a strong voice and that there is much greater attention to its priorities than ours on a UK level. The developments there are very ambitious—

Alun Cairns *rose—*

Nerys Evans: We accept that not all the recommendations will be implemented, unfortunately, but if the majority are to be implemented, Wales will need a far stronger voice in the process.

Alun Cairns: Will the Member give way?

The Presiding Officer: Order. The Member has already taken her seat.

Alun Davies: Hoffwn innau roi teyrnged i waith Cadeirydd y pwyllgor, fel y mae Aelodau eraill wedi'i wneud yn y ddadl hon y prynhawn yma. Mae'n amlwg fod y gwaith a arweiniwyd gan Gareth wedi ychwanegu llawer iawn, nid yn unig at y ddadl yr ydym

create and design a different vision for rail and its future in Wales. The whole Assembly owes Gareth and the committee a great debt of thanks for that.

Having said that, it is disappointing that the Government has rejected nine of the 20 recommendations. This report has been led and informed by people in the sector and people using the railways. Therefore, it is disappointing that the Government does not feel able to accept more recommendations and deliver on them. What we need from the Government at the moment is a clear description of how it sees rail fitting into its priorities and a vision for rail going into the future.

Unlike some in this debate, I am not satisfied with what we see as the rail network in Wales today. I am not satisfied with the quality of the rolling stock. Jeff Cuthbert spoke very eloquently about the rolling stock on the Rhymney valley line. Other lines in west Wales, including those to Pembroke Dock and Fishguard, suffer similar difficulties with the rolling stock. The situation that we are in today really is not good enough. We have to say that very clearly.

To pick up on a point that William Graham raised about Cheltenham, is our rail infrastructure so weak and lacking in robustness that a horse-racing meet in Cheltenham leads to train cancellations in Wales? Are we satisfied with that? Two weeks ago, after the Wales versus France rugby match, we disagreed about Arriva's performance, which was worse than Wales's performance in Dublin. It was said that Arriva did well. I am sorry, but it did not do well. It has failed again this week. We have to set our sights far higher for the performance and delivery of this franchise. I believe that it is time that we not only take control of, but manage this system in a far more aggressive fashion. I am profoundly disappointed with the performance that we are seeing at present.

However, I am glad that the Deputy First

yn ei chael y prynhawn yma, ond at ein gwytodaeth a'n gallu i greu a llunio gweledigaeth wahanol ar gyfer y rheilffyrdd a'u dyfodol yng Nghymru. Mae dyled y Cynulliad cyfan yn fawr i Gareth a'r pwyllgor am hynny.

Wedi dweud hynny, mae'n siomedig bod y Llywodraeth wedi gwrthod naw o'r 20 argymhelliad. Mae pobl yn y sector a phobl sy'n defnyddio'r rheilffyrdd wedi arwain yr adroddiad hwn ac wedi cyfrannu iddo. Felly, mae'n siomedig nad yw'r Llywodraeth yn teimlo'i bod yn gallu derbyn mwy o'r argymhellion a gweithredu arnynt. Yr hyn y mae arnom ei angen gan y Llywodraeth ar hyn o bryd yw disgrifiad clir o'r lle sydd ganddi mewn golwg ar gyfer y rheilffyrdd yn ei blaenoriaethau, a gweledigaeth ar gyfer y rheilffyrdd i'r dyfodol.

Yn wahanol i rai yn y ddadl hon, nid wyf fi'n fodlon â'r rhwydwaith rheilffyrdd a welwn yng Nghymru heddiw. Nid wyf yn fodlon ag ansawdd y cerbydau. Bu Jeff Cuthbert yn siarad yn huawdl iawn am y cerbydau ar reilffordd cwm Rhymni. Mae rheilffyrdd eraill yn y gorllewin, gan gynnwys y rheini i Ddoc Penfro ac Abergwaun, yn cael anawsterau tebyg gyda'r cerbydau. Nid yw'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw yn ddigon da o gwbl. Rhaid inni ddweud hynny'n glir iawn.

I ddilyn pwynt a godwyd gan William Graham am Cheltenham, a yw ein seilwaith rheilffyrdd mor wan a gwachul nes i gyfarfod rasio ceffylau yn Cheltenham olygu ei bod yn rhaid canslo trenau yng Nghymru? A ydym yn fodlon â hynny? Bythefnos yn ôl, ar ôl gêm rygbi Cymru yn erbyn Ffrainc, buom yn anghytuno ynghylch perfformiad Arriva, a oedd yn waeth na pherfformiad Cymru yn Nulyn. Dywedwyd bod Arriva wedi gwneud yn dda. Mae'n ddrwg gennyf, ond ni wnaeth yn dda. Mae wedi methu'r wythnos hon eto. Rhaid inni ddisgwyl llawer mwy gan y fasnachfaint hon o ran y modd y mae'n perfformio ac yn darparu. Credaf ei bod yn bryd nid yn unig inni gael trefn ar y system hon ond i'w rheoli'n gadarnach o lawer. Yr wyf yn siomedig tu hwnt gyda'r perfformiad yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, yr wyf yn falch bod y Dirprwy

Minister and the Government have agreed with the committee on the importance of electrification and high-speed rail. Despite the somewhat curious remarks of Nerys Evans, whom I noticed left the Chamber immediately—and perhaps if I had made that speech, I would have, too—I agree that it is important that Wales should not be left off the rail map. There is a real danger that parts of Wales are already being left off it. As Paul Davies said, it is disappointing that recommendation 11 on Fishguard was rejected. Those are key issues that have to be addressed. The issues about the Valley lines need to be addressed. We have the issues of overcrowding and poor rolling stock, and I believe that we need a far greater ambition for rail and a place for it.

As the debate progresses, and as the debate about transport changes in the Assembly, I am becoming convinced that the air link to north Wales is of less significance than a rail link. If we have to talk about the priorities facing the Government and the Assembly, rail must take priority over air, and that must be reflected in the budgetary decisions taken by this Government. I admit that that was not my starting point three years ago, but I am becoming convinced of that by the nature of the ambition that we must have for rail. If we had the money available for the air link, I would support it, but I am not convinced that we do.

I hope that when we talk about electrification, we will talk about the electrification of the network in Wales—the entire network, that is. We have to set that as a very clear target for the Valley lines, the west Wales lines, and the north Wales lines, as well as the main lines to London. We have to be farsighted and clear about the fact that we see rail as performing a key role for us in Wales: linking communities, via both longer and shorter journeys. We must see rail as the main route by which people commute to work, where necessary, and rail must provide for social

Brif Weinidog a'r Llywodraeth wedi cytuno â'r pwyllgor ynghylch pwysigrwydd trydaneiddio a rheilffyrdd cyflym. Er gwaetha'r sylwadau rhyfedd braidd a gafwyd gan Nerys Evans, a sylwais iddi adael y Siambr yn syth wedyn—ac efallai y byddwn innau wedi gwneud yr un fath pe bawn wedi traddodi'r araith honno—yr wyf yn cytuno ei bod yn bwysig nad yw Cymru'n cael ei hepgor o'r map rheilffyrdd. Mae perygl gwirioneddol fod rhannau o Gymru eisoes yn cael eu hepgor ohono. Fel y dywedodd Paul Davies, mae'n siomedig bod argymhelliad 11 ynghylch Abergwaun wedi'i wrthod. Mae'r rheini'n faterion allweddol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. Mae angen rhoi sylw i faterion rheilffyrdd y Cymoedd. Mae gennym broblemau gyda threnau gorlawn a cherbydau gwael, a chredaf fod angen inni gael mwy o uchelgais o lawer ar gyfer ein rheilffyrdd, a lle priodol iddynt.

Wrth i'r ddadl symud yn ei blaen, ac wrth i'r ddadl ar drafndiaeth newid yn y Cynulliad, yr wyf yn cael fy argyhoeddi bod y gwasanaeth awyrennau i'r gogledd yn llai pwysig na chyswllt rheilffordd. Os yw'n rhaid inni sôn am y blaenoriaethau sy'n wynebu'r Llywodraeth a'r Cynulliad, rhaid i reilffyrdd gael blaenoriaeth dros awyrennau, a rhaid i hynny gael ei adlewyrchu yn y penderfyniadau y mae'r Llywodraeth hon yn eu gwneud am y gyllideb. Yr wyf yn cyfaddef nad dyna oedd fy safbwynt dechreuol dair blynedd yn ôl, ond yr wyf yn cael fy argyhoeddi am hynny gan natur yr uchelgais y mae'n rhaid inni ei gael ar gyfer ein rheilffyrdd. Pe bai'r arian gennym ar gyfer y gwasanaeth awyrennau, byddwn yn ei gefnogi, ond nid wyf yn argyhoeddedig bod yr arian gennym.

Gobeithio, pan soniwn am drydaneiddio, y byddwn yn sôn am drydaneiddio'r rhwydwaith yng Nghymru—y rhwydwaith cyfan, hynny yw. Rhaid inni osod hynny'n darged clir iawn ar gyfer rheilffyrdd y Cymoedd, rheilffyrdd y gorllewin a rheilffyrdd y gogledd, yn ogystal â'r prif reilffyrdd i Lundain. Rhaid inni fod yn graff ac yn glir ein bod yn gweld rôl allweddol i'r rheilffyrdd inni yng Nghymru: sef cysylltu cymunedau â'i gilydd, trwy gyfrwng teithiau hwy a theithiau byrrach fel ei gilydd. Rhaid inni ystyried y rheilffyrdd fel y prif lwybr y

and economic links in Wales.

I think that we have unanimity in the Chamber this afternoon, and so, after this debate, I hope that the Government will rethink its response to the committee's report. I hope that we will see the Government using its ambition and imagination to be creative in responding to these issues. I hope that we will see the Government moving rail to the top of its agenda and seeing it as a way to cement the economic and social benefits for communities throughout Wales.

Y Llywydd: Galwaf ar Eleanor Burnham i siarad yn gryno.

Eleanor Burnham: Buaswn wedi gallu bod yn fwy cryno pe na bai'r Aelod arall wedi cael cymaint o amser ac wedi dweud cymaint—ac aiddweud. Serch hynny, gadawn hynny.

Y Llywydd: Trefn.

Eleanor Burnham: Wel, cafodd bron i chwe munud.

Y Llywydd: Mae'n ddrwg gennyf, ond yr wyf wedi bod yn garedig iawn. Yr wyf wedi ymestyn yr amser ac wedi gwneud hynny'n ddoeth, fe gredaf, wedi ymgynghori. Byddaf yn parhau i wneud hynny, ond nid wyf yn disgwyl i Aelodau gymryd mantais a gwneud rhyw bwyntiau gwleidyddol.

Eleanor Burnham: Nid pwynt gwleidyddol ydoedd ond pwynt o drefn ynghylch yr amser a gafodd yr Aelod arall er ichi ofyn imi fod yn gryno. Byddaf yn gryno.

If nothing else, I suggest that the Deputy First Minister definitely look to recommendation 20. All it is asking for is a proper review, in partnership with Taith, into the value for money that we are getting—or not—from Arriva Trains. For goodness' sake. I hope that Deutsche Bank swallows it up and does something really fantastic, as it has done with the Wrexham to Marylebone service. It is a

mae pobl yn ei ddefnyddio i deithio i'r gwaith, lle bydd angen, a rhaid i'r rheilffyrdd ddarparu ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru.

Credaf fod gennym unfrydedd barn yn y Siambr y prynhawn yma, ac felly, ar ôl y ddadl hon, gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ailystyried ei hymateb i adroddiad y pwyllgor. Gobeithio y gwelwn y Llywodraeth yn defnyddio'i huchelgais a'i dychymyg i fod yn greadigol wrth ymateb i'r materion hyn. Gobeithio y gwelwn y Llywodraeth yn symud y rheilffyrdd i frig ei hagenda ac yn eu gweld fel modd i gryfhau'r manteision economaidd a chymdeithasol i gymunedau ledled Cymru.

The Presiding Officer: I call on Eleanor Burnham to speak briefly.

Eleanor Burnham: I could have been briefer had the other Member not been given so much time and said so much—and repeated it. However, I shall leave that.

The Presiding Officer: Order.

Eleanor Burnham: Well, he was given nearly six minutes.

The Presiding Officer: I am sorry, but I have been very kind. I have extended the time and I have done that wisely, I believe, after consultation. I shall continue to do so, but I do not expect Members to take advantage of that by making political points.

Eleanor Burnham: It was not a political point, but a point of order about the time which the previous Member was given although you asked me to be brief. I shall be brief.

Os na fydd yn gwneud dim byd arall, awgrymaf y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog edrych yn bendant ar argymhelliad 20. Y cyfan y mae'r argymhelliad hwnnw'n gofyn amdano yw adolygiad priodol, mewn partneriaeth â Taith, o'r gwerth am yr arian yr ydym yn ei gael—neu nad ydym yn ei gael—gan Drenau Arriva. Er mwyn popeth. Gobeithio y caiff ei lyncu gan Deutsche Bank

can-do rail service, not a cannot-do service, which is what Arriva Trains has provided over the past few years.

ac y bydd hwnnw'n gwneud rhywbeth hollol wych, fel y mae wedi'i wneud gyda'r gwasanaeth o Wrecsam i Marylebone. Mae'n wasanaeth sydd ag agwedd gadarnhaol, yn hytrach nag agwedd negyddol, sef yr hyn y mae Trenau Arriva wedi'i ddarparu dros y blynyddoedd diwethaf.

Y Llywydd: Nid oedd angen i'r cyfraniad fod mor gryno â hynny. [*Chwerthin.*]

The Presiding Officer: There was no need for your contribution to be as brief as that. [*Laughter.*]

4.10 p.m.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Diolchaf i Aelodau am eu cyfraniadau. Bu'n ddadl hynod ddiddorol. Yr wyf yn ailadrodd y pwynt cyffredinol a wneuthum ar ddechrau'r drafodaeth, sef fy mod yn rhannu gweledigaeth y pwyllgor, ac yn wir aelodau'r pwyllgor, o ran gwella'r gwasanaeth rheilffyrdd yng Nghymru. Hoffwn nodi wrth ddechrau na roddwyd digon o gydnabyddiaeth i'r ffaith bod y Llywodraeth hon wedi rhoi mwy o bwyslais ar fuddsoddi mewn rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus nag unrhyw Lywodraeth o'r blaen yn hanes Cymru, a hon yw'r Llywodraeth gyntaf i gynnwys mwy o arian yn ei chyllideb i'w wario ar wasanaethau sy'n integreiddiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus nag ar ffyrdd. Mae'r patrwm o symud gwariant oddi ar ffyrdd i drafnidiaeth gyhoeddus yn glir. Rhaid cydnabod nad yw hynny'n beth hawdd i'w wneud dros nos, ond mae'r Llywodraeth wedi cytuno iddo a gobeithiwn y gwelwn y patrwm hwnnw'n ehangu dros y blynyddoedd nesaf. Mae angen gwneud pwynt cyffredinol am hynny.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I thank Members for their contributions. It has been a very interesting debate. I repeat the general point which I made at the beginning, namely that I share the vision of the committee and, indeed, its members, of improving railway services in Wales. I wish to note from the beginning that not enough recognition has been given to the fact that this Government has placed more emphasis on investing in the railways and in public transport than any other Government in the history of Wales, and this is the first Government to include more money in its budget to spend on integrating services with public transport than to spend on roads. That pattern of moving expenditure away from roads and to public transport is clear for all to see. We must recognise that it will be no mean feat to achieve that overnight, but the Government has agreed to it, and we hope to see that pattern develop over the coming years. That general point needs to be made about that.

Yn ail, yr ydym wedi buddsoddi'n drwm er mwyn gwella'r isadeiledd, ac yr ydym yn bwriadu gwneud eto, er nad oes gennym y prif gyfrifoldeb dros hynny. Mae'r ffaith bod £20 miliwn yn cael ei wario i ddyblu'r trac rhwng Wrecsam a Chaer ac £20 miliwn arall yn cael ei wario yn Abertawe a Thre-gŵyr yn dangos bod y Llywodraeth hon wedi gwneud ymrwymiad sylweddol. Yn ychwanegol at hynny, yn ystod y cyfnod y bûm yn Weinidog, mae mwy o wasanaethau wedi'u darparu rhwng y de a'r gogledd, mae gwasanaeth wedi cychwyn rhwng Glynebwy a Chaerdydd, ac mae gwasanaeth bob hanner

Secondly, we have invested heavily in improving the infrastructure, and we intend to do so again, although we do not have the main responsibility for that. The fact that £20 million is being spent on dualling the line between Wrexham and Chester and another £20 million in Swansea and Gowerton demonstrates that this Government has made a considerable commitment. In addition to that, during the period when I have been Minister, more services have been provided between north and south Wales, a service has commenced between Ebbw Vale and Cardiff, and there is now a half-hourly service

awr rhwng Merthyr a Chaerdydd. Yr wyf wedi edrych ar gynlluniau i ailagor rheilffyrdd ar hyd a lled Cymru. Mae'r darlun mae rhai Aelodau—er nad i gyd—yn ceisio ei gyfleu, nad yw'r Llywodraeth yn gwneud dim i ddatblygu'r rheilffyrdd, yn anghywir.

Y cwestiwn yw a yw'r Llywodraeth yn gwneud digon ac yn ei wneud yn ddigon cyflym. Y realiti yw fy mod yn gorfod sicrhau ein bod yn gweithredu'r flaenraglen yr wyf wedi'i gosod gerbron y Cynulliad. Dyna fy mhrif gyfrifoldeb ar hyn o bryd. Gwn fod y pwyllgor yn dymuno i'r Llywodraeth fynd ymhellach na hynny, a derbyniaf fod nifer o Aelodau wedi gwneud pwyntiau am hynny heddiw, ond rhaid i mi wireddu'r hyn yr wyf wedi'i osod gerbron y Cynulliad o fewn y cyllid a'r cynllun sydd gennyf.

Mae dau bwynt arall y dylwn eu gwneud, os caf fod ychydig yn blwyfol gyda Paul a Nerys. Yr wyf yn meddwl bod Nerys wedi ymateb i'r pwynt a wneuthum am yr argymhelliad ynghylch Abergwaun. Gobeithiaf y bydd Paul yn cymryd cysur o'r ffaith nad oeddwn yn dweud, wrth wrthod yr argymhelliad hwnnw, fy mod yn gwrthod y cynnig i wella gwasanaethau i Abergwaun, ond fy mod yn anhapus bod y pwyllgor yn dymuno imi benodi un o argymhellion consortiwm cludiant integredig de-orllewin Cymru uwchben rhai eraill. Yr wyf wedi dweud y byddaf yn ymateb i flaenoriaethau'r consortiwm yn eu cyfanrwydd. Gyda phob parch, nid wyf yn teimlo ei fod yn briodol i'r pwyllgor dynnu allan un o'r cynigion hynny a disgwyl i mi ei dderbyn heb imi edrych ar y darlun cyfan. Wrth gwrs, rhaid imi edrych ar gynlluniau pob rhanbarth ochr yn ochr â hynny. Os yw hynny o ryw gysur i Paul, efallai y bydd yn derbyn hynny. Credaf fod Nerys yn iawn, wrth gwrs, o ran yr hyn a ddywedodd hi.

I am not sure how much time I have in which to respond, but—

The Presiding Officer: I am in a generous spirit. It has unexpectedly grabbed me today.

The Deputy First Minister: I do think that it has been a very important debate. I will deal with some of the specific points that have

between Merthyr and Cardiff. I have looked at schemes to reopen railways the length and breadth of Wales. The picture which some Members—though not all—are trying to paint, of the Government not doing anything to develop the railways, is wrong.

The question is whether the Government is doing enough, and doing it fast enough. The reality is that I have to ensure that I implement the forward work programme which I have laid before the Assembly. That is my main responsibility at the moment. I know the committee wants the Government to go further than that, and I accept that several Members have made points about that today, but I must achieve what I have presented before the Assembly within the budget and within the plan that I have at my disposal.

There are two other points which I should make, if I may be a little bit parochial, like Paul and Nerys. I believe Nerys responded to the point that I made about the recommendation concerning Fishguard. I hope Paul will take some comfort from the fact that, in rejecting that recommendation, I was not saying that I was rejecting the proposal to improve the services to Fishguard, only that I was unhappy that the committee wished me to place one of the recommendations of the south-west Wales integrated transport consortium above some others. I have said that I will respond the consortium's priorities in their entirety. With all due respect, I do not feel it is appropriate for the committee to pick out one of those proposals and then expect me to accept it without allowing me to look at the bigger picture. Of course, I have to look at schemes for every region alongside that. If that is of any consolation to Paul, I hope he will accept that. I believe Nerys is right, of course, in what she said.

Nid wyf yn siŵr faint o amser sydd gennyf i ymateb, ond—

Y Llywydd: Yr wyf yn yr hwyl i fod yn hael. Fe'm trawodd yn ddirybudd heddiw.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Credaf iddi fod yn ddadl bwysig iawn. Yr wyf am ymdrin â rhai o'r pwyntiau penodol a wnaed. Yr wyf

been made. I appreciate the fact that Members have covered much wider issues than those mentioned in the report and are making constituency-related points. I understand that and know that, very often, there is not sufficient time to look at those issues.

May I deal with Eleanor Burnham's intervention about the use of EU funds? You cannot use convergence funding to improve railways that are not in convergence areas. Therefore, it is not possible to complete some of the works that you described, although I can say that we are looking at the use of structural funds for station improvement programmes, for example.

Brian Gibbons mentioned upgrades to Port Talbot station. We are considering whether, as part of the national stations improvement programme, we can get European funding for that as well.

Ann Jones mentioned the fact that the Gerallt Gymro currently goes through Crewe. I indicated earlier in my contribution that we are investing in doubling the track between Chester and Wrexham as part of the rail forward programme. Darren Millar referred to the issue of rolling stock, as did other Members. We are looking currently as to whether, rather than having an extra north Wales service, we can have improved rolling stock on an existing north Wales service. We are currently looking at that and are in discussions with Arriva and manufacturers.

I do not think, Jeff, that you should apologise for raising issues on behalf of your constituents. As Members, that is what we should be doing, and you should be congratulated for the way in which you promote the interests of your constituents. I will write to you about the monitoring of the programme. I can tell you that, every time you raise the issue with me, I am in discussions with Arriva Trains Wales and my officials on how we can make progress on this. Your raising the issue does not fall on deaf ears; we are looking at it carefully, and I have asked Arriva Trains Wales on a number of occasions to discuss with my officials how

yn sylweddoli bod yr Aelodau wedi trafod materion llawer ehangach na'r rhai a gafodd sylw yn yr adroddiad, a'u bod yn gwneud pwyntiau'n ymwneud â'u hetholaethau. Yr wyf yn deall hynny, a gwn nad oes digon o amser, yn aml iawn, i edrych ar y materion hynny.

A gaf fi ymdrin ag ymyriad Eleanor Burnham ynghylch defnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd? Ni allwch ddefnyddio cyllid cydgyfeirio i wella rheilffyrdd y tu allan i ardaloedd cydgyfeirio. Felly, nid yw'n bosibl gwneud rhywfaint o'r gwaith a ddisgrifiwyd gennych, er y gallaf ddweud ein bod yn ystyried defnyddio cronfeydd strwythurol ar gyfer rhaglenni gwella gorsafoedd, er enghraifft.

Soniodd Brian Gibbons am uwchraddio gorsaf Port Talbot. Yr ydym yn ystyried a allwn gael cyllid Ewropeaidd ar gyfer y gwaith hwnnw hefyd, fel rhan o'r rhaglen genedlaethol i wella gorsafoedd.

Cyfeiriodd Ann Jones at y ffaith fod gwasanaeth Gerallt Gymro yn mynd trwy Crewe ar hyn o bryd. Dywedais yn gynharach yn fy nghyfraniad ein bod yn buddsoddi i ddyblu'r trac rhwng Caer a Wrecsam fel rhan o'r flaenraglen rheilffyrdd. Cyfeiriodd Darren Millar at y broblem gyda cherbydau, a gwnaeth Aelodau eraill hynny hefyd. Ar hyn o bryd, yr ydym yn ystyried a fyddai modd inni gael gwell cerbydau ar waith sydd eisoes ar gael yn y gogledd, yn hytrach na chael gwasanaeth ychwanegol yno. Yr ydym yn ystyried hynny ar hyn o bryd ac yn trafod gydag Arriva a gweithgynhyrchwyr.

Ni chredaf y dylech ymddiheuro, Jeff, am godi materion ar ran eich etholwyr. Fel Aelodau, dyna y dylem ei wneud, a dylid eich llongyfarch ar y modd yr ydych yn hybu buddiannau eich etholwyr. Ysgrifennaf atoch ynghylch gwaith monitro'r rhaglen. Gallaf ddweud wrthyhch fy mod, bob tro pan fyddwch yn codi'r broblem gyda mi, yn trafod gyda Trenau Arriva Cymru a'm swyddogion i weld sut y gallwn wneud cynnydd ar hyn. Nid yw eich cwyn yn syrthio ar glustiau byddar; yr ydym yn edrych arni'n ofalus, ac yr wyf wedi gofyn droeon i Trenau Arriva Cymru drafod â'm swyddogion i weld sut y gallwn symud ymlaen gyda rhai o'r

we can take forward some of the improvements that you have requested, and I will continue to do that.

David Melding talks about long-term aspirations, with which I agree. I would ask that colleagues—this is not a party political point, but a general political point, in that we have heard today that there is considerable support for electrification and for linking Wales to the high-speed network; I appreciate the genuine way in which that support is given—who have Members of Parliament in their parties try to take that debate to their parties in Westminster. I understand that the Government has a lobbying role to a certain extent with regard to HS2, but it would be helpful if colleagues took that message back to their own parties as well. It would be extremely helpful to secure all-party support for that.

I understand the point that Trish made about Aberbeeg and Abertillery, and we are looking to see how we can take those programmes forward in the future, although I am not in a position to make a commitment on that today.

William Graham referred to the electrification, and I hope that he can take on board the point that I made. Nerys made the more general point about the need for us to look seriously at the devolution of extra powers. I am gratified that there is all-party support for that proposal, and while there is no current commitment by the One Wales Government to do that, I am happy to take it back to the Government and to look at it corporately.

Finally, I understand the frustration of Members, and that people want us to take these things forward. If we could agree that there is a real aspiration to improve the rail network in Wales and to improve services to others parts of Wales, I am happy to work with the committee to see how, in the long term, we can really make some improvements.

Ann Jones: Thank you for your comments. I wanted to emphasise the point on the friendly nature of the name ‘Von Ieuan Express’ and improved services. Could you address the issue regarding freight that I mentioned? I am

gwelliannau yr ydych wedi gofyn amdanynt, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Mae David Melding yn sôn am ddyheadau hirdymor, a chytunaf â hynny. Hoffwn ofyn i'm cyd-Aelodau—nid oes a wnelo hyn â gwleidyddiaeth plaid, ond â gwleidyddiaeth yn gyffredinol, yn gymaint â'n bod wedi clywed heddiw bod cryn gefnogaeth i drydaneiddio a chysylltu Cymru â'r rhwydwaith trenau cyflym; gwerthfawrogaf y modd diffuant y caiff y gefnogaeth honno ei rhoi—sydd ag Aelodau Seneddol yn eu pleidiau i geisio codi'r ddatl honno gyda'u pleidiau yn San Steffan. Deallaf fod gan y Llywodraeth rôl lobïo i ryw raddau o ran HS2, ond byddai o gymorth pe bai fy nghyd-Aelodau'n mynd â'r neges honno'n ôl i'w pleidiau eu hunain hefyd. Byddai o gymorth mawr i gael cefnogaeth hollbleidiol i hynny.

Deallaf y pwynt a wnaeth Trish am Aber-big ac Abertyleri, ac yr ydym yn ystyried sut y gallwn ddatblygu'r rhaglenni hynny yn y dyfodol, ond nid wyf mewn sefyllfa i ymrwymo i hynny heddiw.

Cyfeiriodd William Graham at drydaneiddio, a gobeithio y bydd yn gallu ystyried y pwynt a wneuthum. Gwnaeth Nerys bwynt mwy cyffredinol fod angen inni edrych o ddifrif ar ddatganoli pwerau ychwanegol. Yr wyf yn falch bod cefnogaeth hollbleidiol i'r cynnig hwnnw, ac er nad oes ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru'n Un i wneud hynny ar hyn o bryd, yr wyf yn fodlon mynd â'r pwynt yn ôl i'r Llywodraeth ac edrych arno'n gorfforaethol.

Yn olaf, gallaf ddeall rhwystredigaeth Aelodau, a bod pobl am inni symud y pethau hyn yn eu blaen. Pe gallem gyuno bod dyhead go iawn i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru a gwella gwasanaethau i rannau eraill o Gymru, byddwn yn fodlon gweithio gyda'r pwyllgor i weld sut y gallwn fynd ati o ddifrif yn yr hirdymor i wneud rhai gwelliannau.

Ann Jones: Diolch am eich sylwadau. Yr oeddwn am bwysleisio'r pwynt am natur gyfeillgar yr enw ‘Von Ieuan Express’ a gwasanaethau gwell. A allech roi sylw i'r mater a godais am gludo nwyddau? Yr wyf

happy to accept that we need to go forward, but I would like to know a little more about that issue.

The Deputy First Minister: I have not dealt with freight particularly; I understand that, and there are constraints on my time. I will write to Ann on that, if she would not mind, and then we can take that forward. If I have not covered other points that have been raised in the debate—I made a careful note of each—I will write to Members about specific schemes that you have brought to my attention. I know that you are concerned about other stations and so on.

4.20 p.m.

I welcome this debate. I understand that there are criticisms that we have not been able to accept more of the committee's recommendations, but if we could agree that there is genuine goodwill in the Chamber to improve rail services in Wales, I am happy to work with the committee to realise that ambition over time.

Gareth Jones: Fel y dywedasoeh ar y cychwyn, Lywydd, mae'n amlwg bod diddordeb garw yn y testun hwn. Yn y lle cyntaf, diolchaf am y geiriau caredig a ddaeth i'm rhan fel Cadeirydd. Fodd bynnag, nid yw'r Cadeirydd ond cystal â'r cymorth a'r gefnogaeth a gaiff gan y tîm clericio. Hoffwn dalu teyrnged i'r tîm hwnnw am y gwaith da a chyson mae'n ei wneud ar hyd yr amser. Diolchaf hefyd i bawb a roddodd dystiolaeth inni ac a gynorthwyodd y pwyllgor yn hynny o beth. Diolchaf hefyd i fy nghyd-Aelodau ar y pwyllgor am eu heffeithiolrwydd wrth fynd ati i graffu ar y testun hollbwysig hwn.

Fel y mae'r Dirprwy Brif Weinidog eisoes wedi ei ddweud, mae llawer o Aelodau—yr wyf yn deall pam—wedi datgan diddordeb ac wedi cyfrannu, ac yr wyf yn dra diolchgar i bob un ohonoch am eich cyfraniad y prynhawn yma. Mae cyfraniadau penodol wedi bod at bethau yn eich etholaethau ac mae'n dda iawn eich bod wedi gwneud y rheini, ond ni allaf, yn yr amser sydd gennyf, ymateb i bob un ohonynt.

Hoffwn gyfeirio at yr hyn a ddywedodd Dr

yn fodlon derbyn bod angen inni symud ymlaen, ond hoffwn wybod ychydig mwy am y mater hwnnw.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Nid wyf wedi ymdrin yn benodol â chludo nwyddau; deallaf hynny, ac mae cyfyngiadau ar fy amser. Ysgrifennaf at Ann ynghylch hynny, os nad oes gwahaniaeth ganddi, ac yna gallwn symud hynny yn ei flaen. Os nad wyf wedi ymdrin â phwyntiau eraill a godwyd yn y ddadl—gwneuthum nodyn gofalus o bob un—ysgrifennaf at yr Aelodau i sôn am gynlluniau penodol yr ydych wedi tynnu fy sylw atynt. Gwn eich bod yn pryderu am orsafoedd eraill, ac yn y blaen.

Yr wyf yn croesawu'r ddadl hon. Deallaf fod rhai'n beirniadu'r ffaith nad ydym wedi gallu derbyn mwy o argymhellion y pwyllgor, ond pe gallem gytuno bod ewyllys da gwirioneddol yn y Siambr i wella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, byddwn yn fodlon gweithio gyda'r pwyllgor i wireddu'r uchelgais hwnnw dros amser.

Gareth Jones: As you said at the outset, Presiding Officer, it is clear that there is much interest in this issue. Firstly, I am grateful for the kind words about my chairmanship. However, the Chair is only as good as the help and support which he receives from the clerking team. I pay tribute to that team for the quality of the work it does at all times. I also thank all those who gave evidence and who assisted the committee in that way. I also thank my fellow Members on the committee for the effective way in which they set about scrutinising this vital issue.

As the Deputy First Minister has said, many Members—I understand why—have expressed an interest and have contributed, and I am very grateful to every one of you for your contributions this afternoon. Specific mention has been made of constituency issues, which is a good thing, but I cannot, in the time I have, respond to every one of them.

I should like to refer to what Dr Brian

Brian Gibbons. Efallai nad rôl y pwyllgor oedd cydnabod y gwaith da a wneir, ond mae'n deg ein bod yn ei gydnabod, yn ogystal â'r cynnydd sy'n digwydd o ran rheilffyrdd Cymru. Fodd bynnag, edrych i'r dyfodol yw holl bwrpas yr adroddiad hwn a sut y gallwn adeiladu ar yr hyn sydd gennym, beth bynnag yw cryfderau a gwendidau system y gyfundrefn reilffyrdd ar hyn o bryd. Tarodd Dr Gibbons ar un pwynt a oedd yn ein gorfodi i ystyried y dyfodol, sef y twf aruthrol a fu yn y defnydd o'n rheilffyrdd. Bu i aelodau'r pwyllgor ragweld yn syth y bydd cynnydd pellach yn y defnydd hwnnw ac mor bwysig yw creu'r ddarpariaeth gywir ar ei gyfer o ran ein strwythur rheilffyrdd.

Yr wyf yn cydnabod fod cyfeiriadau wedi bod at etholaethau unigol. Dof yn ôl at hynny'n gyffredinol, gan fy mod yn teimlo fod y ddadl a gawsom yn un dda—mae wedi bod yn ddadlennol ac yn adeiladol. Yr wyf yn rhoi ystyriaeth i'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Brif Weinidog yn ei ymateb, sef ei fod yn rhannu'r dyheadau hyn a'r golwg i'r dyfodol. Mae consensws yn hynny o beth. Teimlaf fod rhwystredigaeth ar hyn o bryd, ond yr wyf hefyd yn deall natur y rhwystredigaeth honno gan fod rhai pethau y gall Llywodraeth Cymru eu cyflawni a phethau eraill na all eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw hynny'n help inni pan ydym am symud pethau ymlaen yn llwyddiannus yng Nghymru.

Mae'r ddadl y prynhawn yma wedi canolbwyntio ar bethau cyffredinol a phwysig. Bu i David Melding ein hatgoffa'n glir fod yr adroddiad hwn yn seiliedig ar frwdfrydedd a diddordeb y cyhoedd a phawb a wnelo â chludiant ar y rheilffyrdd ac ar dystiolaeth. Efallai fod bylchau yn y dystiolaeth—yr wyf yn cydnabod hynny oherwydd, fel y gwyyddoch, mae'n anodd gwahodd pawb gerbron y pwyllgor—ond mae'n dystiolaeth uniongyrchol ac yn sail i'r argymhellion.

Yr ydym wedi cyffwrdd â nifer o bwyntiau pwysig, fel datganoli ac edrych ar y model sydd gan yr Alban. Yr ydym wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r allwedd i'r dyfodol, sef trydaneiddio, a pha mor bwysig y bydd hynny i ddyfodol economi Cymru.

Gibbons said. It might not have been the committee's role to recognise the good work being done, but it is fair that we recognise it, as well as the progress being made Welsh railways. However, the purpose of this report is to look forward to how we can build on what we have, whatever the strengths and weaknesses of the current railway system. Dr Gibbons mentioned one point which compelled us to consider the future, namely the huge increase we have seen in the use made of our railways. Committee members foresaw from the beginning that there would be further increases, and it is vital that the right railway structure provision be made for that.

I recognise that references have been made to individual constituencies. I shall come back to that in a general sense, since I feel we have had a good debate—it has been enlightening and constructive. I am taking what the Deputy First Minister said in his response into consideration, namely that he shares these ambitions and an eye on the future. There is consensus in that respect. I feel there is frustration at the moment, but I also understand the nature of that frustration, since there are some things which the Welsh Government is able to achieve and others which it cannot achieve. However, that does not help us when we wish to move things forward successfully in Wales.

This afternoon's debate has focused on general and important points. David Melding clearly reminded us that this report is based on the enthusiasm and interest of the public and all those involved with rail transport and on evidence. There may be gaps in the evidence—I accept that, because, as you know, it is difficult to invite everyone to appear before the committee—but it is direct evidence and it forms the basis of the recommendations.

We have touched upon a number of important points, such as devolution and looking at the Scottish model. We have given careful consideration to the key for the future—electrification—and its importance to the future of the Welsh economy.

Mae sawl Aelod hefyd wedi cyfeirio at un o'r pethau pwysicaf, sef hygyrchedd ein rheilffyrdd ac ansawdd ein gorsafoedd, a'r gofyn, efallai, am ddatblygiadau o'r newydd, fel y clywsom gan Darren Millar, a gyfeiriodd at Fae Cinnel, ac Ann Jones, a siaradodd am Gei Connah.

Cyfeiriwyd hefyd at swyddogaeth Network Rail a'r berthynas gydag ef. Treuliwyd amser yn trafod hynny yn y pwyllgor. Pwysleisiwyd hefyd sefyllfa etholaethau unigol, y gwahanol orsafoedd a'r system reilffyrdd. Mae hynny yn ein harwain at swyddogaeth Taith, a'r consortia eraill sydd gennym drwy Gymru. Mae'r consortia cludiant yn hollbwysig—yn allweddol, i ddweud y gwir—i unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Un peth yr wyf wedi'i gasglu o'r dystiolaeth ac o'r hyn yr ydym wedi'i drafod y prynhawn yma—cyfeiriodd Nerys Evans at y pwynt hwn—yw cymhlethdod y sefyllfa oherwydd nifer yr asiantaethau a phawb sy'n ymwneud â datblygu rheilffyrdd yng Nghymru. Mae angen llawer mwy o gyd-drefniant o ran y gwahanol gyrfff sy'n sicrhau bod rhwydwaith effeithiol o reilffyrdd yng Nghymru. Mae unrhyw Weinidog—ac nid wyf yn ceisio amddiffyn y Gweinidog hwn—yn gorfod ymwneud â'r adran yn Llundain, Network Rail a'r consortia yng Nghymru, heb sôn am wahanol etholaethau, cyrff eraill a phobl sydd yn ymwneud â'r fasnachfrait, fel yn achos Trenau Arriva Cymru.

Mae hyn yn gymhleth yng Nghymru, oherwydd bod angen i bawb ddod at ei gilydd a chytuno ar raglen. Gobeithiaf—yr wyf yn cymryd y Dirprwy Brif Weinidog ar ei air—eich bod o ddifrif am weld hyn yn datblygu yn effeithiol i'r dyfodol. Fodd bynnag, pa bynnag Lywodraeth fydd yma ar ôl Mai 2011, mae'n hollbwysig bod yr adroddiad hwn yn parhau i fwydo unrhyw fath o raglen datblygu rheilffyrdd yng Nghymru.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu a diolch am eich amser.

Y Llywydd: Diolch yn fawr iawn i'r Cadeirydd. Y cwestiwn yw ein bod yn cytuno nodi'r adroddiad. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yr ydym wedi nodi a phasio'r cynnig.

A number of Members have also referred to one of the most important points, namely the accessibility of our railways and the state of our stations, alongside the need, perhaps, for new developments, as we heard from Darren Millar, who referred to Kinmel Bay, and Ann Jones, who talked about Connah's Quay.

Mention was also made of the Network Rail function and the relationship with it. Time was spent discussing that in committee. The situation in individual constituencies was also emphasised, in relation to stations and the railway system. That leads us to the functions of Taith and the other consortia across Wales. Transport consortia play a vital role—they are key, to be honest—in any plans for the future.

One thing that I have gleaned from the evidence and from this afternoon's debate—Nerys Evans referred to this—is the complexity of the situation given the number of agencies and others involved in railway development in Wales. Much more collaboration is required of the different organisations responsible for ensuring an effective railway system in Wales. Any Minister—and I am not trying to defend this Minister—would have to deal with the department in London, Network Rail and the Welsh consortia, apart from various constituencies, other bodies and people involved with the franchise, as in the case of Arriva Trains Wales.

This is complex in Wales, because they all have to come together to agree a programme. I hope—and I take the Deputy First Minister at his word—that you are serious about seeing this develop effectively for the future. However, whatever Government is in place after May 2011, it is vital that this report should continue to feed into any rail development programme in Wales.

I thank everyone who has contributed and I thank you for your time.

The Presiding Officer: Thank you, Chair. The question is that we note the report. Is there any opposition? I see that there is not. Therefore, we have noted and agreed the motion.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

**Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer**

Y Llywydd: Credaf mai dyma'r man addas imi gyhoeddi canlyniad y balot ar gyfer Mesur arfaethedig a gynhaliwyd heddiw. Mae'n bleser gennyf estyn fy llongyfarchiadau gwresocaf i Eleanor Burnham ar ennill y balot gyda Mesur ar y testun diddorol 'addysg oedolion'. Edrychwn ymlaen at weld y Mesur arfaethedig yn gweld golau dydd o fewn y misoedd nesaf. Dylech fod wedi cael rhybudd ymlaen llaw o'r cyhoeddiad hwnnw.

The Presiding Officer: I believe this is the appropriate point for me to announce the result of the ballot for a proposed Measure held today. It is my pleasure to warmly congratulate Eleanor Burnham on winning the ballot with a Measure interestingly entitled 'adult education'. We look forward to the proposed Measure seeing the light of day within the next few months. You should have received prior notice of this announcement.

**Dadl Cyfnod 1—Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad
Cymunedau â'r Trefniadau)**

**Stage 1 Debate—Proposed Shipment of Waste for Recovery (Community
Involvement in Arrangements) Measure**

Nerys Evans: Cynigiaf fod

Nerys Evans: I move that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â
Rheol Sefydlog Rhif 23.24:*

*the National Assembly for Wales, in
accordance with Standing Order No. 23.24:*

*yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y
Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w
Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r
Trefniadau) (Cymru). (NDM4443)*

*agrees to the general principles of the
Proposed Shipment of Waste for Recovery
(Community Involvement in Arrangements)
(Wales) Measure. (NDM4443)*

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn gerbron y Cynulliad heddiw, a hoffwn ddiolch ichi am y cyfle. Hoffwn ddiolch i'r tîm sydd wedi fy nghynorthwyo yn ystod taith y Mesur hwn, sef Sarah Beasley yn y swyddfa ddeddfwriaeth, Nia Seaton a Graham Winter o wasanaeth ymchwil yr Aelodau, Joanest Jackson, am ei chyngor cyfreithiol, a Paulene Cunningham.

It is my pleasure to introduce this proposed Measure before the Assembly today, and I thank you for the opportunity. I should like to thank the team that has assisted me with this Measure: Sarah Beasley in the legislation office, Nia Seaton and Graham Winter in the Members' research service, Joanest Jackson for her legal advice, and Paulene Cunningham.

Yr ydym yn awr yn cyrraedd dadl Cyfnod 1 ar y Mesur arfaethedig ar ailgylchu, wedi imi ennill y balot ar ddechrau 2008, ac ar ôl i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 a'r Pwyllgor Cyllid graffu ar y Mesur arfaethedig. Hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgorau hynny a'r staff am eu gwaith.

We now reach Stage 1 debate in the proposed Measure on recycling, following my success in the ballot at the beginning of 2008, and scrutiny by Legislation Committee No. 1 and the Finance Committee. I wish to thank the members of those committees and the staff for their work.

Diben y Mesur arfaethedig hwn yw gwneud y broses ailgylchu gwastraff yng Nghymru yn fwy tryloyw ac agored, a hynny drwy osod dyletswydd ar ein hawdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth gyhoeddus sy'n dynodi lle yn union y mae ein gwastraff yn cael ei ailgylchu. Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw cofnod o le yn union y mae pen taith ein gwastraff ailgylchu, nac i adrodd yn ôl i drigolion ar yr wybodaeth benodol hon.

The aim of this proposed Measure is to make the waste recycling process in Wales more transparent and open, by placing a duty on our local authorities to provide public information which states exactly where our waste is recycled. At present, there is no duty on local authorities to keep a record of the final destination of our recyclates, nor to report back to residents on this specific information.

4.30 p.m.

Mae'r Mesur arfaethedig hwn ond yn gofyn i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i gasglu'r data a chyhoeddi datganiad yn esbonio'r camau y maent wedi'u cymryd. Nid yw'n gosod unrhyw ddyletswydd arall arnynt heblaw sicrhau bod yr wybodaeth hon yn gyhoeddus, a hynny dim ond os yw'r wybodaeth yn bodoli.

This proposed Measure only asks that local authorities take reasonable steps to collect the data and to publish a statement explaining the steps they have taken. It does not place any other duty on them, apart from ensuring that this information is available publicly, and then only if the information exists.

Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn ymdrin â mater 12.5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymwneud â gwella sut mae ein hawdurdodau lleol yn gweithredu. Mae'r Mesur arfaethedig yn deillio o'r gwaith ymchwil y gwnaethom fel plaid rhai blynyddoedd yn ôl, pan ofynasom i'n hawdurdodau lleol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ddarparu gwybodaeth yn dynodi lleoliad ailgylchu ein gwastraff. Ymatebodd rhai awdurdodau lleol drwy ddweud bod ein gwastraff yn cael ei allforio i wledydd fel Tsieina, Brasil ac India. Nid oedd sawl awdurdod yn gwybod am yr hyn a oedd yn digwydd i'r gwastraff wedi iddo gael ei anfon i'w ailgylchu. Nid oedd rhai wedi ymateb—sydd efallai'n adlewyrchu eu diddordeb yn y pwnc.

The proposed Measure relates to matter 12.5 of the Government of Wales Act 2006, which deals with improving the way in which our local authorities operate. The proposed Measure emanates from research work which we as a party undertook some years ago, when our local authorities were asked, under the Freedom of Information Act 2000, to provide information on where our waste is recycled. Some local authorities responded by saying that our waste is exported to countries such as China, Brazil and India. Several authorities did not know what happened to the waste after it had been sent to be recycled. Some did not respond—which perhaps reflects their interest in the subject.

Hoffwn esbonio un pwynt hanfodol ar gyfer y ddadl hon. Nid yw'r Mesur arfaethedig hwn, mewn unrhyw ffordd, yn ymosodiad ar ein hawdurdodau lleol am allforio gwastraff i'w ailgylchu. Nid yw'r Mesur arfaethedig hwn yn ymgais i geisio atal allforio ychwaith. Mewn nifer o achosion, allforio yw'r unig opsiwn o ran ailgylchu. Mae ystyriaethau masnachol yn bwysig i'r ddadl hefyd. Gwyddom i gyd ein bod yn derbyn llongau enfawr sy'n llawn nwyddau rhad o'r gwledydd hyn, ac mae gwerth amgylcheddol i lenwi'r rhain gyda gwastraff i'w ailgylchu

I wish to explain one key point for this debate. This proposed Measure is in no way an attack on our local authorities for exporting waste for recycling. Neither is this proposed Measure an attempt to try to prevent exporting. In several cases, exporting is the only option for recycling. Commercial considerations are also important to the debate. We all know that we receive enormous ships full of cheap goods from these countries, and there is environmental value in filling them with waste for recycling rather than sending them back empty. That is

yn hytrach na danfon y llongau yn ôl yn wag. Mae hon yn ddadl wyrdd gryf y dylid ei hystyried. Nid wyf o reidrwydd, felly, yn gwrthwynebu'r egwyddor o allforio gwastraff i'w ailgylchu. Mae hon yn ymgais i wneud yr holl broses yn fwy tryloyw ac agored, ac mae gan y cwmnïoedd prosesu'r wybodaeth sydd ei hangen o dan y Mesur arfaethedig hwn.

Why do we need to make the process of recycling our waste more open and transparent? The levels of publicity given to recycling, and social attitudes to it, have changed dramatically over the last few years. We know from evidence that the more that people know about the process, the more likely they are to take part in it. In one London borough, for example, the recycling participation rate in a large social housing block rose from 65 per cent to 90 per cent as a direct result of a targeted publicity campaign, which let people know what the process was, and why and how to get involved. It is all about informing and educating people about the processes that are in place. Indeed, the Environment Agency, in its evidence in response to the consultation on the proposed Measure, stated that:

'Providing the means for more information to be collected and shared with the general public may encourage the population to accept recycling facilities within their neighbourhoods which would be a positive outcome'.

We should not be afraid of letting people know what is happening to their waste in the fear that they will not understand.

There are important policy principles involved in dealing with recycling policies at a Wales, UK and European level. Those are the principles of proximity and self-sufficiency, and they are central to the Welsh Assembly Government's policies on waste. The proximity principle relates to the need to deal with problems locally rather than passing them on to other places or future generations. European regulations on the shipment of waste for recycling state clearly that member states must take into account the proximity principle and self-sufficiency at the

a strong green argument that should be considered. Therefore, I do not necessarily disagree with the principle of exporting waste for recycling. This is an attempt to make the whole process more transparent and open, and the processing companies possess the information needed under this proposed Measure.

Pam mae angen inni wneud y broses o ailgylchu ein gwastraff yn fwy agored a thryloyw? Mae lefelau'r cyhoeddusrwydd a roddir i ailgylchu, ac agweddau cymdeithasol ato, wedi newid yn ddramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O dystiolaeth, gwyddom po fwyaf o wybodaeth sydd gan bobl am y broses y mwyaf tebygol ydynt o gymryd rhan ynddi. Er enghraifft, mewn un fwrdeistref yn Llundain cododd cyfradd y bobl a oedd yn ailgylchu mewn bloc mawr o dai cymdeithasol o 65 y cant i 90 y cant o ganlyniad uniongyrchol i ymgyrch gyhoeddusrwydd wedi'i thargedu, i roi gwybod i bobl qm y broses, pam y dylent gymryd rhan ynddi, a sut y gallent wneud hynny. Mae'n golygu rhoi gwybodaeth i bobl a'u haddysgu am y prosesau sydd ar waith. Yn wir, nododd Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ei thystiolaeth wrth ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch y Mesur arfaethedig:

Gallai darparu'r modd i gasglu mwy o wybodaeth, a'i rhannu â'r cyhoedd yn gyffredinol, annog y boblogaeth i dderbyn cyfleusterau ailgylchu yn eu cymdogaethau, a fyddai'n ganlyniad cadarnhaol.

Ni ddylem ofni dweud wrth bobl beth sy'n digwydd i'w gwastraff rhag ofn na fyddant yn deall.

Mae egwyddorion polisi pwysig ynghlwm wrth ymdrin â pholisïau ailgylchu yng Nghymru, y DU ac Ewrop. Yr egwyddorion hynny yw agosrwydd a hunangynhaliath, ac maent yn ganolog i bolisïau Llywodraeth y Cynulliad ar wastraff. Mae egwyddor agosrwydd yn ymwneud â'r angen i ymdrin â phroblemau'n lleol yn hytrach na'u trosglwyddo i leoedd eraill neu i genedlaethau'r dyfodol. Mae rheoliadau Ewropeaidd ar gludo gwastraff i'w ailgylchu yn nodi'n glir ei bod yn rhaid i aelod-wladwriaethau ystyried egwyddorion

community and national levels. I reiterate that I am not against exporting waste; that is clear. However, as a modern, confident nation with aspirations and policies to tackle waste, we need to be ambitious. The Welsh Assembly Government targets certainly are ambitious, and the Minister and the Government should be congratulated on that.

Currently, we do not have the capacity to recycle all our waste within our borders or even within the UK's borders. However, following the proximity and self-sufficiency principles, our aspiration must be to build the capacity within Wales to deal with our waste. At the moment, we do not know how much waste is going where, which makes it very hard to develop the recycling industry in Wales and makes it very difficult for our national Government to invest in the right places for the industry to grow. We simply do not have all the information to hand. This proposed Measure, which is to increase transparency and to enable local authorities to report how much waste they export and to where, would be a big step in the right direction. I would like to deal with a few issues that were raised during the scrutiny process before I close.

First is the use of the voluntary approach and existing legislative powers. In its report, Legislation Committee No. 1 stated that the members felt strongly that increased transparency and the publication of information could be achieved without the proposed Measure. Opportunities to provide the information on a voluntary basis are already available to local authorities through the WasteDataFlow system, and they can expand the fields of information that they complete. There is currently no legal requirement or incentive for local authorities to publish the information when waste is shipped outside the EC and European free trade areas. Local authorities can provide this information voluntarily through the WasteDataFlow system, but they are not required to do so. A survey of local authorities in Wales during the preparation phase for the proposed Measure revealed that only one was able to provide information about the final destination of waste sent

agosrwydd a hunangynhaliaeth ar lefel gymunedol a chenedlaethol. Dywedaf eto nad wyf yn erbyn allforio gwastraff; mae hynny'n glir. Fodd bynnag, fel cenedl fodern, hyderus sydd â dyheadau a pholisïau i fynd i'r afael â gwastraff, mae angen inni fod yn uchelgeisiol. Mae targedau Llywodraeth y Cynulliad yn sicr yn uchelgeisiol, a dylid llongyfarch y Gweinidog a'r Llywodraeth ar hynny.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym y gallu i ailgylchu ein holl wastraff o fewn ein ffiniau ni, nac o fewn ffiniau'r DU hyd yn oed. Fodd bynnag, gan ddilyn egwyddorion agosrwydd a hunangynhaliaeth, rhaid inni ddyheu am adeiladu'r gallu yng Nghymru i ymdrin â'n gwastraff. Ar hyn o bryd, ni wyddom faint o wastraff sy'n mynd ble, sy'n ei gwneud yn anodd iawn datblygu'r diwydiant ailgylchu yng Nghymru ac yn ei gwneud yn anodd iawn i'n Llywodraeth genedlaethol fuddsoddi yn y manau cywir er mwyn i'r diwydiant dyfu. Yn syml, nid yw'r holl wybodaeth gennym wrth law. Byddai'r Mesur arfaethedig hwn, sydd i sicrhau mwy o dryloywder a galluogi awdurdodau lleol i ddweud faint o wastraff y maent yn ei allforio ac i ble, yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir. Hoffwn ymdrin â rhai materion a godwyd yn ystod y broses graffu cyn imi gloi.

Y mater cyntaf yw'r modd y defnyddir y drefn wirfoddol a phwerau deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes. Yn ei adroddiad, dywedodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 fod yr aelodau'n teimlo'n gryf y gellid sicrhau mwy o dryloywder a chyhoeddi gwybodaeth heb y Mesur arfaethedig. Mae cyfleoedd i ddarparu'r wybodaeth yn wirfoddol ar gael yn barod i awdurdodau lleol, drwy'r system WasteDataFlow, a gallant ehangu'r meysydd gwybodaeth y maent yn eu llenwi. Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad cyfreithiol na chymhelliant i awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth pan gludir gwastraff y tu allan i ardal y Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop. Gall awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth hon yn wirfoddol drwy'r system WasteDataFlow, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Datgelodd arolwg o awdurdodau lleol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn ystod y cam paratoi ar gyfer y Mesur arfaethedig, mai un awdurdod yn unig a allai ddarparu gwybodaeth am gyrchfan

outside the EC or the EFTA area. The aims of the proposed Measure are not likely to be achieved if there is no statutory requirement or incentive for local authorities to take reasonable steps to collect the information.

The second point is on our local authorities' ability to collect the required information. Again, in its report, the legislation committee stated that it had received strong evidence to suggest that local authorities would find it extremely difficult, if not impossible, to meet the specific requirements. It acknowledged that there is scope for local authorities to obtain some of the required information through contractual arrangements with private waste companies, but shared the concerns raised in evidence that this could have financial implications for local authorities and might make Wales less attractive to private waste companies.

The consultant report completed by Enviro Consulting Ltd on behalf of the Welsh Government in response to my proposed Measure states that it would be possible for local authorities to access the completed annex 7 forms to provide most of the information specified in the proposed Measure. These forms are completed by waste companies that export green-list waste, such as paper and plastic, as part of European requirements. In Scotland and Northern Ireland, companies exporting green-list waste are already required to send a copy of the completed form to the competent authority. The Enviro report prepared on behalf of the Welsh Assembly Government states that where local authorities are dealing with intermediaries that directly export material, the potential for capturing the correct information is high. The report also states that while the process of collecting the information may be more difficult where there are several stages to the process, local authorities could require processors to provide them with this information as part of their contracts in line with the authorities' duty of care requirements.

We also know that Somerset council is

terfynol gwastraff a anfonir y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd neu ardal masnach rydd Ewrop. Nid yw nodau'r Mesur arfaethedig yn debygol o gael eu cyflawni os na fydd gofyniad statudol na chymhelliant i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i gasglu'r wybodaeth.

Yr ail bwynt yw gallu ein hawdurdodau lleol i gasglu'r wybodaeth ofynnol. Unwaith eto, yn ei adroddiad dywedodd y pwyllgor deddfwriaeth iddo gael tystiolaeth gref a awgrymai y byddai awdurdodau lleol yn ei chael yn eithriadol o anodd, os nad yn amhosibl, bodloni'r gofynion penodol. Cydnabu fod lle i awdurdodau lleol gasglu rhywfaint o'r wybodaeth ofynnol drwy drefniadau contractiol gyda chwmnïau gwastraff preifat, ond yr oedd yn pryderu, fel y codwyd mewn mewn tystiolaeth, y gallai hynny arwain at oblygiadau ariannol i awdurdodau lleol ac y gallai olygu y byddai Cymru'n llai deniadol i gwmnïau gwastraff preifat.

Mae adroddiad yr ymgynghorwyr, a gwblhawyd gan Enviro Consulting Ltd ar ran Llywodraeth y Cynulliad i ymateb i'm Mesur arfaethedig, yn dweud y byddai'n bosibl i awdurdodau lleol gael y ffurflenni atodiad 7 a lenwyd er mwyn darparu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a nodir yn y Mesur arfaethedig. Caiff y ffurflenni hyn eu llenwi gan gwmnïau gwastraff sy'n allforio gwastraff ar y rhestr werdd, megis papur a phlastig, er mwyn bodloni gofynion Ewropeaidd. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mae eisoes yn ofynnol i gwmnïau sy'n allforio gwastraff ar y rhestr werdd anfon copi o'r ffurflen wedi'i llenwi at yr awdurdod cymwys. Mae adroddiad Enviro, a baratowyd ar ran Llywodraeth y Cynulliad, yn nodi y gallai fod yn bosibl iawn cael y wybodaeth gywir lle bydd awdurdodau lleol yn ymdrin â chyrrff cyswllt sy'n allforio deunyddiau'n uniongyrchol. Er y gall casglu'r wybodaeth fod yn anos os oes nbifer o gamau yn y broses, dywed yr adroddiad hefyd y gallai awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i broseswyr roi'r wybodaeth hon iddynt fel rhan o'u contractau, yn unol â gofynion yr awdurdodau o ran dyletswydd gofal.

Gwyddom hefyd fod cyngor Gwlad yr Haf yn

following this example. The Somerset Waste Partnership is already publishing details of how much waste is being recycled and where. Evidence received by the Somerset Waste Partnership stated that the requirements for private waste companies to provide information on the final destination of waste had not deterred private waste companies or significantly increased the cost to the authority. In addition, Enviro contacted a privately-run material recovery facility in Wales, which stated that it voluntarily collects information in the annex 7 forms from all processors and brokers so that the company is satisfied that it has full traceability. That suggests that local authorities would not meet significant resistance from contractors were they to ask for the relevant information.

It is clear that the Welsh Local Government Association does not support this proposed Measure. It is true to say that it has been critical of most proposed Measures discussed in the Assembly that would impose a duty on local government. That is not surprising, but it does not mean that it is right to oppose it. That evidence was based on the first draft of the proposed Measure. I have since changed the wording of the proposed Measure to place no more of a duty on local authorities than to require them to take reasonable steps to make this information publicly available, insofar as the information exists.

On public demand for the information and public awareness, in its report, the legislation committee stated:

‘While we accept that increasing public awareness about what and how to recycle is likely to have a positive effect on recycling rates, it does not necessarily follow that specific information...required under the proposed Measure could compromise the progress that has been made in Wales to date in meeting recycling targets.’

The public’s interest in waste and recycling is evident in the media coverage that the illegal

dilyn yr esiampl hon. Mae Partneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf eisoes yn cyhoeddi manylion am faint o wastraff a ailgylchir, ac ymhle y caiff ei ailgylchu. Nododd y dystiolaeth a gafwyd gan Bartneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf nad oedd y gofynion i gwmnïau gwastraff preifat ddarparu gwybodaeth am gyrchfan terfynol gwastraff wedi rhwystro cwmnïau gwastraff preifat na chynyddu’r gost yn sylweddol i’r awdurdod. Yn ogystal, cysylltodd Enviro â chyfleuster adfer deunyddiau yng Nghymru, sy’n gyfleuster preifat, a dywedodd ei fod wrthi’n wirfoddol yn casglu gwybodaeth gan yr holl broseswyr a’r holl froceriaid, ar y ffurflenni atodiad 7, er mwyn i’r cwmni fod yn fodlon y gall olrhain popeth yn llawn. Mae hynny’n awgrymu na fyddai awdurdodau lleol yn cael llawer o wrthwynebiad gan gontractwyr pe baent yn gofyn am y wybodaeth berthnasol.

Mae’n amlwg nad yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi’r Mesur arfaethedig hwn. Mae’n wir dweud iddi fod yn feirniadol o’r rhan fwyaf o’r Mesurau arfaethedig a drafodir yn y Cynulliad ac a fyddai’n gosod dyletswydd ar lywodraeth leol. Nid yw hynny’n syndod, ond nid yw’n golygu bod y Gymdeithas yn gywir i wrthwynebu’r Mesur. Yr oedd y dystiolaeth honno’n seiliedig ar ddrafft cyntaf y Mesur arfaethedig. Ers hynny, yr wyf wedi newid geiriad y Mesur arfaethedig fel na fydd yn gosod yr un ddyletswydd arall ar awdurdodau lleol, heblaw mynnu eu bod yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus, os yw’n bodoli.

O ran y galw cyhoeddus sydd am y wybodaeth, ac o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd, dywedodd y pwyllgor deddfwriaeth yn ei adroddiad:

‘Er ein bod yn derbyn bod cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o beth i’w ailgylchu a sut mae gwneud hynny yn debygol o gael effaith bositif ar gyfraddau ailgylchu, nid yw’n dilyn o reidrwydd y [gallai cyhoeddi’r] wybodaeth sy’n ofynnol o dan y Mesur arfaethedig danseilio’r cynnydd a wnaed yng Nghymru hyd yma o ran cyrraedd y targedau ailgylchu.’

Mae diddordeb y cyhoedd mewn gwastraff ac ailgylchu yn amlwg yn y sylw y mae’r broses

shipment of waste to countries outside the EC and the EFTA has received. The Enviro report shows that a few local authorities in the UK are now providing information on their websites about where recyclates are sent. Somerset council is a good example. Stating that the publication of the end destination of waste that has been sent for recycling or recovery would lead to a decrease in the rate of recycling assumes that the public will not be able to understand the information made available to them. When it publishes the information, a local authority will have the opportunity to explain why it is sometimes still necessary to ship recyclate overseas. It is not the intention of the proposed Measure to discourage the recovery of materials overseas by legitimate processes where this provides the best environmental option.

4.40 p.m.

The publishing of information required by the proposed Measure will help to facilitate the national dialogue on recycling that the Minister has advocated. Through engagement and discussion of the issues surrounding recycling, the published information may increase general knowledge about the importance of recycling. There is no reason to expect that, if properly explained, information about shipments would discourage recycling. That has not happened in Somerset, for example. So, I refute that completely, and there is no consistency here. If the legislation committee accepts this in principle, this point seems to go against that.

Finally, on the financial implications, the Finance Committee in its report on the proposed Measure asked to pursue further sources of information, and for an improved assessment of the costs to be presented to the committee. The direct costs of the proposed Measure are negligible, as it imposes no duties other than to require local authorities to take reasonable steps to make information publicly available through a website about the proportion of recyclate collected from households that is processed outside the EC and EFTA areas, insofar as the information

o gludo gwastraff yn anghyfreithlon i wledydd y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop wedi'i gael yn y cyfryngau. Dengys adroddiad Enviro fod rhai awdurdodau lleol yn y DU bellach yn darparu gwybodaeth ar eu gwefannau i ddangos ble yr anfonir deunydd ailgylchu. Mae cyngor Gwlad yr Haf yn enghraifft dda. Wrth ddweud y byddai cyhoeddi gwybodaeth am gyrchfan terfynol gwastraff a anfonir i'w ailgylchu neu ei adfer yn arwain at ostyngiad yn y gyfradd ailgylchu, tybir na fydd y cyhoedd yn gallu deall y wybodaeth a fydd ar gael iddynt. Pan fydd yn cyhoeddi'r wybodaeth, bydd gan awdurdod lleol gyfle i esbonio pam mae'n dal yn angenrheidiol cludo deunydd ailgylchu dramor weithiau. Nid bwriad y Mesur arfaethedig yw annog awdurdodau i beidio ag anfon deunyddiau dramor i'w hadfer drwy brosesau cyfreithlon, os dyna yw'r dewis amgylcheddol gorau.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol dan y Mesur arfaethedig yn helpu hwyluso'r drafodaeth genedlaethol am ailgylchu, a argymhellwyd gan y Gweinidog. Drwy ymgysylltu, a thrafod y materion yn ymwneud ag ailgylchu, gallai'r wybodaeth a gyhoeddir gynyddu dealltwriaeth gyffredinol o bwysigrwydd ailgylchu. Nid oes rheswm i ddisgwyl y byddai gwybodaeth am gludo gwastraff, os caiff ei hesbonio'n iawn, yn annog pobl i beidio ag ailgylchu. Nid yw hynny wedi digwydd yng Ngwlad yr Haf, er enghraifft. Felly, yr wyf yn gwrthod hynny'n llwyr, ac nid oes cysondeb yma. Os yw'r pwyllgor deddfwriaeth yn derbyn egwyddor hynny, ymddengys fod y pwynt hwn yn mynd yn groes i hynny.

I gloi, o ran y goblygiadau ariannol, gofynnodd y Pwyllgor Cyllid, yn ei adroddiad ar y Mesur arfaethedig, imi fynd ar drywydd ffynonellau pellach o wybodaeth, a chyflwyno asesiad gwell o'r costau i'r pwyllgor. Mae costau uniongyrchol y Mesur arfaethedig yn ddibwys, am nad yw'r Mesur yn gosod yr un ddyletswydd ar neb, ar wahân i'r ffaith y bydd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus, drwy wefan, am gyfran y deunydd ailgylchu a gaiff ei gasglu o gartrefi a'i brosesu y tu allan i

exists. The Presiding Officer has confirmed to the Finance Committee that a financial resolution would not be required at Stage 2, as the proposed Measure only places a requirement on local authorities to compile and publish information that they hold, and thus would not require significant funding. The WLGA estimate of a cost of £700,000 is based on the first draft of the proposed Measure, which contained a requirement for this information to be collected. However, after consultation, this was changed. I am sure that that estimate was based on employing someone to join the waste on its journey to be recycled in a far away country—a job that will attract a lot of interest.

There will be some indirect costs to the proposed Measure. However, the report by Enviros Consulting Ltd said that the potential impact of the proposed Measure estimated by the WLGA is excessive.

To conclude, this whole debate is around the need to be more transparent and open with regard to what happens to our waste when it is being exported for recycling, and the need for local authorities to take responsibility not only for the process, but for informing their electors of the process. As we strive to reach WAG's ambitious recycling targets, there is an even greater need to be transparent and open. I look forward to the debate and I will respond to the points raised at the end.

The Presiding Officer: I now call Rosemary Butler in her other distinguished role as Chair of Legislation Committee No. 1.

Rosemary Butler: Thank you very much. As Chair of Legislation Committee No. 1, I am pleased to be able to contribute to the debate on the Proposed Shipment of Waste for Recovery (Community Involvement in Arrangements) (Wales) Measure. Our role as a committee was not to assess the merits or otherwise of the export of waste for recovery. Instead, during the course of our scrutiny, we sought to identify whether there was a

ardal y Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop, os yw'r wybodaeth yn bodoli. Mae'r Llywydd wedi cadarnhau wrth y Pwyllgor Cyllid na fydd angen cynnig ariannol a basiwyd yn ystod Cyfnod 2, gan nad yw'r Mesur arfaethedig ond yn mynnu i awdurdodau lleol grynhoi a chyhoeddi gwybodaeth sydd ganddynt, ac felly ni fyddai angen cyllid sylweddol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif cost o ryw £700,000 ar sail drafft cyntaf y Mesur arfaethedig, a oedd yn cynnwys gofyniad i'r wybodaeth hon gael ei chasglu. Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori, newidiwyd hynny. Yr wyf yn siŵr fod yr amcangyfrif hwnnw'n seiliedig ar gyflogi rhywun i ymuno â'r gwastraff ar ei daith i'w ailgylchu mewn gwlad bell—swydd a fydd yn denu llawer o ddiddordeb.

Bydd rhai costau anuniongyrchol ynghlwm wrth y Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, dywedodd yr adroddiad gan Enviros Consulting Ltd fod effaith bosibl y Mesur arfaethedig, fel y cafodd ei hamcangyfrif gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ormodol.

I gloi, mae a wnelo'r holl ddadl hon â'r angen i fod yn fwy tryloyw ac agored am yr hyn sy'n digwydd i'n gwastraff pan gaiff ei allforio i'w ailgylchu, a'r angen i awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb nid yn unig am y broses, ond am roi gwybod i'w hetholwyr am y broses. Wrth inni ymdrechu i gyrraedd targedau uchelgeisiol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ailgylchu, mae'r angen i fod yn dryloyw ac yn agored yn fwy fyth. Edrychaf ymlaen at y ddadl, a byddaf yn ymatebaf i'r pwyntiau a godir ar y diwedd.

Y Llywydd: Galwaf yn awr ar Rosemary Butler yn ei rôl nodedig arall fel Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

Rosemary Butler: Diolch yn fawr. Fel Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, mae'n bleser gennyf allu cyfrannu at y ddadl ar Fesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru). Nid ein rôl ni fel pwyllgor oedd asesu rhinweddau neu wendidau allforio gwastraff i'w adfer. Yn hytrach, wrth inni graffu yr oeddem yn ceisio nodi a oedd angen pendant ac amlwg am y

definite and identifiable need for the legislation before us. We also considered the practical implications of the proposed Measure, and whether the legislation in its entirety would be workable and achieve its aim. I thank all members of the committee, including former members, for their hard work in scrutinising the proposed Measure. I also thank all those who gave evidence to the committee, which helped to inform our report.

During the course of our work, it was apparent from the evidence that we received that there were varying levels of support for the proposed Measure. A minority of those who gave evidence supported fully the aim and the general principles of the proposed Measure. That support was provided on the basis that the present arrangements lack transparency and that improvements to those arrangements could be made. It was also suggested that the proposed Measure could assist in the development of local recycling infrastructures, and help prevent waste being illegally disposed of in other countries.

However, the majority of those giving evidence did not support the general principles of the proposed Measure, with some strongly opposing a legislative approach. That opposition came not only from those within the local government sector, but from those representing private waste companies and organisations that work with others to reduce waste and increase recycling. Some of the reasons given for opposing the proposed Measure were that it is based on the assumption that exporting waste for recovery was of no benefit, that it could damage public confidence in recycling, and that it failed to take account of the complexities of the market for recycle. We also heard from local government that it was already providing as much information as possible on the final destination of waste and that the proposed Measure would be an unnecessary burden.

The main justification put forward by Nerys Evans for the proposed Measure is that existing arrangements in relation to the way that local authorities deal with recycle, in

ddeddfwriaeth a oedd ger ein bron. Buom hefyd yn ystyried goblygiadau ymarferol y Mesur arfaethedig, ac a fyddai'r ddeddfwriaeth yn ei chyfanrwydd yn ymarferol ac yn gallu cyflawni ei nod. Diolchaf i holl aelodau'r pwyllgor, gan gynnwys ei gyn-aelodau, am eu gwaith caled wrth graffu ar y Mesur arfaethedig. Diolchaf hefyd i'r sawl a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, a'n helpodd i lywio ein hadroddiad.

Yn ystod ein gwaith, yr oedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod amrywiol lefelau o gefnogaeth i'r Mesur arfaethedig. Yr oedd lleiafrif o blith y rheini a roddodd dystiolaeth yn cefnogi nod ac egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig yn llwyr. Câi'r gefnogaeth honno ei rhoi ar y sail bod diffyg tryloywder yn y trefniadau presennol, ac y gellid gwella'r trefniadau hynny. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Mesur arfaethedig helpu datblygu seilweithiau ailgylchu lleol, a helpu atal achosion o gael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon mewn gwledydd eraill.

Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r rheini a roddodd dystiolaeth yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, ac yr oedd rhai'n gwrthwynebu dull gweithredu deddfwriaethol yn gryf. Daeth y gwrthwynebiad hwnnw nid yn unig o du'r rheini yn y sector llywodraeth leol, ond hefyd o du'r rheini sy'n cynrychioli cwmnïau gwastraff preifat, a sefydliadau sy'n gweithio gydag eraill i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu. Yr oedd rhai o'r rhesymau a roddwyd dros wrthwynebu'r Mesur arfaethedig yn cynnwys y farn ei fod yn seiliedig ar y dybiaeth nad oedd allforio gwastraff i'w adfer yn fuddiol o gwbl, y gallai danseilio ffydd y cyhoedd mewn ailgylchu, a'i fod yn methu ag ystyried cymhlethdodau'r farchnad ar gyfer deunydd ailgylchu. Clywsom hefyd gan lywodraeth leol ei bod eisoes yn darparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am gyrchfan terfynol gwastraff, ac y byddai'r Mesur arfaethedig yn faich diangen.

Y prif bwynt a wnaed gan Nerys Evans i gyfiawnhau'r Mesur arfaethedig oedd nad yw'r trefniadau presennol yng nghyswllt y modd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin â

particular the shipment of waste for recovery outside the European Community and the European free trade areas, are not sufficiently transparent. We were in little doubt from the evidence received that that is the case. We accept that improvements can and should be made and it is for that reason that we fully support the aim of the proposed Measure. However, we do not believe that a Measure is necessary to achieve this aim. Instead, we suggest that it could be met by alternative means. It is for that reason, among others, that we are unable to support the general principles of the proposed Measure.

I would like to expand on the committee's reasons for this decision. In the Minister's evidence to us, she suggested that increased transparency could be achieved by encouraging local authorities to publish information voluntarily on waste exported for recovery. She also made clear that, if this approach was not successful, existing powers of Welsh Ministers could be used to require local authorities to publish relevant information about the destination of recycle. We believe that this represents a proportionate response to this issue and is a sensible way forward.

We question whether there is an appetite among the public for the type of information that local authorities would be required to provide under the proposed Measure. The evidence that we received suggests that the public simply wants an assurance that the waste that it separates for recycling is recycled and not sent to landfill. We also received strong evidence to suggest that local authorities would find it difficult, if not impossible, to provide the detailed information needed to meet the requirements of the proposed Measure. We are not convinced that the requirements are reasonable or that they will help to deliver the aim of openness and transparency. We believe that any information made available to the public in relation to waste that is exported for recovery should be meaningful, presented in a manner that is easily understandable, and set in the wider context of recycled waste to avoid misinterpretation.

deunydd ailgylchu, yn enwedig o ran cludo gwastraff i'w adfer y tu allan i ardal y Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop, yn ddigon tryloyw. O'r dystiolaeth a gafwyd, yr oeddem yn eithaf sicr bod hynny'n wir. Yr ydym yn derbyn y gellir ac y dylid gwneud gwelliannau, a dyna pam yr ydym yn cefnogi nod y Mesur arfaethedig yn llwyr. Fodd bynnag, ni chredwn fod Mesur yn angenrheidiol i gyflawni'r nod hwn. Yn hytrach, awgrymwn y gellid cyflawni'r nod drwy ddulliau amgen. Dyna'r rheswm, ymhlith rhesymau eraill, pam na allwn gefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Hoffwn ymhelaethu ar resymau'r pwyllgor dros y penderfyniad hwn. Yn nhystiolaeth y Gweinidog inni, awgrymodd y byddai modd sicrhau mwy o dryloywder drwy annog awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth yn wirfoddol am wastraff a gaiff ei allforio i'w adfer. Pe na bai'r dull hwnnw'n llwyddiannus, nododd yn glir hefyd y gellid defnyddio pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru i fynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gyrchfan deunydd ailgylchu. Credwn fod hyn yn ymateb cymesur i'r mater dan sylw, a'i fod yn gam doeth ymlaen.

Yr ydym yn amau a yw'r cyhoedd yn awyddus i gael y math o wybodaeth y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ei darparu dan y Mesur arfaethedig. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu mai'r unig beth y mae'r cyhoedd am ei gael yw sicrwydd bod y gwastraff a wahenir i'w ailgylchu yn cael ei ailgylchu yn hytrach na'i anfon i safle tirlenwi. Cawsom dystiolaeth gref hefyd i awgrymu y byddai awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd, os nad yn amhosibl, darparu'r wybodaeth fanwl y byddai ei hangen i fodloni gofynion y Mesur arfaethedig. Nid ydym wedi ein darbwylllo bod y gofynion yn rhesymol neu y byddent yn helpu cyflawni'r nod o fod yn agored ac yn dryloyw. Credwn y dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd am wastraff a gaiff ei allforio i'w adfer fod yn ystyrlon, y dylid ei chyflwyno mewn ffordd hawdd ei deall, ac y dylid ei gosod yng nghyd-destun ehangach gwastraff a ailgylchir, er mwyn osgoi camddechongli.

We accept that increasing public awareness about what and how to recycle is likely to have a positive effect on recycling rates, however, it does not necessarily follow that specific information on waste that is shipped for recovery outside the EC and EFTA will have the same effect. Indeed, we received strong evidence to suggest that there is a real danger that the publication of information under the proposed Measure could compromise the progress that has been made in Wales to date in meeting recycling targets. Finally, we are concerned that the proposed Measure would place an unnecessary burden on local authorities and would not represent an efficient or effective use of resources.

I thank Nerys Evans for the openness with which she responded to the committee when giving evidence. The need to ensure that the public is engaged in the waste agenda and that it understands what happens to its recyclate came across clearly in her evidence to us and she obviously feels passionately about this subject. While the committee shares Nerys's belief in this regard and supports the aim of the proposed Measure, we believe that legislation should only be made when there is an identified need for it. In the case of the proposed Measure, we do not feel that that need exists. We therefore recommend that the Assembly does not support the general principles of the proposed Measure.

Ann Jones: I speak on behalf of the Finance Committee in the absence of Angela Burns, the Chair. The Finance Committee did not find it easy to assess the costs of the proposed Measure. We felt that the proposed Measure would be likely to lead to costs in a number of areas. Local authorities would have the administrative burden of collating and publishing the information on waste that is collected and recycled outside the areas specified and this would obviously place an additional burden on them. There would also be work and costs for the waste processors who would have to provide the information to the local authorities. The Finance Committee and witnesses could also see further costs arising because of the need to

Yr ydym yn derbyn y byddai cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o beth i'w ailgylchu a sut yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau ailgylchu. Fodd bynnag, nid yw'n dilyn o reidrwydd y bydd gwybodaeth benodol am wastraff a gaiff ei gludo i'w adfer y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop yn cael yr un effaith. Yn wir, cawsom dystiolaeth gref i awgrymu bod perygl gwirioneddol y gallai cyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol dan y Mesur arfaethedig danseilio'r cynnydd a wnaed yng Nghymru hyd yma o ran cyrraedd targedau ailgylchu. Yn olaf, yr ydym yn pryderu y byddai'r Mesur arfaethedig yn rhoi baich diangen ar awdurdodau lleol, ac na fyddai'n arwain at ddefnyddio adnoddau'n effeithlon neu'n effeithiol.

Diolchaf i Nerys Evans am ymateb mor agored i'r pwyllgor wrth roi tystiolaeth. Yr oedd yr angen i sicrhau bod y cyhoedd yn ymgysylltu â'r agenda ar wastraff, ac yn deall yr hyn sy'n digwydd i'r deunydd ailgylchu, yn glir yn ei thystiolaeth inni, ac mae'n amlwg fod y pwnc hwn yn agos iawn at ei chalon. Er bod y pwyllgor, fel Nerys, yn credu yn hynny ac yn cefnogi nod y Mesur arfaethedig, credwn na ddylid llunio deddfwriaeth oni fydd angen amlwg amdani. Yn achos y Mesur arfaethedig, ni chredwn fod yr angen hwnnw'n bodoli. Felly, argymhellwn na ddylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Ann Jones: Siaradaf ar ran y Pwyllgor Cyllid yn absenoldeb Angela Burns, y Cadeirydd. Nid oedd y Pwyllgor Cyllid yn teimlo'i bod yn hawdd asesu costau'r Mesur arfaethedig. Teimlem y byddai'r Mesur arfaethedig yn debygol o arwain at gostau mewn nifer o feysydd. Byddai awdurdodau lleol yn gorfod ysgwyddo'r baich gweinyddol o gasglu a chyhoeddi'r wybodaeth am wastraff a gaiff ei gasglu a'i ailgylchu y tu allan i'r ardaloedd a nodwyd, a byddai hynny'n amlwg yn rhoi baich ychwanegol arnynt. Byddai gwaith a chostau hefyd i'r proseswyr gwastraff, a fyddai'n gorfod darparu'r wybodaeth i'r awdurdodau lleol. Gallai'r Pwyllgor Cyllid a'r tystion weld costau pellach yn codi hefyd oherwydd yr angen i hyrwyddo

promote public awareness of recycling and maybe other costs if the level of recycling were to increase as a result of the proposed Measure.

However, the explanatory memorandum gives very little information on any of these points. It says simply that:

‘The costs resulting from this proposed Measure will be incurred almost exclusively by local authorities.’

4.50 p.m.

The obvious question then is: how much will these be? The explanatory memorandum refers to a figure of £700,000, which it says was quoted by the Welsh Local Government Association. However, it then dismisses it as ‘questionable’ without offering its own estimates.

In evidence to Legislation Committee No. 1 the Minister for Environment, Sustainability and Housing suggested that the figure would be closer to £350,000. This seems to be the best estimate available and, in her further submission to the Finance Committee, the Member in charge of the proposed Measure, Nerys Evans, seems to have adopted that figure. It may be a reliable figure, but without any evidence to back it up, we simply do not know. The Finance Committee commented in its report that there were some fairly obvious sources of information that could have helped, but they had not been contacted, and that where further information had been requested, the Member in charge of the proposed Measure had not waited for a response. We thought that these were serious omissions.

The Committee noted also that there would be costs for waste processors, but the explanatory memorandum says only that

‘Costs would also accrue to the bodies providing the information to local authorities, but as processes become normalised these costs are expected to be minimal’.

Again, the Finance Committee was

ymwybyddiaeth y cyhoedd o ailgylchu, a chostau eraill efallai pe bai'r lefel ailgylchu yn cynyddu o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig.

Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth a roddir am bob un o'r pwyntiau hyn yn y memorandwm esboniadol. Yn syml, dywed:

‘Awdurdodau lleol...fydd yn gyfrifol am fwy neu lai'r holl gostau.’

Y cwestiwn amlwg wedyn yw hwn: beth fydd y costau hynny? Mae'r memorandwm esboniadol yn cyfeirio at ffigur o £700,000, a dywed fod y swm wedi'i nodi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fodd bynnag, mae'n diystyru'r swm wedyn gan nodi ei fod yn ‘amheus’, heb gynnig ei amcangyfrif ei hun.

Yn ei thystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, awgrymodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai y byddai'r ffigur yn nes at £350,000. Ymddengys mai dyma'r amcangyfrif gorau sydd ar gael, ac yn ei chyflwyniad pellach i'r Pwyllgor Cyllid, ymddengys fod yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, Nerys Evans, wedi mabwysiadu'r ffigur hwnnw. Mae'n bosibl ei fod yn ffigur dibynadwy, ond heb ddim dystiolaeth i'w gefnogi, y gwir yw nad ydym yn gwybod. Yn ei adroddiad, dywedodd y Pwyllgor Cyllid fod yna rai ffynonellau gwybodaeth digon amlwg, a allasai fod o gymorth, ond nid oedd neb wedi cysylltu â hwy, a phan ofynnwyd am wybodaeth bellach, nid oedd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig wedi aros am ymateb. Credem fod yr achosion hyn o hepgor gwybodaeth yn ddifrifol.

Sylwodd y Pwyllgor hefyd y byddai costau i broseswyr gwastraff, ond yr unig beth a ddywed y memorandwm yw

‘Byddai costau'n codi hefyd ar gyfer y cyrff a fyddai'n darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol, ond disgwylid i'r costau fod yn fach iawn wrth i'r prosesau gael eu normaleiddio.’

Unwaith eto, yr oedd y Pwyllgor Cyllid yn

concerned that relatively straightforward ways of obtaining further financial information, such as asking contracting companies or their trade association, have not been pursued. The Committee has no other information from which to judge whether these costs will be significant.

The Finance Committee took the view that the making of legislation for Wales was an important responsibility and should be done only when an appropriate analysis of the associated costs had been carried out. The Finance Committee was concerned that to support the proposed Measure without this information being available might be seen as indicating that the National Assembly does not take the need for financial assessments seriously.

The explanatory memorandum is also unclear about how the provisions of the proposed Measure will be funded. The Finance Committee noted the evidence from Jane Davidson that there is currently no budgetary provision for this activity, and funds would need to be diverted from other initiatives. The Committee therefore concluded that, although the costs identified in the explanatory memorandum would fall on local government, it would nonetheless fall to the Welsh Assembly Government to provide funding for them under the Jones-Essex agreement.

All in all, the Finance Committee felt that more work could and should be done before the National Assembly moves this proposed Measure forward. The Finance Committee urged the Member in charge of the proposed Measure to pursue these sources of information further, and to present an improved assessment of the costs to the committee.

The Committee recommended in its report on this proposed Measure:

‘that the Stage 1 debate on the general principles of the Measure is not brought forward until it, and by implication Assembly Members generally, have considered this work’.

Further information was subsequently

pryderu nad aethpwyd ar drywydd ffyrdd cymharol syml o gael gwybodaeth ariannol bellach, er enghraifft, drwy holi cwmnïau contractio neu eu cymdeithas fasnach. Nid oes gan y Pwyllgor ddim gwybodaeth arall y gall ei defnyddio i farnu a fydd y costau hyn yn sylweddol.

Yr oedd y Pwyllgor Cyllid o’r farn bod llunio deddfwriaeth ar gyfer Cymru yn gyfrifoldeb pwysig, ac na ddylid ei llunio ond pan fydd dadansoddiad priodol wedi’i gyflawni o’r costau cysylltiedig. Yr oedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu y gellid ystyried bod cefnogi’r Mesur arfaethedig heb fod y wybodaeth hon ar gael yn awgrymu nad yw’r Cynulliad Cenedlaethol o ddifrif fod angen asesiadau ariannol.

Yr oedd y memorandwm esboniadol hefyd yn aneglur ynghylch sut y bydd darpariaethau’r Mesur arfaethedig yn cael eu cyllido. Nododd y Pwyllgor Cyllid y dystiolaeth gan Jane Davidson, sef na cheir darpariaeth gyllidebol ar gyfer y gweithgarwch hwn ar hyn o bryd, ac y byddai angen dargyfeirio arian o fentrau eraill. Felly, er y byddai llywodraeth leol yn gyfrifol am y costau a nodwyd yn y memorandwm esboniadol, daeth y Pwyllgor i’r casgliad y byddai cyfrifoldeb ar Lywodraeth y Cynulliad er hynny i ddarparu cyllid ar eu cyfer dan y cytundeb Jones-Essex.

At ei gilydd, teimlai’r Pwyllgor Cyllid y gellid ac y dylid gwneud mwy o waith cyn i’r Cynulliad Cenedlaethol symud y Mesur arfaethedig hwn yn ei flaen. Pwysodd y Pwyllgor Cyllid ar yr Aelod sy’n gyfrifol am y Mesur arfaethedig i fynd ar drywydd y ffynonellau gwybodaeth hyn, a chyflwyno asesiad gwell o gostau i’r pwyllgor.

Argymhellodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Mesur arfaethedig hwn:

‘na chaiff dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Mesur...ei chyflwyno nes bod y Pwyllgor a, thrwy hynny, Aelodau Cynulliad yn gyffredinol, wedi ystyried y gwaith hwn.’

Yn dilyn hynny, cyflwynwyd gwybodaeth

presented by the Member in charge, Nerys Evans, which the Finance Committee has noted. However, a number of the key issues raised by the committee have still not been answered, and the Finance Committee was not minded to amend its original report. Therefore, the committee cannot support the progression of the proposed Measure in its current state.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): Thank you for the opportunity to contribute to today's debate on the proposed Measure. I would like to thank Nerys Evans for bringing forward this proposed Measure. The issue of recyclates and what we do with them is one that will assume greater importance as we work towards becoming a high-recycling society. I am grateful to Nerys for ensuring that this has been placed high on the agenda, and that we have had an opportunity to discuss the issues thoroughly, both through Legislation Committee No. 1 and through the Finance Committee.

The development of sustainable and effective waste management arrangements is a key objective of the Assembly Government. Our new overarching waste strategy document 'Towards Zero Waste' sets out how the adoption of more sustainable waste management practices will help us to reduce both our ecological footprint and our carbon footprint, improve local environmental quality, save money and create high-quality work.

Adopting a zero waste approach requires that we become a high-recycling society, and the Government's Proposed Waste (Wales) Measure, which was introduced in the Assembly on 22 February, will assist in realising that aim. It will ensure that a much greater proportion of waste is recycled while reducing the amount of waste that ends up in landfill. It is important that we understand that it is better to recycle materials, wherever in the world they are sent, than to landfill them, as Nerys made clear in her introduction.

Much more recyclate will be generated will be generated as a result of realising the

bellach gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur, sef Nerys Evans, ac mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i nodi. Mae nifer o'r materion allweddol a godwyd gan y pwyllgor yn dal heb eu hateb, ac nid oedd y Pwyllgor Cyllid yn teimlo y dylai ddiwygio'i adroddiad gwreiddiol. Felly, ni all y pwyllgor gefnogi gadael i'r Mesur arfaethedig symud yn ei flaen fel y mae ar hyn o bryd.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl heddiw ar y Mesur arfaethedig. Hoffwn ddiolch i Nerys Evans am gyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn. Mae deunyddiau ailgylchu, a'r hyn a wnawn â hwy, yn fater a fydd yn dod yn fwyfwy pwysig wrth inni weithio tuag at ddod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer. Yr wyf yn ddiolchgar i Nerys am sicrhau bod y pwnc yn uchel ar yr agenda, a'n bod wedi cael cyfle i drafod y materion yn drylwyr, drwy Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 a'r Pwyllgor Cyllid.

Mae datblygu trefniadau rheoli gwastraff cynaliadwy ac effeithiol yn un o amcanion allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein strategaeth wastraff, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', sy'n ddogfen drosfwaol newydd, yn nodi sut y bydd mabwysiadu arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy yn ein helpu i leihau ein hól troed ecolegol a'n hól troed carbon, gwella ansawdd yr amgylchedd lleol, arbed arian a chreu gwaith o safon uchel.

Bydd mabwysiadu dull gweithredu diwastraff yn golygu y byddwn yn dod yn gymdeithas sy'n ailgylchu llawer, a bydd Mesur Arfaethedig Gwastraff (Cymru) y Llywodraeth, a gyflwynwyd yn y Cynulliad ar 22 Chwefror, yn helpu i gyflawni'r nod hwnnw. Bydd yn sicrhau y bydd llawer mwy o wastraff yn cael ei ailgylchu ac y bydd y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi'n lleihau. Mae'n bwysig inni ddeall ei bod yn well ailgylchu deunyddiau, ni waeth ble yn y byd y cânt eu hanfon, yn hytrach na'u hanfon i safleoedd tirlenwi, fel y dywedodd Nerys yn glir yn ei chyflwyniad.

Caiff llawer mwy o ddeunydd ailgylchu ei gynhyrchu o ganlyniad i wireddu

ambitions of 'Towards Zero Waste' and the Government's proposed waste Measure. In order to manage this increase in recyclable material, we are committed to developing Welsh markets for recycle and compost, anaerobic digestion digestate and so on, and to ensure that the necessary infrastructure and collection systems are in place to serve those markets. We want to see more local processing, which is the proximity principle, particularly where it involves materials that traditionally have been exported. At the end of April, I will formally open a new plastics recycling facility that will take plastic bottles from Wales and beyond and turn them into high-quality material.

We are providing considerable financial support for the development of a new infrastructure. We have already allocated £26 million for the development of infrastructure for municipal waste and other major investment has been provided by the Assembly Government's Department for the Economy and Transport, which has made 11 offers to recycling companies over the past 12 months amounting to £4.6 million. Irrespective of where this recycle is processed, it is important that we know what happens to this material. We need a responsible approach to waste management that looks at the system as a whole. That is the ground covered by Nerys's proposed shipment of waste Measure.

Like speakers before me, I want to emphasise that the Welsh Assembly Government fully supports the principles set out in this proposed Measure. The proposed Measure seeks to ensure that data are made available on how our recycle is managed and dealt with outside the EC and EFTA area. Nerys's work has helped to identify the current limitations of the reporting arrangements under WasteDataFlow and that the reporting system is not being used to its full potential. I believe that we can make significant improvements in the way that we report information about the destination of recycles by local authorities, and we are putting in place a number of actions to this end.

uchelgeisiau 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a Mesur gwastraff arfaethedig y Llywodraeth. Er mwyn rheoli'r cynnydd hwn mewn deunydd y gellir ei ailgylchu, yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu marchnadoedd Cymreig ar gyfer deunydd ailgylchu a chompost, gweddillion prosesau treulio anerobig ac yn y blaen, a sicrhau bod y seilwaith a'r systemau casglu angenrheidiol ar waith i wasanaethu'r marchnadoedd hynny. Yr ydym am weld mwy o brosesu lleol, sef yr egwyddor agosrwydd, yn enwedig os yw'n ymwneud â deunyddiau sydd wedi'u hallforio'n draddodiadol. Ddiwedd mis Ebrill, byddaf yn agor yn swyddogol gyfleuster newydd i ailgylchu plastigau, a fydd yn cymryd poteli plastig o Gymru a thu hwnt ac yn eu troi'n ddeunydd o safon uchel.

Yr ydym yn darparu cymorth ariannol sylweddol i ddatblygu seilwaith newydd. Yr ydym eisoes wedi clustnodi £26 miliwn i ddatblygu seilwaith ar gyfer gwastraff trefol, a darparwyd buddsoddiad sylweddol arall gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth y Cynulliad, sydd wedi gwneud 11 o gynigion i gwmnïau ailgylchu yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n gyfwerth â £4.6 miliwn. Ni waeth ble y prosesir y deunydd ailgylchu hwn, mae'n bwysig ein bod yn gwybod beth sy'n digwydd iddo. Mae arnom angen agwedd gyfrifol at reoli gwastraff, sy'n ystyried y system gyfan. Dyna'r oedd Mesur cludo gwastraff arfaethedig Nerys yn ymdrin ag ef.

Fel y siaradwyr o'm blaen, hoffwn bwysleisio bod Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'n llwyr yr egwyddorion sydd wedi eu gosod allan yn y Mesur arfaethedig hwn. Mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio sicrhau darparu data am y modd y caiff ein deunydd ailgylchu ei reoli, a'r modd yr ymdrinnir ag ef y tu allan i ardal y Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop. Mae gwaith Nerys wedi helpu i nodi cyfyngiadau cyfredol y trefniadau cofnodi dan WasteDataFlow, a nodi nad yw'r system gofnodi'n cael ei defnyddio i'w photensial llawn. Credaf y gallwn wneud gwelliannau sylweddol i'r modd y caiff gwybodaeth am gyrchfan deunydd ailgylchu ei chofnodi gan awdurdodau lleol, ac yr ydym yn rhoi nifer o

gamau gweithredu ar waith i'r perwyl hwnnw.

Officials have started work on amending reporting arrangements, so that local authorities set out the destination and volume of recyclate for reprocessing both within and outside the European Community and the European free trade area. The Welsh Local Government Association's council will be considering this matter at its meeting on 26 March. The sustainable waste management grant letters, which will be issued by the end of this month, will set out our expectation that local authorities provide this information as a condition of grant. Following this, we will be working with the WLGA to produce guidance for local authorities on putting in place enhanced arrangements for monitoring the destinations of recyclate, including the use of conditions in contracts with those who manage the recyclate.

Mae swyddogion wedi dechrau diwygio trefniadau cofnodi, fel y bydd awdurdodau lleol yn nodi cyrchfan a swm y deunydd ailgylchu sydd i'w ailbroseu y tu mewn a'r tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop. Bydd cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried y mater hwn yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth. Bydd llythyrau grantiau rheoli gwastraff cynaliadwy, a ddosberthir erbyn diwedd y mis hwn, yn nodi ein disgwyliad i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth hon fel amod grant. Yn dilyn hynny, byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lunio canllawiau i awdurdodau lleol ar roi trefniadau gwell ar waith ar gyfer monitro cyrchfannau deunydd ailgylchu, gan gynnwys defnyddio amodau mewn contractau gyda'r sawl sy'n rheoli'r deunydd ailgylchu.

In parallel with this work with local authorities, we will amend the WasteDataFlow system so that local authorities can input more information on the destination of recyclate, particularly that sent outside the European Community and European free trade areas. As a minimum, I will be expecting local authorities to report information on the WasteDataFlow system, thus ensuring the greater transparency that you call for, since this information is publicly available. However, local authorities may also want to consider other methods for publicising this information.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn gydag awdurdodau lleol, byddwn yn diwygio'r system WasteDataFlow, fel y gall awdurdodau lleol gofnodi mwy o wybodaeth am gyrcffan deunydd ailgylchu, yn enwedig y deunydd a anfonir y tu allan i ardal y Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop. Byddaf yn disgwyl i awdurdodau lleol o leiaf gofnodi gwybodaeth ar y system WasteDataFlow, gan sicrhau'r tryloywder yr ydych yn galw amdano, gan fod y wybodaeth honno ar gael yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol am ystyried dulliau eraill o gyhoeddi'r wybodaeth dan sylw.

I want to ensure that these new arrangements, in relation to the provision of data on recyclate, the publication of appropriate guidance and the amendment of the WasteDataFlow system are implemented by October 2010, if not sooner. Full reporting by local authorities is likely to take longer, since the provision of information will need to be built into contracts between local authorities and their materials brokers.

Yr wyf am sicrhau y bydd y trefniadau newydd hyn, yng nghyswllt darparu data am ddeunydd ailgylchu, cyhoeddi canllawiau priodol, a diwygio'r system WasteDataFlow, yn cael eu gweithredu erbyn mis Hydref 2010, os nad ynghynt. Mae gwaith cofnodi gwybodaeth yn llawn gan awdurdodau lleol yn debygol o gymryd mwy o amser, oherwydd bydd angen i'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth gael ei ymgorffori mewn contractau rhwng awdurdodau lleol a'u broceriaid deunyddiau.

I hope that these actions will achieve the aims of this proposed Measure in relation to the

Gobeithio y bydd y camau hyn yn cyflawni nodau'r Mesur arfaethedig hwn o ran

publication of information on the destination of recycle. However, if this approach fails to achieve the outcomes, I will look towards existing statutory powers to require compliance. Section 30 of the Waste and Emissions Trading Act 2003 gives Welsh Ministers the powers to require local authorities to provide data on waste. In practice, and irrespective of whether we adopt a statutory approach, local authorities will need to ask brokers to supply them with the appropriate data, perhaps as part of their contractual arrangements with those materials brokers.

To conclude, this Government supports the aims of this proposed Measure, and I am extremely grateful to Nerys Evans for bringing it forward. Without her valuable input, we would not be taking forward the actions that I have outlined today in response to her proposed Measure, which are in greater detail today, as a result of her work and the work of the committees. I believe that those actions and, if necessary, the use of statutory powers under the Waste and Emissions Trading Act, will address the overall aims of the proposed Measure.

5.00 p.m.

Therefore, the Government agrees with Legislation Committee No. 1's conclusion that the proposed Measure is not necessary. Therefore, we are unable to support the proposal that the proposed Measure progresses to Stage 2.

Darren Millar: I am delighted to speak in the debate on the Proposed Shipment of Waste for Recovery (Community Involvement in Arrangements) (Wales) Measure brought forward by Nerys Evans. I am delighted to reaffirm my commitment and that of my party to the responsible disposal of waste and to global social responsibility in this regard. The intention of the proposed Measure is something that none of us would argue with, and none of us would disagree with the principles behind it, which we will always support. Like Nerys, I believe that there is a pressing need to at least develop a structure of transparent accountability and

cyhoeddi gwybodaeth am gyrchfan deunydd ailgylchu. Fodd bynnag, os bydd y dull hwn yn methu â chyflawni'r canlyniadau, byddaf yn edrych ar bwerau statudol sy'n bodoli eisoes i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio. Mae Adran 30 Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynnu bod awdurdodau lleol yn darparu data am wastraff. Yn ymarferol, ni waeth a fyddwn yn mabwysiadu dull statudol ai peidio, bydd angen i awdurdodau lleol ofyn i froceriaid roi'r data priodol iddynt, yn rhan efallai o'u trefniadau dan gontract gyda'r broceriaid deunyddiau hynny.

I gloi, mae'r Llywodraeth hon yn cefnogi nodau'r Mesur arfaethedig hwn, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn i Nerys Evans am ei gyflwyno. Heb ei chyfraniad gwerthfawr, ni fyddem yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a amlinellais heddiw wrth ymateb i'w Mesur arfaethedig, sy'n fanylach heddiw o ganlyniad i'w gwaith hithau a gwaith y pwyllgorau. Credaf y bydd y camau gweithredu hynny, ac os bydd angen, camau i ddefnyddio pwerau statudol dan y Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau, yn mynd i'r afael â nodau cyffredinol y Mesur arfaethedig.

Felly, mae'r Llywodraeth yn cytuno â chasgliad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, sef nad yw'r Mesur arfaethedig yn angenrheidiol. Felly, ni allwn gefnogi'r cynnig y dylai'r Mesur arfaethedig symud ymlaen i Gyfnod 2.

Darren Millar: Mae'n bleser gennyf siarad yn y ddadl ar Fesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) a gyflwynwyd gan Nerys Evans. Yr wyf yn falch ailddatgan fy ymrwymiad i ac ymrwymiad fy mhlaed i ddulliau cyfrifol o gael gwared ar wastraff, a chyfrifoldeb cymdeithasol byd-eang i'r perwyl hwnnw. Mae bwriad y Mesur arfaethedig yn rhywbeth na fyddai neb ohonom yn dadlau yn ei erbyn, ac ni fyddai neb ohonom yn anghytuno â'r egwyddorion y tu ôl iddo. Byddwn bob amser yn eu cefnogi. Fel Nerys, credaf fod taer angen inni o leiaf ddatblygu strwythur o

traceability with regard to the end destination of our recyclable waste. At present, the end result of that waste is very cloudy. We all know of stories of waste being sent abroad to be burned—not even disposed of in landfill—causing all sorts of environmental problems.

The Assembly has a sustainability duty and, quite rightly, on a cross-party basis, everyone in the Chamber has encouraged and promoted recycling over the years. However, there is a real danger now that unless the outcome of these efforts is clarified, the positive message that has so far been very successful at a domestic level in generating goodwill with regard to recycling in Welsh households could be undermined. We know that more and more people are concerned about the environment and that people are willing to take meaningful steps to reduce the size of their collective environmental footprint. However, there is a need to take responsibility to ensure that the whole process is working and transparent and that Welsh households can be confident that their efforts in separating waste and putting it out on different days on the kerbside are not being thrown away, if you will excuse the pun. We also need to open up democracy by involving people in the choices and engaging them; we need to empower citizens, and this proposed Measure would help with that because it would enable them to hold local authorities to account for the treatment of their waste.

It is intended that, as a result of this newly available information, the public would be able to encourage local authorities to use recycling facilities closer to the source of recyclates. I was pleased to hear the Minister talk about the need for us to stimulate a Welsh recycling economy and to stimulate businesses in that sector, because there are huge opportunities that we are missing out on in Wales. We have a recycling industry that is very much in its infancy, although there are some very good examples around Wales of successful companies, such as UPM Shotton in the north.

atebolrwydd tryloyw a'r gallu i olrhain cyrchfan terfynol gwastraff i'w ailgylchu. Ar hyn o bryd, mae pen taith y gwastraff hwnnw'n niwlog iawn. Gwyddom i gyd am straeon am wastraff yn cael ei anfon dramor i'w losgi—yn hytrach na'i anfon i safle tirlenwi hyd yn oed—sy'n achosi pob math o broblemau amgylcheddol.

Mae gan y Cynulliad ddyletswydd cynaliadwyedd, ac yn gywir ddiagon, ar sail drawsbleidiol, mae pawb yn y Siambr wedi annog a hyrwyddo ailgylchu ar hyd y blynyddoedd. Fodd bynnag, oni chaiff canlyniad yr ymdrechion hyn ei egluro, bydd perygl gwirioneddol yn awr y gellid tanseilio'r neges gadarnhaol sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn ar lefel ddomestig yn ennyn ewyllys da o ran ailgylchu ar aelwydydd yng Nghymru. Gwyddom fod mwy a mwy o bobl yn pryderu am yr amgylchedd, a bod pobl yn fodlon cymryd camau ystyrlon i leihau maint eu hól troed amgylcheddol cyfun. Fodd bynnag, mae angen cymryd cyfrifoldeb i sicrhau bod y broses gyfan yn gweithio ac yn dryloyw, ac y gall aelwydydd Cymru fod yn hyderus nad yw eu hymdrechion i wahanu gwastraff, a'i roi allan wrth ochr y ffordd ar ddiwrnodau gwahanol, yn mynd yn wastraff, os maddeuwch y chwarae ar eiriau. Mae angen hefyd inni wneud democratiaeth yn fwy agored drwy gynnwys pobl yn y dewisiadau ac ymgysylltu â hwy; mae angen inni rymuso dinasyddion, a byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn helpu i wneud hynny, oherwydd byddai'n eu galluogi i ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif am y modd y maent yn trin eu gwastraff.

Yn sgil y wybodaeth newydd hon a fyddai ar gael, bwriedir y byddai'r cyhoedd yn gallu annog awdurdodau lleol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu sy'n nes at ffynhonnell y deunyddiau ailgylchu. Yr oeddwn yn falch clywed y Gweinidog yn siarad am yr angen inni ysgogi economi ailgylchu yng Nghymru ac ysgogi busnesau yn y sector hwnnw, oherwydd mae yna gyfleoedd mawr yr ydym yn eu colli yng Nghymru. Mae gennym ddiwydiant ailgylchu sydd yn ei ddyddiau cynnar mewn gwirionedd, er bod rhai enghreifftiau da iawn o gwmmiau llwyddiannus ledled Cymru, megis UPM Shotton yn y gogledd.

I listened very carefully to Rosemary Butler when she spoke about the objections that have been raised and the recommendation of Legislation Committee No. 1. I accept that there are some concerns, particularly among Welsh local authorities with regard to the proposed Measure. I also listened very carefully to the report of the Finance Committee on the potential cost of the implementation of the proposed Measure. However, the Minister made it quite clear that much of this cost will be incurred anyway in relation to some of the other actions she intends to bring forward later in the year. Given that, the Welsh Conservatives want to make it absolutely clear that we still support the principle of the proposed Measure progressing to Stage 2. If there is a vote on that today—and I sincerely hope that there will be—we will support it progressing to Stage 2. I encourage you, Nerys; you need to go for it here. Do not back down because of the information you have received. We want to encourage you to go forward and take it to the next stage. It is important that we have this traceability, and it is important in enabling Welsh citizens to know where their waste ends up. I am not confident that the measures that the Minister has outlined will be able to deliver what this proposed Measure would deliver in the future.

Ann Jones: Even the Finance Committee was in favour of the principle of the proposed Measure. No-one could argue against it. I am rather surprised to hear you say that the Conservative group will support this proposed Measure today, given that the two Conservative Members on the Finance Committee voted against it and your representative on Legislation Committee No. 1 accepted the committee report. The only person not to accept this report was Mohammad, who was a Plaid Cymru Member at the time and was therefore supporting his own party at that time.

Darren Millar: The purpose of these debates is so that people can be informed in order to make a decision when they vote, Ann. Quite clearly, the Minister has responded to this issue, outlining a number of actions that she

Gwrandewais yn astud iawn ar Rosemary Butler pan siaradodd am y gwrthwynebiadau a fynegwyd, ac am argymhelliad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1. Derbyniaf fod rhai pryderon, yn enwedig ymhlith awdurdodau lleol Cymru, am y Mesur arfaethedig. Gwrandewais yn astud iawn hefyd ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gost bosibl gweithredu'r Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog yn eithaf clir y byddai llawer o'r gost hon yn codi beth bynnag yng nghyswllt rhai o'r camau gweithredu eraill y mae'n bwriadu eu cyflwyno'n ddiweddarach yn y flwyddyn. O ystyried hynny, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am ddweud yn gwbl glir y byddwn yn dal i gefnogi'r egwyddor y dylai'r Mesur arfaethedig symud ymlaen i Gyfnod 2. Os bydd pleidleisio ar hynny heddiw—ac yr wyf yn mawr obeithio y bydd—byddwn yn cefnogi'r cynnig y dylai'r Mesur symud ymlaen i Gyfnod 2. Yr wyf yn eich annog, Nerys; mae angen ichi fynd amdani. Peidiwch ag ildio oherwydd y wybodaeth a gawsoch. Yr ydym am eich annog i gamu ymlaen, a mynd ag ef i'r cam nesaf. Mae'n bwysig bod gennym y gallu hwn i olrhain, ac mae'n bwysig o ran galluogi dinasyddion Cymru i wybod am gyrchfan terfynol eu gwastraff. Nid wyf yn hyderus y bydd y camau y mae'r Gweinidog wedi'u hamlinellu yn gallu cyflawni'r hyn y byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn ei gyflawni yn y dyfodol.

Ann Jones: Yr oedd hyd yn oed y Pwyllgor Cyllid o blaid egwyddor y Mesur arfaethedig. Ni allai neb ddadlau yn ei herbyn. Yr wyf yn synnu braidd eich clywed yn dweud y bydd y grŵp Ceidwadol yn cefnogi'r Mesur arfaethedig hwn heddiw, o gofio bod y ddau Aelod Ceidwadol ar y Pwyllgor Cyllid wedi pleidleisio yn ei erbyn, a bod eich cynrychiolydd ar Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 wedi derbyn adroddiad y pwyllgor. Yr unig un na dderbyniodd yr adroddiad oedd Mohammad, a oedd yn Aelod o Blaid Cymru ar y pryd, ac a oedd, felly, yn cefnogi ei blaid ei hun bryd hynny.

Darren Millar: Diben y dadleuon hyn yw rhoi gwybod i bobl er mwyn iddynt wneud penderfyniad pan fyddant yn pleidleisio, Ann. Yn amlwg, mae'r Gweinidog wedi ymateb i'r mater hwn, gan amlinellu nifer o

intends to take which, in our opinion, as a party, mitigate some of the points that you made as a Finance Committee—and I accept that we had Members on that committee—and also address some of the objections that were raised by Legislation Committee No. 1. Therefore, we remain committed to the proposed Measure going forward to Stage 2 and we shall be voting in that respect.

Michael German: I cannot accept Darren's view, but I do welcome the fact that Nerys has raised this very important issue. I suppose that one way of looking at it would be to say that you have the diagnosis right, but the prescription and the treatment is not necessarily the best way of doing things. The National Assembly has two powers, one of which is the power of legislating and the other is the power of the purse. Therefore, there are existing tools within the legislative box that could be used to achieve the ends that you have wanted to achieve. The Minister has described how she will use the club of her cash box if people do not respond in the way that she wishes. So, there are tools in the toolbox to achieve the desired outcomes. However, this is an important issue.

This refers to the hidden part of recycling. People recycle by putting out their products, and they get taken away and then they are hidden from view. We do not know what happens at the end of that process. We do not know where the recycle goes. It is the public that needs help to understand that. Crucially, this is the area that I believe requires greater effort and support from the Government. I am pleased that the Minister has announced that she will take certain actions to achieve that.

If ever there was an area for collegiate action, it is in this field of recycling. If you have the content of people's recycling boxes and whatever else they put out, you need to have a marketplace for ensuring that those items travel as little as possible, that they are recycled into useful products, and that the cash return on these matters justifies the costs

gamau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd, a fydd yn ein barn ni, fel plaid, yn lleddfu rhai o'r pwyntiau a wnaethoch chi fel Pwyllgor Cyllid—a derbynaf fod gennym Aelodau ar y pwyllgor hwnnw—ac a fydd yn mynd i'r afael hefyd â rhai o'r gwrthwynebiadau a fynegwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1. Felly, yr ydym yn dal wedi ymrwymo i'r ffaith y dylai'r Mesur arfaethedig symud ymlaen i Gyfnod 2, a byddwn yn pleidleisio dros hynny.

Michael German: Ni allaf dderbyn safbwynt Darren, ond croesawaf y ffaith fod Nerys wedi codi'r mater pwysig iawn hwn. Tybiaf mai un ffordd o edrych arno fyddai dweud bod eich diagnosis yn gywir, ond nad y presgripsiwn na'r driniaeth dan sylw yw'r ffordd orau o reidrwydd o wneud pethau. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddau bŵer, sef y pŵer i ddeddfu ar y naill law, a phŵer ariannol ar y llaw arall. Felly, mae yna dulliau deddfwriaethol eisoes y gellid eu defnyddio i gyflawni'r hyn yr ydych yn wedi dymuno'i gyflawni. Mae'r Gweinidog wedi disgrifio'r modd y bydd yn defnyddio'i blwch arian i gosbi pobl os na fyddant yn ymateb fel y mae am iddynt wneud. Felly, mae dulliau ar gael i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Fodd bynnag, mae hwn yn fater pwysig.

Mae hyn yn cyfeirio at yr agwedd gudd ar ailgylchu. Bydd pobl yn ailgylchu drwy roi eu cynnyrch allan, a chaiff y cynnyrch ei gludo ymaith a'i guddio o'r golwg. Ni wyddom beth sy'n digwydd ar ddiwedd y broses honno. Ni wyddom ble yr aiff y deunydd ailgylchu. Ar y cyhoedd y mae angen help i ddeall hynny. Yr hyn sy'n hollbwysig yw mai dyma'r maes lle mae angen yr ymdrech a'r gefnogaeth fwyaf gan y Llywodraeth, yn fy marn i. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi cyhoeddi y bydd yn cymryd camau gweithredu penodol i gyflawni hynny.

Os bu maes erioed sy'n galw am weithredu'n golegaidd, maes deunyddiau ailgylchu yw hwnnw. Os byddwch yn cael yr hyn sydd ym mlychau ailgylchu pobl, a beth bynnag arall y byddant yn ei roi allan, mae angen ichi gael marchnad er mwyn sicrhau bod yr eitemau hynny'n teithio cyn lleied ag sy'n bosibl, y cânt eu hailgylchu i greu cynnyrch

of collection and everything else that goes with it. Therefore, there has to be a balance between a local market and the quality of the end product that comes from the recycle. We all know that the reduction of recyclable material is crucial in any case, as is packaging and everything else that goes with it at the front end.

Therefore, it is absolutely right that we should know what happens afterwards and where. However, it seems that if there is to be any effort made, any cash to be put on the table, and any cost to be put on the table, these considerations should be part of the agenda that deals with building the economy of the post-recycled product. It is all very well that we used to talk about what happened to paper. The stories are legion of what happened to wastepaper in the past. People used to put out their newspapers, and there are legions of rumours that some of this wastepaper eventually found its way into landfill because there was no market for it. It is right that we should know, understand and have those facts put before us, but the important antidote to that is that you should stimulate the market so that those items are actually used, and when they are not used, there are alternatives. We know that there is an alternative for paper; you can use it in a range of ways in order to deal with it after you have collected it.

5.10 p.m.

I am grateful that Nerys has put forward this proposed Measure. It is very important that we know what happens to our waste. However, the first question to ask is whether legislation is needed in this area. The Minister referred to the Waste and Emissions Trading Act 2003. I think that that Act gives her the powers to require this of local authorities. So, if you were to ask that simple question, 'Do we need legislation?', the answer must be 'no', because the Minister already has the powers to require the collection and supply of that information.

The second point is the power of the cash

defnyddiol, a bod yr enillion yn cyfiawnhau'r costau casglu a phopeth arall sy'n gysylltiedig â'r broses. Felly, rhaid cael cydbwysedd rhwng marchnad leol ac ansawdd y cynnyrch terfynol sy'n deillio o'r deunydd ailgylchu. Gwyddom i gyd fod lleihau deunydd y gellir ei ailgylchu yn hollbwysig beth bynnag, fel deunyddiau pecynnu a phopeth arall sy'n gysylltiedig â hynny yn y pen blaen.

Felly, mae'n hollol iawn y dylem wybod beth sy'n digwydd wedyn ac ymhle. Fodd bynnag, os bwriedir gwneud unrhyw ymdrech, trafod unrhyw arian a thrafod unrhyw gost, dylai'r ystyriaethau hynny fod yn rhan o'r agenda sy'n ymdrin ag adeiladu economi'r cynnyrch ar ôl y gwaith ailgylchu. Yr oedd yn iawn inni arfer siarad am yr hyn a ddigwyddai i bapur. Mae yn lu o straeon am yr hyn a ddigwyddai i bapur gwastraff yn y gorffennol. Arferai pobl roi eu papurau newydd allan, ac mae llu o sion fod rhywfaint o'r papur gwastraff wedi mynd i safleoedd tirlenwi yn y pen draw, am nad oedd marchnad ar ei gyfer. Mae'n iawn inni wybod, deall, a chael y ffeithiau hynny, ond yr ateb pwysig i'r broblem yw y dylech ysgogi'r farchnad fel y defnyddir yr eitemau hynny, a phan na fyddant yn cael eu defnyddio, bod yna ddewisiadau amgen. Gwyddom fod dewis amgen ar gael ar gyfer papur; gallwch ei ddefnyddio mewn amryw ffyrdd i ymdrin ag ef ar ôl ei gasglu.

Yr wyf yn ddiolchgar bod Nerys wedi cyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn. Mae'n bwysig iawn inni wybod beth sy'n digwydd i'n gwastraff. Fodd bynnag, y cwestiwn cyntaf i'w ofyn yw a oes angen deddfwriaeth yn y maes hwn. Cyfeiriodd y Gweinidog at Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003. Credaf fod y Ddeddf honno'n rhoi'r pwerau iddi fynnu hyn gan awdurdodau lleol. Felly, pe baech yn gofyn y cwestiwn syml hwnnw, sef 'A oes arnom angen deddfwriaeth?', rhaid mai 'Nac oes' yw'r ateb, oherwydd mae gan y Gweinidog y pwerau eisoes i fynnu bod y wybodaeth honno'n cael ei chasglu a'i darparu.

Yr ail bwynt yw pŵer y blwch arian, sy'n

box, which I think is very important in this matter. If you are to encourage collegiate behaviour from local authorities, you need to offer a financial stimulus and that is something that I believe is crucial to making that change.

The other legislative arm that we have is the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Environment) Order 2010, which provides a vast range of powers that can be used as tools to assist in this matter. One of the crucial things that we have to do is talk not only about the domestic waste stream, but the commercial waste stream. That is another area where we need to ensure that materials are properly recycled. The ability to bring all that together is already in the toolbox of the National Assembly and, therefore, I am afraid that I cannot support the proposed Measure as it stands, simply because there are already alternatives that we can use.

Nerys Evans: Thank you for the contributions. First, Rosemary accepted that improvements need to be made and accepted the aim of increasing transparency, and she mentioned that local government said in its evidence that it reports as much information as possible. This goes to the heart of the matter. It is a voluntary process at the moment and, as a voluntary process, the information is not being published or provided to the people of Wales. There is no incentive for authorities to do it. I refute the allegation that the publication of information would compromise the progress made with recycling rates. It is a very sensitive issue of course, but that assumes that people will not understand what is happening to their recycling and I would give the people of Wales more credit in that regard. It is happening, so why are we frightened to tell anybody about it?

Ann, I think that I answered some of the concerns that you raised, in my opening remarks. I was disturbed by one of the points on the increased cost that could be incurred as a result of the proposed Measure. You mentioned the increased cost that would result from any increase in recycling rates. To increase recycling rates is a clear policy of

bwysig iawn yn y mater hwn, yn fy marn i. Os ydych am annog ymddygiad colegaid gan awdurdodau lleol, mae angen ichi gynnig ysgogiad ariannol, a chredaf fod hynny'n hollbwysig i sicrhau'r newid hwnnw.

Yr offeryn deddfwriaethol arall sydd gennym yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2010, sy'n darparu ystod eang o bwerau y gellir eu defnyddio i helpu yn y mater hwn. Un o'r pethau hollbwysig y mae'n rhaid inni eu gwneud yw siarad nid yn unig am y ffrwd gwastraff domestig, ond am y ffrwd gwastraff masnachol hefyd. Mae hwnnw'n faes arall lle mae angen inni sicrhau bod deunyddiau'n cael eu hailgylchu'n gywir. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y gallu eisoes i gyfuno hynny i gyd, ac mae'n flin gennyf, felly, na allaf gefnogi'r Mesur arfaethedig fel y mae, yn syml iawn oherwydd bod dewisiadau amgen eisoes ar gael eisoes inni eu defnyddio.

Nerys Evans: Diolch am eich cyfraniadau. Yn gyntaf, derbyniodd Rosemary fod angen gwneud gwelliannau, derbyniodd y nod, sef gwella tryloywder, a soniodd fod llywodraeth leol wedi dweud yn ei thystiolaeth ei bod yn cofnodi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl. Mae hynny'n mynd at wraidd y mater. Proses wirfoddol ydyw ar hyn o bryd, ac fel proses wirfoddol, nid yw'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi na'i darparu i bobl Cymru. Nid oes cymhelliant i awdurdodau wneud hynny. Gwrthodaf yr honiad y byddai cyhoeddi gwybodaeth yn tansilio'r cynnydd a wnaed mewn cyfraddau ailgylchu. Mae'n fater sensitif iawn, wrth gwrs, ond mae hynny'n tybio na fydd pobl yn deall yr hyn sy'n digwydd i'w deunydd ailgylchu, a byddwn i'n rhoi mwy o glod i bobl Cymru yn hynny. Mae'n digwydd, felly, pam yr ydym yn ofni sôn wrth neb amdano?

Ann, credaf imi ateb rhai o'r pryderon a fynegwyd gennych, yn fy sylwadau agoriadol. Cefais fy nghynhyrfu gan un o'r pwyntiau am y gost uwch a allai godi o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig. Yr oeddech yn sôn am y gost uwch a fyddai'n deillio o unrhyw gynnydd mewn cyfraddau ailgylchu. Mae cynyddu cyfraddau ailgylchu yn bolisi

the Assembly Government, and I do not think that that should be a factor. That is the aim of the Government and surely of the Assembly as a whole. On the cost to waste processors, that was not evident in the information that we received from the local authorities that do this voluntarily at the moment. There is no evidence that the cost to waste processors is a factor.

Darren, thank you for your support. On the problems that you raised about exporting waste to be burned, there are, of course, regulations in place and the Environment Agency has a very important job to do in ensuring that those regulations are followed correctly. It is important to increase the capacity of the recycling industry in Wales. On green jobs, we know that treating waste creates a substantial number of jobs: 250 jobs per 10,000 tonnes of material treated, compared with 10 jobs for landfill, and 20 to 40 jobs for incineration. Thank you for the support.

Mike German supported the principle. There was a consensus on the principle, on the need to use different tools, to build capacity and to look at markets. I would agree with you that we need to look at commercial waste. However, unfortunately, this proposed Measure came under matter 12.5, on how local government exercises its functions, and, therefore, looking at commercial waste was outside the remit of this proposed Measure.

Finally, to respond to the Minister's comments, I know that the Minister supports this principle and is committed to the recycling agenda. It is extremely good news to hear that the Assembly Government is taking this policy on board and is going to implement it straight away in its programme of government. The Government is to extend WasteDataFlow, amend the reporting arrangements and, most importantly of all, will make it a condition of the sustainable waste management grant. I could not have timed this better because if you are sending the grant letters to authorities next week, this could be made a condition of those grants. I would be glad to see that happening. The

clir gan Lywodraeth y Cynulliad, ac ni chredaf y dylai hynny fod yn ffactor. Dyna yw nod y Llywodraeth, a'r Cynulliad yn gyffredinol, siawns. O ran y gost i broseswyr gwastraff, nid oedd hynny'n amlwg yn y wybodaeth a gawsom gan yr awdurdodau lleol sy'n gwneud hyn yn wirfoddol ar hyn o bryd. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y gost i broseswyr gwastraff yn ffactor.

Darren, diolch am eich cefnogaeth. O ran y problemau a fynegwyd gennych am allforio gwastraff i'w losgi, mae rheoliadau ar waith wrth gwrs, ac mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd waith pwysig iawn i'w wneud o ran sicrhau bod y rheoliadau hynny'n cael eu dilyn yn gywir. Mae'n bwysig cynyddu capasiti'r diwydiant ailgylchu yng Nghymru. O ran swyddi gwyrdd, gwyddom fod trin gwastraff yn creu nifer sylweddol o swyddi: 250 o swyddi i bob 10,000 tonnell o ddeunydd a gaiff ei drin, o'u cymharu â 10 swydd ar gyfer tirlenwi, ac 20 i 40 swydd ar gyfer llosgi gwastraff. Diolch am eich cefnogaeth.

Cefnogodd Mike German yr egwyddor. Yr oedd consensws o ran yr egwyddor, o ran yr angen i ddefnyddio dulliau gwahanol, adeiladu capasiti ac edrych ar farchnadoedd. Byddwn yn cytuno â chi fod angen inni edrych ar wastraff masnachol. Fodd bynnag, yn anffodus yr oedd y Mesur arfaethedig hwn yn dod dan fater 12.5, ar y ffordd y mae llywodraeth leol yn arfer ei swyddogaethau, ac felly yr oedd ystyried gwastraff masnachol y tu allan i gylch gwaith y Mesur arfaethedig hwn.

I gloi, i ymateb i sylwadau'r Gweinidog, gwn fod y Gweinidog yn cefnogi'r egwyddor hon a'i bod wedi ymrwymo i'r agenda ailgylchu. Mae clywed bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y polisi hwn ac yn bwriadu ei weithredu ar unwaith yn ei rhaglen lywodraethu yn newyddion eithriadol o dda. Bydd y Llywodraeth yn ymestyn WasteDataFlow, yn diwygio'r trefniadau cofnodi, ac yn bwysicaf oll, yn gwneud hyn yn un o amodau'r grant rheoli gwastraff cynaliadwy. Ni allwn fod wedi amseru hyn yn well, oherwydd os byddwch yn anfon y llythyrau grant at awdurdodau yr wythnos nesaf, gallai hyn fod un o amodau'r grantiau hynny. Byddwn yn falch gweld hynny'n

Government is to produce guidance for the WLGA on monitoring arrangements, and everything is to be in place by October 2010. It is also to look at the conditions of contracts with processors. I think that this is a massive step forward. Of course, the drive to do that came from the fact that the voluntary process was not working. Only one local authority is looking to do it voluntarily. A voluntary process does not work, but I am extremely happy that the Minister is willing to put incentives in place for local government to do it.

Although I started this process by trying to get statutory guidance through legislation for local authorities, I accept that the commitments that you have given today are a massive step forward, Minister, that meaningful incentives will be put in place to make sure that local government does report on the actions and the requirements in my proposed Measure, and that you will do that straight away. I thank you for proposing those policy objectives and for the fact that they will be implemented as soon as possible. Therefore, Presiding Officer, I ask the Assembly for leave to withdraw the motion.

Y Llywydd: Deallaf, felly, eich bod yn tynnu'r cynnig a gynigwyd gennych yn ôl, sef NDM4443, yn ôl. A yw unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, tynnwyd y cynnig yn ôl.

*Tynnwyd y cynnig yn ôl drwy ganiatâd y Cynulliad.
Motion withdrawn by leave of the Assembly.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 5.16 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 5.16 p.m.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru The Welsh Liberal Democrats Debate

Consortia Newyddion a Gyllidir yn Annibynnol Independently Funded News Consortia

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Alun Cairns.

digwydd. Bydd y Llywodraeth yn llunio canllawiau ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar drefniadau monitro, a bydd popeth yn ei le erbyn mis Hydref 2010. Bydd hefyd yn ystyried amodau contractau gyda phroseswyr. Credaf fod hynny'n gam enfawr ymlaen. Wrth gwrs, daeth yr ysgogiad i wneud hynny yn sgil y ffaith nad oedd y broses wirfoddol yn gweithio. Dim ond un awdurdod lleol sy'n ystyried gwneud hyn yn wirfoddol. Nid yw proses wirfoddol yn gweithio, ond yr wyf yn eithriadol o falch bod y Gweinidog yn fodlon rhoi cymhellion ar waith i lywodraeth leol wneud hyn.

Er imi ddechrau'r broses hon drwy geisio cael canllawiau statudol drwy ddeddfwriaeth ar gyfer awdurdodau lleol, derbyniaf fod yr ymrwymadau a roddwyd gennych heddiw yn gam enfawr ymlaen, Weinidog, ac y bydd cymhellion ystyrllon yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod llywodraeth leol yn adrodd ynghylch y gweithredoedd a'r gofynion sydd yn fy Mesur arfaethedig, ac y byddwch yn gwneud hynny ar unwaith. Diolch am gynnig yr amcanion polisi hynny, ac am y ffaith y byddant yn cael eu gweithredu cyn gynted ag sy'n bosibl. Felly, Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad am ganiatâd i dynnu'r cynnig yn ôl.

The Presiding Officer: I understand, therefore, that you wish to withdraw the motion proposed by you, NDM4443. Does any Member object? I see that there is no objection. Under Standing Order No. 7.35, therefore, the motion is withdrawn.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Alun Cairns.

Eleanor Burnham: I move that

the National Assembly for Wales supports the independently funded news consortia (IFNC) pilot project. (NDM4442)

This is an important motion for our devolved democracy, and I will put it in context, briefly. We are all aware of the decline of ITV and alternative methods of news provision. For some time, the Welsh Affairs Select Committee and various media outlets, such as the Institute of Welsh Affairs, have been taking a keen interest in this important issue. The Welsh Affairs Select Committee has said that there are a number of alternatives to allowing the decline simply to be managed, and the most recognised, in its view, is the creation of independently funded news consortia for Wales. As part of the ‘Digital Britain’ report, there is a recommendation to mount three pilot schemes: one in Scotland, one in Wales, and one in an English region. As a result, there is a strong likelihood that Wales will receive some funding for non-BBC news through the consortia.

Discussions are currently ongoing—and I had the privilege of attending quite a few of them, which have been fascinating—on how best this could be administered. Should an Ofcom panel administer all three? Should there be an Ofcom panel for each of the three regions—although Wales is a nation, and not a region? Should there be an independent Welsh commissioning body, or should the commissioning be done through a reformed S4C Authority?

As we are all aware, unlike Scotland, we do not have a truly national newspaper. We have different newspapers for different areas, but that situation cannot be compared to the truly national newspapers in Scotland. Some of us have long been convinced of the need to look carefully at how we manage that decline, as we see it. There have been various reports in the media generally, including newspapers, and the greater the number of voices that we have in the media in a devolved Wales, the stronger the scrutiny of Government and our democracy will be. In my opinion, a stronger

Eleanor Burnham: Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r prosiect peilot consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol (IFNC). (NDM4442)

Mae hwn yn gynnig pwysig i'n democratiaeth ddatganoledig, ac fe'i rhoddaf yn ei gyd-destun, yn fyr. Yr ydym i gyd yn ymwybodol o ddirywiad ITV a dulliau eraill o ddarparu newyddion. Ers cryn amser mae'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ac amryw gyfryngau eraill, megis y Sefydliad Materion Cymreig, wedi bod yn dangos cryn ddiddordeb yn y mater pwysig hwn. Mae'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig wedi dweud nad gadael i'r dirywiad gael ei reoli yw'r unig ffordd bosibl o weithredu, ond bod modd gweithredu mewn llawer ffordd arall hefyd, ac mai'r ffordd fwyaf cydnabyddedig, yn ei farn ef, yw creu consortia newyddion i Gymru a gyllidir yn annibynnol. Fel rhan o adroddiad ‘Prydain Ddigidol’, argymhellir y dylid lansio tri chynllun peilot: un yng Nghymru, un yn yr Alban, ac un mewn rhanbarth yn Lloegr. O ganlyniad, mae'n debygol iawn y bydd Cymru'n cael rhywfaint o gyllid ar gyfer newyddion na ddarperir gan y BBC drwy'r consortia.

Mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd—a chefais y ffrainc o fod yn rhai ohonynt, ac maent wedi bod yn ddiddorol tu hwnt—am y ffordd orau i weinyddu'r cynlluniau. A ddylai panel Ofcom weinyddu pob un o'r tri? A ddylid cael panel Ofcom ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth—er mai gwlad ac nid rhanbarth yw Cymru? A ddylid cael corff comisiynu annibynnol yng Nghymru, neu a ddylai'r comisiynu ddigwydd drwy Awdurdod S4C wedi'i ddiwygio?

Yr ydym i gyd yn ymwybodol nad oes gennym bapur newydd gwirioneddol genedlaethol, yn wahanol i'r Alban. Mae gennym wahanol bapurau newydd ar gyfer gwahanol ardaloedd, ond ni ellir cymharu'r sefyllfa honno â'r papurau newydd gwirioneddol genedlaethol sydd yn yr Alban. Mae rhai ohonom wedi ein hargyhoeddi ers tro o'r angen i ystyried yn ofalus sut yr ydym yn rheoli'r dirywiad hwnnw, fel y'i gwelwn. Cafwyd amryw adroddiadau yn y cyfryngau'n gyffredinol, gan gynnwys mewn papurau newydd, a pho fwyaf fydd nifer y

Welsh media will help to develop a civil society that will engage more citizens in devolution.

lleisiau sydd gennym ar y cyfryngau mewn Cymru ddatganoledig, y mwyaf cadarn fydd y gwaith craffu ar Lywodraeth a'r mwyaf cadarn fydd ein democratiaeth. Yn fy marn i, bydd cyfryngau cryfach yng Nghymru o gymorth i ddatblygu cymdeithas sifil a fydd yn cynnwys mwy o ddinasyddion yn y broses ddatganoli.

We are at an important crossroads, and devolution has, in the past 10 years, changed the political structure of the UK. However, in many respects, there has not been a real acknowledgment of that when it comes to UK coverage. Some of us look at all kinds of media, but even heavy-duty programmes such as *Newsnight* do not often refer to Wales in any meaningful or positive way. Some UK media—

Yr ydym ar groesffordd bwysig, ac mae datganoli, yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, wedi newid strwythur gwleidyddol y DU. Fodd bynnag, ar lawer ystyr nid yw hynny wedi'i gydnabod yn iawn yn y materion y rhoddir sylw iddynt ar lefel y DU. Bydd rhai ohonom yn edrych ar bob math o gyfryngau, ond ni fydd hyd yn oed rhaglenni o sylwedd, megis *Newsnight*, yn cyfeirio'n aml at Gymru mewn modd ystyrlon neu gadarnhaol. Mae rhai cyfryngau yn y DU—

Alun Cairns: Will you give way?

Alun Cairns: A wnewch chi ildio?

Eleanor Burnham: Yes, briefly.

Eleanor Burnham: Gwnaf, am ychydig.

Alun Cairns: I am grateful to the Member for giving way—briefly. [*Laughter.*] On the *Newsnight* report, will the IFNC arrangement change the output of *Newsnight* in relation to Wales?

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ildio—am ychydig. [*Chwerthin.*] O ran adroddiad *Newsnight*, a fydd y trefniant consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol yn newid cynnyrch *Newsnight* yng nghyswllt Cymru?

5.20 p.m.

Eleanor Burnham: I do not have a magic wand or a crystal ball. The point that I make is that, in many respects, Wales is left out of the picture, because we do not seem to have any authority in these matters. We need to assert ourselves as a devolved nation as authoritatively as possible.

Eleanor Burnham: Nid oes gennyf ffon hud na phelen risial. Y pwynt a wnaif yw bod Cymru, ar lawer ystyr, yn cael ei gadael allan, oherwydd nid yw'n ymddangos bod gennym ddim awdurdod yn y materion hyn. Mae angen inni fynnu cydnabyddiaeth, mor awdurdodol ag sy'n bosibl, fel gwlad ddatganoledig.

I contend that there has been a demonstrable decline in recent years in the volume of the Welsh voice. Particularly relevant to this debate is the fall in the number of hours of public service broadcasting on ITV: it has fallen dramatically in the past 10 years. That will be exacerbated as the digital switchover removes the advantages of continuing to hold a public service broadcasting licence.

Taeraf inni weld dirywiad amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng nghryfder llais Cymru. Un peth sy'n arbennig o berthnasol i'r ddadl hon yw'r gostyngiad yn nifer yr oriau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ITV: mae wedi disgyn yn ddramatig yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Bydd hynny'n gwaethygu wrth i'r newid i wasanaethau digidol ddileu'r manteision o barhau i gael trwydded darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

It is in that context that I propose, in the

Yn y cyd-destun hwnnw yr wyf yn cynnig,

name of the Welsh Liberal Democrats, that the National Assembly support this trial for an independently financed news consortium. I have had the privilege of attending various presentations, which have been fascinating. The three main bidders for the pilot in Wales all offer another voice in English-language current affairs programming in Wales, which suggests that softening the cost of the market attracts a number of high-profile and varied bidders. I cannot comment on them individually, but I believe that the emergence of three such strong bids proves that the Welsh creative industries are flourishing in Wales and that the future of our news will, hopefully, be in fairly good but diverse hands.

Hopefully, I have succeeded in explaining why there is a need for a new approach to third channel news provision in Wales. The IFNC process has been in train for a while now, and I believe that the pilot is likely to get the go-ahead before the election. Some disagree even with that, but I hope so. Consequently, I believe that all Assembly Members should support this motion to support the trial, to ensure that we give English-language Welsh news provision a fair chance and that we continue with the plurality that we so desperately deserve in our devolved nation.

Alun Cairns: I move amendment 1. Delete all after 'Wales' and replace with:

recognises the strong role, brand and reputation of ITV Wales in delivering plurality in broadcasting and believes that deregulation, investment and innovative technology have important parts to play in helping it to meet its franchise obligations without the need for public funds, and believes that independently funded news consortia would be only a short-term solution.

The subject of this debate is extremely important. I do not support how it has been tabled or the IFNC, but it is important that we debate and discuss the plurality and choice that is needed in broadcasting and news

yn enw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, fod y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi'r prosiect peilot hwn ar gyfer consortiwm newyddion a gyllidir yn annibynnol. Cefais y fraint o fynd i amryw gyflwyniadau, sydd wedi bod yn ddiddorol tu hwnt. Mae'r tri phrif gynigiwr am y prosiect peilot yng Nghymru i gyd yn cynnig llais arall ym maes rhaglenni materion cyfoes Saesneg yng Nghymru, sy'n awgrymu bod lleihau cost y farchnad yn denu nifer o gynigwyr amrywiol sydd â phroffil uchel. Ni allaf wneud sylwadau arnynt yn unigol, ond credaf fod y ffaith fod gennym dri chynnig mor gryf yn profi bod diwydiannau creadigol Cymru yn ffynnu yng Nghymru, ac y bydd dyfodol ein darpariaeth newyddion, gobeithio, mewn dwylo eithaf da ond amrywiol.

Gobeithio imi lwyddo i esbonio pam mae angen agwedd newydd at ddarparu newyddion gan drydedd sianel yng Nghymru. Mae'r broses o gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol wedi dechrau ers tro erbyn hyn, a chredaf fod y prosiect peilot yn debygol o gael caniatâd i fynd rhagddo cyn yr etholiad. Mae rhai hyd yn oed yn anghytuno â hynny, ond gobeithio y bydd. O ganlyniad, credaf y dylai pob Aelod Cynulliad gefnogi'r cynnig hwn i gefnogi'r prosiect peilot, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi chwarae teg i ddarpariaeth newyddion Saesneg yng Nghymru, ac yn parhau'r lluosogrwydd yr ydym yn ei haeddu gymaint yn ein gwlad ddatganoledig.

Alun Cairns: Cynigiau welliant 1. Dileu popeth ar ôl 'Cymru' a rhoi yn ei le:

yn cydnabod enw da, brand a swyddogaeth gref ITV Cymru wrth gyflwyno lluosogrwydd mewn darlledu ac yn credu bod gan ddadroleiddio, buddsoddiad a thechnoleg arloesol rannau pwysig i'w chwarae wrth ei helpu i ddiwallu oblygiadau ei fasnachfaint heb yr angen am gyllid cyhoeddus, ac yn credu y byddai consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol yn ateb tymor byr yn unig.

Mae pwnc y ddadl hon yn bwysig tu hwnt. Nid wyf yn cefnogi'r modd y mae wedi'i gyflwyno na'r consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol, ond mae'n bwysig inni gael dadl am y lluosogrwydd a'r dewis y mae eu

coverage.

Needless to say, the Welsh Conservatives support the need for plurality. We need to support the BBC—which is important, although we might often express concern about its dominance, which is also important—but we also support the choice that ITV currently provides. We support and recognise the brand, its strength and ITV's reputation for offering an alternative choice, attracting more than 200,000 viewers—sometimes 0.25 million—with its flagship early-evening news programme. We need to recognise the role that that has played over recent years and in the past, and how that is the backdrop of channel 3's regional and national news output—and, by 'national', I obviously mean here in Wales.

However, there are different ways of achieving plurality. There is the IFNC option, which Eleanor Burnham touched on, or there is a different approach to delivering plurality while securing Wales-based reporting and news on ITV or channel 3, either as it is provided at the moment or in an enhanced way, and that approach is what I want to discuss. I also want to refer to the role of ITV as a public service broadcaster. That provides it with huge benefits, but with those benefits and privileges come some obvious obligations, which were tied up in the franchise negotiations in the last round.

The IFNC is the proposal to use public funds in the region of £7 million when public money is extremely tight. The current model is not working and that is what has led ITV to this position of considering withdrawing regional and national news. We need to recognise that the market is moving extremely quickly, and so a standpoint that ITV might have had as recently as a few months ago may well have changed by today. There is evidence of that in today's report in *The Guardian*: Archie Norman, the new chairman of ITV, is considering withdrawing his support for the IFNC model because, according to the report, he would now like to

hangen ym maes darlledu ac yn y sylw a roddir i newyddion, ac mae'n bwysig inni eu trafod.

Afraid dweud bod y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r angen am luosogrwydd. Mae angen inni gefnogi'r BBC—sy'n bwysig, er ein bod efallai'n mynegi pryder yn aml am ei rym, ac mae'n bwysig inni wneud hynny—ond yr ydym hefyd yn cefnogi'r dewis y mae ITV yn ei gynnig ar hyn o bryd. Yr ydym yn cefnogi ac yn cydnabod y brand, ei gryfder, ac enw da ITV am gynnig dewis arall, gan ddenu dros 200,000 o wylwyr—0.25 miliwn weithiau—gyda'i brif raglen newyddion yn gynnar yn y nos. Mae angen inni gydnabod rôl hynny dros y blynyddoedd diwethaf ac yn y gorffennol, a'r modd y mae hynny'n gefndir i raglenni newyddion rhanbarthol a chenedlaethol sianel 3—a'r hyn a olygaf wrth 'cenedlaethol', wrth gwrs, yw yma yng Nghymru.

Fodd bynnag, gellir sicrhau lluosogrwydd mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r dewis o gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol y cyfeiriodd Eleanor Burnham ato, neu mae yna ddull gwahanol o sicrhau lluosogrwydd gan ddiogelu adroddiadau a newyddion o Gymru ar ITV neu sianel 3, fel y cânt eu darparu ar hyn o bryd neu mewn ffordd well, a hoffwn drafod y dull hwnnw'n awr. Yn ogystal, hoffwn gyfeirio at rôl ITV fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rôl honno'n dod â manteision aruthrol iddo, ond yn sgil y manteision a'r breintiau hynny daw rhai rhwymedigaethau amlwg, a oedd ynghlwm wrth y trafodaethau ar y fasnachfrait yn y cylch diwethaf.

Y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol yw'r cynnig i ddefnyddio oddeutu £7 miliwn o gyllid cyhoeddus pan fydd arian cyhoeddus yn eithriadol o dynn. Nid yw'r model presennol yn gweithio, a dyna sydd wedi arwain ITV i'r sefyllfa hon lle mae'n ystyried tynnu newyddion rhanbarthol a chenedlaethol o'r arlwy. Mae angen inni gydnabod bod y farchnad yn symud yn eithriadol o gyflym, felly, gallai safbwynt posibl ITV mor ddiweddar ag ychydig fisoedd yn ôl fod wedi newid yn hawdd erbyn heddiw. Mae tystiolaeth o hynny yn yr adroddiad heddiw yn *The Guardian*: mae Archie Norman, cadeirydd

consider continuing with the regional news. The debate is moving quickly. Therefore, we need to recognise that the IFNC is a short-term proposal, because it will take us only as far as the franchise negotiations that will start in 2012 in readiness for 2014. The IFNC is a short-term measure, and we need to recognise that fact.

The root of the problem is that ITV paid too much for its franchise, and its potential for improving income has been reduced, with competition from the internet and digital television. However, its potential income has also been restricted because of the contract rights renewal. Ofcom has reported on that, and it is being considered by the Office of Fair Trading. The Conservative approach is to support ITV in meeting its franchise obligations. The indications from Archie Norman in today's press suggest that that is the sort of thing that it would like to see.

Bethan Jenkins: In that report in *The Guardian*, it also states that, if ITV wants to continue with regional news, it will have to slash the budgets again, which will lead to more job cuts. Is that what the Tories want to see happening in Wales?

Alun Cairns: Of course we do not, but that is under the current restrictions. That is why the Conservatives' approach is to support ITV by helping it to meet its franchise obligations. That will mean delivering the quality that we need, as well as the length of news and non-news programming that we need, which is exactly what it is legally obliged to do. Under the current IFNC proposal, you are talking about giving a company that last year made £25 million in profit £7 million to provide something that it is legally obliged to do in the first place. That makes no sense.

newydd ITV, yn ystyried peidio â chefnogi'r model consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol oherwydd, yn ôl yr adroddiad, byddai'n awr yn hoffi ystyried parhau'r newyddion rhanbarthol. Mae'r ddadl yn symud yn gyflym. Felly, mae angen inni gydnabod mai cynnig tymor byr yw'r model consortia newyddion, oherwydd ni fydd yn mynd â ni ond cyn belled â'r trafodaethau ar y fasnachfaint, a fydd yn dechrau yn 2012, yn barod ar gyfer 2014. Cam tymor byr yw'r model consortia newyddion, ac mae angen inni gydnabod y ffaith honno.

Gwraidd y broblem yw fod ITV wedi talu gormod am ei fasnachfaint, ac mae ei botensial i wella incwm wedi lleihau, gyda chystadleuaeth o du'r rhynggrwyd a theledu digidol. Fodd bynnag, mae ei botensial o ran incwm hefyd wedi'i gyfyngu oherwydd y broses o adnewyddu hawliau contract. Mae Ofcom wedi cyflwyno adroddiad ar hynny, sy'n cael ei ystyried gan y Swyddfa Masnachu Teg. Agwedd y Ceidwadwyr yw cefnogi ITV i gyflawni rhwymedigaethau ei fasnachfaint. Mae'r hyn a fynegir gan Archie Norman yn y wasg heddiw yn awgrymu mai dyna'r math o beth yr hoffai ITV ei weld.

Bethan Jenkins: Yn yr adroddiad hwnnw yn *The Guardian*, nodir hefyd y bydd yn rhaid i ITV, os yw am barhau â newyddion rhanbarthol, dorri'r cyllidebau eto, a fydd yn arwain at fwy o dorri swyddi. Ai dyna mae'r Torïaid am ei weld yn digwydd yng Nghymru?

Alun Cairns: Wrth gwrs nad ydym, ond mae hynny dan y cyfyngiadau presennol. Dyna pam mai agwedd y Ceidwadwyr yw cefnogi ITV drwy ei helpu i gyflawni rhwymedigaethau ei fasnachfaint. Bydd hynny'n golygu sicrhau'r ansawdd y mae arnom ei angen, yn ogystal â'r ddarpariaeth o raglenni newyddion a rhaglenni heblaw newyddion y mae arnom ei hangen, sef yr union beth y mae'n ofynnol i ITV ei wneud yn ôl y gyfraith. Dan y cynnig presennol ar gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol, yr ydych yn sôn am roi £7 miliwn i gwmni a wnaeth £25 miliwn o elw y llynedd, er mwyn darparu rhywbeth y mae'n ofynnol iddo'i ddarparu yn y lle cyntaf, yn ôl y gyfraith. Nid yw hynny'n gwneud dim

synnwyr.

Therefore, as our amendment suggests, it is a matter of deregulating the industry somewhat and deregulating the advertising sector somewhat. There is also a need to look again at the contract rights renewal.

Felly, fel yr awgryma ein gwelliant, mater ydyw o ddadreoleiddio'r diwydiant ryw ychydig a dadreoleiddio'r sector hysbysebu ryw ychydig. Yn ogystal, mae angen ailedrych ar y broses o adnewyddu hawliau contract.

Peter Black *rose*—

Peter Black *a gododd*—

Alun Cairns: I will give way if the Deputy Presiding Officer will give me time.

Alun Cairns: Ildiaf os yw'r Dirprwy Lywydd yn fodlon rhoi amser imi.

The Deputy Presiding Officer: I always give time, but you are already out of time, actually.

Y Dirprwy Lywydd: Byddaf bob amser yn rhoi amser, ond mae eich amser eisoes ar ben, a dweud y gwir.

Alun Cairns: I cannot give way, therefore. However, I hope that I get 'injury time', as it were, for the intervention that I have allowed.

Alun Cairns: Ni allaf ildio, felly. Fodd bynnag, gobeithio y caf 'amser am anafiadau', fel petai, ar gyfer yr ymyriad a dderbyniais.

The Deputy Presiding Officer: You just carry on speaking and I will tell you when your time is up.

Y Dirprwy Lywydd: Parhewch i siarad, a dywedaf wrthyf pan fydd eich amser ar ben.

Alun Cairns: Thank you, Dirprwy Lywydd. I am grateful.

Alun Cairns: Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yr wyf yn ddiolchgar.

There is an opportunity to deregulate the market to provide the opportunity for ITV to increase its income, which would allow it to meet its legal and franchise obligations.

Mae cyfle i ddadreoleiddio'r farchnad er mwyn rhoi cyfle i ITV gynyddu ei incwm, a fyddai'n caniatáu iddo gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol a rhwymedigaethau ei fasnachfrait.

Finally, as I said earlier, the public service broadcaster status that ITV gets offers it huge privileges and benefits. I do not believe for a second that it would move away from its franchise, because that would mean that it would lose the benefit of being channel 3—it would instead become channel 83 or channel 183—and the financial benefits of that are far too great.

Yn olaf, fel y dywedais yn gynharach, mae'r statws darlledwr gwasanaeth cyhoeddus sydd gan ITV yn rhoi breintiau a manteision aruthrol iddo. Ni chredaf am funud y byddai'n troi ei gefn ar ei fasnachfrait, oherwydd byddai hynny'n golygu y byddai'n colli'r fantais o fod yn sianel 3—byddai'n dod yn sianel 83 neu'n sianel 183 yn lle hynny—ac mae manteision ariannol bod yn sianel 3 yn rhy bwysig o lawer.

Kirsty Williams: I am pleased that the Welsh Liberal Democrats have been able to provide Members with an opportunity to debate what I regard to be a very important matter to everyone here as politicians, as well as to the wider nation. We do so at a crucial time, because, as I understand it, the selection panel of the Department for Culture, Media

Kirsty Williams: Yr wyf yn falch bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi medru rhoi cyfle i Aelodau gael dadl ar fater sydd, yn fy marn i, yn un pwysig iawn i bawb sydd yma, fel gwleidyddion, yn ogystal â'r genedl yn gyffredinol. Yr ydym yn cael dadl ar adeg hollbwysig, oherwydd caf ar ddeall fod panel dethol yr Adran dros Ddiwylliant, y

and Sport is meeting today to discuss the bids submitted for the IFNC pilot project. Until I heard Alun Cairns, I had hoped that we could send a clear and powerful collective message from the Chamber this afternoon that the National Assembly for Wales strongly supports the pilot as a way of ensuring and, indeed, strengthening the plurality of news provision in Wales.

The problems of maintaining that plurality have been well rehearsed and documented in various reports in recent years, and by public declarations by the current providers of news on channel 3. While regional news has indeed, Alun, been a core public service obligation since the launch of ITV in 1955, in its report, Ofcom questioned the ability of ITV to meet its public service obligations. In fact, the statements made by that organisation call that into question.

It is a bit late in the day for that organisation, via today's *The Guardian*, to say that it may have changed its mind. It is too important a topic and too important a part of our national culture and democracy to be left to the whim of a company that previously thought that it did not want to or could not do it. Suddenly, today, it has changed its mind.

5.30 p.m.

Alun Cairns: I am grateful to Kirsty Williams for giving way, because this is a really important point. It currently has a legal obligation under its franchise agreement to deliver regional news and national news in the UK. It would not walk away from that, because of its public service broadcaster status. To do so would obviously mean that it would lose the privileges that go with it and it would be like every other anonymous channel.

Kirsty Williams: I refer you to Michael Grade's comments to the National Assembly that it had every intention of walking away

Cyfyngau a Chwaraeon yn cyfarfod heddiw i drafod y cynigion a gyflwynwyd am brosiect peilot y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol. Nes imi glywed Alun Cairns, yr oeddwn wedi gobeithio y gallem anfon neges glir a grymus ar y cyd o'r Siambr y prynhawn yma, sef bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gryf o blaid y prosiect peilot fel modd i sicrhau, ac yn wir, i gryfhau, lluosogrwydd y ddarpariaeth newyddion yng Nghymru.

Mae problemau cynnal y lluosogrwydd hwnnw wedi'u datgan a'u cofnodi droeon mewn amryw adroddiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a thrwy ddatganiadau cyhoeddus gan ddarparwyr cyfredol newyddion ar sianel 3. Er bod newyddion rhanbarthol, yn wir, Alun, wedi bod yn un o'i rwymedigaethau craidd fel gwasanaeth cyhoeddus ers lansio ITV yn 1955, yr oedd Ofcom, yn ei adroddiad, yn amau gallu ITV i gyflawni ei rwymedigaethau fel gwasanaeth cyhoeddus. Mewn gwirionedd, mae'r datganiadau a wnaed gan y sefydliad hwnnw yn codi amheuaeth ynghylch ei allu.

Mae braidd yn hwyr i'r sefydliad hwnnw, yn rhifyn heddiw o *The Guardian*, ddweud ei fod efallai wedi newid ei feddwl. Mae'n bwnc rhy bwysig ac yn rhan rhy bwysig o'n diwylliant cenedlaethol a'n democratiaeth i'w adael ar drugaredd cwmni a gredai o'r blaen nad oedd yn dymuno gwneud hynny neu na allai wneud hynny. Yn sydyn, heddiw, mae wedi newid ei feddwl.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar i Kirsty Williams am ildio, oherwydd mae hwn yn bwynt gwirioneddol bwysig. Ar hyn o bryd, mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol dan gytundeb ei fasnachfaint i ddarparu newyddion rhanbarthol a newyddion cenedlaethol yn y DU. Ni fyddai'n troi ei gefn ar hynny, oherwydd ei statws fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Byddai gwneud hynny'n golygu, wrth gwrs, y byddai'n colli'r breintiau sy'n dod gyda'r statws hwnnw ac y byddai'n debyg i bob sianel anhysbys arall.

Kirsty Williams: Hoffwn eich cyfeirio at sylwadau Michael Grade i'r Cynulliad Cenedlaethol, sef ei fod yn bendant yn

from that public service obligation. Indeed, Ofcom questioned the channel's ability to continue to deliver that. I understand the benefits of its continuing to meet its obligations, but the challenges and costs of continuing to do that in the post-digitalisation world are extremely difficult. I do not underestimate the difficulties that it faces. For us as a nation, however, that leads to the real danger of being left with only the BBC providing Welsh news.

The first question that we must answer is: is that really a problem? My reply to that is that it most certainly is a problem. Surely, in a democracy, a single source of news is anathema, especially as we develop our democratic institutions here and, we hope, as we bring more powers to the Assembly. Plurality will strengthen the public's ability to scrutinise our work, as well as providing a collective place where we as a nation can gather to watch unfold the national events that touch the lives of all. That is hugely important. It is clear from what we have gone through in recent months that the market alone cannot safeguard this provision. The IFNC pilot scheme for cross-media promotion and an online presence represents our best opportunity at this time of securing it.

I have concerns about the input of Welsh voices to those who will decide the successful bid today, but I hope that the Minister will be able to give us some assurance that he has been in close contact with his colleagues in the Department for Culture, Media and Sport about the importance of this project to ensure that Welsh voices have been heard and that he will do all that he can to lobby DCMS to ensure that the contract is signed before the general election. Otherwise, as we have just heard from the Conservatives, we are in danger of losing this proposal altogether. It is really important that it gets signed as quickly as possible.

bwriadu troi ei gefn ar y rhwymedigaeth honno fel gwasanaeth cyhoeddus. Yn wir, cododd Ofcom amheuan ynghylch gallu'r sianel i barhau i gyflawni'r rhwymedigaeth honno. Deallaf y manteision sy'n gysylltiedig â sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau, ond mae'r heriau a'r costau o barhau i wneud hynny ers digidoleiddio hyn eithriadol o anodd. Nid wyf yn bychanu'r anawsterau y mae'n eu hwynebu. I ni fel gwlad, fodd bynnag, mae hynny'n arwain at y perygl gwirioneddol o gael ein gadael gyda'r BBC yn unig yn darparu newyddion am Gymru.

Y cwestiwn cyntaf y mae'n rhaid inni ei ateb yw hwn: a yw sefyllfa o'r fath, mewn gwirionedd, yn broblem? Fy ateb i yw ei bod yn sicr yn broblem. Mewn democratiaeth, siawns nad anathema yw cael un ffynhonnell newyddion, yn enwedig wrth inni ddatblygu ein sefydliadau democrataidd yma, ac wrth inni, gobeithio, ddod â mwy o bwerau i'r Cynulliad. Bydd lluosogrwydd yn cryfhau gallu'r cyhoedd i graffu ar ein gwaith, a bydd hefyd yn darparu man cyffredin lle gallwn ni fel cenedl ymgynnull i dystio i'r digwyddiadau cenedlaethol sy'n effeithio ar fywydau pawb. Mae hynny'n bwysig tu hwnt. Mae'n amlwg, o'r hyn yr ydym wedi'i brofi yn ystod y misoedd diwethaf, na all y farchnad ar ei phen ei hun ddiogelu'r ddarpariaeth dan sylw. Prosiect peilot y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol, i hybu gwaith trawsgyfyngol a phresenoldeb ar-lein, yw ein cyfle gorau i ddiogelu'r ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Yr wyf yn pryderu am yr ystyriaeth a roddir i leisiau o Gymru gan y sawl a fydd yn penderfynu pa gynnis a fydd yn llwyddo heddiw, ond gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi rhywfaint o sicrwydd inni iddo fod mewn cysylltiad agos â'i gydweithwyr yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sôn am bwysigrwydd y prosiect hwn, er mwyn sicrhau bod lleisiau o Gymru wedi eu clywed. A gobeithio y bydd yn gwneud popeth posibl i lobio'r Adran honno er mwyn sicrhau arwyddo'r contract cyn yr etholiad cyffredinol. Fel arall, fel yr ydym newydd glywed gan y Ceidwadwyr, yr ydym mewn perygl o gollu'r cynnis hwn yn gyfan gwbl. Mae'n wirioneddol bwysig ido gael ei arwyddo cyn gynted ag y bo modd.

The status quo is not an option, and while I recognise that there is undoubtedly a role for hyper-local television ventures—despite previously not succeeding in Wales—they cannot replace or replicate a national news function. I believe that the IFNC process is about the future of Welsh journalism, by finding new ways of giving people access to the news that they need. It is not about propping up failing models for old media, but a commitment to the future—our future. Journalism is changing, and Welsh journalism needs to change with it. A new, refreshed evening news programme with a strong online offering will boost competition across the sector, and that can only be good news for the Welsh public.

Alun Davies: At the least we have learned today that not only does Alun Cairns read *The Guardian*, he believes everything that is written in it. That is a good way to end this afternoon's debate.

It is a bit rich of the Conservatives to say that they want to do all that they can to support ITV and to extol the values of the independent sector. Alun, frankly, it was the auction system set up by Thatcher that led to the beginning of the decline of ITV. Read the committee report on broadcasting—you will see that the decline in the number of hours broadcast from Wales on channel 3 dates from that period, and that is because the system that was established failed completely. I will not spend any more time on this Tory amendment, because it is a terrible red herring.

The key issue here is that I have not come to the IFNC solution from a position of support. I was profoundly disappointed, and I feel that my party has made some considerable mistakes in the regulation of broadcasting over the last decade. The introduction of some of the free market ideas that Alun

Nid yw'r sefyllfa sydd ohoni yn ddewis, ac er fy mod yn cydnabod bod lle, heb os, i fentrau teledu lleol iawn—er nad ydynt wedi llwyddo o'r blaen yng Nghymru—ni allant ddisodli neu efelychu darpariaeth newyddion sy'n genedlaethol. Credaf fod a wnelo'r broses consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol â dyfodol newyddiaduraeth yng Nghymru, o ran cael ffyrdd newydd i sicrhau bod modd i bobl gael y ddarpariaeth newyddion y mae arnynt ei hangen. Nid yw hyn yn golygu cynnal modelau aflwyddiannus ar gyfer hen gyfryngau; mae'n golygu ymrwymiad i'r dyfodol—ein dyfodol ni. Mae newyddiaduraeth yn newid, ac mae angen i newyddiaduraeth yng Nghymru newid yn yr un modd. Bydd rhaglen newyddion newydd o gyda'r nos wedi'i hailwampio, gyda darpariaeth gref ar-lein, yn hybu cystadleuaeth ar draws y sector, a rhaid bod hynny'n newyddion da i'r cyhoedd yng Nghymru.

Alun Davies: O leiaf yr ydym wedi dysgu heddiw bod Alun Cairns nid yn unig yn darllen *The Guardian*, ond ei fod hefyd yn credu popeth a ysgrifennir ynddo. Dyna ffordd dda i ddod â'r ddadl y prynhawn yma i ben.

Mae braidd yn rhyfedd clywed y Ceidwadwyr yn dweud eu bod am wneud popeth posibl i gefnogi ITV, a'u clywed yn dyrchafu gwerthoedd y sector annibynnol. A siarad yn blaen, Alun, y system arwerthiant a sefydlwyd gan Thatcher a arweiniodd at ddechrau dirywiad ITV. Darllenwch adroddiad y pwyllgor ar ddarlledu—fe welwch fod y dirywiad yn nifer yr oriau a ddarlledir o Gymru ar sianel 3 yn dyddio o'r cyfnod hwnnw, a'r rheswm am hynny yw bod y system a sefydlwyd wedi methu'n gyfan gwbl. Nid wyf am dreulio rhagor o amser ar y gwelliant hwn gan y Toriaid, oherwydd mae'n enghraifft ofnadwy o godi sgwarnog.

Y mater allweddol yma yw nad wyf yn cefnogi'r ateb ar gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol. Cefais fy siomi'n arw iawn, a theimlaf fod fy mhlaid wedi gwneud rhai camgymeriadau mawr wrth reoleiddio darlledu yn ystod y degawd diwethaf. Yr ydym yn y sefyllfa hon heddiw yn sgil

Cairns has proposed has led to the position that we are in today. News is never neutral; it is essential to the functioning of our democracy. The issues of plurality are fundamental to the way in which we are able to live our lives as informed citizens. I understand and appreciate that the impact of the digital switchover and the internet revolution has changed not only how we access the news, but the nature of that news, and, crucially, the business models that underpin its delivery. However, television retains a central role in our national debates, and that is why I continue to be disappointed that the statutory regulatory environment was not taken sufficiently seriously at the beginning of this decade, when we changed the way in which we regulated television.

Plurality is a key feature of news information dissemination in the creation of platforms for public debate in any democratic society. I said at the beginning of my remarks that this would not be my preferred route. I would have preferred to have seen a stronger regulatory environment that would have enabled ITV to meet its public service obligations. Alun Cairns is wrong on this matter. The numbers on the electronic programme guide are regulated separately to that of public service obligations. Because you walk away from your public service obligations does not mean that you lose your place on the electronic programme guide. S4C has never been on channel 104 on some of the EPGs available to people in Wales, and has suffered as a result. The key issue is whether or not the business model that has sustained ITV in the past is able to do so in the future. The result of the digital switchover and the internet revolution has meant that that business model will become unsustainable in time.

Alun Cairns: I am grateful to you for giving way. However, do you not recognise that there are significant benefits to being a public service broadcaster? How do you square the fact that ITV, which made a profit of £25 million last year and which has legal

cyflwyno rhai o'r syniadau ar farchnad rydd, a gynigiwyd gan Alun Cairns. Nid yw newyddion byth yn niwtral; mae'n hanfodol i'r modd y mae ein democratiaeth yn gweithio. Mae'r materion lluosogrwydd yn sylfaenol i'r modd y gallwn fyw ein bywydau fel dinasyddion gwybodus. Yr wyf yn deall ac yn gwerthfawrogi bod effaith y newid i wasanaethau digidol, a'r chwyldro o ran y rhynggrwyd, wedi newid nid yn unig y modd yr ydym yn cael newyddion, ond natur y newyddion, ac yn bwysig iawn, y modelau busnes sy'n sail i ddarparu newyddion. Fodd bynnag, mae gan deledu rôl ganolog o hyd yn ein dadleuon cenedlaethol, a dyna pam yr wyf yn dal yn siomedig na chafodd yr amgylchedd rheoleiddio statudol ei gymryd o ddifri yn ddigonol ar ddechrau'r degawd hwn, pan newidiwyd y modd yr oeddem yn rheoleiddio teledu.

Mae lluosogrwydd yn nodwedd allweddol o ledaenu gwybodaeth am newyddion wrth greu llwyfannau ar gyfer dadleuon cyhoeddus mewn unrhyw gymdeithas ddemocrataidd. Dywedais ar ddechrau fy sylwadau nad hwn yw'r llwybr y byddwn yn ei ffafrio. Byddai'n well gennyf weld amgylchedd rheoleiddio cryfach a fyddai wedi galluogi ITV i gyflawni ei rwymedigaethau fel gwasanaeth cyhoeddus. Mae Alun Cairns yn anghywir yn hyn o beth. Caiff y rhifau ar y canllaw rhaglenni electronig eu rheoleiddio ar wahân i rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus. Nid yw'r ffaith eich bod yn troi eich cefn ar eich rhwymedigaethau fel gwasanaeth cyhoeddus yn golygu eich bod yn colli eich lle ar y canllaw rhaglenni electronig. Nid yw S4C erioed wedi bod ar sianel 104 ar rai o'r canllawiau rhaglenni electronig sydd ar gael i bobl yng Nghymru, ac mae wedi dioddef o ganlyniad i hynny. Y mater allweddol yw a all y model busnes sydd wedi cynnal ITV yn y gorffennol wneud hynny yn y dyfodol. Mae canlyniad y newid i wasanaethau digidol, a'r chwyldro o ran y rhynggrwyd, wedi golygu na fydd y model busnes hwnnw'n gynaliadwy ymhnen amser.

Alun Cairns: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Fodd bynnag, onid ydych yn cydnabod bod manteision sylweddol yn deillio o fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus? Sut yr ydych yn cyfiawnhau'r ffaith bod ITV, a wnaeth elw o £25 miliwn y llynedd ac sydd â

obligations under the franchise to provide public service broadcasting, is receiving a further £7 million of public money?

Alun Davies: I have said that this would not be my preferred route. However, Alun, you need to appreciate that debates and discussions are taking place between ITV, Ofcom and the Government, and understand that the business model on which ITV was created and which has allowed it to flourish had a lot of public support—the spectrum that it used to establish itself as a business was gifted by the public—but it is broken. In a digital environment, the business model that sustained four channels 20 years ago will not be sustainable. We will reach a point when we are unable to sustain the most expensive form of public service broadcasting, namely regional news, under the current broadcasting models. That means that we need something different. I have said on three occasions that this would not be my preferred route. However, the importance of public service broadcasting and plurality in the provision of news is such that we have to go down this route to ensure that these public service obligations are met, and not by a board that can change its mind tomorrow, next week or next month and withdraw from those obligations with little financial impact and create a different business model; we know that that can happen. The United Kingdom Government has an obligation to step in to ensure that the provision of plurality in news is not lost. That is the most important issue. As I said, the Conservative amendment is a red herring. I hope that we will support the motion proposed by Eleanor Burnham to ensure that the people of Wales continue to be informed and have access to a wide range of news sources, and are able to maintain a debate in a pluralistic society, which is a key issue.

Jenny Randerson: Eleanor drew attention to the decline in the sales of national newspapers, not just in Wales, but in the UK in general. We have the growth of websites, and we are all familiar with newspaper

rhwymedigaethau cyfreithiol dan y fasnachfaint i ddarparu ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn cael £7 miliwn yn rhagor o arian cyhoeddus?

Alun Davies: Yr wyf wedi dweud nad hwn yw'r llwybr y byddwn yn ei ffafrio. Fodd bynnag, Alun, mae angen ichi sylweddoli bod dadleuon a thrafodaethau'n digwydd rhwng ITV, Ofcom a'r Llywodraeth, ac mae angen ichi ddeall bod y model busnes y crëwyd ITV ar ei sail, ac sydd wedi caniatáu iddo ffynnu, wedi cael llawer o gymorth cyhoeddus—cafodd y sbectrwm a ddefnyddiodd i ymsefydlu fel busnes ei roi iddo gan y cyhoedd—ond mae'r model wedi torri. Mewn amgylchedd digidol, ni fydd y model busnes a gynhaliad bedair sianel 20 mlynedd yn ôl yn gynaliadwy. Byddwn yn cyrraedd pwynt pan fyddwn yn methu â chynnal y ffurf ddrutaf ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sef newyddion rhanbarthol, dan y modelau darlledu presennol. Golyga hynny fod arnom angen rhywbeth gwahanol. Yr wyf wedi dweud deirgwaith nad hwn yw'r llwybr y byddwn yn ei ffafrio. Fodd bynnag, cymaint yw pwysigrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus a lluosogrwydd yn y ddarpariaeth newyddion nes bydd yn rhaid inni fynd i'r cyfeiriad hwn i sicrhau cyflawni'r rhwymedigaethau hyn fel gwasanaeth cyhoeddus, ac nid gan fwrdd a all newid ei feddwl yfory, yr wythnos nesaf neu'r mis nesaf, a thynnu'n ôl o'r rhwymedigaethau hynny heb fawr ddim effaith ariannol a chreu model busnes gwahanol; gwyddom y gall hynny ddigwydd. Mae rheidrwydd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymyrryd i sicrhau na cholli'r ddarpariaeth o ran lluosogrwydd mewn newyddion. Dyna'r mater pwysicaf. Fel y dywedais, enghraifft o godi sgwarnog yw gwelliant y Ceidwadwyr. Gobeithio y byddwn yn cefnogi'r cynnig a gyflwynwyd gan Eleanor Burnham er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn dal i gael gwybodaeth a gallu cael ystod eang o ffynonellau newyddion, a sicrhau eu bod yn gallu cael dadl mewn cymdeithas luosogaethol, sy'n allweddol.

Jenny Randerson: Tynnodd Eleanor sylw at y dirywiad yng ngwerthiant papurau newydd cenedlaethol, nid yn unig yng Nghymru ond yn y DU yn gyffredinol. Yr ydym yn gweld gwefannau'n tyfu, ac yr ydym i gyd yn

websites. However, a new generation of websites are opening. Media Wales has opened a 'Your Cardiff' interactive website, and I noticed that *The Guardian* has done exactly the same for Cardiff, and I assume for every other city throughout the UK.

5.40 p.m.

My message is that we have change, and we also have change in our television provision. Although there may be some attraction to the good old days when we sat down and chose from a total of four channels, we will never, in practice, return to those days. We have to embrace change while, at the same time, retaining the best of what we had under the old system, which was undoubtedly good-quality, impartial local news of a high standard in addition to national news. We even had a choice in that—between the BBC and ITV.

The Conservative amendment, amendment 1, dwells on the problems that supposedly exist with IFNCs. They argue that they would only be a short-term solution. It is true that there will be a substantial cost to IFNCs if they are rolled out throughout the United Kingdom, but we cannot tell what that cost will be or whether it will be a success until we have pilot projects. The proposal of three pilot projects, one of which would probably be here, is a good way of ensuring that they can be delivered at the expected cost, which is roughly that of the digital switchover, and whether or not they would have an impact on the BBC licence fee, which is not expected. We want to know what will happen. That is the correct way to go forward. We can judge once we have seen whether or not they produce high-quality news whether they will be worth the investment. It is a major upheaval to the way that public service broadcasting is conducted in Wales, but these pilot projects will be awarded soon and they will be a valuable monitor of the output of the three consortia. I hope that this will enable us to improve public service broadcasting in the future.

gyfarwydd â gwefannau papurau newydd. Fodd bynnag, mae cenhedlaeth newydd o wefannau'n ymddangos. Mae Media Wales wedi agor gwefan ryngweithiol 'Your Cardiff', a sylwais fod *The Guardian* wedi gwneud yr un peth yn union ar gyfer Caerdydd, ac ar gyfer pob dinas arall ledled y DU, mi dybiaf.

Fy neges yw ei bod yn rhaid inni newid, ac rhaid hefyd inni newid ein darpariaeth teledu. Hwyrach fod rhywfaint o apêl yn y dyddiau a fu pan fyddem i gyd yn eistedd o flaen y teledu ac yn dewis o blith cyfanswm o bedair sianel, ond yn ymarferol ni fyddwn byth yn dychwelyd i'r dyddiau hynny. Rhaid inni groesawu newid, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cadw agweddau gorau'r hyn a oedd gennym dan yr hen drefn, a oedd heb os yn newyddion lleol a diduedd o ansawdd a safon uchel yn ychwanegol at y newyddion cenedlaethol. Yr oedd gennym ddewis hyd yn oed o ran hynny—rhwng y BBC ac ITV.

Mae gwelliant y Ceidwadwyr, gwelliant 1, yn rhoi sylw i'r problemau a dybir sy'n gysylltiedig â chonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol. Dadleuant mai ateb tymor byr yn unig fyddai consortia o'r fath. Mae'n wir y bydd cost sylweddol ynghlwm wrth gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol, os cânt eu cyflwyno ledled y Deyrnas Unedig, ond ni allwn ddweud beth fydd y gost honno nac a fydd y syniad yn llwyddiannus nes inni gael prosiectau peilot. Mae cynnig tri phrosiect peilot, ac un ohonynt, fwy na thebyg, yn cael ei gynnal yma, yn ffordd dda i sicrhau y gellir eu darparu am y gost a ddisgwylir, sef cost y newid i wasanaethau digidol, yn fras, ac i weld a fyddent yn effeithio ar ffi trwydded y BBC, er na ddisgwylir hynny. Yr ydym am wybod beth fydd yn digwydd. Dyna'r ffordd iawn i symud ymlaen. Gallwn farnu a ydynt yn werth y buddsoddiad ai peidio pan fyddwn wedi gweld a ydynt yn cynhyrchu newyddion o safon. Mae'n newid aruthrol yn y modd y mae'r maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu yng Nghymru, ond caiff y prosiectau peilot hyn eu rhoi cyn hir, a byddant yn ddull gwerthfawr o fonitro cynnyrch y tri chonsortium. Gobeithio y bydd hynny'n ein galluogi i wella maes

Like the Conservatives, I value the strong, distinctive role that ITV plays in Welsh media. I hope that we can continue to hear that strong, distinctive voice, whatever form it takes. One of the Tory ideas is that deregulation will help to develop a wider range of programming. As has been pointed out in this debate, however, there has been a failure of the market in these crucial areas and I cannot see how deregulation would help. The reason that ITV has problems is that there has been a failure of the market.

There is an argument that the future lies in hyper-local news stations, but although such developments may play a big role in the future, there is a long way to go in testing their quality. There is also a Welsh national story to tell. We may all be interested in what is taking place at the end of our road, in our local shopping centre and in what our local council is doing or not doing, but there is a Welsh national story to tell. As the elected representatives of Wales, we should be concerned that that Welsh national story is told and that the people of Wales know that they are entitled to their free bus passes and are told of every other distinctive initiative that has been introduced here—well ahead of England or in different terms to England. Therefore, I hope that you will support the motion and I urge you to reject the Conservative amendment, amendment 1.

Bethan Jenkins: I thank the Lib Dems for bringing this debate before us today. At this time, we in Wales do not know what sort of media provision we can expect in the future and I do not think that any of us here can tell what the future will look like. However, the UK Government has pressed ahead with the IFNCs pilot schemes, regardless of the Digital Economy Bill. We all know that the deadline for the bids has passed and we expect the pilot schemes to be awarded in May. The Tory plan, as I understand it, would scrap IFNCs and introduce up to 80 local media companies, incorporating

darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Fel y Ceidwadwyr, yr wyf gwerthfawrogi rôl gadarn ac amlwg ITV yn y cyfryngau yng Nghymru. Gobeithio y gallwn barhau i glywed y llais cadarn ac amlwg hwnnw, ym mha bynnag ffurf. Un o syniadau'r Torïaid yw y bydd dadreoleiddio'n helpu datblygu ystod ehangach o raglenni. Fel y nodwyd eisoes yn y ddadl hon, fodd bynnag, mae'r farchnad wedi methu yn y meysydd hollbwysig hyn, ac ni allaf weld sut y byddai dadreoleiddio'n helpu. Mae gan ITV broblemau oherwydd bod y farchnad wedi methu.

Ceir dadl mai gorsafoedd newyddion lleol iawn yw'r dyfodol, ond er y gallai datblygiadau o'r fath chwarae rôl bwysig yn y dyfodol, mae ffordd bell i fynd o ran profi eu hansawdd. Yn ogystal, mae stori genedlaethol Gymreig i'w hadrodd. Efallai fod gan bob un ohonom ddi-ddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ym mhen draw'r stryd yr ydym yn byw ynddi, ac yn ein canolfan siopa leol, a'r hyn y mae ein cyngor lleol yn ei wneud neu'r hyn nad yw'n ei wneud, ond mae stori genedlaethol Gymreig i'w hadrodd. Fel cynrychiolwyr etholedig Cymru, dylai fod yn bwysig inni sicrhau bod y stori genedlaethol Gymreig honno'n cael ei hadrodd, a bod pobl Cymru yn gwybod bod ganddynt hawl i'w tocynnau bws rhad ac am ddim, a'u bod yn cael gwybod am bob menter unigryw arall sydd wedi'i chyflwyno yma—ymhell cyn Lloegr neu dan amodau gwahanol i Loegr. Felly, gobeithio y byddwch yn cefnogi'r cynnig, ac fe'ch anogaf i wrthod gwelliant y Ceidwadwyr, sef gwelliant 1.

Bethan Jenkins: Diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddadl hon ger ein bron heddiw. Ar hyn o bryd, ni wyddom ni yng Nghymru pa fath o ddarpariaeth y gallwn ddisgwyl ei chael yn y dyfodol o ran y cyfryngau, ac ni chredaf y gall neb yma ddweud sut ddyfodol fydd gennym. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen â'r cynlluniau peilot ar gyfer consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol, heb ystyried y Mesur ynghylch yr Economi Ddigidol. Gwyddom i gyd fod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion wedi mynd heibio, a disgwyliwn i'r cynlluniau

televised, online and printed content based on the model of local US television stations. There are practical and economic reasons why LMCs do not work. The first is the spectrum bandwidth available for broadcasting; there simply is not enough to maintain a network of independent broadcasters in Wales. Geographic interleaved spectrum is offered as the answer, but there is not enough of that to cover more than a few parts of Wales. Even according to the most optimistic estimates, perhaps one third of households will be able to receive it, and most of those will not do so in practice, because private investment in very local television will not happen on its own.

The best that we could expect from an unsubsidised route is one or two local stations featuring old, purchased content, because the cost of acquiring the spectrum is as nothing compared to the cost of creating content. Where will this money come from? Without public funding, which the Tories are opposed to, this idea is unlikely to get off the ground. In addition, US broadcasters estimate that the minimum reachable audience required to make a local television network commercially viable is comparable to the population of a city the size of Cardiff. Since our capital has the mostly densely populated area in Wales, this idea is commercially unfeasible for the rest of Wales. Local television has been tested elsewhere in the UK, but the US affiliate model is considered unsuited to the UK, let alone Wales. When the Guardian Media Group sold GMG Regional Media to Trinity Mirror plc last month, its loss-making Greater Manchester television station, Channel M, was excluded from the deal. Today it has been reported that 29 of the 33 jobs there are being cut—in effect, closing the station.

peilot gael eu rhoi ym mis Mai. Caf ar ddeall y byddai'r Torïaid yn dileu consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol ac yn cyflwyno hyd at 80 o gwmnïau cyfryngau lleol a fyddai'n ymgorffori deunydd teledu, deunydd ar-lein a deunydd print ar batrwm gorsafoedd teledu lleol yn yr Unol Daleithiau. Mae rhesymau ymarferol ac economaidd pam nad yw cwmnïau cyfryngau lleol yn gweithio. Y rheswm cyntaf yw lled band y sbectrwm sydd ar gael ar gyfer darlledu; yn syml iawn, nid oes digon ohono i gynnal rhwydwaith o ddarlledwyr annibynnol yng Nghymru. Cynigir mai sbectrwm rhyngddalennog daearyddol yw'r ateb, ond nid oes digon o hwnnw ar gael i wasanaethu mwy nag ychydig rannau o Gymru. Hyd yn oed yn ôl yr amcangyfrifon mwyaf gobeithiol, efallai mai un o bob tair aelwyd a fydd yn gallu ei gael, ac ni fydd mwyafrif y rheini'n gallu ei gael mewn gwirionedd am na fydd buddsoddiad preifat mewn teledu lleol iawn yn digwydd o'i fodd ei hun.

Y ddarpariaeth orau y gallem ei disgwyl gan lwybr nad yw'n cynnig cymorthdaliadau yw un neu ddwy orsaf leol sy'n dangos hen ddeunydd wedi ei brynu, oherwydd nid yw cost caffael y sbectrwm yn ddim o'i chymharu â'r gost o greu deunydd. O ble y daw'r arian hwn? Heb gyllid cyhoeddus, y mae'r Torïaid yn ei wrthwynebu, nid yw'r syniad hwn yn debygol o gael ei weithredu. Yn ogystal, mae darlledwyr yn yr Unol Daleithiau yn amcangyfrif bod y gynulleidfa hygyrch leiaf sy'n ofynnol i sicrhau bod rhwydwaith teledu lleol yn hyfyw'n economaidd yn debyg i boblogaeth dinas o faint Caerdydd. Gan mai yn ein prifddinas y mae'r ardal lle mae'r boblogaeth ddwysaf yng Nghymru, nid yw'r syniad hwn yn ddichonol o safbwynt masnachol ar gyfer gweddill Cymru. Mae teledu lleol wedi'i roi ar brawf mewn manau eraill yn y DU, ond ystyrir bod y model a gysylltir â'r Unol Daleithiau yn anaddas i'r DU, heb sôn am Gymru. Pan gafodd GMG Regional Media ei werthu gan y Guardian Media Group i Trinity Mirror plc fis diwethaf, cafodd ei orsaf deledu ym Manceinion Fwyaf, Channel M, sy'n gwneud colled, ei gadael allan o'r ddêl. Heddiw, adroddwyd y bydd 29 o'r 33 o swyddi sydd yno'n cael eu colli—sy'n golygu cau'r orsaf, i bob pwrpas.

The Tory amendment also suggests that maintaining the status quo might be preferable to IFNCs. That is not possible. The IFNC pilot project is not a new subsidy for providing TV news in Wales. ITV's service has always been subsidised, but, until now, that has been a subsidy in kind, with access to spectrum in exchange for public service obligations. This spectrum subsidy in Wales will go completely on 30 March, when the Wenvoe transmitter completes the switchover. What happens then? Does the programming that it supported just go away, or do we, in effect, replace the in-kind subsidy with real funding?

However, this is all just a discussion of process, not ambitions. What is important is that, with these IFNCs, we have the opportunity to grow a strong, Wales-centric news organisation, delivering content in a modern way that will serve Wales better as it moves towards greater autonomy. With Trinity Mirror plc already closing bigger titles than the *Western Mail*, we cannot rely on media businesses to cover the devolved polity, and nor should we feel comfortable leaving it all to the BBC. This is not about us getting our mugs on the television; it is about decisions that are made every day and every week about public services, the economy and the environment being reported so that people can hold their elected representatives to account properly. More importantly, we will have a referendum on a parliament for Wales and the next Assembly elections to cover. Without the IFNC pilots, what hope do we have of that being successful?

I have spoken with people involved in all three of the Welsh IFNC pilot bids. While what they offer varies, one thing that they share in common is enthusiasm for their

Yn ogystal, awgryma gwelliant y Torïaid y gallai cynnal y sefyllfa sydd ohoni fod yn well na chonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol. Nid yw hynny'n bosibl. Nid yw prosiect peilot y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol yn gymhorthdal newydd i ddarparu newyddion teledu yng Nghymru. Mae gwasanaeth ITV wedi cael cymorth erioed, ond hyd yn hyn nid cymorth ariannol ydoedd, ond cymorth ar ffurf mynediad i sbectrwm yn gyfnewid am gyflawni rhwymedigaethau fel gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y cymorth hwn ar ffurf sbectrwm yng Nghymru yn diflannu'n gyfan gwbl ar 30 Mawrth, pan fydd trosglwyddydd Gwenfô yn dod â'r broses o newid i wasanaethau digidol i ben. Beth fydd yn digwydd wedyn? A fydd y rhaglenni a gâi eu cynnal ganddo'n diflannu, ynteu a fyddwn ni, i bob pwrpas, yn rhoi cyllid go iawn yn lle'r cymorth ar ffurf mynediad i sbectrwm?

Fodd bynnag, trafodaeth am broses yn unig yw hon, nid trafodaeth am uchelgeisiau. Yr hyn sy'n bwysig yw bod gennym gyfle, gyda'r consortia newyddion hyn a gyllidir yn annibynnol, i greu corff newyddion cryf, a fydd yn canolbwyntio ar Gymru ac a fydd yn darparu deunydd mewn modd cyfoes a fydd yn gwasanaethu Cymru yn well wrth iddi symud at fwy o ymreolaeth. Gan fod Trinity Mirror plc eisoes yn cau teitlau sy'n fwy na'r *Western Mail*, ni allwn ddibynnu ar fusnesau yn y cyfryngau i roi sylw i'r llywodraeth ddatganoledig, ac ni ddylem ychwaith deimlo'n gyfforddus ynghylch gadael i'r BBC wneud y gwaith i gyd. Nid oes a wnelo hyn â ni'n ceisio cael ein hwynebau ar y teledu; mae a wnelo â sicrhau bod penderfyniadau a wneir bob dydd a phob wythnos am wasanaethau cyhoeddus, yr economi a'r amgylchedd yn cael sylw, fel y gall pobl ddwyn eu cynrychiolwyr etholedig i gyfrif yn briodol. Yn bwysicach na hynny, bydd angen inni roi sylw i refferendwm ar senedd i Gymru, ac etholiadau nesaf y Cynulliad. Heb brosiectau peilot y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol, pa obaith sydd gennym o wneud hynny'n llwyddiannus?

Yr wyf wedi siarad â phobl sy'n ymwneud â phob un o'r tri chynnig am brosiect peilot y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol ar gyfer Cymru. Er bod yr hyn a gynigiant yn

projects. They see the possibilities for the future, and they should be given the chance to achieve them. There is an appetite for change on both sides of the television screen, and I urge everyone to support this motion today.

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Diolch yn fawr am y cyfle i gyfrannu y prynhawn yma ac i drafod y cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cefnogi prosiect peilot y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol. Mae rhaid i ni groesawu'r cynnig hwn sydd yn cefnogi gweithredoedd Llywodraeth y Cynulliad. Diolchaf i'r Democratiaid Rhyddfrydol am ddod y mater gerbron y Cynulliad ar yr adeg arbennig hon.

Fel yr wyf eisoes wedi nodi wrth ymateb i amrywiol gwestiynau llafar y Cynulliad, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl cefnogol i'r angen i bobl Cymru gael mynediad at sawl gwasanaeth newyddion. I ateb y cwestiwn ar faint o gyswllt sydd wedi bod rhwng fy adran a finnau ac awdurdodau yn San Steffan, yr wyf wedi trafod anghenion Cymru gyda Sion Simon, Ben Bradshaw a'r Adran dros Diwydiant, y Cyfryngau a Chwaraeon er mwyn sicrhau bod y materion a meini prawf sy'n berthnasol i Gymru yn cael ystyriaeth lawn.

5.50 p.m.

Gwnaethom fel Llywodraeth lobio i gael rhywun ar y panel i gynrychioli Cymru, a phenodwyd Glyn Mathias o ganlyniad i hynny. Yr wyf hefyd wedi ysgrifennu at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i fynegi'r pwysigrwydd bod y gwasanaeth newydd yn cael ei ystyried yn un cenedlaethol ac nid yn wasanaeth wedi'i ganoli yng Nghaerdydd. Mae'n ddrwg gennyf nad yw Alun Cairns, fel llefarydd y Torïaid, a'r un a gynigiodd y gwelliant hwn, yn bresennol yn y Siambr i wrando ar y ddadl. Mae hynny, i mi, yn dweud llawer am agwedd y Torïaid.

Mae ITV Cymru wedi datgan nad oes modd iddo gefnogi rhaglenni newyddion rhanbarthol am lawer iawn mwy o amser. Yr ydym yn y sefyllfa hon oherwydd

amrywio, y nodwedd sy'n gyffredin iddynt i gyd yw eu brwdfrydedd dros eu prosiectau. Gwelant y posibiladau ar gyfer y dyfodol, a dylid rhoi cyfle iddynt eu gwireddu. Mae yna awydd i newid ar y naill ochr a'r llall i'r sgrin deledu, ac anogaf bawb i gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): Thank you for the opportunity to contribute this afternoon and to discuss the proposal that the National Assembly for Wales supports the independently funded news consortia pilot project. We must welcome this motion, which supports Assembly Government actions. I thank the Liberal Democrats for bringing this issue before the Assembly at this particular time.

As I have already noted in responding to various oral Assembly questions, the Assembly Government is entirely supportive of the need for the people of Wales to have plurality in news services. To answer the question on how much contact there has been between my department and me and authorities at Westminster, I have discussed the needs of Wales with Sion Simon, Ben Bradshaw and the Department of Culture, Media and Sport in order to ensure the issues and criteria relevant to Wales are considered fully.

We as a Government lobbied for a Welsh representative on the panel, and Glyn Mathias was appointed as a result. I have also written to the Department for Culture, Media and Sport to emphasise the importance of the new service being considered a national services and not a service that is Cardiff centric. I am sorry that Alun Cairns, the Tory spokesperson who proposed this amendment, is not present in the Chamber to listen to the debate. That, to me, says much about the attitude of the Tories.

ITV Wales has stated that it cannot support regional news programming for very much longer. We are in this position because of ITV's statements: ITV has said that the cost

datganiadau ITV: hynny yw, ITV sydd wedi dweud bod y gost yn ormod iddo, ac felly bod yn rhaid chwilio am ddewis arall. Mae'n anhygoel bod y Torïaid yn sylfaenu dadleuon a'r gwelliant ar un erthygl yn *The Guardian* sy'n dweud efallai bod Archie Norman yn newid ei feddwl. Dyna un o'r dadleuon gwannaf yr wyf wedi'i glywed yn y Siambr ers rhai blynnyddoedd. Nid wyf yn gallu credu bod y Torïaid yn fodlon gamblo ar sicrhau gwasanaeth cyflawn i Gymru ar sail yr erthygl hon.

O ran y broses benderfynu, yr wyf wedi cyfarfod â Richard Hooper a rhai o aelodau'r panel dethol i ailadrodd ein pryderon. Mae'r Llywodraeth yn rhagweld y bydd yn cyhoeddi'r cynigiwr a ffafir cyn diwedd mis Mawrth. Wedi hynny, bydd trafodaethau yn digwydd cyn y bydd y cytundeb yn cael ei arwyddo. Fel y nodwyd, mae cyfarfod i drafod y dogfennau tendro terfynol.

The uncertainty about the date of the general election and the Conservative party's publicly-stated opposition to the process and concept of independently funded news consortia in favour of localised regional television and multiplatform services is well documented. As Bethan Jenkins noted, the only example of the latter currently in operation in the UK is Channel M in Manchester, which is losing around £200,000 per month, and which, by all accounts, will be closed down imminently. In any case, that model would not work in Wales, given its topography and demographics. I believe that, in 2009, Cube Interactive Limited won the interleaved spectrum for the Cardiff area, managed by Ofcom, and is a member of one of the consortia. I am not aware of its intention to operate a digital TV station for Cardiff, let alone for Wales.

It is also right to draw attention to the fact that Lord Fowler, the Conservative chair of the Communications Committee in the House of Lords, on 3 March, accepted that funding may be necessary to ensure democratic plurality. It is therefore fair to say that the Tory party is all at sea on this matter. I agree with Alun Davies; this is not my preferred option either, but in the short or medium term, this is the only game in town. Unless

is too great, and that an alternative must therefore be found. It is incredible that the Tories are basing their arguments and the amendments on one article that appeared in *The Guardian*, which says that perhaps Archie Norman is changing his mind. That is one of the weakest arguments that I have heard in the Chamber for some years. I cannot believe that the Tories are willing to gamble on ensuring a comprehensive service for Wales based on this article.

On the decision-making process, I have met with Richard Hooper and some members of the select panel to reiterate our concerns. The Government predicts that it will announce the preferred bidder before the end of March. After that, discussions will take place before the agreement is signed. As previously noted, there is a meeting to discuss the final tender documents.

Mae'r ansicrwydd ynghylch dyddiad yr etholiad cyffredinol, a gwrthwynebiad cyhoeddus y blaid Geidwadol i'r broses a'r cysyniad o gonsortia newyddion a gyllidir yn annibynnol, a'i chefnogaeth i deledu rhanbarthol lleol a gwasanaethau aml-lwyfan, yn wybyddus i bawb. Fel y dywedodd Bethan Jenkins, yr unig enghraifft o orsaf deledu leol sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn y DU yw Channel M ym Manceinion, sy'n colli tua £200,000 y mis, ac a fydd, yn ôl pob sôn, yn cael ei chau'n fuan. Beth bynnag, ni fyddai'r model hwnnw'n gweithio yng Nghymru, o ystyried topograffeg a demograffeg y wlad. Credaf, yn 2009, i Cube Interactive Limited ennill y sbectrw m rhyngddalennog ar gyfer ardal Caerdydd, a reolir gan Ofcom, a chredaf ei fod yn aelod o un o'r consortia. Nid wyf yn ymwybodol o'i fwriad i weithredu gorsaf deledu ddigidol ar gyfer Caerdydd, heb sôn am Gymru.

Mae hefyd yn iawn tynnu sylw at y ffaith fod yr Arglwydd Fowler, cadeirydd Ceidwadol y Pwyllgor Cyfathrebu yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 3 Mawrth wedi derbyn y gallai cyllid fod yn angenrheidiol i sicrhau lluosogrwydd democrataidd. Felly, mae'n deg dweud bod y blaid Doriaidd wedi drysu ar y mater hwn. Cytunaf ag Alun Davies; nid hwn yw'r llwybr yr wyf fi ychwaith yn ei ffafrio, ond yn y tymor byr neu ganolig nid oes dewis

ITV makes a very public u-turn and statement and is willing to make a firm commitment for the future, I do not think that we should gamble on it saving the day. Therefore, with those words, I support fully this proposal by the Liberal Democrats and I implore everyone in the Chamber to support it today.

Peter Black: I welcome the wide range of support from at least three of the parties for this motion, and the Minister's evident support, with regard to independently funded news consortia. As a number of Members have stated, particularly the Minister and Alun Davies, that this is not the ideal route—it is not my choice either—but we are where we are and we must go forward to ensure that we get plurality of provision and choice for people in accessing news and current affairs in Wales. There has been a great deal of talk about the public service broadcasting requirement for ITV, and it is true to say that that requirement is still there. However, I think that we all recognise the weakness of that requirement in the current market, and the fact that not only has ITV been rowing away from it, but we are in a situation in which jobs have been lost and the number of hours of current affairs and news programming have been cut back. ITV has given a very clear signal—through its actions, not its words—that this will not last much longer. That is why we need to act now to ensure that plurality and choice.

The other important point that came out of the debate was the potential for these independently funded news consortia to support the Welsh creative industries. It is evident that the £100 million or so invested in S4C has done a huge job of work in building up the Welsh creative industries through the Welsh language. One recommendation of the Broadcasting Sub-committee related to the fact that this has not happened through the English language, and that would be one way of using public money to boost that, to reinforce the companies that have been established, the Welsh jobs that have been created and the investment that has been made in the creative industries in Wales

arall. Oni bai bod ITV yn newid ei feddwl yn gyhoeddus iawn ac yn gwneud datganiad, ac oni bai ei fod yn barod i ymrwymo'n gadarn i'r dyfodol, ni chredaf y dylem ddibynnu arno i achub y dydd. Felly, gyda hynny yr wyf yn cefnogi'n llawn y cynnig hwn gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ac erfyniaf ar bawb yn y Siambr i'w gefnogi heddiw.

Peter Black: Croesawaf yr ystod eang o gefnogaeth i'r cynnig hwn gan o leiaf tair o'r pleidiau, a chroesawaf gefnogaeth amlwg y Gweinidog yng nghyswllt consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol. Fel y mae llawer o Aelodau wedi datgan, yn enwedig y Gweinidog ac Alun Davies, nid y llwybr hwn yw'r un delfrydol—nid hwn y byddwn innau'n ei ddewis chwaith—ond dyma'r sefyllfa yr ydym ynnddi, a rhaid inni symud ymlaen er mwyn sicrhau ein bod yn cael darpariaeth luosog a dewis i bobl o ran cael mynediad i newyddion a materion cyfoes yng Nghymru. Clywyd cryn sôn am y gofyniad o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer ITV, ac mae'n wir bod y gofyniad hwnnw'n dal i fod. Fodd bynnag, credaf ein bod i gyd yn cydnabod gwendid y gofyniad hwnnw yn y farchnad bresennol, a'r ffaith nad troi ei gefn arno'n unig y mae ITV wedi'i wneud, ond ein bod hefyd mewn sefyllfa'n awr lle mae swyddi wedi'u colli a lle mae nifer yr oriau o raglenni materion cyfoes a newyddion wedi cael eu torri'n ôl. Mae ITV wedi rhoi arwydd clir iawn—drwy ei weithredoedd, nid ei eiriau—na fydd hynny'n para lawer yn hwy. Dyna pam mae angen inni weithredu'n awr i sicrhau lluosogrwydd a dewis.

Y pwynt pwysig arall a ddeilliodd o'r ddadl oedd y potensial i'r consortia newyddion hyn a gyllidir yn annibynnol gefnogi diwydiannau creadigol Cymru. Mae'n amlwg bod y £100 miliwn fwy neu lai a fuddsoddiwyd yn S4C wedi cyfrannu'n aruthrol at adeiladu diwydiannau creadigol Cymru yn y Gymraeg. Yr oedd un o argymhellion yr Is-bwyllgor Darlledu yn ymwneud â'r ffaith nad yw hyn wedi digwydd drwy'r iaith Saesneg, a byddai hynny'n un ffordd o ddefnyddio arian cyhoeddus i hybu'r diwydiannau dan sylw, er mwyn cryfhau'r cwmnïau sydd wedi'u sefydlu, y swyddi Cymreig sydd wedi'u creu a'r buddsoddiad sydd wedi'i wneud yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru drwy'r

through these IFNCs.

My biggest regret in this, which has been reflected in other Members' contributions, is the Conservatives' amendment to the motion. It is quite clear from the contribution of the Conservative spokesperson that they are being driven by Westminster on this issue against the interests of Wales. In two reports that I am aware of, that of the Broadcasting Sub-committee and that of the Culture, Welsh Language and Sport Committee, it was clearly recognised that we need diversity of provision and that public investment may be needed to secure that. As far as I am aware, the Conservative members of those committees supported those reports and backed them. However, now, the Conservative spokesperson says that this is not the case and that that is not the Conservatives' point of view. For me, that is a clear u-turn.

Alun Cairns said that the Conservatives support the plurality and choice that ITV provides, but, as has been pointed out by Alun Davies and others, the business model no longer works. There have been severe cuts in news and current affairs provision by ITV Wales, and further cuts are going to come because we are now in a free market that is not properly regulated. Alun Davies made that point very well indeed. With the move to digital, the previous monopoly that ITV Wales had on independent provision has gone out of the window. It can no longer rely on its advertisers and the money from them to cross-subsidise the same level of news and current affairs provision at regional and national levels. For that reason, we need this investment from the public sector.

Alun Cairns said that using public funds when money is tight is not right, but we must be clear that this public money comes from the licence fee digital dividend, not normal taxation. It is not money that could otherwise be spent on social services, health or education; it is money that is currently being invested in the broadcasting industry. You are absolutely right that the licence fee is

consortia newyddion hyn a gyllidir yn annibynnol.

Fy ngofid mwyaf ynghylch hyn, sydd wedi'i adlewyrchu yng nghyfraniadau Aelodau eraill, yw gwelliant y Ceidwadwyr i'r cynnig. Mae'n eithaf amlwg o gyfraniad llefarydd y Ceidwadwyr eu bod yn cael eu gyrru gan San Steffan ar y mater hwn, yn groes i fuddiannau Cymru. Mewn dau adroddiad y gwn amdanynt, sef adroddiad yr Is-bwyllgor Darlledu ac adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, cydnabuwyd yn glir fod arnom angen darpariaeth amrywiol, ac y gall fod angen buddsoddiad cyhoeddus i sicrhau hynny. Hyd y gwn i, cafodd yr adroddiadau hynny eu cefnogi a'u cymeradwyo gan aelodau Ceidwadol y pwyllgorau hynny. Fodd bynnag, yn awr, dywed llefarydd y Ceidwadwyr nad yw hynny'n wir ac mai nid dyna yw safbwynt y Ceidwadwyr. I mi, mae hynny'n enghraifft glir o'r blaid yn newid ei meddwl.

Dywedodd Alun Cairns fod y Ceidwadwyr o blaid y lluosogrwydd a'r dewis a ddarperir gan ITV, ond fel y nodwyd gan Alun Davies ac eraill nid yw'r model busnes yn gweithio mwyach. Cafwyd toriadau llym gan ITV Cymru yn y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes, ac mae rhagor o doriadau yn yr arfaeth, oherwydd yr ydym bellach mewn marchnad rydd na chaiff ei rheoleiddio'n gywir. Gwnaeth Alun Davies y pwynt hwnnw'n wirioneddol dda. Yn sgil y newid i wasanaethau digidol, mae'r monopoli blaenorol a oedd gan ITV Cymru yng nghyswllt darpariaeth annibynnol wedi diflannu. Bellach, ni all ddibynnu ar ei hysbysebwyd a'r arian a ddaw oddi wrthynt i gynnal, drwy gymorthdaliadau, yr un lefel o ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Am y rheswm hwnnw, mae arnom angen y buddsoddiad hwn gan y sector cyhoeddus.

Dywedodd Alun Cairns nad yw'n iawn defnyddio cyllid cyhoeddus pan fo arian yn dynn, ond rhaid inni ddeall bod yr arian cyhoeddus hwn yn dod o ddifidend digidol ffi'r drwydded, nid o drethiant arferol. Nid yw'n arian y gellid ei wario fel arall ar wasanaethau cymdeithasol, iechyd neu addysg; mae'n arian a fuddsoddir ar hyn o bryd yn y diwydiant darlledu. Yr ydych yn

attached, but the money is there already and is already being paid out. I suppose that the alternative is to cut the licence fee and have less provision, but that would have a huge impact on our broadcasting industry. The discussion about the licence fee is for another debate that we may want to have at some other time.

Alun also referred to the Archie Norman article in *The Guardian*, which the Minister also mentioned. It is my view—and I do not think that there is any contrary evidence to this—that that article by Archie Norman, the new chairman of ITV, was put in as a spoiler. He knows that there is a general election coming, and he knows that the Conservatives are committed to abandoning these pilot schemes. Therefore, he feels that if he can throw some mud at the whole issue the Government might back down, and he hopes that there will be a new Government that will take a different approach, leaving him in a better position. That is my view of that article, and I see no evidence from ITV's actions that what Archie Norman has said is backed up by what ITV believes. It has not put any more money into regional news. As a result of that article, Archie Norman has made no commitment to reverse the cuts that he has already made. Therefore, the interpretation of that as a spoiler is a reasonable one.

6.00 p.m.

Ofcom has accepted that ITV cannot meet its franchise obligations, and it has said that it is helpless to do anything about it, hence the need for the independently funded news consortia. In a digital age, ITV can afford to walk away from its public service obligations. Michael Grade came to the Broadcasting Committee and said as much to us. Again, I have heard nothing from ITV or from Archie Norman to contradict the view being put forward by Michael Grade. The truth is that the Conservatives are not supporting this proposal because they want a licence fee—digital dividend moneys—with which this is being paid for other projects. That is regrettable, but clearly, that is the

llygad eich lle wrth ddweud bod ffi'r drwydded ynghlwm, ond mae'r arian yno'n barod, ac mae'n cael ei dalu allan yn barod. Tybiaf mai'r dewis arall yw torri ffi'r drwydded a chael llai o ddarpariaeth, ond câi hynny effaith aruthrol ar ein diwydiant darlledu. Bydd angen gadael trafodaeth ynghylch ffi'r drwydded tan ryw ddadl arall y byddwn efallai am ei chael rywbryd eto.

Cyfeiriodd Alun hefyd at erthygl Archie Norman yn *The Guardian*, a chyfeiriodd y Gweinidog hefyd ati. Yn fy marn i—ac ni chredaf fod dim tystiolaeth i wrthddweud fy marn—cafodd yr erthygl honno gan Archie Norman, cadeirydd newydd ITV, ei chynnwys fel ymgais i arafu'r broses. Gŵyr fod etholiad cyffredinol ar ddod, a gŵyr fod y Ceidwadwyr wedi ymrwymo i ddileu'r cynlluniau peilot hyn. Felly, o daflu ychydig faw at yr holl fater mae'n teimlo y gallai'r Llywodraeth ildio, ac mae'n gobeithio y bydd Llywodraeth newydd yn ymddangos a fydd yn mabwysiadu agwedd wahanol gan ei adael yntau mewn sefyllfa well. Dyna fy marn i am yr erthygl honno, ac ni welaf ddim tystiolaeth yng ngweithredoedd ITV i ddangos bod yr hyn a ddywedodd Archie Norman yn cael ei ategu gan yr hyn a gred ITV. Nid yw wedi rhoi mwy o arian i newyddion rhanbarthol. O ganlyniad i'r erthygl honno, nid yw Archie Norman wedi ymrwymo o gwbl i ddadwneud y toriadau y mae eisoes wedi'u gwneud. Felly, mae'r dehongliad bod yr erthygl yn ymgais i arafu'r broses yn ddehongliad rhesymol.

Mae Ofcom wedi derbyn na all ITV gyflawni rhwymedigaethau ei fasnachfaint, ac mae wedi dweud na all wneud dim ynghylch hynny. Dyna pam, felly, mae angen y consortia newyddion a gyllidir yn annibynnol. Mewn oes ddigidol, gall ITV fforddio troi ei gefn ar ei rwymedigaethau fel gwasanaeth cyhoeddus. Daeth Michael Grade i'r Is-bwyllgor Darlledu a dweud hynny wrthym, fwy neu lai. Unwaith eto, nid wyf wedi clywed dim gan ITV nac Archie Norman i wrthddweud y farn a fynegwyd gan Michael Grade. Y gwir amdani yw nad yw'r Ceidwadwyr yn cefnogi'r cynnig hwn oherwydd eu bod am gael ffi'r drwydded—arian y difidend digidol—sy'n talu am hyn, ar

truth in my view. They want to spend this money elsewhere rather than on making sure that we have plurality.

We cannot have a single voice speaking on our behalf in the broadcasting media. We must have plurality to offer choice and different views. Regional news and current affairs programmes give us up-to-date news; they scrutinise the political process; they provide scrutiny and reporting on social matters, such as homelessness, pollution and so forth; and they provide input into UK news and current affairs with content reflecting what is happening in Wales, as well as interpreting UK events in a Welsh context. The BBC is doing an outstanding job in providing that, but it cannot be the only voice in doing that because we will have only one angle and one view when we need to have a number of views if we are to have proper scrutiny. For that reason, I hope that the Assembly will support this motion.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? I see that there is objection. Therefore, the votes will be deferred until voting time.

Does anyone wish to have the bell rung? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

gyfer prosiectau eraill. Mae hynny'n anffodus, ond mae'n amlwg, yn fy marn i, mai dyna'r gwirionedd. Maent am wario'r arian hwn mewn mannau eraill yn hytrach nag ar sicrhau bod gennym luosogrwydd.

Ni allwn gael un llais ar ei ben ei hun yn siarad ar ein rhan yn y cyfryngau darlledu. Rhaid inni gael lluosogrwydd i gynnig dewis a safbwyntiau gwahanol. Mae rhaglenni newyddion a materion cyfoes rhanbarthol yn rhoi'r newyddion diweddaraf inni; maent yn craffu ar y broses wleidyddol; maent yn craffu ac yn adrodd ar faterion cymdeithasol, megis digartrefedd, llygredd ac yn y blaen; ac maent yn cyfrannu i raglenni newyddion a materion cyfoes y DU, gyda'r deunydd yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru ac yn dehongli'r hyn sy'n digwydd yn y DU mewn cyd-destun Cymreig. Mae'r BBC yn gwneud gwaith rhagorol o ran darparu hynny, ond ni all wneud hynny ar ei ben ei hun, oherwydd bydd yn golygu mai un agwedd ac un farn yn unig a fydd gennym pan fydd arnom angen sawl barn os ydym am graffu'n iawn ar faterion. Am y rheswm hwnnw, gobeithio y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r cynnig hwn.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn heb ei wella. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriwn y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

A oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4442: O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 9.
Motion NDM4442: For 40, Abstain 0, Against 9.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David

Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Atebolrwydd ac Anifeiliaid: Ysgwyddo Baich Erlyniadau Lles Anifeiliaid Duty and the Beast: Bearing the Burden of Animal Welfare Prosecutions

Brynle Williams: Britain is a country that prides itself on the way that it treats its animals, whether as family pets or for sport or agriculture. Quite rightly, as a society, we have little tolerance for those who neglect animals or treat them with cruelty. On enforcing these high standards, Wales has the powers, through the Animal Welfare Act 2006, to prosecute those who commit an offence. It is also fair to say that there is an expectation among members of the public that these powers are used when it is necessary. However, in practice, this has not always been the case because enforcement, regrettably, comes at a price.

Brynle Williams: Mae Prydain yn wlad sy'n ymfalchïo yn y modd y mae'n trin ei hanifeiliaid, boed yn anifeiliaid anwes i'r teulu neu'n anifeiliaid ar gyfer chwaraeon neu amaethyddiaeth. Fel cymdeithas, nid ydym yn oddefgar iawn o'r rheini sy'n esgeuluso anifeiliaid neu sy'n greulon wrthynt, ac mae hynny'n gwbl iawn. O ran gorfodi'r safonau uchel hyn, mae gan Gymru y pwerau, trwy Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, i erlyn y rheini sy'n troseddu. Teg dweud hefyd bod y cyhoedd yn disgwyl i'r pwerau hynny gael eu defnyddio lle bo angen. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid felly y bu bob amser oherwydd, yn anffodus, mae camau gorfodi'n costio arian.

In the last two years, there have been two high-profile prosecutions involving equines by Denbighshire and Wrexham councils. While they may have been successful in gaining convictions for appalling instances of neglect, those cases were won at considerable cost. The bill for both of these prosecutions was well in excess of £150,000 apiece. There are provisions to recover costs, but given that these large cases of neglect often arise because the owner has simply run out of money to feed and house the animals, there have obviously been constraints on how successful this approach has been.

However, the most worrying legacy of these high profile cases has been the example that they have set to other authorities. I know that in north Wales alone, from speaking with council employees and trading standards officials, that having looked at the costs involved, other local authorities have decided not to take on these cases. Under the current arrangements, they have no obligation to do so. There is no duty to enforce the Animal Welfare Act—it is optional. I appreciate most certainly that it is not fair to burden taxpayers with the bill for these prosecutions. I believe that if anyone should foot the bill for cases like these, it should be the offender. However, I am deeply worried that the precedent set by these high-profile cases, and councils' great reluctance to deal with new ones, will mean that more large-scale welfare cases will be ignored until it is too late for the animals involved.

Unfortunately, these cases have tended to follow an all-too-familiar pattern where the owner runs out of money and cannot pay for feed or vets' bills, and their animals begin to deteriorate. I do not know why, but for some obscure reason, people are reluctant to sell animals when they see themselves getting into a difficult financial position or a position in which they cannot care for their animals. The next thing to happen is that concerns are raised with the authorities, and despite knowing full well that the owner has no hope of paying their bills, they are given time to turn the situation around. However, the

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, cafwyd dau erlyniad amlwg iawn yn ymwneud â cheffylau gan gynghorau Sir Ddinbych a Wrecsam. Er iddynt lwyddo i gael euogfarnau ar gyfer enghreifftiau ofnadwy o esgeulustod, yr oedd cost sylweddol ynghlwm wrth ennill yr achosion hynny. Yr oedd y bil am y ddau erlyniad ymhell dros £150,000 yr un. Mae yna ddarpariaethau ar gyfer adennill costau, ond o gofio bod yr achosion mawr hyn o esgeulustod yn aml yn codi am nad oes gan y perchennog, yn syml iawn, ragor o arian i roi bwyd a chysgod i'r anifeiliaid, mae'n amlwg mai cyfyngedig fu llwyddiant y dull gweithredu hwn.

Fodd bynnag, yr hyn sydd wedi peri'r gofid mwyaf yn dilyn yr achosion amlwg dan sylw yw'r esiampl y maent wedi'i gosod i awdurdodau eraill. Gwn yn y gogledd yn unig, o siarad â staff cynghorau a swyddogion safonau masnach, fod awdurdodau lleol eraill wedi penderfynu peidio â dwyn achosion tebyg, ar ôl edrych ar y costau sydd ynghlwm wrthynt. Dan y trefniadau presennol, nid oes rheidrwydd arnynt i wneud hynny. Nid oes dyletswydd i orfodi'r Ddeddf Lles Anifeiliaid—rhywbeth dewisol ydyw. Wrth gwrs, yr wyf yn sylweddoli nad yw'n deg rhoi'r baich i dalu am yr erlyniadau hyn ar drethdalwyr. Credaf mai'r troseddwr ddylai dalu'r bil am achosion tebyg i'r rhain, os oes yn rhaid i rywun dalu. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu'n fawr y bydd y cynsail y mae'r achosion amlwg hyn wedi'i osod, ac amharodrwydd mawr cynghorau i ymdrin ag achosion newydd, yn golygu y caiff mwy o achosion lles ar raddfa fawr eu hanwybyddu, ac y bydd wedyn yn rhy hwyr i'r anifeiliaid dan sylw.

Yn anffodus, mae'r achosion hyn wedi tueddu i ddilyn patrwm rhy gyfarwydd o lawer, lle bydd arian y perchennog yn dod i ben, ac yntau'n methu â thalu am fwyd i'w anifeiliaid neu dalu biliau'r milfeddyg, a lle bydd cyflwr ei anifeiliaid yn dechrau dirywio. Wn i ddim pam, ond am ryw reswm dyrys mae pobl yn gyndyn o werthu eu hanifeiliaid pan welant eu bod yn mynd i sefyllfa ariannol anodd neu sefyllfa lle na allant ofalu amdanynt. Mynegir pryderon wrth yr awdurdodau wedyn, ac er eu bod yn gwybod yn iawn nad oes gan y perchennog obaith o dalu ei filiau, rhoddir amser iddo

owner still has no money to look after the animals and the authorities desperately want to avoid the cost of going to court. So, while both sides are hoping that the problem will simply resolve itself, weeks pass and the animals are left to decline even further. Both parties end up being more concerned with money than with the welfare of the animals.

I am not blaming individual officers, but the current arrangements seem to encourage bodies to pass the buck in the hope that someone else will take responsibility. I have pursued one of these cases for 12 months to get a conclusion. The Minister will be aware of a current case where animals are being left in a dreadful state, when it was obvious eight weeks ago what would happen, and yet officials are left arguing over who should take responsibility for going to court for a seizure order. This is not how it should be in a nation that prides itself on the way that it treats animals. There is an urgent need for a better mechanism for dealing with these cases, which, I am sad to say, are becoming all too frequent.

Local authorities have not been given any resources to fund prosecutions and the trading standards officials with whom I have spoken tell me that they cannot afford to take them on either. I believe that one way the public interest could be better served would be through a commonsense approach, where action is taken early, and officers are supported in doing so. Once it has been established beyond doubt that an owner has no practical means of improving the animals' welfare, officials should seize the animals when they are still in a saleable condition or a reasonably healthy condition. I emphasise again here that I am speaking of cases involving many large animals. This way, the animals are saved from further inevitable cruelty, and the taxpayer is not left footing the bill for the animals' upkeep or paying for them to be fed and housed for weeks on end, when they may end up being regrettably returned to their abuser, only to be neglected again, possibly the following winter.

wella'r sefyllfa. Fodd bynnag, ni fydd gan y perchennog ddim arian o hyd i ofalu am yr anifeiliaid, a bydd yr awdurdodau'n awyddus iawn i osgoi'r gost o fynd i'r llys. Felly, gyda'r ddwy ochr yn gobeithio y bydd y broblem yn ei datrys ei hun, bydd wythnosau'n mynd heibio a chyflwr yr anifeiliaid yn dirywio ymhellach fyth. Yn y diwedd, bydd arian yn dod yn bwysicach i'r ddwy ochr na lles yr anifeiliaid.

Nid wyf yn gweld bai ar swyddogion unigol, ond ymddengys fod y trefniadau presennol yn annog cyrff i osgoi ysgwyddo'r baich, yn y gobaith y bydd rhywun arall yn cymryd cyfrifoldeb. Yr wyf wedi dilyn un o'r achosion hyn am 12 mis i gael gweld beth fydd ei ben draw. Bydd y Gweinidog yn gwybod am achos cyfredol lle caiff anifeiliaid eu gadael mewn cyflwr ofnadwy, pan oedd yn amlwg beth fyddai'n digwydd wyth wythnos yn ôl, ac eto mae swyddogion mewn sefyllfa lle maent yn dadlau ynghylch pwy ddylai gymryd cyfrifoldeb am fynd i'r llys i gael gorchymyn atafael. Nid felly y dylai fod mewn gwlad sy'n ymfalchïo yn y modd y mae'n trin anifeiliaid. Mae taer angen am ddull gwell o ymdrin â'r achosion hyn sydd, mae'n chwith gennyf ddweud, yn dod yn rhy gyffredin o lawer.

Nid yw awdurdodau lleol wedi cael dim adnoddau i dalu am erlyniadau, ac mae'r swyddogion safonau masnach yr wyf wedi siarad â hwy yn dweud wrthyf na allant hwythau fforddio erlyn y bobl hyn chwaith. Credaf mai un ffordd o wasanaethu budd y cyhoedd yn well fyddai gweithredu ar sail synnwyr cyffredin, lle caiff camau eu cymryd yn gynnar, a lle caiff swyddogion gefnogaeth i wneud hynny. Ar ôl cadarnhau y tu hwnt i bob amheuaeth nad oes gan berchennog fodd ymarferol i wella lles yr anifeiliaid, dylai swyddogion gymryd yr anifeiliaid tra byddant mewn cyflwr digon da i'w gwerthu, neu gyflwr cymharol iach. Pwysleisiaf yma eto mai sôn yr wyf am achosion sy'n ymwneud â llawer o anifeiliaid mawr. O wneud hynny, byddai modd arbed yr anifeiliaid rhag mwy o greulondeb anochel, ac ni fyddai'n rhaid i'r trethdalwr dalu'r bil am gadw'r anifeiliaid neu dalu am ddarparu bwyd a chysgod iddynt am wythnosau bwygilydd, pan allent, yn anffodus, gael eu rhoi'n ôl yn y pen draw i'r un a fu'n eu cam-

drin, ac wynebu cael eu hesgeuluso eto y gaeaf wedyn efallai.

I hope that the Minister will give this issue careful consideration; in fact, I believe that the Minister will give this careful consideration because the current system is not working. If there is to be no duty for enforcement on the part of local authorities, there must be practical arrangements in place to protect the animals. As things are, I am deeply concerned that the importance of the health and welfare of animals is being lost in the arguments over the cost and responsibilities for prosecuting offenders.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Diolch, Brynle, am alw'r ddadl hon ar les anifeiliaid y prynhawn yma. Yr wyf yn siŵr bod Brynle yn deall nad yw'n bosibl i mi drafod achosion yr ymchwilir iddynt ar hyn o bryd.

6.10 p.m.

Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i sicrhau bod safonau lles sylfaenol anifeiliaid yn cael eu cynnal, ac yr wyf yn falch fy mod i, fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig, wedi gallu cyflwyno nifer o fesurau ymarferol i wella lles anifeiliaid. Wrth gwrs, rhaid i'r mesurau hyn, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth, fod yn addas ac yn gymesur.

Daeth Deddf Lles Anifeiliaid 2006 i rym ar 27 Mawrth 2007. Ymhlith pethau eraill, rhoddodd ddyletswydd ar berchnogion anifeiliaid i ofalu am eu hanifeiliaid a rhoddodd yr hawl i awdurdodau lleol gyflwyno rhybuddion gwella i bobl sy'n torri safonau lles anifeiliaid. Yn ogystal, rhoddodd yr hawl i awdurdodau symud anifeiliaid pe byddent yn dioddef o aros lle y maent.

Rhoddodd y Ddeddf bwerau newydd i Lywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo lles anifeiliaid drwy greu a diwygio systemau trwyddedu a thrwy lunio codau ymarfer. Er hyn oll, fel y dywedodd Brynle, nid oes gorfodaeth ar awdurdodau lleol i orfodi amodau'r Ddeddf. Mae rhai yn ystyried hynny'n ddiffyg.

Mae Adran 30 y Ddeddf yn dweud yn glir,

Gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y mater hwn yn ofalus; a dweud y gwir, credaf y bydd y Gweinidog yn ystyried y mater hwn yn ofalus, oherwydd nid yw'r system bresennol yn gweithio. Os nad yw'n fwriad gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi, rhaid cael trefniadau ymarferol i amddiffyn yr anifeiliaid. Gyda phethau fel y maent, yr wyf yn pryderu'n fawr fod pwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid yn mynd ar goll yn y dadleuon am faint mae erlyn troseddwy'r yn ei gostio, a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): Thank you, Brynle, for calling this debate on animal welfare this afternoon. I am sure that Brynle understands that I cannot comment on cases that are currently under investigation.

However, every one of us has a responsibility to ensure that basic animal welfare standards are maintained, and I am pleased that I, as Minister for Rural Affairs, have been able to introduce a number of practical measures to improve animal welfare. Of course, these measures, together with any legislation, must be appropriate and proportionate.

The Animal Welfare Act 2006 came into force on 27 March 2007. Among other things, it placed a duty on animal owners to care for their animals and gave local authorities the right to serve improvement notices on those who breach animal welfare standards. It also gave the right for authorities to remove animals if they would suffer should they remain where they were.

The Act gave the Assembly Government new powers to promote animal welfare by putting in place and amending licensing systems and introducing codes of practice. Despite that, as Brynle said, the Act did not require local authorities to compulsorily enforce its provisions and some consider this to be a failing.

Section 30 of the Act is clear that a local

o'i chyfieithu, y caiff awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn rhywun sydd wedi troseddu o dan y Ddeddf hon. Mae'r gair 'caiff' yn bwysig iawn gan ei fod yn rhoi peth disgresiwn i'r awdurdod lleol o ran erlyn neu beidio ag erlyn. Er enghraifft, yn lle erlyn, gallai rhybudd gwella o dan adran 10 y Ddeddf fod yn syniad gwell mewn ambell sefyllfa.

Daeth y Ddeddf i rym ar y ddealltwriaeth na fyddai cost iddi. Mae awdurdodau lleol wastad wedi dwyn achosion ynghylch lles anifeiliaid anwes, ac yn wir lles anifeiliaid fferm, drwy Ddeddf Diogelu Anifeiliaid 1911. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol hefyd am sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn iddynt allu erlyn o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Yr wyf wedi ceisio defnyddio'r pwerau newydd o dan y Ddeddf i wella lles pob anifail yng Nghymru. Yr wyf wedi canolbwyntio ar atal yn hytrach nag erlyn, a hynny drwy hyrwyddo arfer da.

O safbwynt y sector anifeiliaid fferm, mae deddfwriaeth Ewropeaidd wedi bodoli ers blyneddoddedd sy'n gorfodi awdurdodau lleol i weithredu os oes problem yn dod i'w sylw. Yng Nghymru, mae ffermwyr yn sylweddoli bod cynnal safonau da o ran iechyd a lles eu hanifeiliaid yn dda i fusnes. Dyna pam mae nifer o ffermwyr wedi ymuno'n wirfoddol â chynllun *Freedom Food* y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, er enghraifft.

Mae'r sefyllfa o ran anifeiliaid anwes, ar y llaw arall, yn wahanol. Yn sgîl cyflwyno'r Ddeddf Lles Anifeiliaid, mae fy swyddogion, wrth drafod â swyddogion awdurdodau lleol a mudiadau lles, wedi dod ar draws nifer o feysydd sy'n peri gofid. Yn eu plith yr oedd diffyg gwybodaeth am fusnesau sy'n delio ag anifeiliaid anwes, yr angen i wella'r berthynas â'r trydydd sector a hyfforddi staff awdurdodau lleol mewn maes arbenigol.

Yn arbennig, gwelwyd bod diffyg gwybodaeth dda i addysgu'r cyhoedd am les anifeiliaid, a phenderfynwyd y dylai llunio codau ymarfer effeithiol fod yn elfen

authority in England or Wales may bring forward a prosecution for any offence under this Act. The word 'may' is important because it gives the local authority some discretion on whether to prosecute. For example, instead of proceeding with a prosecution, the use of an improvement notice under section 10 of the Act could be more effective in some circumstances.

The Act was enforced on the basis that it would not incur costs. Local authorities have always taken forward prosecutions on pet animal welfare and, indeed, on the welfare of farm animals through the Protection of Animals Act 1911. Local authorities are also responsible for ensuring that appropriate provision is made to take forward any prosecutions under the Animal Welfare Act 2006.

I have sought to use the new powers under the Act to improve the welfare of all animals in Wales. My focus has been on prevention rather than prosecution, through promoting good practice.

On the farm animal sector, European legislation has been in place for many years that compels local authorities to act if issues are brought to their attention. In Wales, farmers recognise that good animal health and welfare standards are good for business. That is why many farmers have voluntarily joined the *Freedom Food* scheme of the Royal Society of the Prevention of Cruelty to Animals.

The situation with pet animals, on the other hand, is different. Following the introduction of the Animal Welfare Act, my officials, in discussions with their counterparts in local authorities and welfare organisations, identified a number of matters of concern. These included lack of information on businesses dealing with pet animals, the need to improve the working relationship with the third sector, and the training of local authority staff in specialised areas.

In particular, we identified a lack of good information for educating the public on the welfare of animals, and we decided that introducing effective codes of practice should

allweddol i wella'u dealltwriaeth o les anifeiliaid anwes. Y gobaith oedd y byddai hynny, ymhen amser, yn arwain at lai o waith gorfodi ac erlyn.

Lansiais y cynllun gwella lles anifeiliaid anwes, a elwir yn CAWES, yn 2008 yn unswydd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Y nod yn y tymor hir yw cael mwy o bobl i ddeall beth yw lles anifeiliaid, fel bod llai o erlyniadau, thrwy hynny, bod y baich y maent yn ei roi ar bawb yn lleihau.

Yn 2008-09 a 2009-10, neilltuais tua £700,000 i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn sefydlu fforymau i ymchwilio i faint o fusnesau anifeiliaid anwes sydd ym mhob awdurdod, ac er mwyn iddynt gydweithio i hyrwyddo addysg am les anifeiliaid. Mae'n dda gennyf ddweud bod 21 o'r 22 awdurdod wedi cytuno i gymryd rhan. Neilltuais hefyd £200,000 y byddai awdurdodau lleol yn gallu gwneud cais amdano i gynnal prosiectau arbennig. Gwelsom ganlyniadau'r rhaglen gyntaf honno mewn cynhadledd ar les anifeiliaid ym mis Tachwedd 2009. Yn ogystal â gwaith y fforymau, mae deunydd addysgol a chyhoeddusrwydd hefyd wedi'u cynhyrchu. Bydd cynllun tebyg yn cael ei gynnal yn 2010-11.

Cyhoeddais hefyd gyfres o godau ymarfer da am gŵn, cathod, ceffylau a chwingod. O gofio bod yr economi geffylau yn werth tua £300 miliwn yng Nghymru, bod dros hanner miliwn o gŵn a chathod yma, a bod cwingod, yn ôl milfeddygon, yn dioddef yn fawr oherwydd problemau lles, mae'r codau hyn yn ffordd gost-effeithiol o hyrwyddo lles anifeiliaid. Maent wedi cael croeso mawr ledled Cymru ac maent wedi helpu pobl i ddeall yn well sut i ofalu am anifeiliaid. Mae'n bleser cael dweud y cafodd y codau hyn eu cyflwyno yng Nghymru ymhell cyn eu cyflwyno yn Lloegr a'r Alban. Yr wyf wedi synhwyro rhywfaint o sinigiaeth ynghylch y cod ymarfer da ar gyfer lles y gwningen, ond, yn ddiweddar, defnyddiwyd y cod ymarfer hwn gan yr RSPCA mewn erlyniad llwyddiannus yn ymwneud â lles gwningen.

Yn y sector ffermio, byddwn yn cyhoeddi fersiynau newydd o'r codau ymarfer ar gyfer

be a key element in promoting better understanding of pet animal welfare. It is hoped that this will lead to less enforcement and prosecution in due course.

I launched the companion animal welfare enhancement scheme, or CAWES as it is known, in 2008 with the specific aim of addressing these issues. The long-term aim is to ensure that more people understand animal welfare, which would lead to fewer prosecutions and reduce the burden which they place on all concerned.

In both 2008-09 and 2009-10 I allocated approximately £700,000 to local authorities in Wales to establish fora to investigate how many pet animal businesses exist in each authority, and to collaborate to promote animal welfare education. I am pleased that 21 of the 22 authorities have agreed to participate. I also allocated £200,000 that local authorities would be able to bid for to undertake specific projects. We saw the results of that initial programme at an animal welfare conference in November 2009. In addition to the work of the forums, educational and publicity materials have also been produced. A similar scheme will be run in 2010-11.

I have also produced codes of practice on dogs, cats, equines and rabbits. Bearing in mind that the equine economy is worth over £300 million, that there are over half a million cats and dogs in Wales, and that rabbits, according to vets, suffer the most welfare problems, these codes are a cost effective way of promoting animal welfare. These codes have been well received across Wales and have helped to raise understanding around keeping these animals. I am pleased that all these codes were introduced long before codes of practice were introduced in England and Scotland. I have sensed an element of cynicism regarding the code of practice on the welfare of rabbits, but, recently, this code was used by the RSPCA in a successful prosecution relating to the welfare of a rabbit.

In the farm sector, we will shortly be producing revised codes of practice for sheep

defaid a gwartheg, ac yr ydym wrthi'n ymgynghori ar god lles ar gyfer adar hela. Mae llawer o fudiadau wedi canmol Cymru am lansio rhaglen CAWES gan ei bod yn cael effaith go iawn ar agweddau pobl tuag at les anifeiliaid ac am fod cydweithio'n rhan ganolog o'r broses.

Yn y gynhadledd y cyfeiriais ato'n gynharach ar les anifeiliaid fis Tachwedd diwethaf gyda'r trydydd sector ac awdurdodau lleol, cyhoeddais y byddai grŵp gorchwyl a gorffen ar fagu cŵn i wneud argymhellion yn y maes yn cael ei sefydlu. Y rheswm pennaf dros ei sefydlu oedd bod yr arian a roddwyd i awdurdodau lleol yn y gorllewin drwy CAWES wedi esgor ar dystiolaeth bod angen newid pethau. Bydd y grŵp yn cyhoeddi'i argymhellion i mi ym mis Mehefin. Ymhlith pethau eraill, bydd yn argymhell rhai microsglodion fel rhan o newidiadau posibl i'r Ddeddf magu cŵn. Fel rhan o'r strategaeth i wella lles anifeiliaid, cyflwynais ddeddfwriaeth i wahardd coleri sy'n rhoi sioc drydanol i gŵn a chathod. Caiff y Cynulliad gyfle i drafod a phleidleisio ar hyn ddydd Mawrth nesaf.

O dan brosiectau arbennig CAWES, mae'r prosiect ceffylau yng ngogledd Cymru wedi datblygu protocol i ddelio â cheffylau, gyda mudiadau fel Redwings a'r RSPCA yn cyfrannu ato. Yr wyf yn rhagweld y bydd y protocol hwn o help mawr i awdurdodau lleol pan fyddant yn ymchwilio i gwynion ynghylch lles ceffylau. Mae prosiect Mustang yn ne Cymru, ar y cyd â'r holl awdurdodau lleol ar hyd coridor yr M4 ac Ysgol Filfeddygol Bryste, yn ymchwilio i batrymau cadw ceffylau ac yn paratoi adroddiad ar arferion gorau. Mae awdurdod lleol Caerdydd wedi cyflogi warden ceffylau, diolch i arian gan CAWES, i roi cyngor ac i helpu i osgoi erlyniadau.

Wrth gwrs, os nad yw hyrwyddo'n gweithio a lle bo anifeiliaid yn cael cam, yna mae angen erlyn. Yn 2008, cafodd memorandwm cyd-ddealltwriaeth ei lunio rhwng awdurdodau lleol Cymru a Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru—y corff sy'n trefnu mudiadau'r trydydd sector sy'n delio â lles anifeiliaid. Yr oedd y memorandwm yn ymdrin â

and cattle, and we currently have a consultation on game bird welfare. Wales has been commended by many organisations for launching the CAWES programme in that it is having a real impact in the way that animal welfare is being considered, and because collaborative working is at the heart of this process.

At the animal welfare conference last November with the third sector and local authorities, to which I referred earlier, I announced a task and finish dog breeding group to make recommendations in this field. This was primarily because funding given to local authorities in west Wales through CAWES helped to provide the appropriate evidence that changes were needed. The group is on course to provide me with recommendations in June. With it will come recommendations on microchipping as part of possible changes to the breeding of dogs Act. As part of the strategy to improve animal welfare, I have laid legislation on putting a ban in place on the use of electronic collars for cats and dogs. The Assembly will have an opportunity to discuss and vote on this next Tuesday.

Under the CAWES special projects, the equine project in north Wales has developed a protocol for dealing with equines, involving organisations such as Redwings and the RSPCA. I anticipate that this protocol will be of significant benefit to local authorities when investigating welfare complaints in the equine sector. The south Wales Mustang project, in conjunction with all the local authorities along the M4 corridor and the Bristol Veterinary School, is examining patterns related to the keeping of equines, and is putting together a report on best practice. Cardiff local authority also employs a horse warden, courtesy of the CAWES funding, to provide advice and to help prevent prosecutions.

Of course, where promotion fails and there are cases of poor animal welfare, prosecution will be necessary. In 2008, a memorandum of understanding was drawn up between local authorities in Wales and the Animal Welfare Network for Wales—the body responsible for organising third sector organisations that deal with animal welfare. The memorandum dealt

chytundebau mewn nifer o feysydd gan gynnwys rhannu gwybodaeth, cydweithio, sioeau, crynhoi a chludo anifeiliaid, a hyfforddiant. Rhan o hyn oedd cytundeb mai awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am orfodi mesurau lles anifeiliaid fferm, a taw'r RSPCA fyddai'n delio ag anifeiliaid anwes oni bai bod materion sensitif yn codi neu bod cysylltiad â'r sector ffermio yn rhan o'r achos.

Yr wyf yn sylweddoli bod erlyniadau ynghylch ceffylau yn gallu bod yn gostus, fel y dywedodd Brynle, yn enwedig os oes llawer o anifeiliaid o dan sylw a bod angen sylw arbenigol arnynt. Yng Nghymru, gan y byddai erlyniad yn cael ei ddwyn ar y cyd, ni fyddai'r gost mor fawr. Mae awdurdodau lleol wastad wedi bod yn rhydd i adfer eu costau drwy'r llysoedd, ond mae'r llysoedd yn ystyried yr amgylchiadau yn eu cyfanrwydd ym mhob achos unigol, a deallaf fod rhesymau da weithiau pam nad yw hi'n bosibl adfer yr holl gostau bob tro.

Yn olaf, hoffwn ychwanegu nad yw erlyniad o reidrwydd yn fater drud; mae'n gallu bod, ond mae'n dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos. Mater i benderfynwyr lleol yw penderfynu beth maent am ei gyflawni. Ein nod ni yw annog codi safonau lles gyda golwg ar ostwng nifer yr erlyniadau yn y dyfodol. Felly, ers cyflwyno Deddf Lles Anifeiliaid 2007, yr ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y gweithgareddau ac yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru i hyrwyddo lles anifeiliaid—rhywbeth yr wyf yn sicr sy'n bwysig i bawb yn y Cynulliad ar draws y sbectrum gwleidyddol.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's business to a close. Thank you.

with agreements in a number of areas, including the sharing of information, collaboration, shows, the gathering and transportation of animals, and training. As part of this, there was an agreement that local authorities should be responsible for enforcing animal welfare standards on farms, and that the RSPCA would deal with pet animals, unless sensitive issues should arise in this context or that a link with the farming sector formed part of the case.

I recognise that cases involving equines can be very expensive, as Brynle mentioned, especially where a large number of animals is involved and need specialist attention. For Wales, because of the greater collaborative effort in bringing a prosecution, the cost of taking forward these cases are not likely to be as great. It is of course always open to local authorities to seek their costs through the courts, but the courts take all the circumstances into account when considering each case, and I recognise that for good reasons these costs are not always fully recoverable.

Finally, I would add that prosecution does not have to be an expensive process; it can be, but that depends on the severity of the case. It will be a matter for local decision makers to decide on what they wish to achieve. Our aim is to encourage raised standards of welfare with a view to reducing the numbers of prosecutions in the future. Therefore, since the introduction of the Animal Welfare Act in 2007, we have seen a significant increase in activities and legislation to promote animal welfare, which I am sure is important to everyone in the Assembly across the political spectrum.

Y Dirprwy Lywydd: Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.19 p.m.
The meeting ended at 6.19 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)